GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol
Betsi Cadwaladr
University Health Board



Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

2016 / 2017

Mae'r Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn rhan o adroddiadau cyhoeddus blynyddol y Bwrdd Iechyd ac mae'n disgrifio ein darpariaeth gwasanaeth, perfformiad ariannol ac amgylcheddol am y flwyddyn ac yn disgrifio ein trefniadau rheoli a llywodraethu.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, sydd yn cael ei ddarparu fel Atodiad i'r ddogfen hon, yn ffurfio rhan o adran Adroddiad Atebolrwydd yr Adroddiad Blynyddol hwn, ac yn darparu adroddiad manwl ar ein llywodraethu, trefniadau rheoli risg a systemau rheolaeth fewnol.

Mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol, sydd wedi ei gyhoeddi ar wahân, yn rhoi gwybodaeth am ansawdd y gofal ar draws ein gwasanaethau ac yn darlunio'r gwelliannau a'r datblygiadau rydym wedi eu cymryd dros y flwyddyn ddiwethaf er mwyn parhau i wella ansawdd y gofal rydym yn ei ddarparu.

Gallwch lawr lwytho copïau o'r holl ddogfennau hyn oddi ar wefan y Bwrdd Iechyd ar www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/tudalen/40900 neu maent ar gael ar gais i Dîm Cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd yn BIPBC, Bloc 5, Cwrt Carlton, Parc Busnes Llanelwy, Llanelwy, LL17 0JG, ar y ffôn ar 01248 384776 neu drwy e-bost at bcuhbpressdesk@wales.nhs.uk.

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd **4**

RHAN UN - ADRODDIAD PERFFORMIAD

Trosolwg **5**
Datganiad y Prif Weithredwr 5
Ein diben a gweithgareddau 7
Fframwaith cynllunio 8
Prif faterion a risgiau sy'n effeithio ar ddarparu amcanion 9
Dadansoddiad Perfformiad **10**
Crynodeb 10
Aros yn iach 11
Gofal diogel 13
Gofal urddasol 16
Gofal effeithiol 18
Gofal prydlon 20
Gofal unigol 24
Staff ac adnoddau 25
Ein gweithgarwch 27
Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) **28**
Adroddiad Cynaladwyedd **30**
Tueddiadau Gwariant Tymor Hir **41**
Datganiad Ansawdd Blynyddol **41**

RHAN DAU- ADRODDIAD ATEBOLRWYDD

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol **42**
Adroddiad y Cyfarwyddwyr 42
Datganiad ar gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol y Bwrdd Iechyd Lleol ... 45
Datganiad o gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwr o ran y cyfrifon 46
Datganiad Llywodraethu Blynyddol 46
Adroddiad Tâl **47**
Adroddiad Staff **60**
Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru **63**
Tystysgrif yr Archwilydd Cyffredinol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru 64
Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol at Gynulliad Cenedlaethol Cymru 66

RHAN TRI - CYFRIFON BLYNYDDOL
Rhagair **1A**
Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr **2A**
Gwariant Net Cynhwysfawr Eraill **3A**
Datganiad o Safle Ariannol **4A**
Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr **5A**
Datganiad o lifau Arian **7A**
Nodiadau i'r Cyfrifon **8A**

ATODIAD - Datganiad Llywodraethu Blynyddol **1B**

Rhagair y Cadeirydd



Ar ran y Bwrdd, rwyf yn falch o gyflwyno ein Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2016/17.

Rwyf hefyd yn falch o ddweud bod y Bwrdd wedi gwneud cynnydd da mewn nifer o feysydd yn ystod y flwyddyn ac wedi ymateb i'r gwelliannau y mae'n rhaid i ni eu gwneud fel rhan o 'Fesurau Arbennig'.


Fodd bynnag, mae heriau arwyddocaol yn parhau, ac mae angen i ni wneud gwelliannau mewn nifer o feysydd, yn cynnwys rhai meysydd o berfformiad ansawdd/gwasanaethau, ac yn ein sefyllfa ariannol.

Yn ystod y flwyddyn, rydym hefyd wedi parhau gyda'r ymchwiliadau i Tawel Fan.

Parhaodd y Bwrdd i ymgysylltu'n eang ar ein strategaeth ar gyfer Iechyd a Lles pobl Gogledd Cymru dros y blynyddoedd nesaf. Bydd y gwaith hwn yn dwyn ffrwyth eleni a byddwn yn cyhoeddi ein Strategaeth a Chynllun Tair Blynedd cyn diwedd mis Mawrth 2018.

Ymunodd amryw o Gyfarwyddwyr newydd â'r Bwrdd yn 2016 a 2017. Yn ogystal â Gary Doherty a ddechreuodd ar ddiwedd mis Chwefror 2016, ymunodd pum Cyfarwyddwr newydd â'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn: Andy Roach (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu), Gill Harris (Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth), Dr Evan Moore (Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol), Teresa Owen (Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus) ac Adrian Thomas (Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd).

Mae ein Adroddiad Blynyddol hefyd yn gyfle i gydnabod ymrwymiad ac ymroddiad anferth ein staff ac yn fodd i ddiolch iddynt. Mae canlyniadau ein Arolwg Staff yn dangos ein bod wedi gwneud gwelliannau ym mhob maes, ond gwyddom fod gennym lawer i'w wneud eto i wella ymhellach.



Dr Peter Higson OBE
Cadeirydd

Trosolwg

Datganiad y Prif Weithredwr



Fe wnaeth y Bwrdd Iechyd gynnydd da y llynedd, ond mae yna lawer i'w wneud eto.

Rydym wedi gallu dangos cynnydd sylweddol yn erbyn y gofynion yn y Fframwaith Mesurau Arbennig ac wedi cyflwyno tystiolaeth i gefnogi hyn i Lywodraeth Cymru, Arolygiaeth Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae hyn yn cynnwys dangos ein bod ar y trywydd cywir i ddatblygu Cynllun Integredig Tymor Canolig tair blynedd cynhwysfawr erbyn y dyddiad y cytunwyd, sef mis Ebrill 2018. Mae'n hanfodol ein bod yn cynnal y cynnydd hwn, gan fod symud oddi wrth Gynllun Gweithredol blwyddyn yn darparu'r eglurdeb a'r sefydlogrwydd y mae arnom ei angen wrth symud ymlaen.

Fel rhan o ddatblygu ein Cynllun Integredig Tymor Canolig ac fel rhan o'n ymateb i'r gofynion dan Fesurau Arbennig rydym wedi sefydlu ffyrdd mwy effeithiol o weithio gyda'n cyhoedd a'n partneriaid. Yn ystod y flwyddyn, fe gynhaliom neu fe fynychom dros 300 o ddigwyddiadau ymgysylltu ar draws Gogledd Cymru gyda chymunedau lleol, rhanddeiliaid a staff, yn siarad â phobl am ein gwasanaethau ac yn gwrando. Rydym wedi gwneud ymdrech benodol i seilio ein Strategaeth Iechyd Meddwl newydd ar broses ymgysylltu eang.

Dros y deuddeg mis diwethaf mae yna adfywio sylweddol wedi bod o ran tîm arweinyddiaeth y Bwrdd Iechyd. Mae'r penodiadau newydd yn cynnwys Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu, Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth, Cyfarwyddwr Meddygol, Cyfarwyddwr Therapïau a Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus. Cafodd dau Aelod Annibynnol newydd eu penodi ar ddechrau'r flwyddyn.

Yn ystod 2016/17 cynhaliwyd Arolwg Staff y GIG ar draws Cymru. Roedd yn braf gweld bod y canlyniadau ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn dangos gwelliannau sylweddol ar draws pob maes, gan gefnogi'r farn ein bod yn symud i'r cyfeiriad cywir. Ond mae'n rhaid i ni anelu am welliannau pellach gan fod morâl ac ymrwymiad ein gweithlu yn flaenoriaethau allweddol ar eu pennau eu hunain ac fel modd i wella'r gofal yr ydym yn ei roi i gleifion.

Mae hefyd yn bwysig iawn cydnabod, er bod meysydd o heriau penodol, ar draws Gogledd Cymru mae ymroddiad a sgiliau ein staff yn golygu fod degau ar filoedd o gleifion wedi parhau i elwa o ofal a thriniaeth o'r safon uchaf. Meysydd penodol i'w nodi yw:

- ein perfformiad eithriadol mewn profion diagnostig, ble mae yna gynnydd arwyddocaol wedi bod yn nifer y profion a gynhelir (dros 10,000 yn fwy mewn radioleg yn unig) ac ar ddiwedd y flwyddyn dim ond un claf yn unig na chafodd ei weld o fewn y targed wyth wythnos.
- rhai o'r perfformiadau cyflymaf yng Nghymru am ddechrau triniaeth i gleifion â chanser.
- lleihau'r nifer o weithiau y mae'n rhaid i gleifion sy'n byw â chyflyrau iechyd cronig ddod i'r ysbyty diolch i gefnogaeth well gartref.

Yr un mor bwysig i mi yw'r datblygiadau a'r gwelliannau sy'n digwydd ledled Gogledd Cymru diolch i fenter ac ymroddiad timau ac unigolion lleol. Pethau fel gwaith y tîm yn Ysbyty Cymuned Dolgellau i estyn allan i'r gymuned leol a chodi ymwybyddiaeth pobl o ffyrdd i amddiffyn eu hiechyd a'u lles eu hunain, tîm Iechyd Meddwl Cymuned Hafod yn Sir Dinbych sydd y cyntaf yng Nghymru i ennill achrediad Gwasanaethau Iechyd Meddwl Cymuned gan Goleg Brenhinol y Seiciatryddion neu'r podiatregydd yn Ysbyty Alltwen sydd wedi datblygu ei sgiliau a'i phrofiad fel ei bod yn gallu darparu llawer mwy o wasanaethau yn lleol.

Wrth edrych ymlaen, mae'n bwysig i ni wneud cynnydd dros y flwyddyn nesaf i fynd i'r afael ag amserau aros mewn meysydd lle mae cleifion yn aros yn hirach nac y dylent am driniaeth. Boed hyn yn ceisio trefnu apwyntiad gyda Meddyg Teulu, aros i gwblhau triniaeth yn ein Adrannau Achosion Brys neu aros am apwyntiadau clinig a llawdriniaethau, rydym yn gwybod bod angen gwella. Bydd orthopaedeg ac offthalmoleg yn ddau faes allweddol y byddwn yn canolbwyntio ein hymdrechion arnynt.

Mae ein sefyllfa ariannol hefyd yn parhau i fod yn achos pryder. Mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd fantoli eu hincwm gyda gwariant dros gyfnod treigl o dair blynedd; gofyniad nad ydym wedi gallu ei fodloni. Yn 2016/17 bu i ni orwario o £29.8m o bunnoedd. Mae perfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn ein dyletswyddau ariannol wedi bod yn bwnc adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, sy'n gallu cael ei weld ar ddiwedd yr adroddiad hwn (tudalen 66). Mae symud i safle o sefydlogrwydd ariannol a chynaladwyedd yn flaenoriaeth allweddol i'r Bwrdd Iechyd ac mae'n rhaid i ni ymdrin ag ef drwy ein Cynllun Integredig Tymor Canolig.



Gary Doherty
Prif Weithredwr

Ein diben a gweithgareddau

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am wella iechyd a lles ar gyfer poblogaeth o oddeutu 678,000 o bobl ar draws chwe sir Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam). Mae hyn yn cynnwys rhwystro salwch yn ogystal â thrin salwch a darparu gwasanaethau gofal iechyd ardderchog.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cychwynnol, cymuned ac iechyd meddwl yn ogystal ag ysbytai llym. Mae'n gweithredu tri phrif ysbyty (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam) yn ogystal â rhwydwaith o ysbytai cymuned, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl a lleoliadau timau cymuned. Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cydlynu gwaith 109 o bractisau Meddyg Teulu a gwasanaethau'r GIG sy'n cael eu darparu gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr yng Ngogledd Cymru.

Roedd gan y Bwrdd Iechyd incwm refeniw o £1.3 biliwn ar gyfer 2016/17 a gweithlu o oddeutu 16,800 (14,400 o staff sy'n gweithio ar sail gyfwerth ag amser llawn).

Ein Gweledigaeth

- Byddwn yn gwella iechyd y boblogaeth, gyda phwyslais benodol ar y rhai mwyaf bregus yn ein cymdeithas.
- Byddwn yn gwneud hyn drwy ddatblygu gwasanaeth iechyd integredig, sy'n darparu gofal ardderchog wedi'i roi mewn partneriaeth â sefydliadau sector cyhoeddus, a sefydliadau sector statudol a thrydydd sector eraill.
- Byddwn yn datblygu ein gweithlu fel bod ganddo'r sgiliau cywir a'i fod yn gweithredu mewn diwylliant dysg sy'n gyfoethog mewn ymchwil.

Ein Nodau Strategol

- Gwella iechyd a lles i bawb a lleihau anghydraddoldebau iechyd.
- Gweithio mewn partneriaeth i gynllunio mwy o ofal yn agosach i'r cartref a'i ddarparu.
- Gwella diogelwch a chanlyniadau gofal i gyd fynd â'r gorau o'r GIG.
- Parchu unigolion a chynnal urddas mewn gofal.
- Gwrando ar unigolion a dysgu o'u profiadau.
- Cefnogi ein staff, eu hyfforddi a'u datblygu i ragori.
- Defnyddio adnoddau'n ddoeth, gan drawsnewid gwasanaethau drwy arloesedd ac ymchwil.

Mae ein diben, gweledigaeth a nodau strategol yn gosod nodau tymor hir y Bwrdd. Mae gennym waith pellach i'w wneud i drosi'r rhain yn amcanion penodol ar gyfer gwella iechyd y boblogaeth a gwasanaethau iechyd y byddwn yn eu cynnwys yn ein cynlluniau wrth symud ymlaen.

Mae ein Strategaeth Gwella Ansawdd ar gyfer 2014-2017 yn canolbwyntio ar dri phrif faes, gan gynnwys profiad y claf, diogelwch ein gwasanaethau i wella canlyniadau iechyd ac ansawdd y canlyniadau a ddarparwyd drwy ragoriaeth glinigol. Mae'r strategaeth yn adeiladu ar werthoedd penodedig y Bwrdd Iechyd, a ddynodwyd yn ystod proses ymgysylltu drylwyr gan gynnwys cleifion, staff a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae adroddiad o'r gwaith hwn nawr ar waith ac rydym yn ymgysylltu â staff ynghylch ail gyfnod y Strategaeth Gwella Ansawdd ar gyfer y cyfnod 2017-2020.

Yn ogystal â gwella iechyd a chyflawni gwasanaethau clinigol a gofal, mae gan y Bwrdd Iechyd ddyletswydd sector cyhoeddus ehangach i gefnogi polisi cenedlaethol, er enghraifft, o ran materion megis hyrwyddo cydraddoldeb, hawliau dynol, yr amgylchedd, datblygiad cynaliadwy a'r Gymraeg.

I gyflawni ein hamcanion, rydym yn gweithio'n agos gyda sefydliadau partner, megis awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, i drafod anghydraddoldebau iechyd a mynd i'r afael â nhw, hyrwyddo ymgysylltu â'r gymuned a manteisio ar gyfleoedd i gydweithio. Mae'r cyrff yn cynnwys:

- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru;
- Awdurdodau Lleol (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam);
- Cyrff GIG cyfagos yng Nghymru a Lloegr;
- Y Cynghorau Gwirfoddol Cymuned;
- Byrddau Gwasanaeth Partneriaeth / Byrddau Arweinyddiaeth Rhanbarthol.

Cynllunio fframwaith

Yn ôl Fframwaith Cynllunio GIG Cymru mae gofyn i'r Byrddau Iechyd baratoi Cynlluniau Integredig Tymor Canolig tair blynedd (IMTP) a'u cyflwyno i Llywodraeth Cymru.

O ganlyniad i Fesurau Arbennig, mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau na fydd disgwyl i'r Bwrdd gyflwyno Cynllun Integredig Tymor Canolig ar gyfer 2016-19. Yn hytrach, cafodd Cynllun Gweithredu Blynyddol ei gytuno arno ar gyfer 2016/17. Mae'r Cynllun Gweithredu Blynyddol yn canolbwyntio ar elfennau craidd cyflawni gwasanaeth ac yn nodi'r meysydd canlynol ar gyfer gwella gwasanaeth:

- Gwella iechyd a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd
- Datblygu gofal cychwynnol a gwella dulliau rheoli cyflyrau cronig
- Gofal wedi'i gynllunio ymlaen llaw
- Gofal heb ei drefnu
- Ansawdd a diogelwch
- Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
- Gwasanaethau plant
- Gwasanaethau mamolaeth
- Gwrando ac ymgysylltu
- Cynllunio Gwasanaeth a Strategaeth
- Ymateb i bryderon.

Ochr yn ochr â hyn, mae yna gyfnod amser pendant ar gyfer datblygu strategaeth cyffredinol y Bwrdd Iechyd 'Byw'n Iach, Aros yn Iach' ac i sicrhau bod IMTP yn ei le erbyn mis Mawrth 2018. Mae rhaglen ymgysylltu helaeth gydag ystod eang o randdeiliaid wedi'i chynnal i danategu datblygiad y strategaeth a'r IMTP.

Fel rhan o ddatblygiad cyffredinol y cynllun a'r cyfeiriad strategol, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu tair dogfen Fframwaith Strategol (yn ymwneud â Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymuned, Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Bydwreigiaeth, Gwasanaethau'r Newydd-anedig a Phaediatreg) i gwrdd â gofynion Cyfnod 2 o Fesurau Arbennig.

Prif faterion a risgiau sy'n effeithio ar drosglwyddo amcanion

Mae gan y Bwrdd Iechyd broffil risg heriol oherwydd amrywiaeth y gwasanaethau a ddarperir, yn amrywio o wasanaethau cychwynnol a chymuned i wardiau ysbyty llym yn ogystal â gwasanaethau iechyd meddwl ac uned diogelwch canolig. Yn ogystal, mae gan y Bwrdd Iechyd ardal ddaearyddol eang, amrywiaeth ddiwylliannol a darpariaeth sylweddol o wasanaethau sy'n dod o Loegr. Mae'n rhaid iddo hefyd fod â'r gallu i ymdrin â chynnydd yn y galw oherwydd bod Gogledd Cymru yn gyrchfan gwyliau i lawer o bobl.

Yn ystod y flwyddyn, cymeradwyodd y Bwrdd argymhelliad Pwyllgor Archwiliad i symud i ddull integredig Fframwaith Sicrwydd a Risg Corfforaethol a ddaeth â chyn dogfen Fframwaith Sicrwydd Bwrdd a Chofrestr Risg Corfforaethol ynghyd.

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi pennu naw prif risg o ran cyflawni ei nodau corfforaethol:

- Methiant i gynnal ansawdd gwasanaethau cleifion
- Methiant i gynnal cynaladwyedd ariannol
- Methiant i reoli perfformiad gweithredol
- Methiant i gynnal gweithlu cysylltiedig ac effeithiol
- Methiant i ddatblygu cynlluniau strategol cydlynol
- Methiant i sicrhau buddion partneriaethau strategol
- Methiant i ymgysylltu â chleifion ac ailgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach
- Methiant i leihau anghydraddoldeb o ran canlyniadau iechyd
- Methiant i ymgorffori trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu effeithiol.

Yn ychwanegol, yn ystod y flwyddyn nodwyd un risg newydd mewn cysylltiad â Diogelu sydd nawr wedi'i ychwanegu yn y Fframwaith Sicrwydd a Risg Corfforaethol (CRAF). Mae'r Bwrdd hefyd wedi gofyn i'r risg mewn perthynas â pharatoad yr IMTP i gael ei rhannu'n ddwy elfen, yn rhannu datblygiad cyffredinol bwriad strategol a chyfeiriad y Bwrdd Iechyd o gynllunio'r cynllun integredig tair blynedd.

Mae pob maes risg sydd wedi'i nodi ar y CRAF wedi'i gysylltu ag un o'r prif feysydd risg hyn. Mae manylion y rheoliadau cyfredol a'r gweithrediadau pellach sy'n cael eu cymryd ar gyfer pob risg a nodwyd wedi'u manylu o fewn CRAF y Bwrdd Iechyd ac ar gael yn gyhoeddus drwy wefan BIPBC.

Mae pedwar maes risg penodol i Fesurau Arbennig wedi'u manylu yn rhannau 18-20 o'r Datganiad Llywodraeth Blynyddol, sydd wedi'i atodi i'r adroddiad hwn.

Performance Analysis

Crynodeb

Mae ein perfformiad yn cael ei fesur ar draws saith parth neu faes allweddol, sy'n cyd-fynd â Safonau Gofal Iechyd Llywodraeth Cymru a Fframweithiau Cenedlaethol Perfformiad.

Mae'r Dangosfwrdd cryno isod yn dangos ein perfformiad ar draws yr ystod o ddangosyddion mae Llywodraeth Cymru yn eu defnyddio i fesur bob Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Er bod y perfformiad yn erbyn y parth Aros yn Iach wedi aros yn gyson yn gyffredinol, mae ein perfformiad cyffredinol wedi gwella ar draws parthau Gofal Diogel, Gofal Urddasol a Gofal Unigol, ond wedi gwaethygu ar draws parthau Gofal Effeithiol, Gofal Prydlon a Staff ac Adnoddau.

Bob mis rydym yn darparu gwybodaeth fanwl i'n Bwrdd ar ein perfformiad, gan egluro ble'r ydym, beth rydym yn ei wneud ynglŷn â meysydd sydd angen eu gwella, a phryd rydym yn disgwyl bod yn ôl ar ben ffordd.

	Perfformiad Gwell	Perfformiad Cyson	Dirywiad mewn Perfformiad	Crynodeb o'r Targed
AROS YN IACH - Mae gen i ddigon o wybodaeth a chefnogaeth i reoli fy iechyd corfforol a meddyliol fy hun	5 mesur	0 mesur	5 mesur	⇔
GOFAL DIOGEL - Rwyf wedi fy amddiffyn rhag niwed ac yn fy amddiffyn fy hun rhag niwed	7 mesur	0 mesur	2 fesur	↑
GOFAL URDDASOL - Rwyf yn cael fy nhrin â pharch ac urddas ac yn trin eraill yr un fath	2 fesur	0 mesur	1 mesur	↑
GOFAL EFFEITHIOL- Rwyf yn cael y gofal a chefnogaeth iawn mor lleol â phosibl ac rwyf yn cyfrannu at wneud y gofal hwnnw'n llwyddiant	1 mesur	0 mesur	7 mesur	↓
GOFAL PRYDLON - Rwyf yn cael mynediad prydlon at wasanaethau'n seiliedig ar angen clinigol ac yn cael fy nghynnwys mewn penderfyniadau am fy ngofal	9 mesur	0 mesur	12 mesur	↓
GOFAL UNIGOL - Rwyf yn cael fy nhrin fel unigolyn, gyda fy anghenion a chyfrifoldebau fy hun	3 mesur	1 mesur	2 fesur	↑
EIN STAFF AC ADNODDAU - Gallaf ddod o hyd i wybodaeth am sut mae'r GIG yn agored a thryloyw ar y defnydd o adnoddau a gallaf eu defnyddio'n ofalus	10 mesur	0 mesur	1 mesur	↑
CRYNODEB	**37 mesur**	**1 mesur**	**30 mesur**	↑

Rydym yn cynnwys dangosyddion cenedlaethol a lleol yn ein hadrodd i adlewyrchu ein blaenoriaethau lleol ac i wella iechyd, gofal a phrofiad poblogaeth Gogledd Cymru.

Aros yn Iach

Mae'r maes hwn o'n perfformiad yn sicrhau ein bod yn gweithio mewn partneriaeth ag eraill i amddiffyn iechyd a lles unigolion a'i wella ac i leihau anghydraddoldebau iechyd.

Rydym eisiau grymuso ein dinasyddion i gymryd cyfrifoldeb dros eu hiechyd a'u lles eu hunain, ac i sicrhau bod gofalwyr unigolion nad ydynt yn gallu rheoli eu hiechyd a'u lles eu hunain yn cael eu cefnogi.

Mae gennym nifer o dargedau yn y maes hwn i wella iechyd y boblogaeth; o sicrhau bod plant yn cael dechrau iach mewn bywyd i sicrhau bod cleifion sydd wedi cael cyflyrau cronig gydol oes yn cael eu cefnogi'n dda i fyw yn y gymuned.

Ein dangosyddion perfformiad		Cyfnod	Gwerth		Tuedd
Nifer sydd wedi cael y brechlyn cenedlaethol rhag y ffliw:	Dros 65 oed	Maw-17	68.7%		
	Dan 65 oed yn y grwpiau sydd mewn perygl	Maw-17	49.3%		
	Merched beichiog	Maw-17	75.3%		
	Gweithwyr gofal iechyd	Maw-17	49.4%		
Cyfradd derbyniadau brys i'r ysbyty o fewn blwyddyn i 8 cyflwr cronig, fesul 100,000 o'r boblogaeth.		12m treigl Rhag-16	976		
Cyfradd ail-dderbyniadau brys i'r ysbyty o fewn blwyddyn i 8 cyflwr cronig, fesul 100,000 o'r boblogaeth.		12m treigl Rhag-16	215		
% o boblogaeth amcangyfrifedig y BILl sy'n ysmygu a gafodd eu trin gan wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu		Q3 16/17	3.10%		
% o ysmygwyr a gafodd eu trin gan wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu sydd wedi cael eu cyd-ddilysu fel llwyddiannus.		Q3 16/17	29%		
% achosion o feichiogrwydd ble cynhaliwyd yr asesiad cyntaf erbyn 10 wythnos		Maw-17	77%		
% o blant sydd wedi cael eu brechiadau wedi'u trefnu erbyn 4 oed		Q4 16/17	88.6%		

Imiwneiddio

Mae amddiffyn pobl rhag y risg o gael ffliw yn brif elfen mewn helpu'r GIG leihau'r galw am ofal brys dros y gaeaf. Y targed cenedlaethol yw bod 75% o'r grwpiau cymwys (pobl dros 65 oed a rhai dan 65 oed sydd mewn mwy o berygl o gael haint) yn cael eu brechu. Mae nifer y bobl sy'n gymwys i gael eu brechu wedi codi ers y llynedd, ac mae ein gwasanaethau wedi gweithio'n galed i hyrwyddo'r angen am gael eu brechu.

O ganlyniad, erbyn 31 Mawrth 2017, mae dros 6,000 yn fwy o bobl yng Ngogledd Cymru wedi cael eu brechu o'i gymharu â'r llynedd. Roedd gan Ogledd Cymru yr ail gyfradd fwyaf yng Nghymru o ran rhai oedd wedi cael y brechiad, ond ar 68.7% i rai sydd dros 65 a 49.3% i rai dan 65, mae arnom angen parhau ein hymdrechion i annog pobl i'w hamddiffyn eu hunain.

O'i gymharu â'r un pwynt yn yr ymgyrch y llynedd		Cymwys	Wedi'u himiwneiddio	% wedi'u brechu
65 oed +	2015-2016	153,997	103,074	**66.9%**
	2016-2017	158,298	106,432	**67.2%**
6 mis oed i 64 oed	2015-2016	76,986	33,657	**49.3%**
	2016-2017	77,598	36,576	**47.1%**


Derbyniadau i'r ysbyty

Mae timau iechyd sy'n gweithio yn y gymuned mewn gofal cychwynnol ac eilaidd yn cydweithio ar nifer o fentrau a gynlluniwyd i leihau nifer yr adegau y mae cleifion â chyflyrau cronig yn gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty. Rydym yn monitro hyn drwy edrych ar sawl gwaith mae cleifion ag unrhyw un o'r 8 cyflwr cyffredin wedi cael eu derbyn (a adroddir ar gyfradd fesul 100,000 o bobl dros y 12 mis blaenorol).


Mae'r data diweddaraf (ar 31 Rhagfyr 2016) yn dangos bod gan BIPBC y gyfradd isaf o dderbyniadau (976 o bob 100,000 o bobl) yng Nghymru a'r drydedd gyfradd isaf o ail dderbyniadau (215 o bob 100,000), sy'n well na'r perfformiad a gynlluniwyd ar gyfer y flwyddyn.

Rhoi'r gorau i ysmygu

Nod y Bwrdd Iechyd oedd cael 5% o'r boblogaeth sy'n ysmygu i gael gafael ar wasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu yn ystod y flwyddyn. Ar 31 Rhagfyr 2016 (y data diweddaraf sydd ar gael), roedd Gwasanaeth Rhoi'r Gorau i Ysmygu'r Bwrdd Iechyd wedi trin 3.1% o'r boblogaeth sy'n ysmygu, sef y perfformiad gorau yng Nghymru, er nad oedd wedi cyrraedd y targed o 5%.



O'r rhai a gafodd eu trin gan y gwasanaeth, aeth 29% i gael eu dilysu fel rhai oedd wedi rhoi'r gorau i ysmygu. Roedd hyn yn dipyn is na'r targed o 40% ac mae'n amlwg fod arnom angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod cyfran uwch o'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau rhoi'r gorau i ysmygu yn gallu rhoi'r gorau iddi'n llwyddiannus a bydd hyn yn brif faes canolbwyntio ar gyfer 2017/18.



Gofal diogel


Mae'r maes hwn yn mesur diogelwch ein gwasanaeth ac yn cynnwys sut rydym yn lleihau risg a gwneud y mwyaf o ddiogelwch. Mae'n cynnwys meysydd megis atal wlserau pwysedd a niwed i'r meinwe, atal cwympiadau, atal heintiau a'u rheoli, maeth a hydradiad, rheoli meddyginiaethau, diogelu plant ac oedolion sydd mewn risg a chwynion.

Ein dangosyddion perfformiad	Cyfnod	Gwerth		Tuedd
Nifer yr achosion o C Difficile fesul 100,000 o'r boblogaeth	Maw-17	35.6		
Nifer yr achosion o Staphylococcus aureus fesul 100,000 o'r boblogaeth	Maw-17	18.7		
Eitemau Fluoroquinolone fel % o'r holl eitemau gwrthfacterol a ragnodwyd	Q4 16-17	2.08		
Eitemau Cephalosporin fel % o'r holl eitemau gwrthfacterol a ragnowyd	Q4 16-17	3.93		
Eitemau Co-amoxiclav fel % o'r holl eitemau gwrthfacterol a ragnodwyd	Q4 16-17	2.57		
Swm dyddiol cyfartalog o NSAID fesul 1,000 STAR-Plus	Q4 16/17	1,524		
% meddygfeydd >= targed cenedlaethol ar gyfer cyflwyno cardiau melyn sy'n monitro diogelwch meddyginiaethau	16 /17	16.2%		
Nifer y Rhybuddion Datrysiadau Diogelwch Cleifion Cymru na chafodd sicrwydd yn yr amserlenni y cytunwyd arnynt	Maw-17	33%		
Nifer yr Hysbysiadau Datrysiadau Diogelwch Cleifion Cymru na chafodd sicrwydd yn yr amserlenni y cytunwyd arnynt	Maw-17	6%		
Nifer y Digwyddiadau Difrifol sydd i fod i gael sicrwydd cyn pen y mis, a'r % a gafodd sicrwydd yn yr amserlenni y cytunwyd arnynt.	Maw-17	68.1%		
Nifer y Digwyddiadau na Ddylent Byth Ddigwydd.	Maw-17	1		

Atal haint

Rydym yn parhau i weithio'n galed i leihau nifer yr heintiau'n gysylltiedig â gofal iechyd sy'n effeithio ar ein cleifion ac rydym yn parhau i weld y duedd yn gostwng yn niferoedd yr haint ar gyfer *Staphylococcus aureus* (*Staphylococcus aureus* sy'n gwrthsefyll Meticillin a *Staphylococcus aureus* sy'n sensitif i Meticillin) a *Clostridium difficile*.


Mae nifer y bobl ledled Gogledd Cymru â haint *Clostridium difficile* wedi lleihau 25% o 355 yn 2015/16 i 268 yn 2016/17.



Mae lleihau'r haint hwn yn parhau'n flaenoriaeth i ni. Yn 2016-17, cwblhaodd BIPBC astudiaeth ymchwil ar haint *Clostridium difficile*. Cadarnhaodd hyn bod tua 75% yn gysylltiedig yn uniongyrchol â defnydd o wrthfiotigau, ac rydym yn cynyddu ein hymdrechion i sicrhau bod gwrthfiotigau'n cael eu defnyddio dim ond pan fo angen mewn ysbytai a gan feddygon teulu.

Ar gyfer haint llif gwaed *Staphylococcus aureus*, llwyddom i leihau ychydig ar nifer y bobl a gafodd eu heintio o 168 yn y flwyddyn flaenorol i 165, ac o'r rhain roedd gan 31 o bobl Staphylococcus aureus sy'n gwrthsefyll Meticillin (MRSA). Mae rhaglen Cymru Haint yn Gysylltiedig â Gofal Iechyd wedi dangos bod gan BIPBC yr ail gyfradd isaf o ran yr heintiau hyn ar gyfer y cyfnod targed cenedlaethol, 22% yn well na chyfradd Cymru gyfan.

Cyfradd yr achosion S. Aureus Bacteraemia (MRSA & MSSA) fesul 100,000 o'r boblogaeth




Er mwyn cyflawni lleihad sylweddol yn nifer y bobl sy'n cael yr heintiau hyn yn 2017-18, rydym yn canolbwyntio ar wella gofal dyfeisiadau meddygol, yn enwedig y rhai sy'n torri'r croen fel caniwla mewnwythiennol (trwythau) a chathetr wrinol a gwella ein harferion sgrinio MRSA.

Rhagnodi gwrthficrobaidd

Gan fod microbau'n gwrthsefyll mwy a mwy ar driniaethau gwrthficrobaidd, rydym yn ceisio lleihau nifer y presgripsiynau ar gyfer tri chyffur gwrthficrobaidd: Quinolone, Co-amoxiclav a Cephalosporin.

Disgwylir i berfformiad barhau i wella. Ar 31 Mawrth 2017 roedd y gyfradd rhagnodi Quinolone ar 2.3%; er ei fod ychydig yn uwch na 'r trothwy targed o 2.1%, dyma oedd y gyfradd isaf yng Nghymru.


Eitemau Quinolone fel canran o'r holl eitemau gwrthfacterol




Mae'r gwaith yn parhau i ehangu'r tîm fferyllfa gwrthficrobaidd yn barhaol. Bydd hyn yn eu galluogi i fod yn fwy gweladwy mewn meddygfeydd, cynnal ymchwiliadau wedi'u targedu i ddeall y ffactorau sy'n llywio patrymau rhagnodi a dynodi ble gall cyfraddau rhagnodi gael eu lleihau'n briodol.

Mae cynlluniau ar y gweill hefyd i gynnal digwyddiadau i fynd i'r afael â disgwyliadau'r cyhoedd o ragnodi ac ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i wella addysg i'r cyhoedd a staff gofal iechyd.

Eitemau Co-amoxiclav fel canran o'r holl eitemau gwrthfacterol



Eitemau Cephalosporin fel canran o'r holl eitemau gwrthfacterol




Digwyddiadau difrifol i'w hadrodd i Lywodraeth Cymru

Pan fydd digwyddiadau niweidiol difrifol yn digwydd, mae'n bwysig eu bod yn cael eu hymchwilio'n drylwyr, ein bod yn dysgu o'r hyn sydd wedi digwydd ac yn rhoi mesurau ar waith i'w hatal rhag digwydd eto a gwella diogelwch cleifion.

Mae gofyn i ni roi gwybod i Lywodraeth Cymru am ddigwyddiadau difrifol a dangos, o fewn amserlen y cytunwyd arni ein bod wedi cymryd mesurau priodol i leihau'r risgiau y bydd digwyddiadau tebyg yn digwydd eto.

Mae hwn yn faes lle nad yw'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb mor gyflym ag y dylai. Fodd bynnag, dros y flwyddyn ddiwethaf, er gwaethaf gostyngiad mewn perfformiad dros yr haf, mae pwyslais parhaus wedi bod ar y gwaith hwn, sydd wedi arwain at welliant arwyddocaol yn ystod y flwyddyn.

O'r digwyddiadau difrifol i'w sicrhau o fewn y mis, y canran a sicrhawyd yn yr amserlen y cytunwyd



Digwyddiadau na ddylent byth ddigwydd

Mae digwyddiadau na ddylent byth ddigwydd yn ddigwyddiadau niweidiol difrifol y dylai ein systemau a phrosesau sicrhau nad ydynt byth yn gallu digwydd ac rydym wedi ymrwymo i gyflawni hyn. Cafodd un digwyddiad o'r fath ei gofnodi yn ystod y flwyddyn, ym mis Mehefin 2016, o'i gymharu â chwech yn 2015/16.

Mae'r holl ddigwyddiadau na ddylent byth ddigwydd yn cael eu hadrodd yn uniongyrchol i'n Gweithredwyr Clinigol cyn gynted â phosibl yn dilyn y digwyddiad, ac yn cael eu hymchwilio'n llawn gan y Bwrdd Iechyd. Mae'r ymchwiliad yn cael ei gadeirio gan Gyfarwyddwr a'i gynnal gan yr Uwch Reolwyr Ymchwilio gyda chefnogaeth gan Uned Ddarparu Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn sicrhau bod ymchwiliadau cadarn yn cael eu cynnal, bod yr holl wersi perthnasol yn cael eu dysgu a'u rhannu ar draws y sefydliad a bod bob cam angenrheidiol yn cael eu cymryd i atal y digwyddiad rhag digwydd eto.

Gofal Urddasol


Ein nod yw sicrhau bod pawb yn cael profiad o ofal iechyd lle caiff pawb ei drin gyda pharch, urddas, trugaredd a charedigrwydd ac sy'n cydnabod anghenion corfforol, seicolegol, cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac ysbrydol ac yn mynd i'r afael â nhw

Ein dangosyddion perfformiad	Cyfnod	Gwerth		Tuedd
% o gleifion lle roedd eu triniaeth wedi'i gohirio fwy nag unwaith ac a gafodd eu triniaeth o fewn 14 diwrnod neu bryd bynnag oedd fwyaf cyfleus i'r claf	Maw-17	25%		
% o bobl â dementia, >=65 oed, sy'n cael diagnosis	2015/16	49%		
% o dimau meddygfeydd sydd wedi cwblhau Gwasanaethau Uniongyrchol Gwell o ran iechyd meddwl mewn gofal dementia neu hyfforddiant uniongyrchol arall	2015/16	56.3%		

Derbyn cleifion i'r ysbyty ond heb roi triniaeth

Rydym yn gwneud pob ymdrech i beidio â chanslo llawdriniaeth cleifion ar ôl iddynt gael eu derbyn i'r ysbyty, a'n nod yw sicrhau nad yw hyn byth yn digwydd am resymau anghlinigol.


Rhwng Mehefin 2015 a Mehefin 2016, cafodd rhyw 5% o lawdriniaethau eu gohirio ar ôl i gleifion ddod i mewn i'r ysbyty. Fodd bynnag ers hynny, rydym wedi sicrhau lleihad parhaus ac erbyn Rhagfyr 2016 (gyda'r data diweddaraf sydd ar gael), roedd y gyfradd wedi lleihau i 2.0%. Byddwn yn ymdrechu i barhau â'r gyfradd wella hon ac i gyflawni ein nod erbyn diwedd haf 2017.



Cyfanswm apwyntiadau cleifion mewnol sydd wedi'u canslo (rhesymau clinigol ac anghlinigol)

Mae lleihau nifer y llawdriniaethau sydd wedi'u canslo ar ôl i gleifion gael eu derbyn i'r ysbyty wedi helpu hefyd i gwtogi ar ein cyfraddau canslo cyffredinol.

Ar wahân i ymchwydd ym mis Mehefin 2016, mae'r duedd gyffredinol yn ystod 2016/17 wedi dangos gostyngiad, gan ddangos gwelliant sylweddol o ran perfformiad yn erbyn y mesur hwn. Ar gyfer Chwefror 2017 (y data diweddaraf sydd ar gael), rydym yn dal i fod uwchben y gyfradd darged o 5% sef 9.1%, ond bydd cyfarfodydd cynllunio ac adolygu wythnosol yn sicrhau y bydd perfformiad yn parhau i gael ei wella'n barhaus ac y caiff y gyfradd darged o 5% ei chyflawni yn 2017/18.



Gofalu am bobl â dementia

Un o'r heriau mwyaf y mae'r GIG yn ei hwynebu yw rhoi'r gofal cywir i'r nifer cynyddol o bobl sy'n byw gyda dementia pan fydd angen iddynt ddefnyddio gwasanaethau iechyd.

Mae Ymgyrch John, sy'n caniatáu i ofalwyr a theuluoedd barhau i gynorthwyo eu perthynas o ran eu harferion dyddiol tra byddant yn yr ysbyty, mewn ymdrech i leihau lefelau gofid yn cael ei chyflwyno ar draws Gogledd Cymru.

Bellach mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu deg safon i wneud bywyd yn haws i gleifion a'u teuluoedd tra byddant yn yr ysbyty ac Ysbyty Alltwen yw'r un cyntaf i dderbyn yr her sydd ynghlwm wrth ddod yn gwbl gefnogol o ran dementia. Yn ogystal â rhoi Ymgyrch John ar waith, mae hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff wedi'i gynnig, mae'r Cynllun Pili Pala sy'n helpu staff i adnabod cleifion â dementia wedi'i gyflwyno, mae arwyddion a chynlluniau lliw newydd wedi'u cyflwyno er mwyn helpu cleifion i ganfod eu ffordd o amgylch y ward ac mae cysylltiadau wedi'u creu â Chyfeillion Dementia.

Gofal effeithiol

Mae'r dangosyddion hyn yn dangos sut mae ein gofal, ein triniaeth a'n penderfyniadau'n adlewyrchu arfer gorau wedi'i seilio ar dystiolaeth. Maent hefyd yn adlewyrchu sut mae ein gwasanaethau'n cymryd rhan mewn gweithgareddau i wella'n barhaus trwy ddatblygu a gweithredu ffyrdd arloesol o roi gofal. Mae hyn yn cynnwys cefnogi ymchwil a sicrhau ei fod yn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau.

Rydym yn asesu effeithiolrwydd ein gofal gan ddefnyddio nifer o fesurau gan gynnwys dangosyddion cenedlaethol, yn ogystal â dangosyddion mwy lleol. Yn yr adran hon o'r adroddiad, rydym yn delio â marwoldeb, ymchwil a manwl-gywirdeb y wybodaeth a ddefnyddiwn er mwyn gwneud penderfyniadau. Yn ogystal, rydym hefyd yn adrodd ar nifer y cleifion nad ydynt wedi gallu symud ymlaen o'r ysbyty unwaith y byddant yn glinigol iach i wneud hynny, sy'n ddangosydd o ba mor effeithiol y mae'r system iechyd a gofal cyffredinol yn gweithio.

Ein dangosyddion perfformiad	Cyfnod	Gwerth		Tuedd
Cyfradd oedi o ran trosglwyddo gofal nad yw'n ymwneud ag iechyd meddwl fesul 10,000 o boblogaeth yr Awdurdod Lleol (75 oed a hŷn)	12m treigl Maw-17	207.5		
Cyfradd oedi o ran trosglwyddo gofal iechyd meddwl fesul 10,000 o boblogaeth yr Awdurdod Lleol (pob oedran).	12m treigl Maw-17	2.9		
% Cyfradd marwoldeb syml (< 75 oed)	12m treigl Maw-17	1.78%		
% o achosion â chodau clinigol o fewn un mis i'r dyddiad gorffen ar ôl yr achos	Maw-17	38.2%		
Nifer Astudiaethau Portffolio Ymchwil Clinigol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru	16/17	98		
Nifer yr astudaethau sydd wedi'u noddi ar lefel fasnachol	16/17	6		
Nifer y cleifion a gafodd eu recriwtio i Astudiaethau Portffolio Ymchwil Clinigol Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru	16/17	1540		
Nifer y cleifion a gafodd eu recriwtio i astudiaethau sydd wedi'u noddi ar lefel fasnachol	16/17	553		

Oedi wrth drosglwyddo gofal

Mae oedi wrth drosglwyddo gofal yn parhau i fod yn broblem sylweddol i'r Bwrdd Iechyd gan ei fod yn cyfrannu at y pwysau cyffredinol ar ein hysbytai llym. Bu'r gyfradd oedi wrth drosglwyddo gofal ychydig yn uwch ar ddiwedd eleni o gymharu â'r llynedd, yn achos cleifion yn ein gwasanaethau iechyd meddwl a gwasanaethau nad ydynt yn ymwneud ag iechyd meddwl.

Fel rhan o'n gwaith i fynd i'r afael â hyn, cafodd gweithdy pum niwrnod ei gynnal ddiwedd 2016, yn cynnwys cyfarwyddwyr ac uwch gydweithwyr o adrannau'r Bwrdd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar draws Gogledd Cymru ac yn arwain yn y pen draw at gynnwys yr awdurdod lleol a Phrif Weithredwyr BIPBC. Gwnaethant gynnal adolygiad manwl o'r systemau presennol i roi gofal mewn cartrefi gofal, cartrefi preswyl a gofal yn y cartref i bobl sy'n gadael yr ysbyty gan gytuno ar sut byddai eu sefydliadau'n cydweithio i fynd i'r afael â phroblemau a ddaeth i'r amlwg trwy'r gwaith hwn.











Marwoldeb

Mae'r ffigur Marwoldeb Syml wedi'i seilio ar nifer y marwolaethau mewn cyfnod penodol wedi'u rhannu rhwng cyfanswm poblogaeth gyfartalog y cyfnod hwnnw. Ar gyfer y flwyddyn yn 2015, gwnaethom adrodd ar gyfradd o 1.82%, ond yn achos 2016, rydym wedi gweld ychydig o leihad (h.y. gwelliant) sef 1.79%.

Mae'r tîm yn Swyddfa'r Cyfarwyddwr Meddygol yn ystyried y ffordd rydym yn adolygu gofal cleifion sy'n marw, ac maent yn gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i gyflwyno system electronig i gyflwyno'r gwaith hwn.

Gofal prydlon

Ein nod yw sicrhau bod pob agwedd ar ofal yn cael ei rhoi'n brydlon gan sicrhau bod pobl yn derbyn triniaeth a gofal yn y ffordd gywir, ar yr adeg gywir, yn y lle cywir a chyda'r staff cywir. Wrth i'r galw am wasanaethau gynyddu, rydym yn wynebu heriau gwirioneddol o ran cynnal lefelau mynediad uchel i'n cleifion.

Ein dangosyddion perfformiad		Cyfnod	Gwerth		Tuedd
% y practisau meddygon teulu sy'n cynnig apwyntiadau rhwng 17:00 a 18:30 bum niwrnod yr wythnos.		C4 16/17	75.2%		
% y practisau meddygon teulu yn ystod oriau dyddiol craidd o fewn awr i'r oriau dyddiol craidd.		C4 16/17	89.0%		
O'r practisau hynny a gafodd eu sefydlu i ddefnyddio Fy Iechyd Ar-lein, % sy'n cynnig y cyfleuster i gadw apwyntiadau.		C4 16/17	34%		
O'r practisau hynny a gafodd eu sefydlu i ddefnyddio Fy Iechyd Ar-lein, % sy'n cynnig presgripsiynau amlroddadwy.		C4 16/17	89%		
Cleifion sy'n cael eu trin gan ddeintydd y GIG yn ystod y 24 mis diwethaf fel canran o'r boblogaeth		24m diwethaf Maw-17	49.8%		
% y cleifion sy'n aros llai na 26 wythnos i gael triniaeth (RTT).		Maw-17	87.2%		
Nifer y methiannau 36 wythnos RTT. (Yr holl drigolion)		Maw-17	4113		
% y cleifion sy'n aros mwy nag wyth wythnos i gael diagnosteg benodol.		Maw-17	1		
Nifer yr apwyntiadau dilynol lle bu oedi ar ôl eu dyddiad targed (wedi'u cadw a heb eu cadw) (Ailddechreuodd adrodd ym mis Ebrill 2017)		Ebr-17	69,537		
% o gydymffurfiaeth â mesurau gwella ansawdd strôc	Derbyn uniongyrchol i'r Uned Strôc Lem (<4 awr)	Maw-17	43.9%		
	Sgan CT (<12 awr)	Maw-17	90.24%		
	Wedi'i asesu gan Feddygon Ymgynghorol Strôc (< 24 awr)	Maw-17	87.8%		
	Thrombolysis drws i nodwydd <= 45 munud	Maw-17	42.9%		
% y cleifion newydd nad ydynt yn treulio mwy na phedair awr yn yr Adran Achosion Brys.		Maw-17	77.54%		
% yr ymatebion galwadau coch i ambiwlansys o fewn wyth munud.		Maw-17	74.9%		
Nifer y cleifion sy'n treulio 12 awr neu fwy yn yr Adran Achosion Brys.		Maw-17	1161		
Nifer y trosglwyddiadau sy'n cymryd dros awr.		Maw-17	856		
% y cleifion a gyfeiriwyd fel canser tybiedig nad yw'n frys ac a gafodd eu gweld o fewn 31 diwrnod.		Maw-17	98.6%		
% y cleifion a gyfeiriwyd fel canser tybiedig brys ac a gafodd eu gweld o fewn 62 diwrnod.		Maw-17	92.6%		
% yr asesiadau gan LPMHSS a gafodd eu cynnal o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad cyfeirio		Maw-17	82.34%		
% yr ymyriadau therapiwtig a ddechreuwyd o fewn 28 diwrnod yn dilyn asesu gan LPMHSS		Maw-17	77.32%		

Cyfeirio at Driniaeth

Mae Cyfeirio at Driniaeth (RTT) yn mesur cyfanswm yr amser y bydd claf yn aros ar ôl cael ei gyfeirio gan ei feddyg teulu nes dechrau ar ei driniaeth weithredol yn yr ysbyty. Mae hyn yn cynnwys treulio amser yn aros am apwyntiadau cleifion allanol, profion diagnostig, sganiau, gwasanaethau therapi neu dderbyniadau o ran cleifion mewnol neu achosion dydd. Y ddau darged i Gymru yw bod 95% o gleifion yn cael eu trin o fewn 26 wythnos ac na fydd cleifion yn aros dim mwy na 36 wythnos.

Ni allem gyrraedd y targedau hyn yn ystod y flwyddyn: ddiwedd Mawrth 2017, roedd 87.2% o gleifion yn aros llai na 26 wythnos.


Wrth i ni weithio i wella'r perfformiad hwn, gwnaethom gytuno ar darged interim gyda Llywodraeth Cymru y byddem yn lleihau nifer y cleifion sy'n aros mwy na 36 wythnos i 4,600 erbyn diwedd Mawrth 2017. O ganlyniad i gryn fuddsoddi ac ymrwymiad enfawr gan ein timau clinigol a rheoli, gwnaethom ragori ar y targed o bron 500 o gleifion ac ar ddiwedd y flwyddyn, bu 4,113 o gleifion yn aros mwy na 36 wythnos.

Diagnosteg

Mae'r targed o ran triniaeth ddiagnostig yn cwmpasu amrywiaeth o driniaethau diagnostig gan gynnwys pelydr-x a sganiau, endosgopi, profion ffisiolegol ac asesiadau niwrolegol. Y targed yw na ddylai'r un claf aros mwy nag wyth wythnos cyn cael y profion a'r sganiau hyn.

Ar ddiwedd chwarter 4, gwnaeth ein perfformiad yn erbyn y targed gyrraedd 99.99%, sy'n cynrychioli un claf yn unig yn aros dros wyth wythnos ym mis Mawrth 2017.

Trwy gydol y flwyddyn, mae'r tîm wedi gweithio'n galed i sicrhau cyllid ychwanegol ac i gynnig sesiynau clinig ychwanegol lle bo angen. Er gwaethaf heriau gweithredol sylweddol, mae'r gwasanaeth wedi lleihau ei restr aros yn sylweddol. Mae'r gwasanaeth yn recriwtio i swydd barhaol arall er mwyn cynnig capasiti ychwanegol gan ganiatáu mwy o hyblygrwydd o ran gwneud trefniadau i gleifion.



Adran Achosion Brys

Gwyddom fod hwn yn faes lle mae angen i ni ddod o hyd i ffyrdd o wella ein perfformiad. Caiff ein sefyllfa gyferbyn â'r amser aros safonol o bedair awr ei monitro bob dydd trwy adrodd wrth y Prif Swyddog Gweithredu fel bod modd i ni reoli a gwella ein perfformiad mewn ffordd ragweithiol. Mae cyfran y cleifion sy'n treulio llai na phedair awr yn ein hadran achosion brys wedi gwella o 73% ym mis Mawrth 2016 i 77% ar ddiwedd Mawrth 2017. Mae nifer y cleifion sy'n treulio mwy na deuddeg awr yn ein hadrannau achosion brys wedi lleihau dros y flwyddyn ddiwethaf hefyd.


Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi gwella llif cleifion yn y categori mân anafiadau yn Ysbyty Gwynedd, sy'n cael eu rheoli gan Ymarferwyr Nyrsio Brys. Rydym yn gweithio i gynyddu defnydd o'r Unedau Mân Anafiadau, gan gleifion sy'n dod i'r ysbyty drostynt eu hunain a'r rhai sy'n cael eu cludo gan Wasanaeth Ambiwlans Cymru. Eleni, ni oedd ail sefydliad y GIG yn y DU i ddarparu data byw ar gyfer cleifion ar amseroedd aros ym mhob un o'n hadrannau brys ac unedau mân anafiadau, trwy ap ffôn clyfar, gan helpu pobl i wneud dewis doeth ynghylch i ble y dylent fynd am eu gofal.


Mae gennym grŵp strategol sy'n astudio'r rhesymau pam rydym yn gweld cynnydd yn nifer y bobl â salwch difrifol sy'n dod i'n Hadrannau Brys a pha gamau y gallwn eu cymryd i fynd i'r afael â'r duedd hon, er enghraifft trwy newid y gofal a'r cymorth sydd ar gael i bobl yn y gymuned. Mae "dilynwyr hynt" wedi'u cyflwyno yn Ysbyty Gwynedd ac Ysbyty Glan Clwyd. Maent wedi bod yn gweithio i ganfod y rhwystrau sy'n arafu'r ffordd y mae cleifion yn mynd trwy'r system ysbyty ac i gyflwyno newidiadau er mwyn goresgyn yr hyn sy'n peri oedi. Os bydd y rhain yn llwyddiannus, caiff ymagwedd debyg ei hystyried yn Ysbyty Maelor Wrecsam.

Ar ddechrau 2017, dechreuodd gwaith ar welliannau i'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Maelor Wrecsam, yn cynnwys pedair ystafell ymgynghori newydd ac ystafell frysbennu fwy o faint. Mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo cyllid o £14 miliwn hefyd i ailddatblygu'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Gwynedd. Bydd yr adran newydd yn cynnig amgylchedd sydd gryn dipyn yn fwy ac yn well ar gyfer gofal brys a bydd yn cynorthwyo newidiadau i'r ffordd y caiff gofal heb ei drefnu ei roi i gleifion yng ngogledd-orllewin Cymru.

Rhoi diagnosis a thrin canser


Yn 2016/17, dechreuodd 99.3% o gleifion na chawsant eu cyfeirio fel canser tybiedig brys, ond a gafodd ddiagnosis canser yn ddiweddarach, ar eu triniaeth weithredol o fewn 31 diwrnod o gael diagnosis, gan ragori ar darged Cymru o 98% ac sy'n golygu mai ni yw'r Bwrdd Iechyd sy'n perfformio orau yng Nghymru o ran y mesur hwn. Ni wnaethom gyflawni'r targed o 95% ar gyfer cleifion a gyfeiriwyd gyda chanser tybiedig brys a oedd yn dechrau ar driniaeth o fewn 62 diwrnod o gael eu cyfeirio, ond gyda chanran o 87.8%, ni oedd y trydydd perfformiwr gorau yng Nghymru.





Mae cyfarfodydd dwysáu'n dal i gael eu cynnal bob wythnos a phob pythefnos ar bob safle gyda phob tîm arbenigol er mwyn lleihau oedi. Mae rheolwyr yn derbyn nodyn briffio wythnosol ar ganser yn amlinellu'r perfformiad presennol a'r perfformiad rhagamcanedig er mwyn uchafu cyfleoedd i wella perfformiad mewn modd rhagweithiol.

Gofal strôc



Yn ystod y ddeuddeg mis yn arwain at Fawrth 2017, gwnaethom gyrraedd y targed ar ganran y cleifion strôc sydd wedi'u hasesu gan feddyg ymgynghorol strôc o fewn 24 awr a chanran y cleifion strôc sydd wedi derbyn asesiad llyncu ffurfiol o fewn 72 awr. Fodd bynnag, ar ddiwedd Mawrth 2017, roeddem islaw'r lefelau perfformiad targed ar gyfer pob un o'r pedwar mesur yn ymwneud â gofal strôc.

Mae pob un o'n tri safle ysbyty llym yn gweithio ar ddewisiadau i roi gwelyau wedi'u clustnodi ar waith er mwyn sicrhau eu bod ar gael yn gyflym i gleifion sydd wedi cael strôc. Rydym yn gweithio gyda Choleg Brenhinol y Meddygon (RCP) i ymchwilio i'r gwahaniaethau o ran perfformiad sy'n digwydd ar draws y tri safle a materion yn ymwneud â thrombolysis er mwyn i ni ganfod ffyrdd o wella'r llwybr gofal cyffredinol. Yn ogystal, rydym yn defnyddio adroddiad RCP ar Wasanaethau Strôc Hyperacíwt i ystyried y ffordd orau o wella'r rhain i gleifion yng ngogledd Cymru. Mae'r adborth cychwynnol wedi dangos bod angen i ni sicrhau bod ein gwaith gwella'n cynnwys gofal ar ôl y cyfnod llym a threfniadau llywodraethu clinigol priodol.

Asesiadau iechyd meddwl

Y targed cenedlaethol yw i gynifer o gleifion â phosibl dderbyn asesiad gan ein gwasanaethau cymorth iechyd meddwl ym maes gofal cychwynnol lleol o fewn 28 diwrnod o gael eu cyfeirio. Yn lleol, rydym yn anelu at gyflawni hyn o leiaf yn achos 80% o bobl. Ar ddiwedd Rhagfyr, roeddem yn cyflawni cyfradd o 82.9%, ond rhwng Rhagfyr 2016 a Mawrth 2017, roedd problemau staffio'n effeithio ar ein perfformiad yn arwain at gyfradd gyffredinol o 78.1%.

Cafodd y targed hwn ei gyflwyno fel rhan o Fesur Iechyd Meddwl (Cymru) yn ystod 2012 ac mae staff yn ein gwasanaethau iechyd meddwl wedi cael hyfforddiant llawn ar y gofyniad hwn. Cynhaliwyd gweithdai gwella pellach yn ystod Chwefror 2017 er mwyn ein helpu i werthuso'r prosesau rydym wedi'u cyflwyno mewn ymateb i'r Mesur ac i'w safoni.

Gofal unigol

Rydym am i'n gwasanaethu gael eu llunio gan y bobl a wasanaethwn ac i ddiwallu eu hanghenion er mwyn dangos ein bod yn dysgu o adborth ac yn gweithredu arno.

Mae'n hynod bwysig ein bod yn rhoi cymorth priodol i'r rhai sydd fwyaf agored i niwed neu i'r rhai a allai ei chael yn anos manteisio ar wasanaethau.

Ein dangosyddion perfformiad	Cyfnod	Gwerth		Tuedd
Cyfradd galwadau trigolion Cymru i linell gymorth iechyd meddwl C.A.L.L fesul 100,00 o boblogaeth y Bwrdd Iechyd	C4 16/17	192.1		
Cyfradd galwadau trigolion Cymru i linell gymorth Dementia fesul 100,00 o boblogaeth y Bwrdd Iechyd (dros 40 oed)	C4 16/17	7.5		
Cyfradd galwadau trigolion Cymru i linell gymorth DAN 24/7 fesul 100,00 o boblogaeth y Bwrdd Iechyd	C4 16/17	43.9		
% o drigolion y BILl sy'n derbyn gwasanaethau iechyd meddwl eilaidd (o bob oedran) i gael Cynllun Triniaeth Gofal (CTP) dilys wedi'i gwblhau ddiwedd pob mis.	Maw-17	92.2%		
% o drigolion y BILl a gafodd eu hasesu o dan y Mesur Iechyd Meddwl yr anfonwyd eu hadroddiad asesu canlyniadau atynt o fewn 10 niwrnod gwaith ar ôl eu hasesiad.	Maw-17	92.9%		
% yr ysbytai gyda threfniadau ar waith i sicrhau bod eiriolaeth ar gael i'r holl gleifion cymwys.	2016 /17	100%		

Cynlluniau Triniaeth Gofal (CTP)

Er mwyn gwella cyd-drefniant gofal rhwng Byrddau Iechyd ac Awdurdodau Lleol i bobl y mae angen gwasanaethau iechyd meddwl arnynt, mae'r Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun gofal a thriniaeth gael ei lunio ar gyfer pob unigolyn. Ein nod yw sicrhau bod 90% o ddefnyddwyr y gwasanaeth Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn derbyn Cynllun Triniaeth Gofal (CTP) cyflawn ar ddiwedd pob mis.

O ran Mawrth 2017, roedd perfformiad ar gyfer y dangosydd hwn ar 92.9%, a ddangosodd gynnydd sylweddol o gymharu â'r sefyllfa ddeuddeg mis gynt pan oedd cynlluniau cyflawn ar waith yn achos 85.9% o ddefnyddwyr gwasanaethau ar draws yr amrywiaeth o wasanaethau iechyd meddwl a ddarparwn. Mae clinigau wedi'u cynnal dros benwythnosau yn Ynys Môn er mwyn sicrhau bod Cynlluniau Triniaeth Gofal dilys ar waith ar gyfer yr holl ddefnyddwyr gwasanaeth.

Staff ac adnoddau

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod digon o staff ar gael sydd â'r wybodaeth a'r sgiliau cywir ar yr adeg gywir er mwyn diwallu anghenion ein cleifion. Mae ein mesurau perfformiad hefyd yn sicrhau bod ein staff yn cael arfarniad blynyddol a chynllun datblygu personol; eu bod wedi'u recriwtio a'u hyfforddi'n briodol a'u bod yn gymwysedig ac yn gymwys i wneud eu gwaith.

Mae ein dangosyddion perfformiad lleol eraill yn y maes hwn yn mesur ein cynhyrchiant yn y theatr, effeithlonrwydd cleifion allanol yn ogystal â'n dulliau rheoli ariannol o ran staff asiantaethau a locwm.

Ein dangosyddion perfformiad		Cyfnod	Gwerth		Tuedd
Cyfraddau DNA Cleifion Allanol newydd ar gyfer arbenigeddau dewisol.		Maw-17	5.6%		
Cyfraddau DNA apwyntiadau dilynol ar gyfer arbenigeddau dewisol.		Maw-17	6.4%		
% y corticosteroidau mewnanadledig a ragnodwyd mewn gofal cychwynnol sydd â chryfder isel		C4 16/17	64.9%		
Nifer y triniaethau nad ydynt yn cydymffurfio ag arweiniad 'Do Not Do' NICE ar gyfer triniaethau ag effeithiolrwydd cyfyngedig: **SYLWER**: Mae codio'n anghyflawn o Ionawr 2017	CTG	Ionawr 17	6		
	Offthalmoleg	Ionawr 17	5		
	Orthopaedeg	Ionawr 17	2		
	Wroleg	Ionawr 17	1		
% y staff a oedd yn teimlo ar ôl eu harfarniad/adolygiad bod eu cyflogwr yn gwerthfawrogi eu gwaith		2016	51%		
Sgôr gyffredinol ymgysylltu â staff		2016	3.51		
% absenoldeb staff oherwydd salwch		12m treigl Maw-17	4.81%		
% y staff a fyddai'n fodlon ar ofal wedi'i roi gan eu sefydliad pe bai angen triniaeth ar eu ffrind / perthynas		2016	61%		

Cleifion nad ydynt yn mynychu eu hapwyntiadau (DNAs)

Rydym wedi sefydlu targed mewnol i leihau nifer y cleifion nad ydynt yn mynychu eu hapwyntiadau cleifion allanol er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r amser clinig sydd ar gael. I gefnogi hyn, rydym yn defnyddio gwasanaeth atgoffa trwy neges destun ac mae ein llythyrau cleifion yn pwysleisio'r angen i gleifion gysylltu â ni os na fyddant yn gallu dod i apwyntiad a wnaed a bod angen iddynt aildrefnu. Er hyn, mae nifer y cleifion nad ydynt yn cadw eu hapwyntiadau'n parhau i fod yn uwch na'r lefel darged.

Nid ydym yn trefnu apwyntiadau newydd fel mater o drefn i gleifion na fyddant yn mynychu ac nad ydynt wedi cysylltu â ni er mwyn newid eu hapwyntiad. Yn hytrach, caiff eu hachos eu dychwelyd at y gweithiwr iechyd proffesiynol a wnaeth y cyfeiriad (fel arfer eu meddyg teulu), ac eithrio lle bydd ein staff clinigol yn barnu y bydd hyn yn peri oedi a fyddai'n andwyol i ofal cleifion. Mae egwyddor 'DNA a Rhyddhau' yn sicrhau y byddwn ond yn aildrefnu apwyntiadau cleifion nad ydynt wedi mynychu unwaith y cawn gadarnhad bod dal angen apwyntiad arnynt fel ein bod yn defnyddio ein capasiti i'r eithaf ar gyfer cleifion eraill. Mae dadansoddi wedi dangos bod angen gwaith pellach ar draws ein safleoedd er mwyn sicrhau bod yr ymagwedd hon yn cael ei chymhwyso'n gyson.

Yn ystod y flwyddyn, rydym hefyd wedi bod yn peilota ffyrdd newydd o gynnal ein system trefnu apwyntiadau a chaiff y canlyniadau eu gwerthuso ac os byddant yn llwyddiannus, cânt eu cyflwyno ar draws y Bwrdd Iechyd.

Ein cynhyrchiant

Rydym wedi bod yn gweithio i wella cynhyrchiant ein theatrau llawdriniaeth a'n clinigau cleifion allanol yn ystod y flwyddyn. Yn ein theatrau llawdriniaeth, rydym wedi gweithio gyda'n partneriaid Alturos, i roi systemau trefnu apwyntiadau diwygiedig ar waith ac i leihau gwastraff a bydd pob theatr yn gweithredu'n unol â model Alturos ar gyfer 2017/18. Ymgymerir â Rhaglen Trawsnewid ar gyfer Cleifion Allanol yn ystod 2017.

Ein staff

Rydym wedi cynnal y lleihad o ran cyfraddau absenoldeb salwch staff a gyflawnwyd dros y blynyddoedd diwethaf. Nod ein polisïau absenoldeb salwch yw sicrhau bod absenoldeb staff yn cael ei reoli mewn ffordd ragweithiol a chaiff cymorth ei roi trwy ein tîm CARE er mwyn helpu cydweithwyr i ddychwelyd i'r gwaith. Dangosodd Arolwg Staff GIG Cymru a gynhaliwyd yn hydref 2016 welliannau yn BIPBC yn erbyn bron pob dangosydd.

Ein gweithgarwch

Caiff tua 90% o weithgarwch y GIG ei gyflawni gan bractisau meddygon teulu, fferyllfeydd cymunedol, deintyddfeydd ac optegwyr lleol.

Gyda'r adnoddau a gawn gan Lywodraeth Cymru, gwnaethom gwblhau dros filiwn o asesiadau, profion neu driniaethau ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru yn yr ysbytai a gynhelir yn uniongyrchol gan y Bwrdd Iechyd, fel y'i nodir yn y tabl i'r ochr. Yn ogystal â'r gweithgarwch hwn, mae'r Bwrdd Iechyd yn comisiynu gwasanaethau a ddarperir mewn mannau eraill yng Nghymru ac yn GIG Lloegr ar gyfer poblogaeth Gogledd Cymru.

Math o Glaf	Gweithgaredd		
	Gwirioneddol 2015/16	Dan gontract 2016/17	Gwirioneddol 2016/17
Achosion Dydd Dewisol	26,242	33,287	**32,914**
Cleifion Mewnol Dewisol	19,882	18,048	**18,524**
Endosgopïau	21,495	21,495	**19,774**
Mân Driniaethau Cleifion Allanol (Achosion Dydd wedi'u symleiddio)	2,009	2,009	**1,939**
Cleifion Dydd Rheolaidd	47,890	47,890	**46,050**
Apwyntiadau Cleifion Allanol Newydd	204,448	200,894	***185,595****
Apwyntiadau Adolygu Cleifion Allanol	447,829	380,743	***397,897****
Derbyniadau i Adrannau Achosion Newydd	213,999	213,999	**215,985**
Ymweliadau Adolygu ag Adrannau Achosion Brys	12,254	12,254	**8,287**

***Cafeat:**
Noder, o ganlyniad i roi dull newydd System Gweinyddu Cleifion Cymru ar waith, ar adeg adrodd, roedd data ar gyfer ardal Ganol y Bwrdd Iechyd ar gael ar gyfer y cyfnod Ebrill 2016 hyd at Hydref 2016 yn unig ac mae gwaith i adfer data manwl-gywir yn parhau.
Mae ffigurau ar gyfer y Gorllewin a'r Dwyrain ar gyfer y flwyddyn lawn, o Ebrill 2016 hyd at Fawrth 2017.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Gosod amcanion llesiant ar gyfer y Bwrdd Iechyd

Yn ystod y flwyddyn, parhaodd y Bwrdd i ddatblygu ei ymateb i ofynion y Ddeddf, a'i hysbryd, ac ym mis Mai, derbyniodd bapur yn disgrifio goblygiadau'r Ddeddf. Fe ysgogodd hyn drafodaeth am yr egwyddor datblygiad cynaladwy a fframweithiau llywodraethu da.

Ers mis Gorffennaf, mae'r Bwrdd wedi bod yn datblygu ei strategaeth ar gyfer iechyd, lles a gofal iechyd y dyfodol yng Ngogledd Cymru: **Byw'n Iach, Aros yn Iach**. Mae'r strategaeth wedi'i gosod yng nghyd-destun y Ddeddf, a'r angen i ail-ganolbwyntio ar ddarparu gwell canlyniadau a gwella lles, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r ddau gyfnod cyntaf wedi'u cwblhau, gan gynnwys staff, partneriaid, rhanddeiliaid a'r boblogaeth yn helaeth. Bydd y cyfnod nesaf yn adeiladu ar hyn i ddatblygu'r strategaeth, a dechrau disgrifio'r senarios ar gyfer meysydd penodol.

Yn flaenorol, mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu saith amcan strategol, wedi'u hadeiladu ar adborth a gafwyd gan y cyhoedd a sefydliadau sy'n bartneriaid, yn ystod ein hymarfer gwrando estynedig a ddechreuodd yn 2015. Mae'r rhain wedi cael eu cefnogi fel fframwaith i arwain ein gweithredoedd y dyfodol gan ein Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd a Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid, ac maent yn cael eu defnyddio fel ein hamcanion dros dro ar gyfer gwella lles yn 2017/18 wrth i ni barhau i weithio drwy ein proses datblygu strategaeth.

Rydym yn ymgysylltu â nifer o unigolion a grwpiau i helpu i lywio ein hamcanion a'n strategaeth ar gyfer y dyfodol, ac fel rhan o'r gwaith hwn byddwn yn adolygu ein hamcanion strategol i sicrhau eu bod yn cyfrannu at fodloni'r saith amcan Lles a amlinellir yn y Ddeddf.

Rydym wedi asesu ein hamcanion strategol presennol fel eu bod yn cyd-fynd ag amcanion Llesiant y Ddeddf fel a ganlyn:

		Amcanion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol						
		Llewyrchus	**Gwydn**	**Iachach**	**Mwy cyfartal**	**Cydlynol**	**Diwylliant**	**Byd-eang**
Ein hamcanion strategol	Gwella iechyd a lles i bawb a lleihau anghydraddoldebau iechyd							
	Gweithio mewn partneriaeth i gynllunio mwy o ofal yn nes at gartrefi a'i ddarparu							
	Gwella diogelwch a chanlyniadau gofal i gyd-fynd â'r gorau o'r GIG							
	Parchu unigolion a chynnal urddas mewn gofal							
	Gwrando ar unigolion a dysgu o'u profiadau							
	Defnyddio adnoddau'n ddoeth, trawsnewid gwasanaethau drwy arloesedd ac ymchwil							
	Cefnogi ein staff, eu hyfforddi a'u datblygu i ragori							

Rydym hefyd wedi symud tuag at ddefnyddio'r Fframwaith Canlyniadau Iechyd Cyhoeddus i ddisgrifio statws iechyd a lles poblogaeth Gogledd Cymru. Mae nifer o'r dangosyddion a ddefnyddiwyd o fewn y Fframwaith yn cyd-fynd â'r dangosyddion cenedlaethol a gynhwysir o fewn dangosyddion canlyniad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

CANLYNIADAU	EIN CYFRANIAD
Canlyniadau Cyffredinol • Blynyddoedd o fywyd a blynyddoedd o iechyd • Lles meddyliol • Cyfle teg ar gyfer iechyd	Mae'r canlyniadau lefel uwch, tymor hirach hyn yn disgrifio newidiadau yn statws iechyd poblogaeth cyffredinol dros amser, ac maent yn arbennig o bwysig ar gyfer asesu cynnydd i leihau anghydraddoldebau.
Mae tair set o Ganlyniadau Canolraddol yn dilyn, sy'n dangos newidiadau cyffredinol mewn ymddygiad, arfer ac amgylcheddau.	
Amodau byw sy'n cefnogi ac yn cyfrannu at iechyd yn awr ac yn y dyfodol • Plant yn cael y cyfle gorau ar gyfer dechrau iach • Bod gan deuluoedd ac unigolion adnoddau i fyw bywydau llawn, iach • Cymunedau gwydn, wedi'u grymuso • Amgylchedd naturiol ac adeiledig sy'n cefnogi iechyd a lles	Er bod cyrff sector cyhoeddus a llywodraeth eraill yn chwarae rôl arweiniol i gyflawni'r canlyniadau hyn, mae gan y Bwrdd Iechyd ran ddylanwadol i'w chwarae fel partner allweddol i'r sefydliadau ac fel cyflogwr mawr ac fel un sy'n cyfrannu at economi ehangach Gogledd Cymru. Mae hyn yn rhoi llais pwerus i ni i hyrwyddo ar gyfer gwelliannau mewn amodau byw a chyfleoedd sylweddol i wneud newidiadau drwy ein polisïau a'n gwerthoedd ein hunain. Mae addysg, sgiliau a hyfforddiant yn arbennig o bwysig yma, a'r graddau y mae'r ffordd rydym yn cynllunio ein gwasanaethau a'u darparu yn galluogi unigolion a chymuned leol a'u grymuso.
Ffordd o fyw sy'n gwella iechyd • Gweithredoedd iach • Dechrau iach	Mae'r miloedd lawer o staff rydym yn eu cyflogi, a'r contractwyr rydym yn datblygu a gweithredu gwasanaethau gofal cychwynnol gyda nhw yn rhoi'r posibilrwydd i ni gyrraedd poblogaeth Gogledd Cymru i ddylanwadu ar unigolion, eu cynghori a'u cefnogi i fabwysiadu'r ffordd o fyw a gweithredoedd iach y mae tystiolaeth wedi dangos i fod yn fanteisiol. Mae gennym rôl hanfodol wrth ddylanwadu ar bartneriaid a'u cefnogi, o'r lleoliadau gofal iechyd cynharaf drwy'r holl system addysg, i sicrhau bod agweddau hanfodol sy'n effeithio ar iechyd a lles y dyfodol yn cael eu darparu. Mae gennym ddyletswydd hefyd i gefnogi ein staff ein hunain i gynyddu'r gweithredoedd iach y maent yn eu mabwysiadu, ac i ddefnyddio ein dylanwad a'n hesiampl gyda chyflogwyr eraill ar draws Gogledd Cymru.
Iechyd drwy gydol bywyd • Iechyd yn ystod y blynyddoedd cynnar a phlentyndod • Iechyd da yn ystod oed gweithio • Heneiddio'n iach • Lleihau salwch y gellir ei osgoi	Mae ein Strategaeth yn cydnabod yn glir bwysigrwydd addasu ein cynllunio a'n darpariaeth ar gyfer anghenion gwahanol unigolion ym mhob cyfnod o fywyd. Fel cynlluniwr, darparwr a chomisiynwr gwasanaeth, gallwn flaenoriaethau a hyrwyddo'n weledol symudmewn pwyslais tuag at atal ac ymyrraeth gynnar ym mhob cyfnod.

Adroddiad Cynaladwyedd

Mae'r gofyniad i gynhyrchu'r ffigurau a geir yn yr adroddiad hwn yn gynharach oherwydd amserlen adrodd ddiwygiedig wedi bod yn ddyrys oherwydd oedi cyn derbyn anfonebau ac ati gan gyflenwyr. Yn ogystal, mae hyn wedi'i gymhlethu gan absenoldeb aelodau allweddol o staff sy'n gyfrifol fel arfer am elfennau ar goladu'r ffigurau adrodd amgylcheddol. Y disgwyl yw y bydd y wybodaeth derfynol wedi'i dilysu ar gael erbyn 1 Medi 2017 ac y caiff ei chyhoeddi wedi hynny.

Y Bwrdd Iechyd yw'r Bwrdd Iechyd Lleol mwyaf yng Nghymru, sy'n gwasanaethu bron i draean ehangdir y wlad. Mae ein maint a natur y gwasanaethau rydym yn eu darparu yn golygu bod gennym effaith amgylcheddol y mae'n rhaid ei reoli'n ofalus i osgoi canlyniadau ariannol ac amgylcheddol sylweddol. Fel rhan o'n hymrwymiad corfforaethol tuag at leihau'r effeithiau hyn, rydym yn cynnal System Reoli Amgylcheddol (EMS) ffurfiol, a gynllunnir i gyflawni'r egwyddorion allweddol canlynol:

- Datblygiad cynaladwy.
- Cydymffurfio â gofynion cyfreithiol perthnasol a rhai'r llywodraeth.
- Atal llygredd.
- Lliniaru effaith newid yn yr hinsawdd.
- Diwylliant o welliant parhaus.

Mae rheolaeth amgylcheddol effeithiol yn cael ei gyflawni drwy:

- Hyrwyddo'r polisi amgylcheddol i'r holl randdeiliaid perthnasol.
- Dynodi'r holl agweddau amgylcheddol sylweddol a gofynion cyfreithiol cysylltiedig, yn cynnwys y rhai sy'n digwydd o ganlyniad i newid mewn gwasanaethau a deddfwriaeth newydd.
- Sefydlu amcanion a thargedau a'u monitro gyda'r nod o leihau effeithiau amgylcheddol ac ariannol, yn unol â'r rhai a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Darparu hyfforddiant priodol i'r holl bersonél perthnasol.
- Archwiliadau allanol a mewnol rheolaidd.
- Adolygu effeithiolrwydd y System Reoli Amgylcheddol yn rheolaidd gan y Grŵp Llywio Amgylcheddol.
- Gweithio â phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gyflawni dull sector cyhoeddus cyson at reolaeth amgylcheddol a sicrhau bod gweithdrefnau arfer gorau yn cael eu dynodi a'u rhoi ar waith.

Mae ein perfformiad yn cael ei fesur gan ddefnyddio amrywiol offer a drwy gyfrwng ein rhan gyda nifer o gyrff partneriaeth:

- BS EN ISO 14001 System Reoli Amgylcheddol.
- Adrodd Blynyddol Ymroddiad Lleihau Carbon.
- System Fonitro Perfformiad Ynni a Chyfleusterau Blynyddol.
- Strategaeth Garbon Isel y GIG yng Nghymru.
- Adolygiad Rheoli Ymddiriedolaeth Garbon
- Grŵp Lleihau ac Addasu Carbon Sir y Fflint (CRAG)
- Bwrdd Gwasanaeth Lleol Gwynedd. (LSB)
- Gwasanaethau Cyfleusterau - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru.
- Systemau monitro deunydd gwasanaethau mewnol, amser real.

Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod rheolaeth amgylcheddol effeithiol yn cael ei wneud at safonau arferion gorau presennol a bod gwelliannau parhaus yn cael eu mewngorffori i ddiwylliant y sefydliad.

Y targed presennol Perfformiad Lleihau Carbon Corfforaethol yw 3% o leihad blynyddol mewn allyriadau CO_2 fel sy'n ofynnol gan Gynllun Darparu Strategaeth Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru ar gyfer Lleihau Allyriadau.

Systemau Rheoli Amgylcheddol (EMS)

Mae'r system reoli amgylcheddol ISO 14001 yn ddull systematig ac sy'n cael ei yrru gan broses i reoli'r agweddau hynny o sefydliad sy'n cael effaith, neu a all gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd. Profir bod y system yn gwneud sefydliadau yn fwy ymwybodol o'u cyfrifoldebau amgylcheddol yn cynnwys cyfrifoldebau cyfreithiol a rheoleiddio, ac yn galluogi i risgiau cysylltiedig gael eu rheoli'n effeithlon.

Rydym wedi cyflawni targed cam terfynol Cyfarwyddyd Llywodraeth Cymru ar gyfer bob Ysbyty Cyffredinol Dosbarth, Ysbytai Cymuned a Chlinigau i gael ein hardystio i BS EN ISO14001:2004 System Reoli Amgylcheddol erbyn Rhagfyr 2014, ac mae hyn yn awr yn amodol ar asesiad ac archwiliad rheolaidd gan Sefydliad Safonau Prydain.

Mae'r safon wedi cael ei diwygio ers hynny, ac rydym yn awr yn gweithio i weithredu'r fersiwn ISO 14001:2015 newydd, gyda'r bwriad o gyflawni ardystiad i'r safon newydd erbyn mis Ebrill 2018. Mae'r newidiadau yn y safon newydd yn cael eu crynhoi isod:

- **Arweinyddiaeth:** Mwy o atebolrwydd, gydag uwch reolwyr yn fwy o ran ym mhroses gwneud penderfyniadau'r Bwrdd Iechyd o ran yr amgylchedd. Bydd disgwyl i reolwyr ar draws bob disgyblaeth ddeall y broses/gofynion ISO14001 a bydd hyn yn amodol ar archwiliad.

- **Dull Cylch Bywyd:** Gofyniad i ystyried effeithiau amgylcheddol drwy weithgareddau'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys caffael, gwastraff, a rheoli contractwyr.

- **Ailystyried effeithiau:** Cael y Bwrdd Iechyd i feddwl am yr effaith amgylcheddol ar ein hunain yn hytrach na'r effaith rydym yn ei gael ar yr amgylchedd drwy ystyried sut mae newidiadau amgylcheddol tymor hir yn effeithio ar ein gweithgareddau, cynnyrch a'n gwasanaethau.

- **Risgiau a Chyfleoedd:** Mae gofyniad penodol i ddangos sut mae cyfleoedd a risgiau amgylcheddol sylweddol yn cael eu rheoli o fewn y gadwyn gyflenwi. Bydd angen i'r sefydliad ddangos ei fod wedi gwneud y cyswllt rhwng materion sy'n cael eu llywio gan yr amgylchedd, a sut maent yn cysylltu â'r busnes, a sut mae'r rhyngwynebau gyda'r busnes yn cael ei reoli.

- **Adrodd rhagweithiol:** Byddwn angen ystyried yn rhagweithiol yr angen i adrodd yn allanol ar faterion amgylcheddol a dangos llawer mwy o reolaeth ar sut rydym yn defnyddio data amgylcheddol a'i reoli.

- **Cydymffurfiad wedi'i gryfhau:** Mwy o ofynion nid yn unig i ddadansoddi cydymffurfiad, ond i nodi'n union sut mae cydymffurfiad yn cael ei ddadansoddi a'i gofnodi.

Mae rhaglen Amcanion Amgylcheddol tair blynedd wedi cael ei chynhyrchu a'i chymeradwyo gan y grŵp Adolygu Rheolwyr. Mae'n cynnwys y targedau canlynol:

- Lleihau gwastraff sy'n gysylltiedig â gweithgareddau a dylanwadu ar gadwyn gyflenwi i leihau gwastraff i dirlenwi.
- Gweithredu a chaffael adnoddau naturiol mewn modd sy'n gyfrifol yn amgylcheddol
- Cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol a moesegol - i ddefnyddio cynnyrch sydd wedi'u hardystio eu bod wedi'u cynhyrchu'n foesegol.
- Lleihau allyriadau CO2 drwy ddiweddaru boileri, rheolaethau a ffabrigau adeiladu.
- Codi Ymwybyddiaeth o Ynni
- Gwahardd cael gwared ar fwyd yn y garthffos erbyn diwedd 2017
- Codi ymwybyddiaeth o wybodaeth a phynciau amgylcheddol a gwastraff
- Dynodi maes bioamrywiaeth a'i greu
- Cyflwyno didoli gwastraff Gypswm ar gyfer ei losgi
- Cadw ffibrau asbestos yn yr awyr ar lefelau diogel
- Monitro allyriadau CO2 sy'n ymwneud â chludiant
- Lleihau'r risg o lygredd olew drwy uwchraddio tanciau a byndiau drwy reolaethau a gweithdrefnau lleol
- Amddiffyn staff a chleifion rhag Radon, gan gynnal lefelau sy'n is na 400Bq/m2 ar gyfer gweithleoedd a 200Bq/m2 mewn preswylfeydd staff
- Cael gwared ar y risg o deneuo'r osôn a nwyon tŷ gwydr niweidiol eraill
- Rheolaeth Diogelwch Dŵr- Lleihau'r risg o erosolau wedi'u llygru

Rheoli Ynni a Charbon

Datblygwyd Cynllun Gweithredu Carbon ar ffurf safonol Llywodraeth Cymru. Mae'r rhan fwyaf o eitemau yn y cynllun hwn yn ddibynnol ar ddyrannu adnoddau o Ddatblygiad Cyfalaf Mawr a'r Rhaglen Cyfalaf Dewisol Blynyddol.

Mae'r tîm Ystadau a Chyfleusterau wedi bod yn gweithredu gweithdrefn adrodd chwarterol lle mae cost egni a data defnydd yn cael ei anfon at y Bwrdd Gweithredol i graffu arno.

Cafodd data mewnbwn adroddiad Cynaladwyedd ei archwilio ym mis Gorffennaf 2016, ac arweiniodd at ddangosydd perfformiad "Sicrwydd Sylweddol".

Datblygwyd Gweithdrefn Gweithredu Safonol a'i gweithredu i reoli'r Ymroddiad Lleihau Carbon, a chynhaliwyd yr archwiliad mewnol diweddaraf ym mis Gorffennaf 2016, a arweiniodd at ddangosydd perfformiad "Sicrwydd Sylweddol". Cafodd Adroddiad Blynyddol 2016/17 ei gwblhau a'i gyflwyno yn unol â phrotocolau'r CRC.

Mae strategaeth cyn-archebu lwfansau CRC am bris rhatach wedi galluogi cyflawni arbedion o £54,000 ar gyfer y defnydd CO2 a ragwelir yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17. Mae'r strategaeth hon wedi parhau ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 i gynnal y lleihad hwn mewn costau.

Mae trefniadau partneriaethau a rhannu gwybodaeth â chyrff cyhoeddus eraill hefyd yn cael eu dilyn fel rhan o ddatblygiad parhaus strategaeth lleihau carbon y Bwrdd Iechyd. Mae'r trefniadau hyn yn cynnwys gweithio gyda Fforwm Amgylcheddol Iechyd Cymru, Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd a Môn a Grŵp Lleihau ac Addasu Carbon Sir y Fflint.

Prosiectau mawr rheoli ynni a dŵr a gynhaliwyd yn ystod 2016/17

- Mae gwaith adnewyddu Ysbyty Glan Clwyd wedi parhau. Er bod gwelliannau technoleg ynni wedi'u mewngorffori yn y cynllun, efallai y bydd arbedion carbon cyffredinol wedi'u gosod yn erbyn y cyfleusterau sydd wedi'u huwchraddio gan yr ôl troed ardal cynyddol a gosod nwyddau trydanol newydd sydd eu hangen ar gyfer triniaethau clinigol a chysur cleifion. Roedd y meysydd a agorwyd eleni yn cynnwys y Brif Fynedfa, Clinig Torasgwrn, Adran Cleifion Allanol Orthopaedig, Adran Cleifion Allanol Pen a Gwddf, Lolfa Ryddhau, a thair ward cleifion mewnol.

- Bu cais 'Buddsoddi i Arbed' am oleuadau LED o £225,000 yn llwyddiannus ar gyfer 2016/17, ac mae dros ugain o brosiectau wedi cael eu cwblhau mewn ysbytai cymuned a llym. Mae'r gwelliannau ansawdd goleuo wedi cael ei werthfawrogi gan staff a chleifion, ac amcangyfrifir y bydd arbedion carbon disgwyliedig yn 200 tunnell CO2 y flwyddyn, gyda chyfnod ad-dalu ariannol o 4-5 mlynedd. Mae cynnig ychwanegol am £225,000 wedi cael ei gyflwyno ar gyfer y flwyddyn nesaf er mwyn i'r fenter hon barhau.

- Mae rhesymoliadau a gwelliannau i Asedau Ystadau Corfforaethol wedi parhau. Cafwyd gwared ar bum Canolfan Iechyd o a oedd yn aneffeithlon o ran ynni yn ystod 2016/17, gyda staff a gwasanaethau yn symud i adeiladu gofal cychwynnol mwy modern.

- Mae gweithrediadau rheolaeth brysbennu a gweithrediadau Llawfeddygaeth Tymor Byr wrth Gefn wedi parhau yn Ysbyty Gwynedd, gan wneud defnydd llawn o'r cyfleuster generadur wrth gefn 3 MW. Mae hyn yn darparu elw ariannol, a geir drwy atal taliadau galwadau prysuraf y gaeaf a thaliadau ar gyfer cynhyrchu kWh pan elwir arnynt gan y gweithredwr rhwydwaith. Gellir cyflawni oddeutu £50,000 o incwm net y flwyddyn gan y cyfleuster hwn, ac mae gweithdrefn lawn reolaidd yn fanteisiol i'r gosodiad i brofi ei hydwythedd a'i ddibynadwyedd yn rheolaidd.

- Mae prif unedau Gwres a Phŵer ar y Cyd 335kWe yn Ysbyty Glan Clwyd wedi cael eu hadnewyddu'n sylweddol, a chawsant eu hailgomisiynu ym mis Tachwedd 2016. Dylai gwelliannau pellach i'r dyluniad system gwrthodiad gwres alluogi i allbwn posibl llawn gael ei ryddhau o fis Mawrth 2017.

Gwelliannau i gyfleusterau cleifion / staff

Yn 2016/17 gwelwyd cynnydd mawr yn yr arian cyfalaf ar gael i'r Bwrdd Iechyd a buddsoddwyd dros £64m yn ein safleoedd yn ystod y flwyddyn. Roedd cyflawniadau sylweddol yn cynnwys:

- Cynnydd pellach sylweddol gydag ailddatblygiad parhaus Ysbyty Glan Clwyd. Yn ystod y flwyddyn, agorwyd y brif fynedfa wedi'i hailfodelu, y clinig torasgwrn newydd, adran cleifion allanol orthopaedig, adran cleifion allanol pen a gwddf, y lolfa ryddhau newydd, a thair ward cleifion mewnol ychwanegol;

- Amnewid y Labordy Cathetr Cardiaidd yn Ysbyty Glan Clwyd

- Gosod pedwerydd Cyflymydd Unionlin yng Nghanolfan Trin Canser Gogledd Cymru

- Cwblhau datblygiad Ysbyty Tywyn, gyda ward newydd, llety ar gyfer Meddygfa'r dref, a'r hen ward wedi'i hailddatblygu i ddarparu gwasanaethau therapi a chlinigau cleifion allanol;

- Dechrau gwaith ar y Canolfannau Iechyd newydd ym Mlaenau Ffestiniog, y Fflint a Phrestatyn;

- Dechrau adeiladu Canolfan Isranbarthol Gofal Dwys i'r Newydd-anedig Gogledd Cymru yn Ysbyty Glan Clwyd;

- Cwblhau gwaith uwchraddio'r llety ar gyfer y Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau yn y Rhyl;

- Gwerth dros £4 miliwn o welliannau i'r adeiladau a ddefnyddir gan ein Gwasanaethau Iechyd Meddwl ar draws Gogledd Cymru;

- Wedi dechrau gwaith ar ddiweddariadau ac ehangu'r Adran Achosion Brys yn Ysbyty Maelor Wrecsam;

- Cyflwyno system TG gweinyddu cleifion newydd yn Ysbyty Glan Clwyd

- Buddsoddi yn y System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru WCCIS ac yn system ffôn a system wybodaeth Adran Achosion Brys.

- Rydym hefyd wedi darparu £14 miliwn ychwanegol mewn ystod o ystadau brys, dyfeisiadau meddygol a blaenoriaethau gwybodeg.

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (GHG)

Mesurir allyriadau GHG drwy gasglu data deunydd corfforaethol a throsglwyddo'r data hwn yn gyfwerthoedd carbon deuocsid (CO_2e) drwy ddefnyddio ffactorau trosglwyddo swyddogol yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Mae'r Cynllun Lleihau Carbon CRC yn rhoi'r ffigyrau trosi swyddogol yn flynyddol, ac maent wedi cael eu defnyddio i gyfrifo allyriadau ynni corfforaethol.

Mae ansawdd y data gan ddarparwyr gwasanaeth wedi gwella, ond mae'r cymariaethau blynyddol a adlewyrchir yn y ffigyrau data Crynodeb Perfformiad wedi cael eu cyfaddawdu oherwydd y wybodaeth cost a threuliant o ansawdd gwael a ddarperir gan Ddarparwyr Gwasanaeth rhwng 2014 a 2016. Mae ansawdd data ar gyfer 2016-2017 ac wrth symud ymlaen yn awr o safon dderbyniol.

Gwastraff

Gwastraff yw un o agweddau amgylcheddol mawr y Bwrdd Iechyd; rydym wedi parhau i wella ein perfformiad gwastraff ac ailgylchu i fodloni gofynion deddfwriaethol ac arfer gorau. Mae amcanion amgylcheddol newydd sy'n ymwneud â gwastraff wedi eu gosod a'u cymeradwyo gan y grŵp Adolygu Rheoli Amgylcheddol, yn cynnwys:

- Gwahardd cael gwared ar wastraff bwyd yn y carthffos. Bydd swyddogion amgylcheddol yn cysylltu ag adran cyfleusterau i gynyddu ailgylchu ac adfer deunyddiau gwastraff bwyd.
- Cynyddu hyfforddiant ymwybyddiaeth amgylcheddol a gwastraff.
- Cyflwyno didoli gwastraff gypswm ar gyfer ei losgi yn unol ag arweiniad arfer gorau. Bydd swyddogion amgylcheddol yn cysylltu â'r cydlynydd gwastraff clinigol i fodloni'r amcan hwn.

Mae'r cyfradd ailgylchu ar gyfer bob un o safleoedd y Bwrdd Iechyd wedi aros ar oddeutu 80%. Dechreuodd safle Ysbyty Maelor Wrecsam fwndelu cardbord ac maent wedi cael gwared ar y rhan fwyaf o gardbord yn llwyddiannus o'r cywasgwr gwastraff cyffredinol, mae hwn yn adlewyrchu'r arfer sydd eisoes yn ei le yn yr ysbytai cyffredinol dosbarth eraill. Mae'r holl gardbord a fwndelwyd yn cynhyrchu incwm, ac mae arbedion yn cael eu gwireddu drwy leihau faint o wastraff sy'n mynd i mewn i'r cywasgwr gwastraff cyffredinol.

Dechreuodd Contract newydd Gwastraff Clinigol Cymru Gyfan ar gyfer casglu, trosglwyddo a chael gwared ar Wastraff Clinigol ar 1 Ebrill 2017. Mae'r contractwyr yn darparu hyfforddiant i staff allweddol ac maent yn cydlynu darparu biniau gwastraff clinigol newydd i bob safle a effeithir gan y trosglwyddiad i'r contract newydd.

Bydd BIPBC yn elwa o hwn, gan fod y contractiwr wedi datblygu defnydd sy'n ymarferol yn fasnachol ar gyfer ffloc, sef y cynnyrch terfynol o'r broses trin gwastraff clinigol. Mae'r ffloc yn cael ei ddefnyddio fel ffynhonnell tanwydd ac mae'n cael ei gludo i Norwy/Sweden lle mae'n cael ei ddefyddio fel ychwanegyn i rwymo sment. Golyga hyn y bydd ein gwastraff clinigol amgen sydd wedi'i drin â gwres yn gallu cael ei ailgylchu 100%, a bydd yn arwain at welliannau pellach i'n targedau ailddefnyddio/ailgylchu gwastraff.

Defnyddio Adnoddau

Rydym yn ymroddedig i leihau ein defnydd o adnoddau naturiol. Mae ein perfformiad o leihau allyriadau CO2 o ran deunyddiau, CO2 a ymgorfforir mewn caffael a chludiant yn cael ei adrodd arno yn y tablau Crynodeb Perfformiad isod.

Addasu newid hinsawdd a'i liniaru

Rydym yn aelod gweithredol o'r 2 grŵp peilot sy'n mynd i'r afael â newid ac addasu hinsawdd yng Ngogledd Cymru, Bwrdd Gwasanaethau Lleol Gwynedd, a Grŵp Addasu a Lleihau Carbon Sir y Fflint.

Bioamrywiaeth ac amgylchedd naturiol

Rydym yn ymwybodol o effaith ein darpariaeth gwasanaeth ar yr amgylchedd naturiol. Prif ymateb i'r effaith hwn yw ein hymroddiad i'r BS EN 14001.

Teithio, cludiant a logisteg

Rydym wedi cwblhau adolygiad cynhwysfawr o'n trefniadau teithio, cludiant a logisteg ac rydym wedi cynhyrchu strategaeth ddrafft i fynd i'r afael â meysydd lle y gellir gwneud gwelliannau. Yn gryno, amcanion y cynllun gweithredu a'r strategaeth ddrafft yw:

- Teithio Busnes – Monitro a lleihau.
- Caffael – Nodi'r dulliau mwyaf cost effeithiol o gwrdd â gofynion corfforaethol.
- Teithio Diogel – Lleihau'r risgiau sy'n gysylltiedig â theithio busnes.
- Cynnal a Chadw – Cynnal prosesau cost effeithiol ac amserol ar gyfer trwsio a chynnal y fflyd cerbydau.
- Amnewid a Gwaredu – Sicrhau bod cerbydau'n cael eu diweddaru drwy weithredu cylchoedd amnewid optimaidd.
- Cofnodion a Rheoli Perfformiad – Datblygu a chyfathrebu dangosyddion perfformiad gyda deilwyr cyllidebau a grwpiau defnyddwyr cerbydau.
- Teithio Cynaladwy - Gwarchod yr amgylchedd drwy weithredu teithio gwyrdd a dewisiadau rheoli fflyd.
- Cydweithio – Ymestyn cyfleoedd i gydweithio rhwng Byrddau Iechyd, ymddiriedolaethau a rheolwyr fflyd eraill, yn rhanbarthol a chenedlaethol.
- Cludiant heb fod ar gyfer cleifion – Cynnal trosolwg o holl batrymau symudiad cerbydau yn yr ardal i alluogi nodi a gweithredu arbedion effeithlonrwydd.

Ymgymerwyd â 'Chynllun Teithio Gwyrdd' ac mae'n ofynnol i reolwyr a staff wneud asesiad o ddull teithio cyn gwneud pob taith fusnes gan ddefnyddio 'Olwyn Penderfyniadau Teithio' sy'n cynnwys dewisiadau amgylcheddol cyfeillgar.

Hysbysir deilwyr cyllidebau am filltiroedd a data cost eu cerbydau a thanwydd amgen i gynorthwyo yn eu hadolygiadau perfformiad.

Cyflwynodd y polisi ceir ar les gyfyngiad o 140g/km ar gyfer ceir newydd a cheir ar les o 1 Hydref 2015, a chyfyngiad o 100g/km ar gyfer ceir cronfa.

Mae astudiaethau dichonolrwydd wedi dechrau o ran cyflwyno cerbydau electronig i'r fflyd cerbydau o'r gronfa, a hefyd darparu cyfleusterau ailwefru ar y safle ar gyfer cerbydau cronfa, a chyfleusterau ailwefru talu wrth fynd i staff a chleifion/ymwelwyr. Mae'r trafodaethau yn gynnar yn y broses, ond byddent yn datblygu yn ystod 2017/18.

Caffael cynaladwy

Mae Gwasanaethau Caffael NWSSP wedi parhau i ddatblygu i gefnogi'r agenda Caffael Cynaladwy yn ystod 2016/17. Mae hyn wedi cynnwys adolygiadau parhaus o strategaeth Caffael Cynaladwy y sefydliad drwy ei Grŵp mewnol Datblygiad Cynaladwy, cymryd rhan yn yr ymgynghoriad a chyflwyno polisïau Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwynau Cyflenwi, y Ddeddf Caethwasiaeth Modern, a'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rydym hefyd wedi dechrau cyflwyno rhaglen hyfforddiant caffael cynaladwy i staff, yn cynnwys Gweithdai Carbon, a drwy greu 'porth Cynaladwy' ar wefan Gwasanaethau Caffael NWSSP, sy'n ymddwyn fel canolfan adnoddau i staff pan maent eisiau cynnwys egwyddorion cynaladwy yn eu contractau.

Enghraifft o ddefnyddio caffael cynaladwy yw gwobr contract casglu a chael gwared ar wastraff clinigol, lle mae dull sy'n canolbwyntio ar gynaladwyedd wedi caniatáu arloesiadau newydd mewn gwastraff i egni ac arbedion cost sylweddol ar ôl hynny. Ar wahân i wastraff a losgwyd, mae gwastraff clinigol yn cael ei drin yn bennaf drwy driniaeth gwres amgen sy'n arwain at weddillion neu ffloc dros ben a ellir ei ddefnyddio fel ffynhonnell wres amgen, gynaladwy. Mae'r cyflenwr sy'n gyfrifol wedi canfod ffyrdd amgen o gael gwared ar y deunydd hwn, gan ei ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi i ddarparu ynni o odynau sment. Mae hyn wedi bod yn llwyddiannus iawn yn amgylcheddol ac yn ariannol, gyda dros 80% yn llai o wastraff a gynhyrchir gan GIG Cymru yn awr yn mynd i dirlenwi o'i gymharu â 5 mlynedd yn ôl.

Adeiladu Cynaladwy

Yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru, rydym wedi mabwysiadu gofyniad corfforedig bod bob cynllun prosiect adeiladu newydd sy'n cwrdd â'r meini prawf yn cael eu hadeiladu at safonau rhagoriaeth BREEAM. Mae prosiectau diweddar wedi cynnwys gosod photo voltaic generation arrays yn Marwdy Ysbyty Glan Clwyd ac yng Nghanolfan Gofal Cychwynnol Llangollen. Gosodwyd cyfleuster triphlyg yn y Labordy Patholeg newydd yn Ysbyty Glan Clwyd.

Mae adroddiadau achos busnes ar gyfer gwaith adeiladu yn ystyried elfennau cynaladwyedd fel rhan anhepgor o ddadansoddiadau prosiectau.

Pobl

Mae effaith ansawdd a lleoliad ein hadeiladau ar gleifion a staff yn ffactorau blaenllaw mewn cynllunio corfforaethol. Mae gweithdrefnau ymgynghori yn cael eu cynnal cyn gweithredu newidiadau darparu gwasanaeth fel rhan anhepgor o'r broses gwneud penderfyniadau. Enghraifft o hyn yw'r ymarferion ymgynghori a gynhaliwyd cyn ail-leoli gwasanaethau offthalmoleg o Lanelwy i Abergele.

Llywodraethu

Rheolir llywodraethu perfformiad cynaladwyedd gan sawl elfen o adrodd corfforaethol, gan gynnwys ISO14001, Perfformiad Ynni a Chyfleusterau a System Fonitro, adroddiadau blynyddol CRC ac asesiad BREEAM cynlluniau cyfalaf mawr. Mae'r data a ddefnyddir i gynhyrchu'r adroddiadau hyn yn cael ei wirio drwy ddarparwyr archwilio mewnol ac allanol, e.e. BSi, Archwiliad Mewnol a Swyddfa Archwilio Cymru.

Daw casglu data o amrywiol ffynonellau, sy'n cynnwys datganiadau blynyddol cyflenwr gwasanaethau, anfonebau casglu gwastraff, systemau monitro gwasanaethau amser real mewnol a datganiadau ariannol blynyddol. Edrychwyd ar gyflwyno Darllen Mesurydd Awtomatig i ddarparu data gwasanaethau cadarn a chywir.

Crynodeb perfformiad

Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr		2014/15	*Newid o'r flwyddyn flaenorol*	2015/16	*Newid o'r flwyddyn flaenorol*	2016/17	*Newid o'r flwyddyn flaenorol*
Dangosyddion Heb fod yn Ariannol (Tunelli o CO_2)	Cyfanswm Allyriad Gros	43,727	*-3.8%*	43,768	*0.1%*	39,334	*-10.1%*
	Cyfanswm Allyriadau Net	43,727	*-3.8%*	43,768	*0.1%*	39,334	*-10.1%*
	Allyriadau Gros Cwmpas 1* (Uniongyrchol) Nwy ac Olew	20,235	*-6.1%*	22,467	*11.0%*	20,764	*-7.6%*
	Allyriadau Gros Cwmpas 2 a 3** (Anuniongyrchol)	23,492	*-1.8%*	21,301	*-9.3%*	18,570	*-12.8%*
Deunydd Ynni Perthynol (Tunelli o CO_2)	Trydan: An-adnewyddadwy	0		0		0	
	Trydan: Cytundeb Cyflenwad Trydan Adnewyddadwy 'Gwyrdd'	23,492	*-1.8%*	21,301	*-9.3%*	18,570	*-12.8%*
	Nwy	19,671	*-6.3%*	22,119	*12.4%*	20,358	*-8.0%*
	LPG	0		0		0	
	Arall- Olew	564	*2.9%*	348	*-38.3%*	406	*16.7%*
Dangosyddion Ariannol (£)	Gwariant ar Ynni	9,195,383	*4.0%*	8,816,324	*-4.1%*	8,437,285	*-4.3%*
	Gwariant Trwydded CRC (2010 Ymlaen)	120	*-87.4%*	120	*0.0%*	120	*0.0%*
	Gwariant ar osod yn erbyn achrededig (e.e. GCOF)	0		0		0	
	Gwariant ar Deithio Busnes	9,264,147	*-9.5%*	8,478,417	*-8.5%*	8,823,883	*4.1%*

Treuliant egni a data cost wedi'u hamcangyfrif lle bo'n briodol

Nodiadau

***Cwmpas 1 - Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Uniongyrchol -** Mae'r rhain yn codi o ffynonellau mae'r sefydliad yn berchen arnynt neu a reolir ganddynt ac mae enghreifftiau yn cynnwys allyriadau o ganlyniad i hylosgiad mewn boeleri gwresogi mae'r Bwrdd Iechyd yn berchen arnynt neu a reolir ganddynt, allyriadau gan eich cerbydau ac allyriadau o ollyngiad nwy o oergell.
****Cwmpas 2 - Allyriadau Ynni Anuniongyrchol -** Allyriadau o ganlyniad i gynhyrchu trydan a nwy a gyflenwir gan barti arall ar gyfer ei ddefnyddio mewn adeiladau eraill.
****Cwmpas 3 - Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr Anuniongyrchol Eraill -** Allyriadau sy'n digwydd o ganlyniad i'n gweithgareddau, ond nad yw'r Bwrdd Iechyd yn berchen arnynt yn uniongyrchol neu nad ydynt yn eu rheoli yn uniongyrchol, yn cynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â threuliant gwastraff a dŵr, caffaeliad cynaladwyedd, cynllunio camau gweithredu bioamrywiaeth ac allyriadau sy'n gysylltiedig â chostau teithio busnes swyddogol a delir yn uniongyrchol gan y sefydliad.

Defnydd Adnoddau Meidraidd		**2014/15**	***Newid o'r flwyddyn flaenorol***	**2015/16**	***Newid o'r flwyddyn flaenorol***	**2016/17**	***Newid o'r flwyddyn flaenorol***
Dangosyddion Heb fod yn Ariannol (m^3)	Defnydd Dŵr (Cyfan)						
	cyflenwyd	470,675	*0.9%*	461,278	*-2.0%*	486,407	*5.4%*
	echdynnwyd	0		0		0	
	Defnydd Dŵr (Ystadau nad ydynt yn Swyddfeydd)						
	cyflenwyd	0		0		0	
	echdynnwyd	0		0		0	
Dangosyddion Ariannol (£)	Costau Cyflenwi Dŵr (Cyfan)	1,252,857	*0.5%*	1,181,257	*-5.7%*	1,279,850	*8.3%*
	Costau Cyflenwi Dŵr (Ystadau nad ydynt yn Swyddfeydd)	0		0		0	

Gwastraff		2014/15	*Newid o'r flwyddyn flaenorol*	2015/16	*Newid o'r flwyddyn flaenorol*	2016/17	*Newid o'r flwyddyn flaenorol*
Dangosyddion Heb fod yn Ariannol (tunelli)	Cyfanswm Gwastraff	4,861	*18.9%*	4,997	*2.8%*	4,586	*-8.2%*
	Tirlenwad	316	*-69.7%*	275	*-13.0%*	370	*34.5%*
	Ailddefnyddio / Ailgylchu	2,658	*90.9%*	2,767	*4.1%*	2,258*	*-18.4%*
	Compostio	0		0		0	
	Llosgwyd gan adfer ynni	0		0		0	
	Llosgwyd heb adfer ynni	256	*10.3%*	294	*14.8%*	260	*-11.6%*
Dangosyddion Ariannol (£)	Cyfanswm costau gwaredu	1,383,935	*16.5%*	1,417,029	*2.4%*	1,440,446	*1.7%*
	Tirlenwad	72,480	*-64.1%*	34,524	*-52.4%*	51,613	*49.5%*
	Ailddefnyddio / Ailgylchu	353,384	*111.5%*	391,811	*10.9%*	371,076*	*-5.3%*
	Compostio	0		0		0	
	Llosgwyd gan adfer ynni	0		0		0	
	Llosgwyd heb adfer ynni	188,901	*17.2%*	200,012	*5.9%*	203,755	*1.9%*

Nodiadau

Nid yw gwastraff AHT (gwres amgen wedi'i drin) yn cael ei ddynodi fel llif gwastraff ar wahân ar gyfer yr adroddiad hwn, ond mae'n cael ei gynnwys yng nghyfanswm y ffigyrau gwastraff.

Mae ffigyrau gwastraff yn cael eu cyfrifo o'r data a gafwyd o dair ardal rheoli'r Bwrdd Iechyd-Gorllewin, Canol, a'r Dwyrain. Oherwydd amserlenni adrodd, nid oedd ychydig o ddata ar gael ar yr adeg paratoi'r adroddiad.

Roedd y Canol a'r Dwyrain yn gallu darparu data gwastraff llawn ar gyfer y cyfnod Ebrill 2016-Mawrth 2017.

Mae gwastraff ar gyfer ardal y Gorllewin wedi cael ei gyfrifo fel a ganlyn:
Gwastraff AHT ac a losgwyd ar gyfer safleoedd yr ysbyty:
Defnyddiwyd data Ebrill 2016 – Mawrth 2017
Gwastraff AHT ac a losgwyd ar gyfer safleoedd cyflawn
Defnyddiwyd data Ebrill 2016 – Mawrth 2017
*Ailgylchu:
Defnyddiwyd data anghyflawn Ebrill 2016- Mawrth 2017
(Nid oedd ychydig o'r data sy'n ymwneud ag ailgylchu plastigau, cardford, papur, cetris arlliwydd ac olew gwastraff, ar gael mewn pryd i'w cynnwys, felly mae'r ffigyrau yn y tabl uchod yn llai na'r gwerth a chyfaint ailgylchu.)

Tueddiadau gwariant tymor hir

Mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd ddatgelu y tueddiadau gwariant ar gyfer y pum mlynedd ariannol ddiwethaf. Mae'r Datganiadau Cyfrifon yn darparu dadansoddiad manwl o wariant sy'n cael ei ddosbarthu dan dri phrif bennawd:

- Gwariant ar Wasanaethau Gofal Iechyd Cychwynnol. Mae hyn yn cynnwys gwariant ar y contractau Gofal Cychwynnol ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, Gwasanaethau Fferyllol, Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol, Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol, Cyffuriau ac Offer a Ragnodir, a Gwariant Gofal Iechyd Cychwynnol eraill.

- Gwariant ar ofal iechyd gan Ddarparwyr eraill. Mae hyn yn cynnwys gwariant gyda sefydliadau GIG eraill, Awdurdodau Lleol, Sefydliadau Gwirfoddol, darparwyr preifat a gofal iechyd parhaus a nyrsio a ariennir gan y GIG.

- Gwariant ar Wasanaethau Ysbyty ac Iechyd Cymunedol. Mae'r gwariant hwn yn cynnwys bob gwasanaeth sy'n cael eu darparu gan y Bwrdd Iechyd yn yr ysbyty ac yn y gymuned.

Mae'r tabl isod yn rhoi crynodeb o wariant ar gyfer bob un o'r prif benawdau ar gyfer y pum mlynedd ariannol ddiwethaf.

Pennawd gwariant	2012/2013 £'m	2013/2014 £'m	2014/2015 £'m	2015/2016 £'m	2016/2017 £'m
Gwasanaethau Gofal Cychwynnol	284	284	295	297	300
Gofal Iechyd gan ddarparwyr eraill	284	284	301	310	324
Gwasanaethau Iechyd Ysbyty a Chymuned	809	780	837	869	915

Datganiad Ansawdd Blynyddol

Mae Datganiad Ansawdd Blynyddol y Bwrdd Iechyd yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon. Gellir lawrlwytho copi o wefan y Bwrdd Iechyd ar www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/tudalen/40900.

Mae'r Datganiad Ansawdd Blynyddol yn rhoi mwy o fanylion am ansawdd ein gwasanaethau clinigol a gofal, a'r gwaith sy'n cael ei wneud i wella'r rhain.

RHAN DAU - Adroddiad Atebolrwydd

Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Y Bwrdd

Cadeirydd y Bwrdd Iechyd yw Dr Peter Higson, y Prif Weithredwr yw Mr Gary Doherty. Yn ystod y flwyddyn croesawyd saith aelod newydd i'n Bwrdd:

- Dr Evan Moore, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol
- Mrs Gill Harris, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth
- Mr Andrew Roach, Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu
- Ms Teresa Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus
- Mr Adrian Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd
- Cyng Cheryl Carlisle, Aelod Annibynnol
- Mr John Cunliffe, Aelod Annibynnol

Mae manylion am aelodaeth lawn y Bwrdd yn atodiad 1 y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, ac yn yr adroddiad tâl ar dudalen 49 to 53 o'r ddogfen hon.

Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hefyd yn cynnwys manylion llawn strwythur pwyllgor cefnogi'r Bwrdd (Adrannau 13) a'u haelodaeth (Atodiad 1).

Pwyllgor Archwilio

Yn unol â'r safonau o lywodraethu da sy'n ofynnol o'r GIG yng Nghymru, mae gan y Pwyllgor Archwilio'r rôl allweddol o gynghori'r Bwrdd a chynnig sicrwydd iddynt fod gan y sefydliad drefniadau llywodraethu effeithiol yn eu lle ac sy'n cefnogi gwneud penderfyniadau cadarn. Roedd ei aelodaeth yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

Cadeirydd	Mr Ceri Stradling	Aelod Annibynnol
Is-Gadeirydd	Mrs Marian W Jones	Aelod Annibynnol (hyd at 31 Mai 2016)
	Ms Jenie Dean	Aelod Annibynnol (o 1 Mehefin 2016)
Aelodau	Mr John Cunliffe	Aelod Annibynnol
	Y Cyng Bobby Feeley	Aelod Annibynnol
Yn mynychu (Cyfarwyddwr Arweiniol)	Mrs Grace Lewis-Parry	Ysgrifennydd y Bwrdd

Cofrestr o Fuddiannau'r Cyfarwyddwyr

Mae angen i holl aelodau'r Bwrdd ddatgan unrhyw fuddiant sydd ganddynt a allai effeithio ar eu gallu i fod yn ddiduedd o ran eu gwaith yn y Bwrdd Iechyd.

Mae'r Cyfarwyddwyr a'r Aelodau Bwrdd canlynol wedi datgan eu buddiannau ar gyfer 2016/17 fel y rhestrir isod:

Enw	Swydd	Buddiannau
Dr R M Walker	Cyfarwyddwr Meddygol Dros Dro (i 31/08/16)	• Wedi'i gyflogi fel Meddyg Teulu cyflogedig yn Meddygfa Plas Menai, Llanfairfechan (yn cymryd gwyliau di-dâl ar hyn o bryd) • Yn gweithio fel Meddyg Arbenigol yn BIPBC • Mae ei wraig yn Bartner Meddyg Teulu ym Meddygfa Bron Derw, Bangor • Yn gwneud gwaith ad hoc i Brifysgol Caerdydd fel arholwr ar gyfer Diploma Dermatoleg Ymarferol • Mae wedi cynnal cyrsiau ar fân lawfeddygaeth ar gyfer Coleg Brenhinol Llawfeddygon ac wedi derbyn cyflog am ei waith • Yn derbyn cydnabyddiaeth gan Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan
Dr E Moore	Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol (o 01/09/16)	• Priod yn Gyfarwyddwr Clinigol, Llawdriniaeth y Fron a Endocrin yn Ysbyty Addysgu Prifysgol Lerpwl.
Yr Athro A Hopkins	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth (i 11/04/16)	• Yn gysylltiedig ag ymgysylltu proffesiynol a datblygu polisi fel Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol yng Nghymru gyda Choleg Brenhinol Nyrsio. Ni dderbyniwyd unrhyw dâl. • Aelod o Grŵp Cenedlaethol Aliniad Diwylliannol, a noddwyd gan Goleg Brenhinol Nyrsio • Wedi cael gwobr cadair athro yn Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd Prifysgol Bangor Hydref 2015.
Mr G Lang	Cyfarwyddwr Strategaeth	• Aelod o Fwrdd Llywodraethwyr Coleg Cambria
Mr A Thomas	Cyfarwyddwr Gweithredol, Therapïau a Gwyddorau Iechyd (o 1/02/17)	• Priod wedi'i chyflogi gan Boots UK Cyf fel Technegydd Gwirio Cywirdeb • Wedi'i gyflogi fel Aelod o banel Cyngor Proffesiynau Gofal Iechyd.
Mr A Roach	Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu (o 01/06/16)	• Cyfarwyddwr, Cymdeithas Trigolion Thatchers Green (Treales) Cyfyngedig
Mr A P Jones	Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus (i 31/07/16)	• Priod yn gyflogedig gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr • Ymddiriedolwr Dolen Cymru (corff elusennol / gwirfoddol, rhan o raglen Cymru dros Affrica)
Ms B Cuthel	Cyfarwyddwr Dros Dro Gofal Cychwynnol, Cymuned a Gwasanaethau Iechyd Meddwl (i 31/08/16)	• Aelod o Gorff Llywodraethu Nugent Care (darparwr trydydd sector gwasanaethau oedolion a phlant bregus) • Mae aelod o'i theulu yn gweithio yn Ysbyty Glan Clwyd
Mr C Wright	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol	• Mae ei Bartner yn Gyfarwyddwr yn University Hospital of South Manchester NHS Foundation Trust

Enw	Swydd	Buddiannau
Dr P Higson OBE	Cadeirydd	• Ymddiriedolwr Cartrefi Cymru • Aelod o Gyngor Prifysgol Bangor
Y Cyng C Carlisle, Aelod Annibynnol	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd	• Cynghorydd Sir - Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy • Hyrwyddwr Gofalwyr - Cyngor Bwrdeistref Sir Conwy • Aelod o Banel Mabwysiadu ar y cyd Conwy a Sir Ddinbych • Llywodraethwr yn Ysgol Bryn Elian
Mr J Cunliffe, Aelod Annibynnol	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd	• Cyfarwyddwr Abernet Ltd • Priod yn gyflogedig gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Ms J Dean	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd (TU)	• Mae ei phartner wedi'i gyflogi'n rhan amser ym Mhrifysgol Bangor
Y Cyng B Feeley	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd	• Cynghorydd Sir- Cyngor Sir Ddinbych • Aelod Cabinet Arweiniol ar gyfer Gofal Cymdeithasol a Hyrwyddwr Pobl Hŷn, Cyngor Sir Ddinbych • Cadeirydd Gofal Iechyd Cefndy (sy'n cael ei redeg gan gyngor Sir Ddinbych)
Mrs M W Jones	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd	• Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri • Aelod o Awdurdod S4C • Cyfarwyddwr Canolfan Gerdd William Mathias • Aelod o Gyngor Celfyddydau Cymru
Mrs L Meadows	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd	• Wedi'i gyflogi ym Mhrifysgol Bangor (hyd at 30 Medi 2016)
Mrs B Russell-Williams	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd	• Prif Swyddog Cyngor Gwirfoddol Gwynedd sy'n derbyn arian gan y Bwrdd Iechyd • Priod yn cadeirio Cyngor Iechyd Cymuned Gwynedd
Yr Athro J Rycroft-Malone	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd a Chynrychiolydd y Brifysgol	• Priod yn gyflogedig gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr • Cadeirydd Grŵp Strategaeth Gweithredu NICE • Athro Ymchwil Cymdeithasau Iechyd a Gweithredu ym Mhrifysgol Bangor • Pennaeth Ysgol Gwyddorau Gofal iechyd ac arweinydd effaith academaidd ym Mhrifysgol Bangor. • Yn eistedd ar nifer o grwpiau cenedlaethol a rhyngwladol strategaeth, cyllid a thrafod • Yn eistedd ar Fwrdd Golygyddol BioMed Central Implementation Service
Mr C Stradling	Aelod Annibynnol o'r Bwrdd	• Is-Gadeirydd Democratiaeth Leol a Chomisiwn Ffiniau dros Gymru • Cadeirio'r pwyllgorau archwilio a risg Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau dros Gymru. • Aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Diogelwch Data

Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol sy'n gyfrifol am lywodraethu gwybodaeth yn y Bwrdd Iechyd, ac mae'n gweithredu fel Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth. Y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol yw Gwarcheidwad Caldicott. Hunan adroddodd y Bwrdd Iechyd 5 achos o dorri diogelwch data a arweiniodd at gyfeiriad at Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a Llywodraeth Cymru, er hynny ni chafodd y Bwrdd unrhyw gosbau ariannol yn ystod y flwyddyn. Mae gwybodaeth ar berfformiad llywodraethu gwybodaeth wedi'i gynnwys yn adran 31.7 y Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Cydymffurfio â gofynion dyrannu costau.

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhan o ymrwymiad y Llywodraeth i fod yn fwy agored yn y sector cyhoeddus. Yr egwyddor sylfaenol yw y dylai bob gwybodaeth nad yw'n bersonol a gedwir gan gyrff cyhoeddus fod ar gael yn hawdd, onid oes cost neu os oes eithriad yn bodoli.

Rydym wedi ymrwymo i gydymffurfio â'r Ddeddf hon ac unrhyw arweiniad cysylltiedig gan Lywodraeth Cymru ac rydym yn ymdrechu i sicrhau bod gwybodaeth ar gael i'r cyhoedd drwy ein Cynllun Cyhoeddi www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/tudalen/41160

Datganiad ar gyfrifoldebau'r Prif Weithredwr fel Swyddog Atebol y Bwrdd Iechyd Lleol (BILI)

Mae Gweinidogion Cymru wedi cyfarwyddo mai'r Prif Weithredwr ddylai fod yn Swyddog Atebol i'r BILI. Mae cyfrifoldebau perthnasol y Swyddogion Atebol, gan gynnwys eu cyfrifoldeb o ran priodoldeb a chysondeb y cyllid cyhoeddus y maent yn atebol amdanynt, ac o ran cadw cofnodion priodol, wedi'u hamlinellu yn Memorandwm y Swyddog Atebol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Hyd y gwn i ac y creda i, rwyf wedi cyflawni'r cyfrifoldebau a fynegwyd yn fy llythyr penodi fel Swyddog Atebol yn gywir.

Rwyf yn cadarnhau fy mod wedi cymryd y camau priodol i fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw Archwilwyr y Bwrdd Iechyd yn ymwybodol ohoni.

Rwyf yn cadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon yn cynnwys yn gyffredinol, Adroddiad Perfformiad, Adroddiad Atebolrwydd gan gynnwys Adroddiad Tâl ac Adroddiad Llywodraethu Blynyddol, datganiadau a nodiadau Ariannol a gynhwysir yn y ddogfen hon, yn deg, cytbwys a dealladwy. Rwyf yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r dyfarniad angenrheidiol ar gyfer pennu ei fod yn deg, cytbwys a dealladwy.



Gary Doherty
Prif Weithredwr

Dyddiad: 14 Mehefin 2017

Datganiad o Gyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr o ran y cyfrifon

Mae gofyn i'r Cyfarwyddwyr baratoi cyfrifon ar gyfer bob blwyddyn ariannol, o dan Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol(Cymru) 2006. Bydd Gweinidogion Cymru, gyda chymeradwyaeth y Trysorlys, yn cyfarwyddo bod y cyfrifon hyn yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa'r BILl ac o incwm a gwariant Ymddiriedolaeth BILl ar gyfer y cyfnod.


Wrth baratoi'r cyfrifon hynny, mae gofyn i'r cyfarwyddwyr:
-ddefnyddio egwyddorion cyfrifeg a osodwyd gan Weinidogion Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys yn gyson.
-barnu a gwneud amcangyfrifon sy'n rhesymol a doeth.
-nodi a yw safonau cyfrifyddu perthnasol wedi cael eu dilyn, yn ddibynnol ar unrhyw wyriad materol sy'n cael eu datgelu a'u hegluro yn y cyfrifon.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn cadarnhau eu bod wedi cydymffurfio â'r gofynion uchod wrth baratoi'r cyfrifon.

Mae'r Cyfarwyddwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifeg briodol sy'n datgelu sefyllfa ariannol yr awdurdod â chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg ac yn eu galluogi i sicrhau bod y cyfrifon yn cydymffurfio â'r gofynion a amlinellir yng nghyfarwyddyd Gweinidogion Cymru uchod.

Yn nhrefn y Bwrdd

Llofnodwyd ar ran y Bwrdd

Cadeirydd:  Dyddiad: 30 Mai 2017

Prif Weithredwr:  Dyddiad: 30 Mai 2017

Cyfarwyddwr Cyllid:  Dyddiad: 30 Mai 2017

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Mae ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn disgrifio ein trefniadau llywodraethu, strwythur ein pwyllgorau a'r system reoli mewnol. Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am:

- Rôl a chyfansoddiad y Bwrdd
- Ein trefniadau pwyllgor
- Ein trefniadau i reoli risg
- Sut mae'r Bwrdd Iechyd ym ymateb i cael ei roi mewn Mesurau Arbennig
- Prosesau Ansawdd a Llywodraethu
- Barn Pennaeth Archwilio Mewnol
- Ein trefniadau cynllunio

Mae Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cael ei ddarparu fel atodiad i'r Adroddiad Blynyddol a'r Cyfrifon.

Adroddiad Tâl

Polisiau ar gyfer Tâl Staff ac Uwch Reolwyr

Mae Uwch Reolwyr yn cael eu diffinio fel y rhai sydd ag awdurdod neu gyfrifoldebau dros gyfarwyddo a rheoli prif weithgareddau'r Bwrdd Iechyd yn gyffredinol, y gweithwyr ac Aelodau Annibynnol hynny sy'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd.

O fis Hydref 2004, cyflwynwyd y broses Agenda ar gyfer Newid y GIG, i gyflawni cysondeb mewn contractau ac amodau a thelerau ar draws GIG Cymru. Rhoddir contract Cymru gyfan i bob aelod o staff a rheolwyr (gan eithrio cyfarwyddwyr) pan gânt eu penodi. Llywodraethir staff meddygol a staff deintyddol gan amodau a thelerau meddygol a deintyddol sy'n berthnasol ar draws GIG Cymru.

Nid yw cyfarwyddwyr yn rhan o'r broses hon ac mae graddfa cyflog uwch reolwyr wedi cael ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru. Penderfynir ar dâl yn genedlaethol ac fe'u defnyddir yn lleol yn seiliedig ar gyfarwyddiadau gan Lywodraeth Cymru. Ni chymeradwywyd tâl yn ystod 2016/17, a chadarnhawyd nad yw'r Bwrdd Iechyd yn gweithredu system dâl sy'n gysylltiedig â pherfformiad. Mae bob contract yn barhaol, ac mae bob cyfnod rhybudd ar gyfer uwch reolwyr yn dri mis.

Penodir Aelodau Annibynnol am gyfnod o bedair blynedd (a gellir eu penodi am ddim mwy nag wyth mlynedd). Mae Aelodau Annibynnol yn derbyn tâl a benderfynir arno'n genedlaethol yn ystod eu penodiad.

Y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth

Sefydlwyd y Pwyllgor Tâl a Thelerau Gwasanaeth ar 1 Ionawr 2015, yn dilyn Adolygiad Pwyllgor y Bwrdd yn Rhagfyr 2014. Trefnwyd y Pwyllgor i gyfarfod bum gwaith yn 2016/17, ac fel arall fel pennir yn angenrheidiol gan Gadeirydd y Pwyllgor. Yn ystod 2016/17 cyfarfu'r Pwyllgor ar saith achlysur.

Cadeirydd	Dr Peter Higson	Cadeirydd
Aelodau	Mrs Margaret Hanson	Is-Gadeirydd
	Mr Ceri Stradling	Aelod Annibynnol
	Ms Jenie Dean	Aelod Annibynnol
	Mr Gary Doherty	Prif Weithredwr
Swyddog Arweiniol	Mr Martin Jones	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol

Perthnasoedd Tâl

Mae angen i gyrff adrodd ddatgelu'r berthynas rhwng tâl y cyfarwyddwr sy'n ennill y tâl uchaf yn eu sefydliad a thâl canolrif gweithlu'r sefydliad.

Tâl band y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf yn y Bwrdd Iechyd yn ystod blwyddyn ariannol 2016/17 oedd £200,000 - £205,000 (2015/16, £200,000 - £205,000). Roedd hyn 7.11 gwaith yn fwy (yn 2015/16, 7.59) na thâl canolrifol y gweithlu, a oedd yn £28, 462 (2015/16 £27,760). Y cyfarwyddwr sy'n ennill y cyflog uchaf yn 2016/17 ac yn 2015/16 oedd y Prif Weithredwr.

Yn 2016/17, derbyniodd un deg saith o weithwyr (yn 2015/16, wyth) dâl a oedd yn uwch na thâl y cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf. Roedd tâl yr un deg saith o weithiwr yn amrywio rhwng £200,000 - £205,000 i £270,000 - £275,000 (2015/16 £200,000 - £205,000 i £275,000 - £280,000); uwch glinigwyr yw'r holl weithwyr hynny.

Mae cyfanswm tâl yn cynnwys cyflog, tâl ar wahân sy'n gysylltiedig â pherfformiad, a buddion mewn nwyddau. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn cyflogwyr a gwerthoedd trosglwyddo pensiynau sy'n gyfwerth ag arian parod.

Mae'r gymhareb tâl wedi lleihau yn ystod 2016-17 sy'n adlewyrchu bod pob aelod o staff wedi cael codiad cyflog ar sail chwyddiant heblaw am Uwch Reolwyr (fel y'u diffiniwyd ym mharagraff agoriadol yr adroddiad tâl hwn). Roedd y codiad cyflog wedi'i gyfuno i gyflog blynyddol 99.04 o'r staff. Yn ychwanegol, derbyniodd 18.15% o staff ddilyniant cyflog cynyddol yn eu graddfeydd cyflog.

	2015/16	2016/17
Canolbwynt band cyfanswm cyflog y Cyfarwyddwr â'r cyflog uchaf	£202,500	£202,500
Cyfanswm Cyflog Canolrifol	£27,760	£28,462
Cymhareb	**7.29**	**7.11**

Cyflog Uwch Reolwyr a Datganiadau Pensiwn a Chyfanswm Ffigwr Sengl Tâl

Mae'r ffigyrau Cyfanswm yn y tabl isod (Cyfanswm Ffigwr Sengl ar gyfer Tâl) ar gyfer pob Uwch Reolwr yn cynnwys ffigwr am fudd-dal pensiwn, sydd wedi'i gyfrifo gan ddefnyddio gwybodaeth a ddarperir gan Asiantaeth Bensiynau'r GIG. Nid yw'r ffigwr yn cynrychioli'r cyfanswm gwirioneddol a delir i'r unigolyn yn ystod y flwyddyn ac mae'n adlewyrchu asesiad cyfrifeg o'r cynnydd mewn budd-daliadau hirdymor sydd wedi'i gymhwyso ar gyfer chwyddiant. Gall nifer o ffactorau ddylanwadu ar y ffigurau hyn gan gynnwys newid i gyflog unigolyn, cyfraniadau ychwanegol a wneir gan unigolion a ffactorau prisio sylfaenol ar y cynllun yn gyffredinol.

	2016/17						2015/16					
Enw a Rôl	Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000**	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) **£**	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) **£**	Tâl perfformiad a thaliadau bonws (bandiau o £1,000) **£**	**Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000**	*Cyflog cyfwerth â blwyddyn llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000**	Salary (bandiau o £5,000) **£'000**	Benefit in kind (i'r £100 agosaf) **£**	Pension benefit (i'r £1,000 agosaf) **£**	Tâl perfformiad a thaliadau bonws (bandiau o £1,000) **£**	**Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000**	*Cyflog cyfwerth â blwyddyn llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000**
Yr Athro T Purt *(nodyn 1)*, 01/04/16 - 31/08/16							35-40	700	1,000	0	**40-45**	*200-205*
Mr G Doherty, Prif Weithredwr	200-205	0	26,000	0	**225-230**		15-20	0	0	0	**15-20**	*200-205*
Dr M Walker, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol Dros Dro 01/04/16 - 31/08/16	70-75	2,200	*(nodyn 2)*	0	**75-80**	*165-170*	10-15	200		0	**10-15**	*165-170*
Dr E Moore, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol 01/09/16 - 31/03/17	110-115	1,500	*(nodyn 3)*	0	**110-115**	*195-200*						
Yr Athro A Hopkins Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth 01/04/16 - 11/04/16	0-5	0	0	0	**0-5**	*125-130*	125-130	1,600	6,000	0	**130-135**	

	2016/17						2015/16					
Enw a Rôl	Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000**	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) **£**	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) **£**	Tâl perfformiad a thaliadau bonws (bandiau o £1,000) **£**	**Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000**	*Cyflog cyfwerth â blwyddyn llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000**	Salary (bandiau o £5,000) **£'000**	Benefit in kind (i'r £100 agosaf) **£**	Pension benefit (i'r £1,000 agosaf) **£**	Tâl perfformiad a thaliadau bonws (bandiau o £1,000) **£**	**Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000**	*Cyflog cyfwerth â blwyddyn llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000**
Mrs V Morris, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Dros Dro 01/04/16 - 31/07/16	40-45	0	18,000	0	**55-60**	*120-125*						
Mrs G Harris Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth 01/08/16 - 31/03/17	100-105	0	*(nodyn 4)*	0	**100-105**	*150-155*						
Mr A Thomas *(nodyn 5)*, Cyfarwyddwr Gweithredol, Therapïau a Gwyddorau Iechyd	65-70	0	201,000	0	**265-270**		65-70	0	9,000	0	**75-80**	
Mr A Roach, Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu 01/06/16 - 31/03/17	95-100	0	*(nodyn 4)*	0	**95-100**	*110-115*						

	2016/17						2015/16					
Enw a Rôl	Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000**	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) **£**	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) **£**	Tâl perfformiad a thaliadau bonws (bandiau o £1,000) **£**	**Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000**	*Cyflog cyfwerth â blwyddyn llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000**	Salary (bandiau o £5,000) **£'000**	Benefit in kind (i'r £100 agosaf) **£**	Pension benefit (i'r £1,000 agosaf) **£**	Tâl perfformiad a thaliadau bonws (bandiau o £1,000) **£**	**Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000**	*Cyflog cyfwerth â blwyddyn llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000**
Mr A Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus 01/04/16 - 31/07/16	40-45	0	0	0	**40-45**	*120-125*	120-125	0	0	0	**120-125**	
Ms T Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus 01/01/17-31/03/17	30-35	0	7,000	0	**35-40**	*120-125*						
Ms M Olsen, Prif Swyddog Gweithredu	140-145	0	21,000	0	**165-170**		140-145	0	13,000	0	**155-160**	
Mr R Favager, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	140-145	6,800	33,000	0	**180-185**		140-145	6,100	0	0	**150-155**	
Mr G Lang, Cyfarwyddwr Strategaeth	125-130	0	*(nodyn 3)*	0	**125-130**		125-130	0	0	0	**125-130**	

	2016/17						2015/16					
Enw a Rôl	Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000**	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) **£**	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) **£**	Tâl perfformiad a thaliadau bonws (bandiau o £1,000) **£**	**Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000**	*Cyflog cyfwerth â blwyddyn llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000**	Salary (bandiau o £5,000) **£'000**	Benefit in kind (i'r £100 agosaf) **£**	Pension benefit (i'r £1,000 agosaf) **£**	Tâl perfformiad a thaliadau bonws (bandiau o £1,000) **£**	**Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000**	*Cyflog cyfwerth â blwyddyn llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000**
Ms B Cuthel, Cyfarwyddwr Dros Dro Gofal Cychwynnol, Cymuned a Gwasanaethau Iechyd Meddwl 01/04/16 - 31/08/16	40-45	0	52,000	0	**95-100**	*100-105*	115-120	0	0	0	**115-120**	
Mr J M Jones, *(nodyn 6)* Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol	125-130	1,500	*(nodyn 3)*	0	**130-135**		125-130	1,200	4,000	0	**130-135**	
Mr C Wright *(nodyn 7)*, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol	95-100	0	*(nodyn 3)*	0	**95-100**		100-105	3,500	0	0	**105-110**	
Mrs G Lewis-Parry, Ysgrifennydd y Bwrdd	95-100	0	14,000	0	**105-110**		95-100	900	6,000	0	**100-105**	
Dr P Higson, Cadeirydd	65-70	0	0	0	**65-70**		65-70	0	0	0	**65-70**	
Mrs M Hanson, Is-gadeirydd	55-60	0	0	0	**55-60**		55-60	0	0	0	**55-60**	

	2016/17						2015/16					
Enw a Rôl	Cyflog (bandiau o £5,000) **£'000**	Buddion mewn nwyddau (i'r £100 agosaf) **£**	Buddion Pensiwn (i'r £1,000 agosaf) **£**	Tâl perfformiad a thaliadau bonws (bandiau o £1,000) **£**	**Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000**	*Cyflog cyfwerth â blwyddyn llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000**	Salary (bandiau o £5,000) **£'000**	Benefit in kind (i'r £100 agosaf) **£**	Pension benefit (i'r £1,000 agosaf) **£**	Tâl perfformiad a thaliadau bonws (bandiau o £1,000) **£**	**Cyfanswm (bandiau o £5,000) £'000**	*Cyflog cyfwerth â blwyddyn llawn (os yw'n flwyddyn rannol)* **£'000**
Y Cyng C Carlisle, Aelod Annibynnol	15-20	0	0	0	**15-20**							
Mr J Cunliffe, Aelod Annibynnol	15-20	0	0	0	**15-20**							
Ms J Dean *(nodyn 8)*, Aelod Annibynnol												
Y Cyng B Feeley Aelod Annibynnol	15-20	0	0	0	**15-20**		15-20	0	0	0	**15-20**	
Mrs M W Jones, Aelod Annibynnol	15-20	0	0	0	**15-20**		15-20	0	0	0	**15-20**	
Mrs L Meadows, Aelod Annibynnol	15-20	0	0	0	**15-20**		15-20	0	0	0	**15-20**	
Mrs B Russell Williams, Aelod Annibynnol	15-20	0	0	0	**15-20**		15-20	0	0	0	**15-20**	
Yr Athro J Rycroft-Malone *(nodyn 9)*, Aelod Annibynnol												
Mr C Stradling, Aelod Annibynnol	15-20	0	0	0	**15-20**		15-20	0	0	0	**15-20**	

Nodiadau

1. Ar 8 Mehefin 2015, cafodd y Bwrdd Iechyd ei roi mewn Mesurau Arbennig gan Mark Drakeford, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Drannoeth, gwaharddodd y Bwrdd ei Brif Weithredwr, yr Athro Trevor Purt, fel gweithred niwtral i alluogi symud ymlaen â'r broses.

   Ar 15 Hydref drwy gydgytundeb rhoddodd Yr Athro Purt y gorau i'w rôl fel Prif Weithredwr y Bwrdd Iechyd a chafodd secondiad i Sefydliad y GIG yn Lloegr. Parhaodd y secondiad hyd at 31 Awst 2016, a bryd hynny fe adawodd yr Athro Purt y Bwrdd Iechyd. Yn ystod 2016/17 cafodd yr Athro Purt dâl o £83,333.

2. Dr M Walker oedd y Cyfarwyddwr Meddygol Dros Dro ar gyfer y cyfnod o 1 Mawrth - 31 Awst 2016. Cyn y dyddiad hwn roedd Dr Walker yn cael ei gyflogi gan y Bwrdd Iechyd a hefyd mae'n cynnal swydd fel Meddyg Teulu annibynnol. Nid yw wedi bod yn bosibl cyfrifo elfen budd-dal pensiwn sy'n ymwneud a'i rôl fel Cyfarwyddwr Meddygol Dros Dro yn unig.

3. Nid yw'r gweithwyr hyn bellach yn gyfranwyr gweithredol at gynllun Pensiwn y GIG ac felly ddim yn ennill unrhyw fudd-dal blynyddol ychwanegol.

4. Dechreuodd y gweithwyr hyn eu cyflogaeth â'r Bwrdd Iechyd yn ystod 2016/17 ac yn flaenorol roeddent wedi bod yn gweithio i GIG Lloegr. Nid yw ffigyrau'r flwyddyn flaenorol ar gael i alluogi cyfrifo budd-dal pensiwn blynyddol.

5. Yn hanesyddol Mr Adrian Thomas oedd Cyfarwyddwr Cynorthwyol Therapïau a Gwyddorau Iechyd ac fe'i penodwyd fel Cyfarwyddwr Gweithredol Dros Dro ar 1 Awst 2016. Daeth y swydd yn un barhaol o 8 Chwefror 2017

6. Yn ychwanegol i'r datganiad uchod, yn ystod 2016/17 cafodd Mr J M Jones dâl am gyfrifoldeb ychwanegol o ran y gwaith a wnaeth i'r Bwrdd Iechyd yn ystod 2015/16. Ni wnaeth y taliad hwn effeithio'r band cyflog a ddatganwyd yn flaenorol ar gyfer 2015/16, gan fod cyfanswm y cyflog (yn cynnwys ôl-daliad) yn aros o fewn y band £125-£130 o filoedd.

7. Cynhaliodd y Bwrdd Iechyd ymgynghoriad ar newidiadau arfaethedig i'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol yn ystod mis Mawrth 2017. Gorffennwyd yr ymarfer ymgynghori yn ystod mis Mai 2017 ac mae'r swydd Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol wedi ei dynnu o'r strwythur o 20 Mai 2017.

8. Mae Ms J Dean wedi'i chyflogi gan y Bwrdd Iechyd ac mae'n Aelod Annibynnol sy'n dod o gefndir Undebau Llafur.

9. Yr Athro Rycroft-Malone yw cynrychiolydd y Brifysgol ar y Bwrdd.

	Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn Cronedig (bands of £2,500) **£'000**	Cynnydd gwirioneddol mewn lwmp swm (bands of £2,500) **£'000**	Cyfanswm pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2017 (bands of £5,000) **£'000**	Lwmp swm yn ymwneud â phensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2017 (bands of £5,000) **£'000**	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/16 **£'000**	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/17 **£'000**	Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod **£'000**
Yr Athro T Purt, 01/04/16 - 31/08/16	2.5-5.0	17.5-20.0	40-45	130-135	*(nodyn 1)*	-	-
Mr G Doherty, Prif Weithredwr	2.5-5.0	(2.5-5)	50-55	130-135	709	795	87
Dr M Walker *(nodyn 2)*, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol a Chyfarwyddwr Gwasanaethau Clinigol Dros Dro 01/04/16 - 31/08/16							
Dr E Moore *(nodyn 3)*, Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol 01/09/16 - 31/03/17							
Yr Athro A Hopkins Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth 01/04/16 - 11/04/16	0-2.5	0-2.5	40-45	125-130	986	*(nodyn 1)*	

	Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn Cronedig (bands of £2,500) **£'000**	Cynnydd gwirioneddol mewn lwmp swm (bands of £2,500) **£'000**	Cyfanswm pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2017 (bands of £5,000) **£'000**	Lwmp swm yn ymwneud â phensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2017 (bands of £5,000) **£'000**	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/16 **£'000**	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/17 **£'000**	Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod **£'000**
Mrs V Morris *(nodyn 4)*, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth Dros Dro 01/04/16 - 31/07/16	0-2.5	2.5-5.0	35-40	110-115	593	624	31
Mrs G Harris *(nodyn 5)*, Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth 01/08/16 - 31/03/17			65-70	200-205		1370	
Mr A Roach *(nodyn 5)*, Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl / Anabledd Dysgu 01/06/16 - 31/03/17			45-50	140-145		825	
Mr A Thomas, Cyfarwyddwr Gweithredol, Therapïau a Gwyddorau Iechyd 01/08/16 - 31/03/17	7.5-10.0	27.5-30.0	35-40	105-110	473	659	186

	Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn Cronedig (bands of £2,500) **£'000**	Cynnydd gwirioneddol mewn lwmp swm (bands of £2,500) **£'000**	Cyfanswm pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2017 (bands of £5,000) **£'000**	Lwmp swm yn ymwneud â phensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2017 (bands of £5,000) **£'000**	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/16 **£'000**	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/17 **£'000**	Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod **£'000**
Mr A Jones *(nodyn 4)*, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus 01/04/16 - 31/07/16	0-2.5	(0-2.5)	45-50	125-130	781	791	10
Ms T Owen, Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus 01/01/17-31/03/17	0-2.5	35-37.5	30-35	90-95	553	568	15
Ms M Olsen, Prif Swyddog Gweithredu	0-2.5	5.0-7.5	30-35	100-105	613	665	52
Mr R Favager, Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	2.5-5.0	0	60-65	165-170	971	1030	58
Mr G Lang *(nodyn 6)*, Cyfarwyddwr Strategaeth	0	0	45-50	145-150	866	866	

	Cynnydd Gwirioneddol mewn Pensiwn Cronedig (bands of £2,500) **£'000**	Cynnydd gwirioneddol mewn lwmp swm (bands of £2,500) **£'000**	Cyfanswm pensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2017 (bands of £5,000) **£'000**	Lwmp swm yn ymwneud â phensiwn cronedig ar 31 Mawrth 2017 (bands of £5,000) **£'000**	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/16 **£'000**	Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod ar 31/03/17 **£'000**	Cynnydd gwirioneddol mewn Gwerth Trosglwyddo sy'n Cyfateb i Arian Parod **£'000**
Mr J M Jones *(nodyn 6)*, Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol	0	0	50-55	155-160	1053	1053	
Ms B Cuthel Cyfarwyddwr Dros Dro Gofal Cychwynnol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl (o 2 Awst 2015)	2.5-5.0	7.5-10	50-55	150-155	836	*(Note 1)*	
Mr C Wright, *(nodyn 3)* Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol							
Mrs G Lewis-Parry, Ysgrifennydd y Bwrdd	0-2.5	2.5-5.0	30-35	95-100	634	676	42

Nodiadau

Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw'r gwerth cyfalaf actiwari a aseswyd o fuddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar unrhyw adeg. Y buddion a brisiwyd yw buddion cronedig aelodau ac unrhyw bensiwn cymar amodol sy'n daladwy o'r cynllun. CETV yw'r taliad a wneir gan gynllun pensiwn, neu drefniant i sicrhau buddion pensiwn mewn cynllun pensiwn arall neu drefniant pan fo aelod yn gadael y cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn ei gynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddion mae'r unigolyn wedi ei gronni o ganlyniad i'w aelodaeth lwyr i'r cynllun pensiwn, nid yn unig ei wasanaeth mewn swydd uwch mae'r dadleniad yn cyfeirio ato. Mae'r ffigurau CETV yn cynnwys manylion gwerth unrhyw fuddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall mae'r unigolyn wedi'i drosglwyddo i gynllun pensiwn y GIG. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnodd yr aelod o ganlyniad i brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth pensiwn yn y cynllun ar ei draul ei hun. Cyfrifir CETVau o fewn canllawiau a fframwaith a ragnodir gan y Sefydliad a Chyfadran Actiwari.

Gwir Gynnydd mewn CETV: Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir yn weithredol gan y cyflogwr. Mae'n ystyried y cynnydd mewn pensiwn a gronnwyd oherwydd chwyddiant, cyfraniadau gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall) ac yn defnyddio ffactorau prisio'r farchnad gyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

1. Ni ddatgelwyd y Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod ar gyfer yr unigolion hyn oherwydd eu bod yn aelodau o'r cynllun pensiwn 1995 sy'n 60 oed a hŷn.

2. Oherwydd bod Dr M Walker wedi bod â sawl swydd gyda'r Bwrdd Iechyd yn ystod 2016/17, nid yw'n bosibl cyfrifo elfen buddion pensiwn sy'n unigol berthnasol i'w swydd fel Cyfarwyddwr Meddygol Interim.

3. Yn ystod eu cyfnod cyflogaeth gyda'r Bwrdd Iechyd, nid yw'r aelodau hyn o staff wedi bod yn aelodau o'r Cynlluniau Pensiwn GIG.

4. Oherwydd bod y staff hyn mewn swydd am ran o'r flwyddyn ariannol, dim ond i'r elfen sy'n briodol i'w cyfnod o gyflogaeth fel uwch reolwyr Bwrdd Iechyd PBC mae'r datgeliadau CETV yn berthnasol.

5. Nid yw ffigyrau cyn hyn ar gael oherwydd ymunodd y staff â'r Bwrdd Iechyd o GIG Lloegr yn ystod 2016/2017.

6. Nid yw'r aelodau hyn o staff bellach yn cymryd rhan weithredol yn y Cynllun Pensiwn GIG, felly mae'r datgeliadau'n ymwneud â phensiwn hanesyddol, lwmp swm a CETV a gronnwyd.

Pecynnau Ymadael a Thaliadau Diswyddo

Yn ystod 2016/17, cytunodd y Bwrdd Iechyd i ddau becyn ymadael; gellir gweld manylion y costau yn Nodyn 5.5 y Cyfrifon Blynyddol, ar dudalen 26A.

Adroddiad Staff

Adroddir ar y nifer cyfartalog o staff cywerth â llawn amser (FTE) a gyflogir gan y Bwrdd Iechyd yn ystod 2016/17 isod. Cyfrifir hyn gan ddefnyddio'r oriau a gontractiwyd a gofnodir ar gofnod staff electronig y Bwrdd Iechyd.

Grŵp Proffesiynol	**FTE cyfartalog**
Proffesiynol, Gwyddonol a Thechnegol	619
Gwasanaethau Clinigol Ychwanegol	2,838
Gweinyddol a Chlercyddol	2,604
Staff Proffesiynol Iechyd Cysylltiol	830
Ystadau ac Ategol	1,217
Gwyddonwyr Gofal Iechyd	279
Meddygol a Deintyddol	1,180
Nyrsys a Bydwragedd Cofrestredig	4,899
Myfyrwyr	22
Cyfanswm	**14,488**

Y gwir nifer o staff mewn swydd yn ystod 2016/17 oedd 17,174 a darperir y cyfansoddiad rhyw ar y tabl isod.

Cyfansoddiad Staff	**Merched**	**Dynion**	Cyfanswm
Cyfarwyddwr	4	9	13
Rheolwyr (Band 8C ac uwch)	52	36	88
Staff	13,779	3,294	17,073
Cyfanswm	**13,835**	**3,339**	**17,174**

*Er pwrpas yr adroddiad hwn, diffinnir rheolwr fel aelod o staff ar Fand 8c neu uwch (neu lefel cywerth ar gyfer staff anfeddygol), wedi'i leoli mewn gweithrediad corfforedig neu uwch adran weithredol gyda chyfrifoldebau rheolaethol a gwneud penderfyniadau arwyddocaol, sy'n effeithio ar y sefydliad cyfan.

Nodir data absenoldebau salwch ar gyfer 2016/17 isod:

	2015-16	**2016-17**
Dyddiau a gollwyd (tymor hir)	182,152	177,464
Dyddiau a gollwyd (tymor byr)	71,896	77,639
Cyfanswm y dyddiau a gollwyd	**254,048**	**255,103**
Cyfartaledd dyddiau gwaith a gollwyd	11	11
Cyfanswm staff a gyflogir yn y cyfnod (cyfrif pennau)*	16,621	16,977
Cyfanswm staff a gyflogir mewn cyfnod heb unrhyw absenoldeb (cyfrif pennau)	6,495	6,453
Canran staff heb absenoldeb salwch	**39.07%**	**62.07%**

*Cyfartaledd dros 12 mis

Mesurir absenoldeb salwch gan ddefnyddio dyddiau calendr ar y system Cofnod Staff Electronig, felly mae gwir nifer y cyfanswm o ddyddiau gwaith a gollwyd yn is. Y gyfradd absenoldeb salwch ar gyfer 2016/17 oedd 4.81%.

Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

Yn ddiweddar, daeth y Bwrdd Iechyd i fod yn "Gyflogwr Hyderus o ran Anabledd", sy'n golygu ein bod yn gwarantu cyfweliad i unrhyw ymgeisydd sy'n datgan anabledd, cyn belled eu bod yn cwrdd â'r meini prawf hanfodol ar gyfer y swydd. Atgyfnerthir hyn drwy ymagwedd gadarn iawn at hyfforddiant gydraddoldeb a hawliau dynol gorfodol i'r holl staff a hyfforddiant penodol, ychwanegol ar gyfer recriwtio a dewis i bawb sy'n gysylltiedig â'r broses recriwtio a dewis.

Hyfforddir a chefnogir ein rheolwyr, fel sy'n gyffredin â holl Fyrddau Iechyd Cymru, i weithredu *Polisi Absenoldeb Salwch Cymru Gyfan*, sy'n cynnwys canllaw eglur ar weithredu'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010 dan amgylchiadau fel hyn, gan gynnwys y 'ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol'.

Darperir arweiniad pellach drwy ein *Canllawiau ar Driniaeth Deg i Bobl Anabl yn y Gwaith*, a gyhoeddwyd a chylchredwyd i'r holl reolwyr ym Mai 2015. Mae hyn yn golygu bod staff sy'n mynd yn anabl tra byddant yn gweithio i'r sefydliad yn cael eu trin yn deg ac yn cael cynnig cefnogaeth pan yn briodol. Mae'r ddogfen olaf yn cynnwys ymrwymiad bydd gweithwyr anabl yn cael eu hystyried yn deg ac yn gywir ar gyfer cyfleoedd o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae'r ddogfen hefyd yn cynnwys esiamplau o addasiadau rhesymol gall rheolwyr eu hystyried i hyrwyddo ymagwedd deg a chyson.

Mae'r rhan fwyaf o hyfforddiant a ymgymerir gan staff y Bwrdd Iechyd yn cael ei ystyried fel Statudol a Gorfodol ac anogir yr holl staff a'u galluogi i fynychu'r hyfforddiant hwn, waeth beth fo eu nodweddion gwarchodedig. Ymgymerir â monitro rheolaidd o bresenoldeb mewn hyfforddiant gorfodol yn ôl nodweddion gwarchodedig, ac mae hyn yn arddangos bod mynychiad yn unol â chyfrannau gwaelodol o fewn y gymuned staff gyffredinol.

Rydym yn archwilio'r gefnogaeth i ddechrau rhwydweithiau newydd i weithwyr, gan gynnwys un ar gyfer merched a rhwydwaith staff anabl i adeiladu ar y model sydd wedi bod yn llwyddiannus dros ben i staff lesbaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LGBT). Bu'r rhwydwaith hwn yn gyfrwng hanfodol i'n helpu i gyflawni statws "100 Cyflogwr Uchaf" o fewn Mynegai Cydraddoldeb yn y Gweithle Stonewall, arolwg meincnodi cenedlaethol o dros 400 polisi ac ymarfer cyflogwyr o ran cyflogi pobl LGBT.

Rydym wedi canolbwyntio eleni i ddatblygu dealltwriaeth sefydliadol ymhellach ynghylch egwyddorion Asesiadau Effaith Cydraddoldeb (EqIA) i sicrhau, cymaint â phosibl, pan fyddwn yn gwneud penderfyniad, yn datblygu polisi neu strategaeth neu'n gwneud unrhyw beth arall sy'n effeithio ar ddefnyddwyr ein gwasanaeth neu ein staff, ein bod yn gwneud hynny mewn ffordd deg, atebol a chlir gan ystyried anghenion a hawliau pawb sy'n cael eu heffeithio. Rydym wedi cryfhau ein trefniadau llywodraethu o ran hyn a sefydlu grŵp craffu allanol i ddarparu cyngor am Asesiadau Effeithiau Cydraddoldeb sy'n ymwneud â strategaethau a chynlluniau gwasanaeth allweddol y Bwrdd Iechyd.

Ymgysylltiadau ac Ymgynghoriaethau heb fod ar y Gyflogres

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd ddatgelu gwariant heb fod ar y Gyflogres ac Ymgynghoriaethau. Mae'r tabl isod yn amlinellu manylion yr Ymgysylltiadau heb fod ar y Gyflogres sydd yn eu lle yn y Bwrdd Iechyd. Dylid nodi bod Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) wedi cyflwyno rheolau newydd o ran cydymffurfio â rheoliadau trethi a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2017. Mae'r newidiadau hyn wedi ehangu cyfrifoldebau'r Bwrdd Iechyd o ran rheoli ei ymgysylltiadau heb fod ar y Gyflogres. Oherwydd hyn, bydd y cyflwyniad heb fod ar y Gyflogres yn newid yn arwyddocaol wrth fynd ymlaen, oherwydd bydd y rhan fwyaf o ymgysylltiadau'n destun i drethu ac YG o'r ffynhonnell.

Nifer yr ymgysylltiadau presennol, ar gyfer mwy na £220 y diwrnod ac am gyfnodau o dros chwe mis, fel ar 31 Mawrth 2017	**121**
O hyn...	
Y nifer sydd wedi bodoli am lai na blwyddyn ar amser adrodd	44*
Y nifer sydd wedi bodoli am rhwng blwyddyn a dwy flynedd ar amser adrodd	57
Y nifer sydd wedi bodoli am rhwng dwy a thair blynedd ar amser adrodd	7
Y nifer sydd wedi bodoli am rhwng tair a phedair blynedd ar amser adrodd	11
Y nifer sydd wedi bodoli am rhwng pedair blynedd a mwy ar amser adrodd	2

* Mae'r ffigwr hwn yn cynnwys ymgysylltiadau newydd ar gyfer 2016/17 yn ymwneud â staff meddygol a ymgysylltwyd drwy drefniant Gwasanaeth a Reolir y Bwrdd Iechyd.

Nifer yr ymgysylltiadau newydd heb fod ar y gyflogres am fwy na £220 y diwrnod a fydd yn para am fwy na chwe mis, neu sydd wedi cyrraedd chwe mis o hyd rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.	**153**
Nifer yr uchod sy'n cynnwys cymalau cytundebol sy'n rhoi'r hawl i'r adran i wneud cais am sicrwydd o ran treth incwm a goblygiadau Yswiriant Gwladol.	153
Nifer y ceisiadau am sicrwydd	153
O hyn...	
Nifer y sicrwydd a dderbyniwyd	153
Nifer y sicrwydd na dderbyniwyd	0
Nifer a derfynwyd o ganlyniad i beidio derbyn sicrwydd	0

Nifer yr ymrwymiadau heb fod ar y gyflogres o Aelodau Bwrdd a/neu Uwch Swyddogion gyda chyfrifoldeb ariannol arwyddocaol rhwng 1 Ebrill 2016 a 31 Mawrth 2017.	**0**
Nifer yr unigolion a ystyrir yn "Aelodau Bwrdd a/neu'n uwch swyddogion gyda chyfrifoldeb ariannol arwyddocaol", yn ystod y flwyddyn ariannol, gan gynnwys ymgysylltiadau heb fod ar y gyflogres ac ar y gyflogres.	29%

*Yr Aelodau Bwrdd ac Uwch Swyddogion a ystyrir i fod yn Uwch reolwyr yw'r unigolion lle mae manylion eu cyflogau yn cael eu datgelu ar dudalennau 49 - 53 yr adroddiad hwn. Yn ystod 2016/17 cafodd 29 unigolyn eu cynnwys o fewn y datgeliadau Uwch Reolwyr.

Yn ystod y flwyddyn, gwariodd y Bwrdd Iechyd £2.342m am wasanaethau ymgynghorol allanol.

Adroddiad Atebolrwydd ac Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd greu a chyhoeddi Adroddiad Atebolrwydd, a rhagnodir ei gynnwys gan Lywodraeth Cymru.

Cysondeb gwariant

Mae Trysorlys EM yn diffinio cysondeb fel gofyniad ar gyfer pob eitem o wariant i'w thrin yn unol â deddfwriaeth sy'n eu hawdurdodi, unrhyw awdurdodau priodol a ddirprwywyd a rheolau Cyfrifo'r Llywodraeth.

Grymusir y Bwrdd Iechyd i achosi gwariant gan Ddeddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 ac mae'n derbyn dyraniad ffynhonnell refeniw a chyfalaf gan Lywodraeth Cymru.

Mae proses gosod cyllideb y Bwrdd Iechyd yn anelu at sicrhau bod adnoddau'n cael eu dyrannu ar draws y sefydliad ar gyfer pwrpasau dilys. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi dirprwyo trefniadau gyda deilwyr cyllideb y mae'n rhaid iddynt weithredu yn unol â'u Trefniadau Atebolrwydd a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog (SFI) y Bwrdd Iechyd.

Mae trefniadau yn eu lle i fonitro cydymffurfiad gyda'r SFI ac adroddir y rhain i bob Pwyllgor Archwilio drwy'r Adroddiad Cydymffurfio. Yn ogystal â rhaglen Archwilio Fewnol gynhwysfawr, mae gan y Bwrdd Iechyd Dîm Gwrth Dwyll Lleol.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio gyda safonau adrodd cydnabyddedig i'r graddau eu bod yn berthnasol i'r Sector Cyhoeddus a chynhyrchir y cyfrifon yn unol â'r llawlyfr ar gyfer cyfrifon a gynhyrchir gan Llywodraeth Cymru. Cyflwynir dychweliadau monitro ariannol misol i Lywodraeth Cymru gydag esboniadau dros amrywiaethau.

Mae gan y Bwrdd Iechyd ddiffyg o £29.8m yn erbyn ei Gyfyngiad Adnoddau Refeniw am y flwyddyn. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi cwrdd â'i darged statudol i gyflawni sefyllfa o adennill costau dros y cyfnod o dair blynedd, 1 Ebrill 2014 - 31 Mawrth 2017 ac mae wedi cofnodi diffyg cronnus o £75.9m.

Ni chodwyd unrhyw broblemau pellach yn ystod 2016/17 i effeithio ar gysondeb gwariant.

Ffioedd a chostau

Ni chodir ffioedd a chostau fel mater o drefn ar gleifion y GIG, oni bai y caniateir i'r Bwrdd Iechyd i godi tâl dan y ddeddfwriaeth. Mae esiamplau'n cynnwys gwaith deintyddol a mynediad at gofnodion meddygol. Cadarnheir hyd y gwyddom, bod y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â chyfarwyddebau Llywodraeth Cymru o ran cyfraddau taliadau.

Rhwymedigaethau mân gynlluniau wrth gefn

Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd roi cyfrif am bob mân gynlluniau wrth gefn, yn unol â Safonau Cyfrifo Rhyngwladol 37 (IAS37). Mae'r rhain wedi'u datgelu'n llawn yn Nodyn 18 y Datganiad Cyfrifon.

Byddai mân gynlluniau wrth gefn eraill na gyfrifir o fewn IAS37 yn cynnwys llythyrau cysuro a gwarantau trydydd parti a roddir gan reolwyr. Hyd y gwyddom, nid oes gan y Bwrdd Iechyd rwymedigaethau fel hyn sydd angen eu datgelu.

Tystysgrif yr Archwilydd Cyffredinol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Rwy'n ardystio fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2017 dan Adran 61 Deddf Archwiliad Cyhoeddus (Cymru) 2004. Mae'r rhain yn cynnwys Datganiad am Wariant Net Cynhwysfawr, Datganiad o Sefyllfa Ariannol, Datganiad Llif Arian a Datganiad Newidiadau mewn Ecwiti Talwyr Trethi a nodiadau cysylltiol. Mae'r fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yn gyfreithiol gymwys a Llawlyfr Adrodd Ariannol Trysorlys EM, yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS). Rwyf hefyd wedi archwilio'r wybodaeth yn yr Adroddiad Tâl, a disgrifir fel bod wedi'i archwilio.

Cyfrifoldebau Penodol y Cyfarwyddwyr, Prif Weithredwr a'r Archwilydd

Fel yr esbonnir yn fanylach yn Natganiadau Cyfrifoldebau'r Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr, y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol am ddarparu datganiadau ariannol sy'n rhoi barn gywir a theg.

Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â deddfwriaethau perthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol (DU ac Iwerddon). Yn ôl y safonau, mae'n ofynnol i mi gydymffurfio â Safonau Moesegol i Archwilwyr y Cyngor Adrodd Ariannol.

Sgôp yr archwiliad o ddatganiadau ariannol

Mae archwiliad yn cynnwys derbyn tystiolaeth am y symiau a datgeliadau yn y datganiadau ariannol, sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gam-ddatganu materol, boed hyn drwy dwyll neu gamgymeriad. Mae hyn yn cynnwys asesiad o: a yw polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ac wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb o amcangyfrifon cyfrifo arwyddocaol a wnaed gan y Cyfarwyddwyr a'r Prif Weithredwr; a chyflwyniad cyffredinol y datganiad ariannol.

Mae'n rhaid i mi hefyd dderbyn digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm wedi'u defnyddio i'r pwrpas a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Yn ogystal â hyn, rwy'n darllen yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn y Rhagair a'r Adroddiad Atebolrwydd, i nodi anghysondebau materol gyda'r datganiadau ariannol a archwiliwyd ac i nodi unrhyw wybodaeth mae'n debyg sy'n faterol anghywir, yn seiliedig, neu'n anghyson yn faterol gyda'r wybodaeth a gasglwyd gen i wrth ymgymryd â'r archwiliad. Os byddaf yn dod yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau materol tebygol neu anghysondebau, byddaf yn eu hystyried yn fy adroddiad.

Barn ar Ddatganiadau Ariannol

Yn fy marn i, mae'r datganiadau ariannol:

- Yn rhoi barn wir a theg o sefyllfa Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 31 Mawrth 2017 a'i gostau gweithredu net am y flwyddyn a ddaeth i ben; ac
- maen nhw wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed dan hyn gan Weinidogion Cymru.

Sail ar gyfer Barn Gymwys am Gysondeb

Mae Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi torri ei derfyn adnoddau drwy wario £75.9 miliwn yn ormod o'r £3,991 miliwn a awdurdodwyd iddo wario dros gyfnod o dair blynedd 2014-15 hyd 2016-17. Mae'r gormodedd hwn yn golygu gwariant afreolaidd.

Barn Gymwys am Gysondeb

Yn fy marn i, heblaw am y gwariant afreolaidd o £75.9 miliwn a esboniwyd yn y paragraff uchod, ym mhob agwedd faterol, mae'r gwariant a'r incwm wedi cael ei ddefnyddio ar gyfer y pwrpas a fwriadwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn am faterion eraill

Yn fy Marn i:

- maen nhw wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 a'r cyfarwyddiadau a wnaed dan hyn gan Weinidogion Cymru.
- mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y Rhagair a'r Adroddiad Atebolrwydd yn gyson gyda'r datganiadau ariannol.

Materion rwy'n eu hadrodd yn ôl eithriad

Nid oes gen i ddim i'w adrodd o ran y materion canlynol, ond byddwn yn adrodd i chi, os, yn fy marn i:

- nid yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn adlewyrchu cydymffurfiad gyda chanllawiau Trysorlys EM a Gweinidogion Cymru;
- nid yw'r cofnodion cyfrifo wedi cael eu cadw'n gywir;
- nid yw'r datganiadau ariannol yn cytuno â'r cofnodion cyfrifo a'r dychweliadau;
- ni ddatgelwyd gwybodaeth a nodwyd gan Drysorlys EM neu Weinidogion Cymru ynghylch tâl neu drafodion eraill; neu
- nid wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad.

Gweler fy adroddiad atodedig.



Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
8 Mehefin 2017

24 Cathedral Road
Caerdydd
CF11 9LJ

Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol at Gynulliad Cenedlaethol Cymru

Rhagarweiniad

Mae gofyn i Fyrddau Iechyd Lleol (BILlau) fodloni dwy ddyletswydd ariannol statudol - sy'n cael eu galw'n ddyletswyddau ariannol cyntaf ac ail ddyletswyddau ariannol.

Ar gyfer 2016-17, ni lwyddodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (y BILl) i fodloni'r ddyletswydd ariannol gyntaf a'r ail ddyletswydd ariannol ac felly, rwyf wedi penderfynu rhoi adroddiad naratif er mwyn esbonio'r sefyllfa.

Methiant y ddyletswydd ariannol gyntaf

Mae'r **ddyletswydd ariannol gyntaf** yn rhoi hyblygrwydd ychwanegol i Fyrddau Iechyd Lleol trwy ganiatáu iddynt gydbwyso eu hincwm â'u gwariant dros gyfnod treigl o dair blynedd. Y cyfnod tair blynedd cyntaf o dan y ddyletswydd hon yw 2014-15 hyd at 2016-17, ac felly caiff ei fesur eleni am y tro cyntaf.

Fel y'i dangosir yn Nodyn 2.1 i'r Datganiadau Ariannol, ni lwyddodd y BILl i reoli ei wariant refeniw o fewn ei ddyraniad o adnoddau dros y cyfnod hwn o dair blynedd. Rhagorwyd ar y terfyn adnoddau refeniw cronnus o £3,991 miliwn dros y tair blynedd o £75.9 miliwn.

Lle bo'r BILl yn mynd i gostau sy'n fwy na'i ddyraniad o adnoddau (h.y. terfyn gwariant) dros gyfnod treigl o dair blynedd, bydd unrhyw wariant sy'n fwy na'r dyraniad o adnoddau ar gyfer y tair blynedd hynny yn mynd y tu hwnt i awdurdod y BILl i wario ac felly mae'n 'afreolaidd'. Yn yr amgylchiadau hyn, mae gofyn i mi ddatgan fy 'marn reoleidd-dra' waeth beth fo gwerth y gwariant gormodol.

Methiant yr ail ddyletswydd ariannol

Mae'r **ail ddyletswydd ariannol** yn ei gwneud yn ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol baratoi cynllun treigl tair blynedd integredig yn y tymor canolig, ac i Weinidogion Cymru ei gymeradwyo. Mae'r ddyletswydd hon yn sail hanfodol i gyflwyno gwasanaethau iechyd cynaladwy o ansawdd. Ystyrir y bydd BILl wedi cyflawni'r ddyletswydd hon ar gyfer 2016-17 os cyflwynodd ei Fwrdd gynllun 2016-17 hyd at 2018-19 gerbron Weinidogion Cymru a wnaeth ei gymeradwyo'n ddiweddarach erbyn 30 Mehefin 2016.

Fel y'i dangosir yn Nodyn 2.3 i'r Datganiadau Ariannol, ni lwyddodd y BILl i gyflawni ei ail ddyletswydd ariannol i sicrhau bod cynllun tair blynedd integredig yn y tymor canolig cymeradwy yn ei le ar gyfer y cyfnod o 2016-17 hyd at 2018-19.

Ar ôl i'r Bwrdd Iechyd gael ei roi o dan Fesurau Arbennig ym mis Hydref 2015, nid oedd Llywodraeth Cymru'n disgwyl i'r Bwrdd gyflwyno Cynllun Tair Blynedd Integredig yn y Tymor Canolig ar gyfer 2016-19. Yn hytrach, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu gyda chytundeb Llywodraeth Cymru, yn unol â threfniadau cynllunio blynyddol.



Huw Vaughan Thomas
Archwilydd Cyffredinol Cymru
8 Mehefin 2017

RHAN TRI – Cyfrifon Blynyddol

Rhagair

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi gan y Bwrdd Iechyd Lleol dan atodlen 9 adran 178 Paragraff 3 (1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006 (c.42) ar y ffurf y mae Gweinidogion Cymru wedi gofyn amdano gyda chymeradwyaeth Trysorlys ei Mawrhydi.

Cefndir statudol

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 1 Hydref 2009 yn dilyn gweithredu Rhaglen Genedlaethol Diwygio Cymru'n Un ar gyfer y GIG yng Nghymru a chyfuno dilynol dwy Ymddiriedolaeth GIG blaenorol a chwe Bwrdd Iechyd Lleol blaenorol.

Rheoli Perfformiad a Chanlyniadau Ariannol

Mae'n rhaid i Fyrddau Iechyd Lleol yng Nghymru gydymffurfio'n llawn â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Trysorlys i'r graddau sy'n berthnasol iddynt. O ganlyniad, y Prif Ddatganiad o incwm a gwariant o fewn y flwyddyn yw'r Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr, sy'n dangos y cost gweithredu net a achoswyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol sy'n cael ei ariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'r cyllid yn cael ei ddyrannu wrth ei dderbyn yn uniongyrchol i'r Gronfa Gyffredinol yn y Datganiad yn y Datganiad Safle Ariannol.

Dan Ddeddf Cyllid Gwasanaethau Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 mae'r gofynion i gyflawni'r balans yn erbyn Cyfyngiadau Adnoddau wedi cael ei amnewid gyda dyletswydd i sicrhau, mewn cyfnod treigl 3 blynedd nad yw cyfanswm ei wariant ,yn fwy na chyfanswm ei gyfyngiadau cymeradwy.

Daeth y Ddeddf i rym o 1 Ebrill 2014, a dan y Ddeddf bydd yr asesiad cyntaf o ddyletswydd ariannol treigl 3 blynedd yn cael ei gynnal erbyn diwedd 2016-17.

Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2017

	Nodyn	**2016-17** **£'000**	2015-16 £'000
Gwariant ar Wasanaethau Gofal Iechyd Cychwynnol	3.1	**300,272**	297,128
Gwariant ar ofal iechyd gan ddarparwyr eraill	3.2	**323,673**	310,295
Gwariant ar Wasanaethau Ysbyty a Gwasanaethau Iechyd Cymuned	3.3	**915,124**	868,837
		1,539,069	1,476,260
Wedi tynnu: Incwm Amrywiol	4	**131,027**	123,859
Costau gweithredu net BILI cyn llog ac enillion a cholledion eraill		**1,408,042**	1,352,401
Incwm Buddsoddi	8	**0**	0
(Enillion) / Colledion Eraill	9	**(370)**	(9)
Costau cyllid	10	**104**	101
Costau gweithredu net ar gyfer y flwyddyn ariannol		**1,407,776**	1,352,493

Gweler nodyn 2 ar dudalen 20A am fanylion perfformiad yn erbyn dyraniadau Refeniw a Chyfalaf.

Mae'r nodiadau ar dudalen 8A i 61A yn rhan o'r cyfrifon hyn

Gwariant Net Cynhwysfawr Eraill

	2016-17 £'000	2015-16 £'000
Enillion / (colledion) net wrth ailbrisio adeiladau, peiriannau ac offer	**2,426**	16,299
Enillion/ (colledion) net wrth ailbrisio asedau anghyffwrddadwy	**0**	0
Enillion / (colledion) net wrth ailbrisio asedau ariannol sydd ar werth	**0**	0
(Enillion) / colledion ar gronfeydd eraill wrth gefn	**0**	0
Gostyngiadau a Childroadau	**(33)**	(401)
Rhyddhau Cronfeydd wrth Gefn i Ddatganiad Gwariant Net Cynhwysfawr	**0**	0
Gwariant net cynhwysfawr eraill ar gyfer y flwyddyn	**2,393**	15,898
Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn	**1,405,383**	1,336,595

Datganiad o Safle Ariannol ar 31 Mawrth 2017

	Nodiadau	31 Mawrth 2017 £'000	31 Mawrth 2016 £'000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, peiriannau ac offer	11	**563,560**	532,739
Asedau anghyffwrddadwy	12	**1,238**	1,578
Masnach ac eitemau derbyniadwy	15	**72,623**	52,176
Asedau ariannol eraill	22	**0**	0
Cyfanswm asedau anghyfredol		**637,421**	586,493
Asedau cyfredol			
Rhestr eiddo	14	**16,398**	15,574
Masnach ac eitemau derbyniadwy eraill	15	**48,250**	54,459
Asedau ariannol eraill	22	**0**	0
Arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod	21	**3,510**	2,062
		68,158	72,095
Asedau anghyfredol a ddosberthir fel "Cedwir i'w Werthu"	11	**0**	0
Cyfanswm asedau cyfredol		**68,158**	72,095
Cyfanswm asedau		**705,579**	658,588
Rhwymedigaethau cyfredol			
Masnach a symiau taladwy eraill	16	**145,691**	136,559
Rhwymedigaethau ariannol eraill	23	**0**	0
Darpariaethau	17	**26,366**	31,246
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol		**172,057**	167,805
Asedau/ (rhwymedigaethau) cyfredol net		**(103,899)**	(95,710)
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Masnach a symiau taladwy eraill	16	**1,119**	1,168
Rhwymedigaethau ariannol eraill	23	**0**	0
Darpariaethau	17	**74,125**	53,697
Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol		**75,244**	54,865
Cyfanswm asedau a ddefnyddir		**458,278**	435,918
Ariannwyd gan :			
Ecwiti Trethdalwyr			
Cronfa Gyffredinol		**388,140**	367,579
Cronfa wrth gefn ailbrisio		**70,138**	68,339
Cyfanswm ecwiti trethdalwyr		**458,278**	435,918

Cymeradwywyd y datganiad ariannol ar dudalen 2 i 7 gan y Bwrdd ar 30 Mai 2017 ac fe'i arwyddwyd ar ei ran gan:

Prif Weithredwr  Dyddiad 30 Mai 2017

Mae'r nodiadau ar dudalennau 8A i 61A yn rhan o'r cyfrifon hyn

Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2017

	Cronfa Gyffredinol £000s	Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio £000s	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn £000s
Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2016-17			
Balans ar 1 Ebrill 2016	367,579	68,339	**435,918**
Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn	(1,407,776)		**(1,407,776)**
Enillion/(colledion) net wrth ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer	0	2,426	**2,426**
Enillion/(colledion) net wrth ailbrisio asedau anghyffwrddadwy	0	0	**0**
Enillion/(colledion) net wrth ailbrisio asedau ariannol	0	0	**0**
Enillion/(colledion) net wrth ailbrisio asedau a gedwir i'w gwerthu	0	0	**0**
Gostyngiadau a childroadau	0	(33)	**(33)**
Symudiadau mewn cronfeydd eraill wrth gefn	0	0	**0**
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn	594	(594)	**0**
Rhyddhau cronfeydd wrth gefn i SoCNE	0	0	**0**
Trosglwyddiadau i/o Fyrddau Iechyd Lleol	0	0	**0**
Cyfanswm incwm a chostau cydnabyddedig ar gyfer 2016-2017	(1,407,182)	1,799	**(1,405,383)**
Cyllid Net Llywodraeth Cymru	1,427,743		**1,427,743**
Balans ar 31 Mawrth 2017	388,140	70,138	**458,278**

Mae'r nodiadau ar dudalennu 8A i 61A yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn yn cynrychioli'r balans yn y gronfa wrth gefn ailbrisio ar gyfer bob ased anghyfredol y cafwyd gwared arnynt yn ystod 2016-17.

Datganiad o Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2016

	Cronfa Gyffredinol £000s	Cronfa Wrth Gefn Ailbrisio £000s	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn £000s
Newidiadau yn ecwiti trethdalwyr 2015-16			
Balans ar 1 Ebrill 2015	365,752	52,750	**418,502**
Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn	(1,352,493)		**(1,352,493)**
Enillion/(colledion) net wrth ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer	0	16,299	**16,299**
Enillion/(colledion) net wrth ailbrisio asedau anghyffwrddadwy	0	0	**0**
Enillion/(colledion) net wrth ailbrisio asedau ariannol	0	0	**0**
Enillion/(colledion) net wrth ailbrisio asedau a gedwir i'w gwerthu	0	0	**0**
Gostyngiadau a Childroadau	0	(401)	**(401)**
Symudiadau mewn cronfeydd eraill wrth gefn	0	0	**0**
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn	309	(309)	**0**
Rhyddhau cronfeydd wrth gefn i SoCNE	0	0	**0**
Trosglwyddiadau i/o Fyrddau Iechyd Lleol	0	0	**0**
Cyfanswm incwm a chostau cydnabyddedig ar gyfer 2015-16	(1,352,184)	15,589	**(1,336,595)**
Cyllid Net Llywodraeth Cymru	1,354,011		**1,354,011**
Balans ar 31 Mawrth 2016	367,579	68,339	**435,918**

Mae'r nodiadau ar dudalennu 8A i 61A yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Mae trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn yn cynrychioli'r balans yn y gronfa wrth gefn ailbrisio ar gyfer bob ased anghyfredol y cafwyd gwared arnynt yn ystod 2016-17.

Datganiad o lifau Arian ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2017

		2016-17	2015-16
		£'000	£'000
Llifau arian o weithgareddau gweithredu	nodiadau		
Cost gweithredu net ar gyfer y flwyddyn ariannol		**(1,407,776)**	(1,352,493)
Symudiadau mewn Cyfalaf gweithio	30	**(11,748)**	30,460
Addasiadau llif arian eraill	31	**58,458**	30,856
Darpariaethau a ddefnyddir	17	**(11,190)**	(11,777)
All-lif arian net o weithgareddau gweithredu		**(1,372,256)**	(1,302,954)
Llifau Arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, peiriannau ac offer		**(60,164)**	(52,795)
Elw o gael gwared ar eiddo, peiriannau ac offer		**917**	699
Prynu asedau anghyffwrddadwy		**(181)**	(194)
Elw o gael gwared ar asedau anghyffwrddadwy		**0**	0
Taliadau ar gyfer asedau ariannol eraill		**0**	0
Elw o gael gwared ar asedau ariannol eraill		**0**	0
Taliadau ar gyfer asedau eraill		**0**	0
Elw o gael gwared ar asedau eraill		**0**	0
Mewnlif/(all-lif) arian parod net o weithgareddau buddsoddi		**(59,428)**	(52,290)
Mewnlif/(all-lif) arian parod net cyn cyllido		**(1,431,684)**	(1,355,244)
Llifau arian o weithgareddau cyllido			
Cyllid gan Lywodraeth Cymru (yn cynnwys cyfalaf)		**1,427,743**	1,354,011
Derbynebau cyfalaf a ildiwyd		**0**	0
Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd		**5,389**	1,769
Elfen gyfalaf taliadau o ran prydlesau cyllid ac ar -SoFP		**0**	0
Arian a drosglwyddwyd (i)/ gan gyrff GIG eraill		**0**	0
Cyllid Net		**1,433,132**	1,355,780
Cynnydd/(gostyngiad) net mewn arian parod a symiau sy'n gyfwerth ag arian parod		**1,448**	536
Arian parod a symiau sy'n gyfwerth ag arian parod (a gorddrafftiau banc) ar 1 Ebrill 2016		**2,062**	1,526
Arian parod a symiau sy'n gyfwerth ag arian parod (a gorddrafftiau banc) ar 31 Mawrth 2017		**3,510**	2,062

Mae'r nodiadau ar dudalennau 8A i 61A yn rhan o'r cyfrifon hyn

Nodiadau i'r Cyfrifon

1. Polisïau Cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Bwrdd Iechyd Lleol 2016-17 ar gyfer Cyfrifon a Llawlyfr Adrodd Ariannol (FReM) a roddwyd gan Drysorlys ei Mawrhydi. Mae'r rhain yn adlewyrchu Safonau Rhyngwladol Adrodd Ariannol (IFRS) gyda'r polisïau cyfrifyddu penodol a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Iechyd Lleol a ddisgrifir isod. Mae'r polisïau hyn wedi cael eu defnyddio wrth ddelio ag eitemau a ystyrir yn ddeunyddiau o ran y cyfrifon.

1.1 Confensiwn Cyfrifyddu
Mae'r cyfrifon hyn wedi eu paratoi dan gonfensiwn costau hanesyddol wedi'u haddasu i ystyried ailbrisio eiddo, peiriannau ac offer, asedau anghyffwrddadwy a rhestrau eiddo.

1.2 Caffaeliadau a gweithrediadau a derfynwyd
Ystyrir bod gweithgareddau yn 'gaffaeledig' dim ond os ydynt yn cael eu cymryd o du allan i'r sector cyhoeddus. Ystyrir bod gweithgareddau 'wedi'u terfynu' os ydynt yn darfod yn llwyr. Nid ydynt yn cael eu hystyried 'wedi'u terfynu' os ydynt yn trosglwyddo o un corff cyhoeddus i un arall.

1.3 Incwm a chyllid
Y brif ffynhonnell gyllido ar gyfer y Bwrdd Iechyd Lleol yw dyraniad gan Lywodraeth Cymru (Cyllid Llywodraeth Cymru) o fewn cyfyngiad arian cymeradwy, sy'n cael ei roi i'r Gronfa Gyffredinol. Mae cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei gydnabod yn y cyfnod ariannol y mae'r arian yn cael ei dderbyn.

Mae cyllid annewisol y tu allan i'r Terfyn Adnoddau Refeniw yn cael ei ddyrannu i gyd-fynd â gwariant gwirioneddol a achoswyd ar gyfer darpariaeth gwasanaethau fferyllol neu offthalmig penodol a ddynodwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae gwariant annewisol yn cael ei ddatgelu yn y cyfrifon, a'u tynnu o'r costau gweithredu a godir yn erbyn y Terfyn Adnoddau Refeniw.

Mae cyllid ar gyfer caffaeliad asedau sefydlog a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei roi yn y Gronfa Gyffredinol.

Mae incwm amrywiol yn incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â gweithgareddau gweithredu'r Bwrdd Iechyd Lleol (BILl) ac nid yw'n cael ei gyllido'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cynnwys taliadau ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yn unigryw gan y BILl ar gyfer Llywodraeth Cymru megis cyllid a ddarperir i asiantaethau a chostau nad ydynt yn weithgareddau a achoswyd gan y BILl yn ei rôl darparwr. Mae incwm a dderbyniwyd gan Fyrddau Iechyd Lleol yn trafod â Byrddau Iechyd eraill yn cael ei drin bob amser fel incwm amrywiol.

Mae incwm yn cael ei gynnwys drwy ddefnyddio'r confensiwn croniadau gydag incwm yn cael ei gydnabod yn ystod y cyfnod y mae'r gwasanaethau'n cael eu darparu. Ble derbyniwyd incwm gan drydydd partïon ar gyfer gweithgaredd penodol i'w ddarparu yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, bydd yr incwm hwnnw yn cael ei ohirio.

Dim ond incwm nad yw'n un y GIG y gellir ei ohirio.

1.4 Budd-daliadau gweithwyr

Budd-daliadau gweithwyr tymor byr
Mae cyflogau, tâl a thaliadau sy'n gysylltiedig â gweithwyr yn cael eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r gwasanaeth yn cael ei dderbyn gan weithwyr.

Nid yw'r BILl yn caniatáu cario gwyliau blynyddol ymlaen o un cyfnod i'r nesaf fel rheol onid yw'r cyfnod gwyliau yn wahanol i'r cyfnod cyfrifyddu. Lle mae gweithwyr yn cael cario gwyliau drosodd i'r cyfnod nesaf, mae'r costau cysylltiedig yn cael eu cydnabod yn llawn yn y datganiadau ariannol.

Costau budd-dal ymddeol
Mae darpariaeth Cynllun Pensiwn y GIG yn cwmpasu gweithwyr presennol a chyn-weithwyr. Mae'r cynllun yn gynllun buddion diffiniedig, heb ei ariannu, sy'n darparu ar gyfer cyflogwyr y GIG, Meddygfeydd Cyffredinol a chyrff eraill, a ganiateir o dan gyfarwyddyd yr Ysgrifennydd Gwladol, yn Lloegr a Chymru. Nid yw'n fwriad rhedeg y cynllun mewn modd a fyddai'n galluogi cyrff GIG i ddynodi eu cyfran o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun sylfaenol. Felly, cyfrifir y cynllun fel y byddai'n gynllun cyfraniadau diffiniedig: mae cost y cynllun i'r corff GIG sy'n rhan ohono yn gyfartal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun am y cyfnod cyfrifo.

Ar gyfer ymddeoliadau cynnar ar wahân i rai salwch, nid yw'r rhwymedigaethau pensiwn ychwanegol yn cael eu hariannu gan y cynllun. Mae cost lawn y rhwymedigaeth ar gyfer y costau ychwanegol yn cael ei chodi ar wariant ar yr adeg mae'r BILl yn ymrwymo ei hun i'r ymddeoliad, waeth beth fo'r dull o dalu.

Lle mae cyflogwr yn aelodau o Gynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, sy'n gynllun pensiwn budd-dal diffiniedig mae hyn yn cael ei ddatgelu. Gall asedau a rhwymedigaeth y cynllun sydd i'w priodoli i'r gweithwyr hynny gael eu dynodi, ac maent yn cael eu cydnabod yng nghyfrifon y BILl. Mae'r asedau'n cael eu mesur ar werth teg, a'r rhwymedigaethau ar y gwerth presennol o oblygiadau'r dyfodol. Mae'r cynnydd yn yr atebolrwydd o'r gwasanaeth pensiynadwy a enillwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gydnabod o fewn y treuliau gweithredu. Mae'r cynnydd disgwyliedig yn ystod y flwyddyn o asedau cynllun yn cael ei gydnabod o fewn incwm cyllid. Mae'r gost llog yn ystod y flwyddyn sy'n codi o ddatod y disgownt yn rhwymedigaethau'r cynllun yn cael ei gydnabod o fewn costau cyllid.

Cynllun Pensiwn NEST
Mae'n rhaid i'r BILl gynnig cynllun pensiwn amgen i weithwyr nad ydynt yn gymwys i ymuno â chynllun Pensiynau'r GIG. Felly, mae'r cynllun Pensiwn NEST (Ymddiriedolaeth Cenedlaethol Arbedion Cyflogaeth) yn gynllun cyfraniadau diffiniedig ac mae cost y cynllun i'r corff GIG sy'n rhan ohono yn gyfartal i'r cyfraniadau sy'n daladwy i'r cynllun am y cyfnod cyfrifo.

1.5 Costau eraill
Mae costau gweithredu eraill ar gyfer nwyddau neu wasanaethau yn cael eu cydnabod pan maent yn cael eu derbyn, ac i'r graddau y maent wedi cael eu derbyn. Maent yn cael eu mesur ar y gwerth teg o'r ystyriaeth sy'n daladwy.

1.6 Eiddo, peiriannau ac offer

Cydnabyddiaeth
Mae eiddo, peiriannau ac offer yn cael eu cyfalafu os:
● y'u cedwir ar gyfer eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau neu at ddibenion gweinyddol;
● yw'n debygol y bydd buddion economaidd y dyfodol yn llifo i, neu os bydd potensial gwasanaeth yn cael ei gyflenwi i'r BILl;
● disgwylir iddynt gael eu defnyddio ar gyfer mwy nag un flwyddyn ariannol;
● yw cost yr eitem yn gallu cael ei mesur yn ddibynadwy; a
● oes gan yr eitem gost o leiaf £5,000; neu
● Ar y cyd, mae gan nifer o eitemau werth o o leiaf £5,000 ac yn unigol maent werth mwy na £250, lle mae'r asedau yn rhyngddibynnol yn ymarferol, lle mae ganddynt ddyddiadau prynu cydamserol yn fras, rhagwelir bod ganddynt yr un dyddiadau gwaredu, ac maent o dan reolaeth unigol; neu
● yw'r eitemau yn rhan o gost sefydlu a chyfarparu cychwynnol adeilad newydd, ward neu uned, waeth beth fo'u cost unigol neu gost ar y cyd.

Lle mae ased mawr, er enghraifft adeilad, yn cynnwys nifer o elfennau sydd ag oes ased gwahanol iawn, mae'r elfennau yn cael eu trin fel asedau ar wahân, ac yn cael eu dibrisio dros eu bywydau economaidd defnyddiol eu hunain.

Prisiad
Mae bob eiddo, peiriant ac offer yn cael eu mesur i ddechrau ar gost, gan gynrychioli'r gost sydd i'w briodoli yn uniongyrchol i gaffael neu adeiladu'r ased, a dod ag o i'r lleoliad ac yn y cyflwr sy'n briodol iddo fod yn gallu gweithredu yn y modd y bwriadir iddo gan reolwyr.

Nodir y tiroedd a'r adeiladau a ddefnyddir ar gyfer y gwasanaethau BILl neu at ddibenion gweinyddol yn y Datganiad o Safle Ariannol (SoFP) ar eu gwerthoedd a ailbrisiwyd, sef gwerth teg ar ddyddiad yr ailbrisio, wedi tynnu unrhyw ddibrisiad a cholledion gostyngiadau cronedig olynol. Mae ailbrisiadau yn cael eu perfformio yn ddigon cyson i sicrhau nad yw symiau dwyn ymlaen yn sylweddol wahanol i'r rhai a fyddai'n cael eu pennu ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae gwerthoedd teg yn cael eu pennu fel a ganlyn:

- Tir ac adeiladau nad ydynt yn arbenigol - gwerth y farchnad ar gyfer defnydd presennol
- Adeiladau arbenigol – cost amnewid wedi'i dibrisio

Mae Trysorlys ei Mawrhydi wedi mabwysiadu dull safonol at brisiadau cost amnewid wedi'i dibrisio yn seiliedig ar asedau cyfwerth modern, a, lle y byddai'n bodloni'r gofynion lleoliad y gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu, gellir prisio safle amgen. Mae cyrff GIG Cymru wedi cymhwyso'r gofynion prisio newydd hyn o 1 Ebrill 2009.

Mae eiddo sy'n cael ei adeiladu at ddibenion gweinyddol neu wasanaeth yn cael eu cynnal ar gost, wedi tynnu unrhyw golledion gostyngiad. Mae costau yn cynnwys ffioedd proffesiynol ond dim costau benthyca, sy'n cael eu cydnabod fel treuliau yn syth, fel y caniateir gan IAS 23 ar gyfer asedau a gedwir ar werth teg. Mae ailbrisio a dibrisio asedau yn dechrau pan maent yn dechrau cael eu defnyddio.

Yn 2012-13 defnyddiwyd ymarfer ailbrisio ffurfiol i dir ac eiddo. Mae tiroedd ac adeiladau wedi cael eu mynegrifo gydag indecsau wedi cael eu rhoi gan y Swyddfa Costau Ardal. Bydd gwerth dwyn ymlaen yr asedau presennol ar y dyddiad yn cael ei ddileu dros eu hoes ddefnyddiol sy'n weddill, ac mae darnau gosod ac offer newydd yn cael eu cynnal ar gost hanesyddol wedi'i dibrisio, gan nad yw hwn yn cael ei ystyried i fod yn wahanol o ran deunyddiau o'r gwerth teg.

Mae cynnydd sy'n codi wrth ailbrisio yn mynd i'r gronfa wrth gefn ailbrisio ac eithrio pan mae'n gwrthdroi gostyngiadau ar gyfer yr un ased a gydnabuwyd yn flaenorol yn y gwariant, ac mewn achos felly mae'n cael ei roi i'r graddau'r gostyngiad a godir yn flaenorol. Mae gostyngiad ailbrisio nad yw'n arwain at golled o werth economaidd neu botensial gwasanaeth yn cael ei gydnabod fel gostyngiad a godir i'r gronfa ailbrisio i'r graddau bod balans yn y gronfa wrth gefn ar gyfer yr ased ac, wedyn, i'r gwariant. Dylai colledion gostyngiad sy'n codi o dreuliant clir o fuddion economaidd gael eu cynnwys yn y gwariant.

Mae'r cyfeiriad yn IAS 36 at gydnabod colled gostyngiad o ased wedi'i ailbrisio sy'n cael ei drin fel gostyngiad ailbrisio i'r graddau nad yw'r gostyngiad yn fwy na'r swm yn y warged ailbrisio ar gyfer yr un ased, yn cael eu haddasu fel mai'r colledion gostyngiad nad ydynt yn ganlyniad i dreuliant clir o fuddion economaidd neu ostyngiad mewn potensial gwasanaeth yn unig (yn cynnwys o ganlyniad i golled neu niwed sy'n deillio o weithrediadau busnes arferol) sy'n mynd i'r gronfa wrth gefn ailbrisio. Dylai colledion gostyngiadau sy'n codi o dreuliant clir o fuddion economaidd gael eu cynnwys yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr (SoCNE).

O 2015-16, mae'n rhaid 'ri BILl gydymffurfio â Mesur Gwerth Teg IFRS 13 yn llawn. Er hynny, mae IAS 16 ac IAS 38 wedi cael eu haddasu ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus, sy'n cyfyngu ar yr amgylchiadau lle mae prisiant yn cael ei baratoi dan IFRS 13. Dylai asedau a gedwir ar gyfer eu potensial gwasanaeth, ac sy'n cael eu defnyddio gael eu mesur ar eu gwerth cyfredol sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd. Ar gyfer asedau arbenigol, dylai gwerth cyfredol sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd gael ei ddehongli fel gwerth presennol y potensial gwasanaeth sy'n weddill, y gellir ei gymryd ei fod yn gyfartal o leiaf i gost amnewid y potensial gwasanaeth.

Yn unol ag addasiadau IAS 16 yn nhabl 6.2 o'r FREM, ar gyfer asedau nad ydynt yn arbenigol mewn defnydd gweithredol, mae gwerth cyfredol mewn defnydd presennol yn cael ei ddehongli fel gwerth marchnad ar gyfer defnydd presennol sy'n cael ei ddiffinio yn Llyfr Coch RICS fel Gwerth Defnydd Presennol (EUV).

Dylai asedau a gadwyd fwyaf diweddar ar gyfer eu potensial gwasanaeth ond sydd dros ben, gael eu prisio ar werth cyfredol sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, os oes cyfyngiadau ar yr endid neu'r ased fyddai'n atal mynediad at y farchnad ar y dyddiad adrodd. Os byddai'r BILl yn cael mynediad at y farchnad yna dylid defnyddio'r ased gwarged ar werth teg gan ddefnyddio IFRS 13. Wrth benderfynu a yw ased nad yw'n cael ei ddefnyddio yn warged, dylid gwneud asesiad a oes cynllun clir i ddod â'r ased yn ôl i ddefnydd fel ased gweithredol. Lle mae cynllun clir, nid yw'r ased yn warged, a dylid cynnal y gwerth cyfredol sy'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Fel arall, dylai'r ased gael ei asesu fel bod yn warged a'i brisio dan IFRS13.

Dylai asedau nad ydynt yn cael eu cadw ar gyfer eu potensial gwasanaeth gael eu prisio yn unol ag IFRS 5 neu IAS 40 yn dibynnu ar a yw'r ased yn cael ei gadw'n weithredol i'w werthu. Lle nad yw ased yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gwasanaethau ac nid oes cynllun i'w ddefnyddio eto, heb unrhyw gyfyngiadau rhag gwerthu, ac nad yw'n bodloni meini prawf IAS 40 a IFRS 5, mae'r asedau hyn yn warged ac yn cael eu prisio ar werth teg gan ddefnyddio IFRS 13.

Gwariant dilynol
Lle mae gwariant dilynol yn gwella ased y tu hwnt i'w fanyleb wreiddiol, mae'r gost y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol yn cael ei chyfalafu. Lle mae gwariant dilynol yn adennill yr ased i'w fanyleb wreiddiol, mae'r gwariant yn cael ei gyfalafu, ac mae unrhyw werth dwyn ymlaen yr eitem sy'n cael ei amnewid yn cael ei gofnodi a'i godi ar y SoCNE. Fel y pwysleisiwyd mewn blynyddoedd blaenorol, nid oes gan y GIG yng Nghymru systemau yn eu lle i sicrhau y gall yr holl eitemau sy'n cael eu "hamnewid" gael eu dynodi, ac felly dyna pam mae'r gost sy'n gysylltiedig yn cael ei feintioli. Felly mae'r GIG yng Nghymru wedi sefydlu protocol cenedlaethol i sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r safon cyn belled ag y bo'n gallu, sy'n cael ei amlinellu yn y bennod cyfrifyddu cyfalaf y Llawlyfr ar gyfer Cyfrifon. Mae hyn yn gorchymyn nad yw gwerthoedd dwyn ymlaen ased yn cael eu gorbwysleisio yn sylweddol, mae gofyn i gyrff GIG gael ailbrisio bob Cynllun Cyfalaf Cymru Gyfan sy'n cael ei gwblhau yn ystod y flwyddyn ariannol yn ystod y flwyddyn honno (cyn iddynt gael eu defnyddio) ac mae angen ailbrisiadau tebyg ar gyfer bob Cynllun Adeiladu Disgresiwn a gwblhawyd sydd â gwariant mwy na £0.5m. Mae'r gostyngiadau a ddynodwyd yng ngwerth yr asedau yna'n cael eu cynnwys yn y costau gweithredu.

1.7 Asedau anghyffwrddadwy

Cydnabyddiaeth
Mae asedau anghyffwrddadwy yn asedau heb fod yn rhai ariannol heb sylwedd corfforol, sy'n gallu cael eu gwerthu ar wahân i weddill busnes y BILl, neu sy'n codi o hawliau cytundebol neu hawliau cyfreithiol eraill. Maent yn cael eu cydnabod yn unig pan mae hi'n debygol y bydd buddion economaidd y dyfodol yn llifo i'r BILl, neu pan fydd potensial gwasanaeth yn cael ei ddarparu i'r BILl; lle gellir mesur cost yr ased yn ddibynadwy, a lle mae'r gost o leiaf £5,000.

Mae asedau anghyffwrddadwy a gafwyd ar wahân yn cael eu cydnabod ar werth teg i ddechrau. Mae meddalwedd sy'n anhepgor i'r ffordd y mae caledwedd yn gweithio, er enghraifft system weithredu, yn cael ei gyfalafu fel rhan o'r eitem berthnasol o eiddo, peiriannau ac offer. Mae meddalwedd nad yw'n anhepgor i'r ffordd y mae caledwedd yn gweithio, er enghraifft meddalwedd cymhwysiad, yn cael ei gyfalafu fel ased anghyffwrddadwy. Nid yw gwariant ar ymchwil yn cael ei gyfalafu: mae'n cael ei gydnabod fel treuliant gweithredu yn y cyfnod a achoswyd. Mae asedau a gynhyrchir yn fewnol yn cael eu cydnabod, a dim ond os yw bob un o'r canlynol yn cael eu harddangos:
- y dichonolrwydd technegol o gwblhau'r ased anghyffwrddadwy fel ei fod ar gael i'w ddefnyddio
- y bwriad i gwblhau'r ased anghyffwrddadwy a'i ddefnyddio
- y gallu i ddefnyddio'r ased anghyffwrddadwy
- sut bydd yr ased anghyffwrddadwy yn cynhyrchu buddion economaidd tebygol y dyfodol
- argaeledd adnoddau technegol, ariannol ac adnoddau eraill digonol i gwblhau'r ased anghyffwrddadwy a'i ddefnyddio
- y gallu i fesur yn ddibynadwy'r gwariant i'w briodoli i'r ased anghyffwrddadwy yn ystod ei ddatblygiad.

Mesur
Y swm a gydnabyddir i ddechrau ar gyfer asedau anghyffwrddadwy a gynhyrchir yn fewnol yw'r swm o'r gwariant a achoswyd o'r dyddiad pan mae'r meini prawf uchod wedi eu bodloni i ddechrau. Lle na ellir cydnabod unrhyw asedau anghyffwrddadwy a gynhyrchir yn fewnol, mae'r gwariant yn cael ei gydnabod yn y cyfnod yr achoswyd.

Yn dilyn cydnabyddiaeth gychwynnol, mae asedau anghyffwrddadwy yn cael eu cynnal ar werth teg drwy gyfeirio at farchnad weithredol, neu, lle nad oes marchnad weithredol yn bodoli, ar gost amnewid wedi'i hamorteiddio (sail asedau cyfwerth modern), yn cael eu mynegrifo ar gyfer cynnydd mewn pris perthnasol, fel dirprwy ar gyfer gwerth teg. Mae meddalwedd a ddatblygir yn fewnol yn cael ei chadw ar gost hanesyddol i adlewyrchu'r effeithiau gwrthwynebus o gynnydd mewn costau datblygiad a datblygiadau technolegol.

1.8 Dibrisiad, amorteiddiad a gostyngiadau
Nid yw tir rhydd-ddaliadol, asedau wrthi'n cael eu hadeiladu ac asedau a gedwir i'w gwerthu yn cael eu dibrisio.

Fel arall, mae dibrisiad ac amorteiddiad yn cael eu codi i gael gwared ar gostau neu brisiad yr eiddo, peiriannau ac offer ac asedau anghyffwrddadwy anghyfredol, wedi tynnu unrhyw werth dros ben, dros amcangyfrif o'u hoes ddefnyddiol, mewn modd sy'n adlewyrchu'r treuliant o fuddion economaidd neu botensial gwasanaeth yr asedau. Yr amcangyfrif o oes ddefnyddiol ased yw'r cyfnod y mae'r BILl yn disgwyl cael buddion economaidd neu botensial gwasanaeth gan yr ased. Mae hwn yn benodol i'r BILl, ac efallai y bydd yn llai nag oes gorfforol yr ased ei hun. Mae amcangyfrif o oes ddefnyddiol a gwerth gweddilliol yn cael eu hadolygu ar ddiwedd bob blwyddyn, gydag effaith unrhyw newid yn cael ei gydnabod ar sail arfaethedig. Mae asedau a gedwir dan brydlesau cyllid yn cael eu dibrisio dros gyfnod byrraf cyfnod y brydles ac amcangyfrif o oes ddefnyddiol.

Ar ddiwedd bob cyfnod adrodd, bydd y BILl yn gwirio a oes unrhyw arwydd bod unrhyw rai o'i asedau anghyfredol diriaethol neu anghyffwrddadwy wedi dioddef o golled gostyngiad. Os oes awgrym bod colled gostyngiad, mae gwerth adferadwy'r ased yn cael ei amcangyfrif i benderfynu a oes colled wedi bod, ac os oes, ei swm. Mae asedau anghyffwrddadwy nad ydynt ar gael i'w defnyddio eto yn cael eu profi ar gyfer gostyngiadau yn flynyddol.

Mae colledion gostyngiad nad ydynt o ganlyniad i golled o werth economaidd neu botensial gwasanaeth yn cael ei gydnabod fel gostyngiad a godir i'r gronfa wrth gefn ailbrisio i'r graddau bod balans ar y gronfa wrth gefn ar gyfer yr ased ac wedyn, i'r SoCNE. Mae colledion gostyngiad sy'n codi o dreuliant clir o fuddion economaidd yn cael eu cynnwys yn y SoCNE. Mae balans unrhyw gronfa ailbrisio (hyd at lefel y gostyngiadau) y byddai'r gostyngiadau wedi eu codi arni dan IAS 36 yn cael eu trosglwyddo i'r enillion argadwedig.

1.9 Ymchwil a Datblygiad
Mae gwariant ymchwil a datblygiad yn cael ei godi ar gostau gweithredu yn y flwyddyn yr achoswyd, ar wahân i'r ffaith ei fod yn berthnasol i brosiect a ddiffinnir yn glir, a ellir ei wahanu o weithgaredd gofal cleifion, a gellir yn rhesymol ystyried buddion o hynny ymlaen fel rhai sicr. Mae gwariant gohiriedig yn gyfyngedig i werth buddion y dyfodol disgwyliedig, ac mae'n cael ei amorteiddio drwy'r SoCNE ar sail systematig dros y cyfnod a ddisgwylir i elwa o'r prosiect.

1.10 Asedau anghyfredol a gedwir i'w gwerthu
Mae asedau anghyfredol yn cael eu dosbarthu fel eu bod yn cael eu cadw i'w gwerthu os bydd eu swm dwyn ymlaen yn cael ei adennill drwy werthiant am arian parod yn bennaf yn hytrach na drwy ddefnydd parhaus. Ystyrir bod y cyflwr wedi'i fodloni pan mae'r gwerthiant yn debygol iawn, bod yr ased yn barod i'w werthu yn syth yn ei gyflwr presennol, a bod rheolwyr yn ymroddedig i'r gwerthiant, y disgwylir iddo gymhwyso ar gyfer cydnabyddiaeth fel gwerthiant gorffenedig o fewn blwyddyn o ddyddiad y dosbarthiad. Mae asedau anghyfredol a gedwir i'w gwerthu yn cael eu mesur ar y lefel isaf o'u swm dwyn ymlaen blaenorol a gwerth teg, wedi tynnu'r costau i werthu. Mae gwerth teg yn werth marchnad agored yn cynnwys dibenion amgen.

Yr enillion neu'r colledion sy'n codi o gael gwared ar ased yw'r gwahaniaeth rhwng yr enillion gwerthu a'r swm dwyn ymlaen, ac mae'n cael ei gydnabod yn y SoCNE. Wrth gael gwared arno, mae balans yr ased yn y gronfa ailbrisio, yn cael ei drosglwyddo i'r Gronfa Gyffredinol.

Nid yw eiddo, peiriannau ac offer sydd i'w sgrapio neu eu chwalu yn gymwys ar gyfer ei gydnabod fel ei bod yn cael ei gadw i'w werthu. Mae'n cael ei gadw fel ased gweithredol yn hytrach ac mae ei oes economaidd yn cael ei addasu. Rhoir y gorau i gydnabod yr ased pan mae'n cael ei sgrapio neu ei chwalu.

1.11 Prydlesau
Mae prydlesau yn cael eu dosbarthu fel prydlesau cyllid pan mae'r holl risgiau a thaliadau sylweddol o berchnogaeth yn cael eu trosglwyddo i'r deiliaid prydles. Mae'r holl brydlesau eraill yn cael eu dosbarthu fel prydlesau gweithredu.

1.11.1 Y Bwrdd Iechyd Lleol fel deiliaid prydles
Mae eiddo, peiriannau ac offer a gedwir dan brydlesau cyllid yn cael eu cydnabod i ddechrau, ar ddechrau'r brydles, ar eu gwerth teg neu, os yw'n llai, ar y gwerth presennol o leiafswm taliadau prydles, gyda rhwymedigaeth gyfatebol ar gyfer rhwymedigaeth prydles i'r prydleswr. Mae taliadau prydles yn cael eu dosrannu rhwng taliadau cyllid a gostyngiad yn rhwymedigaeth y brydles er mwyn cyflawni cyfradd gyson ar log ar falans y rhwymedigaeth sy'n weddill. Mae costau cyllid yn cael eu codi yn uniongyrchol i'r SoCNE.

Mae taliadau prydles gweithredu yn cael eu cydnabod fel traul ar sail llinol dros gyfnod y brydles. Mae mentrau prydles yn cael eu cydnabod i ddechrau fel rhwymedigaeth, ac fel gostyngiad yn rhenti ar sail llinol dros gyfnod y brydles wedyn. Mae rhenti amodol yn cael eu cydnabod fel traul yn y cyfnod y maent wedi eu hachosi.

Lle mae'r brydles ar gyfer tir ac adeiladau, mae'r elfennau tir ac adeiladau yn cael eu gwahanu ac yn cael eu hasesu'n unigol o ran a ydynt yn brydlesau gweithredu neu brydlesau cyllid.

1.11.2 Y Bwrdd Iechyd Lleol fel prydleswr
Mae'r symiau sydd eu hangen gan ddeiliaid prydlesau dan brydlesau cyllid yn cael eu cofnodi fel eitemau derbyniadwy yn nifer buddsoddiad net y BILl yn y prydlesau. Mae incwm prydles cyllid yn cael ei ddosbarthu i gyfnodau cyfrifyddu er mwyn adlewyrchu cyfradd enillion cyfnodol cyson ym muddsoddiad net y BILl sy'n weddill o ran y prydlesau.

Mae incwm rhent o brydlesau gweithredu yn cael ei gydnabod ar sail llinol dros gyfnod y brydles. Mae costau uniongyrchol cychwynnol a achoswyd wrth drafod a threfnu unrhyw brydles gweithredu yn cael eu hychwanegu at y swm dwyn ymlaen o'r ased ar brydles, ac yn cael eu cydnabod ar sail llinol dros gyfnod y brydles.

1.12 Rhestrau Eiddo
Er ei bod hi'n gonfensiwn cyfrifyddu i restrau eiddo gael eu prisio ar y gost isaf, a gwerth gwireddadwy net gan ddefnyddio'r fformiwla'r cyntaf i mewn y cyntaf allan/cost cyfartaledd wedi'u pwysoli, dylid cydnabod bod y GIG yn achos arbennig o ran nad yw rhestrau eiddo yn cael eu cadw yn gyffredinol ar gyfer y bwriad o ailwerthu, ac yn wir nid oes marchnad eisoes ar gael lle gellir gwerthu'r eitemau o'r fath. Mae rhestrau eiddo yn cael eu prisio ar gost, ac mae hyn yn cael ei ystyried i fod yn fras amcan rhesymol i werth teg oherwydd y trosiant uchel o stoc. Mae gwaith ar y gweill yn cynnwys nwyddau mewn cyfnodau canolraddol cynhyrchu. Nid yw contractau sydd wedi'u cwblhau yn rhannol ar gyfer gwasanaethau cleifion yn cael eu hystyried fel gwaith ar y gweill.

1.13 Arian parod a chyfwerth ag arian parod
Mae arian parod yn arian parod mewn llaw ac arian cadw gydag unrhyw sefydliad ariannol sy'n ad-daladwy heb gosb gyda rhybudd o ddim mwy na dau ddeg pedwar awr. Mae cyfwerth ag arian parod yn fuddsoddiadau sy'n aeddfedu mewn tri mis neu lai o ddyddiad y caffael, ac sy'n drosadwy yn rhwydd i nifer sy'n hysbys o arian parod gyda risg ddinod o newid mewn gwerth. Yn y Datganiad o Lifau Arian, dangosir arian parod a chyfwerth ag arian parod heb orddrafft banc sy'n ad-daladwy ar alw, ac sy'n rhan anhepgor o reoli arian parod.

1.14 Darpariaethau
Mae darpariaethau'n cael eu cydnabod pan mae gan y BILl rwymedigaeth gyfreithiol neu adeiladol o ganlyniad i ddigwyddiad o'r gorffennol, mae'n debygol y bydd hi'n ofynnol i BILl i setlo'r rhwymedigaeth, a gellir gwneud amcangyfrif dibynadwy o swm y rhwymedigaeth. Y swm a gydnabyddir fel darpariaeth yw'r amcangyfrif gorau o'r gwariant sy'n ofynnol i setlo'r rhwymedigaeth ar ddiwedd y cyfnod adrodd, gan ystyried y risgiau a'r ansicrwydd. Lle mae darpariaeth yn cael ei mesur gan ddefnyddio'r llifau arian a amcangyfrifir i setlo'r rhwymedigaeth, ei swm dwyn ymlaen yw'r gwerth presennol o'r llifau gwaith hynny gan ddefnyddio'r gyfradd disgownt a ddefnyddir gan Drysorlys ei Mawrhydi.

Lle disgwylir i ychydig neu'r holl fuddion economaidd sy'n ofynnol i setlo darpariaeth gael eu hadennill gan drydydd parti, mae'r eitem dderbyniadwy yn cael ei chydnabod fel ased os yw'n bron iawn yn sicr y bydd ad-daliadau yn cael eu derbyn, a gellir mesur swm yr eitemau derbyniadwy yn ddibynadwy.

Mae rhwymedigaethau presennol sy'n codi dan gontractau beichus yn cael eu cydnabod a'u mesur fel darpariaeth. Ystyrir bod contract beichus yn bodoli lle mae gan y BILl gontract lle mae'r costau na ellir eu hosgoi o fodloni'r rhwymedigaethau dan y contract yn fwy na'r buddion economaidd a ddisgwylir i'w derbyn oddi tano.

Mae darpariaeth ailstrwythuro yn cael ei chydnabod pan mae'r BILl wedi datblygu cynllun ffurfiol manwl ar gyfer yr ailstrwythuro, ac wedi codi disgwyliad dilys o ran y rhai a effeithir arnynt, y bydd yn cynnal yr ailstrwythuro drwy ddechrau gweithredu'r cynllun neu gyhoeddi ei brif nodweddion i'r rhai a effeithir arnynt ganddo. Mae mesur darpariaeth ailstrwythuro yn cynnwys y gwariant uniongyrchol yn unig sy'n codi o'r ailstrwythuro, sef y symiau hynny sydd eu hangen oherwydd ailstrwythuro ac nad ydynt yn gysylltiedig â gweithgareddau parhaus yr endid.

1.14.1 Costau esgeulustod clinigol ac anaf personol
Mae Cronfa Risg Cymru (WRP) yn gweithredu cynllun cronni risg sy'n cael ei ariannu ar y cyd gan Lywodraeth Cymru gyda'r opsiwn o gael mynediad at gytundeb rhannu risg a ariennir gan gyrff GIG Cymru cyfranogol. Ni weithredwyd yr opsiwn rhannu risg yn 2016-17. Mae'r WRP yn cael ei gynnal gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

1.15 Asedau ariannol
Cydnabyddir asedau ariannol ar y SoFP pan fo'r BILl yn arwyddo contract offeryn ariannol neu, yn achos eitemau masnach sy'n dderbyniadwy, pan fydd y nwyddau neu wasanaethau wedi eu darparu. Rhoir y gorau i gydnabod asedau ariannol pan fydd hawliau'r contract wedi dod i ben neu pan fydd yr asedau wedi eu trosglwyddo.

1.15.1 Cydnabyddir asedau ariannol ar werth teg i ddechrau.
Mae asedau ariannol yn cael eu dosbarthu i'r categorïau canlynol: asedau ariannol 'ar werth teg drwy SoCNE'; 'buddsoddiadau a ddaliwyd hyd aeddfedrwydd'; asedau ariannol 'ar gael i'w gwerthu', a 'benthyciadau ac eitemau derbyniadwy'. Mae'r dosbarthiad yn dibynnu ar natur a phwrpas yr asedau ariannol, gaiff ei benderfynu ar adeg y gydnabyddiaeth gychwynnol.

1.15.2 Asedau ariannol ar werth teg drwy SoCNE
Caiff deilliadau wedi eu sefydlu a chanddynt wahanol risgiau a nodweddion i'w contractau lletyol, a chontractau a chanddynt ddeilliadau wedi eu sefydlu nad oes modd gwybod eu gwerth ar wahân, eu trin fel asedau ariannol ar werth teg drwy SoCNE. Fe'u cedwir ar werth teg, gydag unrhyw enillion neu golledion dilynol yn cael eu cydnabod yn y SoCNE. Mae'r elw neu'r golled net yn cynnwys unrhyw log a enillwyd ar yr ased ariannol.

1.15.3 Buddsoddiadau a ddaliwyd hyd aeddfedrwydd
Mae buddsoddiadau a ddaliwyd hyd aeddfedrwydd yn asedau ariannol anneilliadol gyda thaliadau sefydlog neu fesuradwy ac aeddfedrwydd sefydlog, ac mae yna fwriad a gallu positif i'w dal hyd aeddfedrwydd. Wedi'r gydnabyddiaeth gychwynnol, cant eu dal ar gost wedi ei hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, wedi tynnu unrhyw ostyngiadau. Cydnabyddir llog trwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

1.15.4 Asedau ariannol ar gael i'w gwerthu
Mae asedau ariannol ar gael i'w gwerthu yn asedau ariannol anneilliadol sydd wedi eu dynodi fel rhai sydd ar gael i'w gwerthu neu yn rhai nad ydynt yn perthyn i unrhyw un o'r tri dosbarthiad arall o asedau ariannol. Cânt eu mesur ar werth teg a chymerir newidiadau mewn gwerth i'r gronfa wrth gefn ailbrisio, ac eithrio colledion amhariad. Ailgylchir enillion neu golledion cronedig i'r SoCNE wrth roi'r gorau i gydnabod.

1.15.5 Benthyciadau a symiau derbyniadwy
Mae benthyciadau a symiau derbyniadwy yn asedau ariannol anneilliadol a chanddynt daliadau sefydlog neu fesuradwy nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn marchnad actif. Wedi'r gydnabyddiaeth gychwynnol, cant eu mesur ar gost wedi'i hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol, wedi tynnu unrhyw ostyngiadau. Cydnabyddir llog trwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

Penderfynir ar werth teg trwy gyfeirio at brisiau'r farchnad a ddyfynnir lle bo'n bosibl, fel arall trwy dechnegau prisio.

Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n lleihau'n union amcangyfrif arian parod a dderbynnir yn y dyfodol trwy oes ddisgwyliedig yr ased ariannol, i swm dwyn ymlaen net yr ased ariannol.

Ar ddyddiad y SoFP, mae'r BILl yn asesu a oes yna unrhyw asedau ariannol, ar wahân i'r rhai hynny wedi eu dal ar 'werth teg drwy elw a cholled' wedi eu gostwng. Mae asedau ariannol wedi eu gostwng a cholledion gostyngiad wedi eu cydnabod os oes tystiolaeth wrthrychol o ostyngiad o ganlyniad i un digwyddiad neu fwy a gafwyd wedi cydnabyddiaeth gychwynnol yr ased ac sy'n effeithio ar lifau arian amcangyfrifedig yr ased yn y dyfodol.

O ran asedau ariannol sy'n cael eu cario ar gost wedi ei hamorteiddio, caiff swm colled y gostyngiad ei fesur fel y gwahaniaeth rhwng swm dwyn ymlaen yr ased a gwerth presennol y llifau arian diwygiedig y dyfodol wedi ei leihau ar gyfradd llog effeithiol wreiddiol yr ased. Cydnabyddir y golled yn y SoCNE a chaiff swm dwyn ymlaen yr ased ei leihau'n syth, neu drwy ddarparu ar gyfer gostyngiadau mewn symiau derbyniadwy.

Os, mewn cyfnod dilynol, bydd swm colled y gostyngiadau yn gostwng a gellir cysylltu'r gostyngiad yn wrthrychol â digwyddiad sy'n digwydd ar ôl cydnabod y gostyngiad, caiff colled y gostyngiad a gydnabuwyd yn flaenorol ei wrthdroi drwy'r SoCNE i'r graddau bod swm dwyn ymlaen y swm derbyniadwy ar ddyddiad gwrthdroi'r gostyngiad ddim yn fwy na'r hyn y byddai'r gost wedi ei hamorteiddio wedi bod pe na fyddai'r gostyngiad wedi'i gydnabod.

1.16 Rhwymedigaethau ariannol
Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar y SoFP pan fo'r BILl yn rhan o ddarpariaethau contract yr offeryn ariannol neu, yn achos eitemau masnach sy'n daladwy, pan fo'r nwyddau neu wasanaethau wedi eu derbyn. Rhoir y gorau i gydnabod rhwymedigaethau ariannol pan fo'r rhwymedigaeth drosodd, hynny yw, mae'r rhwymedigaeth wedi ei dalu neu wedi dod i ben.

1.16.1 Cydnabyddir rhwymedigaethau ariannol ar werth teg i ddechrau.
Dosberthir rhwymedigaethau ariannol fel un ai rhwymedigaethau ariannol ar werth teg drwy SoCNE neu rwymedigaethau ariannol eraill.

1.16.2 Rhwymedigaethau ariannol ar werth teg drwy'r SoCNE
Caiff deilliadau wedi eu sefydlu a chanddynt wahanol risgiau a nodweddion i'w contractau lletyol, a chontractau a chanddynt ddeilliadau wedi eu sefydlu nad oes modd gwybod eu gwerth ar wahân, eu trin fel rhwymedigaethau ariannol ar werth teg drwy elw a cholled. Fe'u cedwir ar werth teg, gydag unrhyw enillion neu golledion dilynol yn cael eu cydnabod yn y SoCNE. Mae'r elw neu'r golled net yn cynnwys unrhyw log a enillwyd ar yr ased ariannol.

1.16.3 Rhwymedigaethau ariannol eraill
Wedi'r gydnabyddiaeth gychwynnol, caiff pob rhwymedigaeth ariannol arall eu mesur ar gost wedi ei hamorteiddio gan ddefnyddio'r dull llog effeithiol. Y gyfradd llog effeithiol yw'r gyfradd sy'n lleihau'n union amcangyfrif arian parod a delir yn y dyfodol trwy oes ddisgwyliedig yr ased ariannol, i swm dwyn ymlaen net y rhwymedigaeth ariannol. Cydnabyddir llog trwy ddefnyddio'r dull llog effeithiol.

1.17 Treth ar Werth
Mae rhan fwyaf o weithgareddau'r BILl y tu allan i gwmpas TAW ac, yn gyffredinol, nid yw treth allosod yn berthnasol ac nid yw treth mewnbwn ar bryniant yn adferadwy. Mae TAW anadferadwy yn cael ei godi i'r categori gwariant perthnasol neu ei gynnwys yn y gost prynu cyfalafu o asedau sefydlog. Lle mae treth allosod yn cael ei godi neu TAW mewnbwn yn adferadwy, nodir y symiau heb gynnwys TAW.

1.18 Arian tramor
Mae trafodion o werth arian tramor yn cael eu newid i sterling ar y gyfradd gyfnewid mewn grym ar ddyddiadau'r trafodion. Mae enillion a cholledion amnewid dilynol yn cael eu cymryd i'r SoCNE. Ar ddyddiad y SoFP, mae eitemau ariannol o werth arian tramor yn cael eu hail drosi ar y cyfraddau sydd yn eu lle ar y dyddiad adrodd.

1.19 Asedau trydydd parti
Nid yw asedau sy'n perthyn i drydydd parti (megis arian a gedwir ar ran cleifion) yn cael eu cydnabod yn y cyfrifon gan nad oes gan y BILl unrhyw fuddiant buddiol ynddynt. Mae manylion asedau trydydd parti yn cael eu rhoi yn Nodyn 25 o'r cyfrifon.

1.20 Colledion a Thaliadau Arbennig
Mae colledion a thaliadau arbennig yn eitemau na fyddai Llywodraeth Cymru wedi eu hystyried pan gytunodd ar arian ar gyfer y gwasanaeth iechyd neu pan basiodd ddeddfwriaeth. Yn ôl eu natur, maent yn eitemau na ddylai godi yn ddelfrydol. Maent felly yn amodol ar weithdrefnau rheoli arbennig o'i gymharu â chyffredinolrwydd taliadau. Maent wedi cael eu rhannu i gategorïau gwahanol, sy'n rheoli'r ffordd y mae bob achos unigol yn cael ei drin.

Mae colledion a thaliadau arbennig yn cael eu codi i'r penawdau swyddogaethol perthnasol yn y SoCNE ar sail croniadau, yn cynnwys colledion a fyddai wedi cael eu gwneud yn iawn drwy yswiriant pe na bai'r Byrddau Iechyd Lleol wedi bod yn goddef eu risgiau eu hunain (gyda phremiwm yswiriant yna'n cael ei gynnwys fel gwariant refeniw arferol). Er hynny, mae'r nodiadau ar golledion a thaliadau arbennig wedi'u casglu yn uniongyrchol o'r gofrestr colledion sy'n cael ei pharatoi ar sail arian parod.

Mae'r BILl yn rhoi cyfri am yr holl golledion a chyfanswm taliadau arbennig (yn cynnwys cymorth gan y WRP). Mae'r BILl yn cronni neu'n darparu ar gyfer yr amcangyfrif gorau o daliadau'r dyfodol ar gyfer rhwymedigaethau penodol, ac mae'n datgelu bob taliad posibl arall fel rhwymedigaethau amodol, onid yw'r tebygrwydd y rhwymedigaethau yn dod yn daladwy yn annhebygol.

Mae pob hawliad am golledion neu daliadau arbennig yn cael eu darparu ar eu cyfer, lle mae tebygrwydd o setlo hawliad unigol dros 50%. Lle gellir gwneud amcangyfrifon dibynnol, mae digwyddiadau o esgeulustod clinigol yn erbyn lle nad yw hawliad wedi ei dderbyn, hyd yn hyn, yn cael eu darparu yn yr un ffordd. Mae ad-daliadau disgwyliedig gan y WRP yn cael eu cynnwys yn y dyledwyr. Ar gyfer yr hawliadau hynny lle mae'r tebygrwydd setlo yn is na 50%, mae'r rhwymedigaeth yn cael ei datgelu fel rhwymedigaeth amodol.

1.21 Cyllidebau wedi'u cyfuno
Mae'r BILl wedi arwyddo cyllidebau wedi'u cyfuno gyda'r Awdurdodau Lleol. Dan y trefniadau mae cyllidebau'n cael eu cyfuno yn unol ag adran 33 o Ddeddf GIG (Cymru) 2006 ar gyfer gweithgareddau penodol a ddiffinnir yn Nodyn 28.

Mae'r gronfa yn cael ei chynnal gan un sefydliad. Mae taliadau ar gyfer gwasanaethau a ddarperir yn cael ei gyfrif fel incwm amrywiol. Mae'r BILl yn gyfrifol am ei gyfran o o'r asedau, rhwymedigaethau, incwm a gwariant o weithgareddau'r cyllidebau wedi'u cyfuno, yn unol â'r trefniadau cyllidebau wedi'u cyfuno.

1.22 Dyfarniadau Cyfrifyddu Allweddol a phrif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif.
Wrth ddefnyddio polisïau cyfrifyddu'r BILl, mae gofyn i reolwyr wneud dyfarniadau, amcangyfrifon a thybiaethau ynglŷn â symiau dwyn ymlaen o asedau a rhwymedigaethau nad ydynt yn amlwg yn hawdd o ffynonellau eraill.

Mae'r amcangyfrifon a'r tybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill a ystyrir eu bod yn berthnasol. Gall canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny. Mae'r amcangyfrifon a'r tybiaethau sylfaenol yn cael eu hadolygu'n barhaus. Mae diwygiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu'n cael eu cydnabod yn y cyfnod y mae'r amcangyfrif yn cael ei ddiwygio os yw'r diwygiadau yn effeithio ar y cyfnod hwnnw yn unig, neu gyfnod y diwygiad a chyfnodau'r dyfodol os yw'r diwygiad yn effeithio ar gyfnodau presennol a'r dyfodol.

1.23 Prif ffynonellau o ansicrwydd amcangyfrif
Mae paratoi datganiadau ariannol y Bwrdd Iechyd yn gofyn am ddefnyddio amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar nifer yr asedau, rhwymedigaethau, incwm a gwariant a adroddwyd arnynt. Mae'r amcangyfrifon hyn yn cael eu hadolygu yn barhaus ac maent yn seiliedig ar ystod o ffactorau sy'n cynnwys hysbysiad o rwymedigaethau posibl, profiadau hanesyddol a dyfarniad proffesiynol arbenigwyr allanol. Efallai y bydd angen gwneud newidiadau i amcangyfrifon cyfrifyddu os oes newidiadau yn yr amgylchiadau y mae amcangyfrif yn seiliedig arnynt neu o ganlyniad i wybodaeth bellach.

Yn eu hanfod, mae amcangyfrifon yn ansicr o ran natur, ac mae'r risg y bydd gwerth dwyn ymlaen yn cael ei addasu yng nghyfnodau'r dyfodol. Mae'r rhwymedigaethau canlynol yn seiliedig ar lefel uchel o amcangyfrif, ac maent wedi'i hasesu fel eu bod mewn perygl o addasu deunydd yng nghyfnodau'r dyfodol:

Hawliadau Esgeulustod Clinigol (Nodyn 17 a 18)
Mae hawliadau a wneir yn erbyn y Bwrdd Iechyd yn cael eu rheoli'n broffesiynol gan Wasanaethau Cyfreithiol a Risg (L&RS). Mae pob hawliad yn cael ei asesu gan L&RS i benderfynu ar debygolrwydd rhwymedigaethau a chostau cysylltiedig a'u hystyried yn unol â IAS37. Mae'r tebygolrwydd a'r costau yn cael eu hamcangyfrif yn seiliedig ar yr holl ffeithiau hysbys ar ddyddiad y Daflen Balans, gan ddefnyddio'r wybodaeth broffesiynol a phrofiad cyfreithwyr a gyflogir gan L&RS. Er hynny, efallai y bydd yr amcangyfrifon hyn yn newid yn sylweddol yn ystod cyfnod hawliad wrth i wybodaeth newydd ddod i law.

Darpariaeth Gofal Iechyd Parhaus (Nodyn 17)
Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau posibl sy'n codi o hawliadau hanesyddol am gostau gofal iechyd parhaus. Mae'r ddarpariaeth yn cynnwys yr holl hawliadau hysbys gydag amcangyfrifiad o'r setliad tebygol. Mae'r setliad tebygol yn cael ei benderfynu arno drwy ddefnyddio profiad hanesyddol.

1.24 Trafodion Menter Cyllid Preifat (PFI)
Mae Trysorlys ei Mawrhydi wedi penderfynu y dylai cyrff llywodraeth gymryd cyfrifoldeb dros gynlluniau PFI isadeiledd, pan fo'r cyrff llywodraeth yn rheoli defnydd o'r isadeiledd a'r diddordeb gweddillol yn yr isadeiledd ar ddiwedd y trefniant fel trefniadau consesiwn gwasanaeth, gan ddilyn egwyddorion gofynion IFRIC 12. Mae'r BILl felly yn cydnabod yr ased PFI fel eitem o eiddo, peiriannau ac offer ynghyd â rhwymedigaeth i dalu amdanynt. Mae'r gwasanaethau a dderbynnir gan y contract yn cael eu cofnodi fel costau gweithredu.

Mae'r taliad unedol blynyddol yn cael ei rannu i'r cydrannau canlynol, gan ddefnyddio'r technegau amcangyfrif priodol lle bo'n briodol:
a) Taliad ar gyfer gwerth teg o wasanaethau a dderbyniwyd;
b) Taliad ar gyfer yr ased PFI, yn cynnwys costau ariannol; a
c) Taliad ar gyfer amnewid elfennau o'r ased yn ystod 'amnewid cylch oes' y contract

Gwasanaethau a dderbyniwyd
Mae gwerth teg y gwasanaethau a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn cael ei gofnodi dan y penawdau gwariant perthnasol o fewn 'costau gweithredu'.

Ased PFI
Mae'r asedau PFI yn cael eu cydnabod fel eiddo, peiriannau ac offer, pan maent yn cael eu defnyddio. Mae'r asedau yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg yn unol ag egwyddorion IAS 17. Ar ôl hynny, mae'r asedau yn cael eu mesur ar werth teg, sy'n cael eu cadw'n gyfredol yn unol â dull y BILl ar gyfer bob dosbarth perthnasol o ased yn unol ag egwyddorion IAS 16.

Rhwymedigaeth PFI
Mae rhwymedigaeth PFI yn cael ei gydnabod ar yr un pryd ag y mae'r asedau PFI yn cael eu cydnabod. Mae'n cael ei fesur i ddechrau ar yr un swm â gwerth teg yr asedau PFI, ac mae'n cael ei fesur ar ôl hynny fel rhwymedigaeth prydles cyllid yn unol ag IAS 17.

Mae cost ariannol flynyddol yn cael ei gyfrifo drwy gymhwyso'r gyfradd llog ymhlyg yn y brydles i'r rhwymedigaeth prydles agoriadol ar gyfer y cyfnod, ac yn cael ei dalu drwy'r 'Costau Ariannol' o fewn y SoCNE.

Mae'r elfen o'r taliad unedol blynyddol sy'n cael ei ddyrannu fel rhent prydles ariannol yn cael ei gymhwyso i fodloni'r gost ariannol flynyddol ac i ad-dalu'r rhwymedigaeth prydles dros gyfnod y contract.

Mae elfen o gynnydd taliad unedol blynyddol oherwydd mynegeio cronnus yn cael ei ddyrannu i'r brydles ariannol. Yn unol ag IAS 17, nid yw'r swm hwn yn cael ei gynnwys yn y lleiafswm taliad prydles, ond mae'n cael ei drin fel rhent amodol yn hytrach ac mae'n cael ei gostio fel swm a achoswyd. Yn ei hanfod, mae'r swm hwn yn gost ariannol o ran y rhwymedigaeth, ac mae'r gost yn cael ei chyflwyno fel cost ariannol amodol yn y SoCNE.

Amnewid Cylch Oes
Mae elfennau o'r ased a amnewidir gan y gweinyddwr yn ystod y contract ('amnewid cylch oes') yn cael eu cyfalafu lle maent yn bodloni meini prawf y BILl ar gyfer gwariant cyfalaf. Maent yn cael eu cyfalafu pan maent yn cael eu darparu gan y gweinyddwr, ac maent yn cael eu mesur i ddechrau ar werth teg.

Mae elfen o'r taliad undebol blynyddol a ddyrannir i'r amnewid cylch oes yn cael ei bennu ymlaen llaw ar gyfer bob blwyddyn o'r contract o raglen gynlluniedig amnewid cylch oes y gweinyddwr. Pan fo'r elfen cylch oes yn cael ei darparu yn gynt neu'n hwyrach na'r disgwyl, mae rhwymedigaeth prydles ariannol neu ragdaliadau tymor byr yn cael eu cydnabod yn y drefn honno.

Pan fo gwerth teg cydran cylch bywyd yn llai na'r swm a benderfynwyd yn y contract, cydnabyddir y gwahaniaeth fel cost pan ddarperir amnewidiad. Os yw'r gwerth teg yn fwy na'r swm a benderfynwyd yn y contract, bydd y gwahaniaeth yn cael ei drin fel ased 'rhydd' a chydnabyddir gweddill incwm gohiriedig. Caiff yr incwm gohiriedig ei ryddhau i'r incwm gweithredol dros gyfnod byrrach yr hyn sy'n weddill o gyfnod y contract neu ddeunydd economaidd defnyddiol y gydran sy'n amnewidiol.

Asedau a gyfrannwyd gan y BILl i'r gweithredwr i'w defnyddio yn y cynllun
Bydd asedau a gyfrannwyd i'w defnyddio yn y cynllun yn parhau i gael eu cydnabod fel eitemau o eiddo, offer neu gyfarpar yn SoFP y BILl.

Asedau eraill a gyfrannwyd gan y BILl i'r gweithredwr
Cydnabyddir asedau a gyfrannwyd (e.e. taliadau arian parod, eiddo dros ben) gan y BILl cyn bod yr ased yn cael ei ddefnyddio, a fwriedir i dalu costau cyfalaf y gweithredwr, i ddechrau fel rhagdaliadau yn ystod cyfnod adeiladu'r contract. Ar ôl hyn, pan fydd yr ased ar gael i'r BILl, bydd y rhagdaliad yn cael ei drin fel taliad dechreuol tuag at rwymedigaeth les cyllid ac fe'i gosodir yn erbyn gwerth cario'r rhwymedigaeth.

Cydnabyddir rhwymedigaeth PFI ar yr un pryd y cydnabyddir yr asedau PFI. Fe'i mesurir ar werth presennol yr isafswm taliadau les, gyda disgownt wrth ddefnyddio'r gyfradd llog ymhlyg. O ganlyniad, fe'i mesurir fel rhwymedigaeth les cyllid yn unol ag IAS 17.

Wrth gydnabod yr ased i ddechrau, cydnabyddir y gwahaniaeth rhwng gwerth teg yr ased a'r rhwymedigaeth ddechreuol fel incwm gohiriedig, sy'n cynrychioli'r gwasanaeth potensial i'r dyfodol i'w dderbyn gan y BILl, drwy'r asedau i fod ar gael i ddefnyddwyr trydydd parti.

1.25 Amodol
Mae rhwymedigaeth amodol yn ymrwymiad posibl sy'n codi o ddigwyddiadau'r gorffennol, a dim ond drwy ddigwyddiad neu anddigwyddiad un neu fwy o ddigwyddiadau'r dyfodol, nid yn hollol dan reolaeth y BILl bydd eu presenoldeb yn cael eu cadarnhau, neu ymrwymiad presennol na gydnabyddir, oherwydd nad yw'n debygol bydd angen taliad i setlo'r ymrwymiad neu nid oes modd mesur swm yr ymrwymiad yn ddigon dibynadwy. Datgelir rhwymedigaeth amodol oni bai bod posibilrwydd o daliad yn brin.

Mae ased amodol yn ased posibl sy'n codi o ddigwyddiadau'r gorffennol a chadarnheir ei fodolaeth drwy ddigwyddiad neu anddigwyddiad un neu fwy o ddigwyddiadau i'r dyfodol ansicr, nid yn hollol o fewn rheolaeth y BILl. Datgelir ased amodol lle mae mewnlif o fuddion economaidd yn debygol.

Lle mae gwerth amser arian yn faterol, datgelir amodau ar eu gwerth presennol.

Mae rhwymedigaethau amodol prin yn rhai a ddatgelir dan ofynion adrodd Seneddol ac nid dan IAS 37, ac os yn ymarferol, bydd gofyn am amcangyfrif o'u heffaith ariannol.

1.26 Cynllun Ymroddiad Lleihau Carbon
Mae lwfansau'r Cynllun Ymroddiad Lleihau Carbon yn cael eu cyfrif fel asedau annirweddol a ariannir gan grant, os na wireddir o fewn deuddeg mis ac fel arall fel asedau cyfredol. Dylid mesur yr asedau i ddechrau ar gost. Bydd asedau'r cynllun, o ran lwfansau'n cael eu prisio ar werth teg, lle mae tystiolaeth o farchnad weithredol.

1.27 Cyfrifo amsugnol
Cyfrifir trosglwyddiadau gweithrediadau fel un ai cydsoddiad neu drwy gyfrifo amsugnol, yn ddibynnol ar y driniaeth a ragnodwyd yn FReM. Ar gyfer cyfrifo amsugnol, mae angen cyfrif endidau ar gyfer eu trafodion dros y cyfnod y digwyddodd heb fod angen ail gyfriflen o berfformiad.

Pan fydd gweithrediadau yn trosglwyddo rhwng BILlau, bydd yr elw neu golled a ddaw yn sgil yr asedau a'r rhwymedigaeth yn trosglwyddo yn cael ei gydnabod yn y SoCNE ac fe'i datgelir ar wahân i'r costau gweithredu.

1.28 Safonau cyfrifo sydd wedi'u cyflwyno ond heb eu mabwysiadau hyd yn hyn
Mae'r safonau cyfrifo canlynol wedi'u cyflwyno neu eu diwygio gan yr IASB ac IFRIC ond hyd yma heb gael eu mabwysiadu, oherwydd nid yw FReM yn nodi bod rhaid eu mabwysiadu
IFRS 9 Offerynnau Ariannol
IFRS14 Cyfrifon Gohiriedig Rheoliadol
IFRS15 Refeniw o gontractau gyda chwsmeriaid
IFRS 16 Lesau

1.29 Safonau cyfrifo a gyflwynwyd a fabwysiadwyd yn gynnar
Yn ystod 2016-17, ni fabwysiadwyd unrhyw safonau cyfrifo yn gynnar.
Arweinir pob mabwysiad cynnar safonau cyfrifon gan Drysorlys EM.

1.30 Elusennau
Yn dilyn cytundeb y Trysorlys i weithredu IAS 27 i Elusennau'r GIG o 1 Ebrill 2013, mae'r BILl wedi sefydlu fel ymddiriedolwr corfforaethol yr Elusen GIG cysylltiedig "Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac elusennau cysylltiol eraill", fe'i ystyrir ar gyfer cydymffurfiad â safonau cyfrifo i fod â rheolaeth o'r Elusen fel rhywbeth atodol. Felly, mae'n rhaid cydgrynhoi canlyniadau'r elusen o fewn cyfrifon statudol y BILl. Mae'r penderfyniad rheoli yn brawf safonau cyfrifo o reoli ac ni fu newid i weithrediad yr Elusen na'i annibyniaeth o ran rheoli'r cyllidebau elusennol.

Mae'r BILl, fodd bynnag, gyda chytundeb Llywodraeth Cymru, wedi mabwysiadu eithriad IAS 27 (10) i gydgrynhoi. Bydd Llywodraeth Cymru fel rhiant eithaf y Byrddau Iechyd Lleol yn cydgrynhoi a datgelu Cyfrifon Elusennol y Byrddau Iechyd Lleol yng Nghyfrifon cyfunol Llywodraeth Cymru. Ceir manylion y trafodion gyda'r elusen yn nodiadau perthnasol y partïon.

2. Perfformiad Dyletswyddau Cyllid

Daeth Deddf Cyllid y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2014 i rym ar 1 Ebrill 2014. Roedd y Ddeddf yn diwygio dyletswyddau ariannol y Byrddau Iechyd Lleol dan adran 175 Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. O 1 Ebrill 2014, mae adran 175 Deddf Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) yn gosod dwy ddyletswydd ar Fyrddau Iechyd Lleol:

- Dyletswydd dan adran 175 (1) i sicrhau nad yw ei wariant yn fwy na'r cyfanswm o gyllid a ddyrannwyd iddo dros gyfnod o 3 blynedd ariannol

- Dyletswydd dan adran 175 (2A) i baratoi cynllun yn unol â chyfarwyddiadau cynllunio, a roddwyd gan Weinidogion Cymru, i sicrhau cydymffurfiaeth â'r ddyletswydd dan adran 175 (1), tra'n gwella iechyd y bobl y mae'n gyfrifol amdanynt, a darpariaeth gofal iechyd i bobl fel hyn, ac i'r cynllun gael ei gyflwyno i a'i gymeradwyo gan Weinidogion Cymru.

Mae asesiad cyntaf perfformiad yn erbyn y ddyletswydd statudol 3 blynedd, dan adran 175 (1) ar ddiwedd 2016-17, sef cyfnod 3 blynedd cyntaf yr asesiad.

Mae Cylchlythyr Iechyd Cymru WHC/2016/054 yn disodli WHC/2015/014 "Dyletswyddau Statudol ac Ariannol Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG" ac yn esbonio dyletswyddau ariannol statudol cyrff GIG Cymru ymhellach ac mae'n effeithiol ar gyfer 2016-17.

2.1 Perfformiad Adnodd Refeniw

	Perfformiad ariannol blynyddol			
	2014-15	2015-16	2016-17	**Cyfanswm**
	£'000	£'000	£'000	**£'000**
Costau gweithredu net am y flwyddyn	1,309,007	1,352,493	**1,407,776**	**4,069,276**
Tynnu gwariant gwasanaethau offthalmoleg cyffredinol a gwariant cyfyngedig eraill heb fod yn arian parod	(929)	(966)	**(11)**	**(1,906)**
Tynnu canlyniadau refeniw o ddod â chynlluniau PFI ar SoFP	0	0	**0**	**0**
Cyfanswm costau gweithredu	1,308,078	1,351,527	**1,407,765**	**4,067,370**
Dyraniad Adnoddau Refeniw	1,281,462	1,332,002	**1,377,981**	**3,991,445**
Tan/ (tros) wariant yn erbyn Dyraniad	(26,616)	(19,525)	(29,784)	**(75,925)**

Nid yw BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cwrdd â'i ddyletswydd ariannol i adennill costau yn erbyn ei Gyfyngiad Adnodd Refeniw dros y 3 blynedd 2014-15 - 2016-17.

2.2 Perfformiad Adnodd Cyfalaf

	2014-15	2015-16	2016-17	**Cyfanswm**
	£'000	£'000	£'000	**£'000**
Gwariant cyfalaf gros	51,859	48,044	**66,115**	**166,018**
Adio: Colledion wrth waredu ar asedau a gyfrannwyd	0	0	**0**	**0**
Tynnu NBV o eiddo, peiriannau a chyfarpar ac asedau anddiriaethol a waredwyd	(1,728)	(690)	**(548)**	**(2,966)**
Tynnu grantiau cyfalaf a dderbyniwyd	(527)	(385)	**(1,639)**	**(2,551)**
Tynnu cyfraniadau a dderbyniwyd	(1,597)	(1,384)	**(3,751)**	**(6,732)**
Cost yn erbyn Dyraniad Adnodd Cyfalaf	48,007	45,585	**60,177**	**153,769**
Dyraniad Adnodd Cyfalaf	48,039	45,588	**60,206**	**153,833**
(Tros)/Tanwariant yn erbyn Dyraniad Adnodd Cyfalaf	**32**	3	**29**	**64**

Mae BILI Prifysgol Betsi Cadwaladr wedi cwrdd â'i ddyletswydd ariannol i adennill costau yn erbyn ei Gyfyngiad Adnoddau Cyfalaf dros y 3 blynedd 2014-15 i 2016-17.

Yn ystod 2016-17, darparodd Llywodraeth Cymru £20.0m i'r Bwrdd Iechyd gyda £20.0m o gymorth arian parod ad-daladwy oherwydd pwysedd diwedd blwyddyn yn codi o ganlyniad i'r troswariant yn erbyn Dyraniad Adnodd. Mae'r cymorth arian parod a gronnwyd a ddarparwyd i'r Bwrdd Iechyd ar sail ad-daladwy drwy Lywodraeth Cymru nawr yn £40.6m. Nid yw'r Bwrdd Iechyd wedi derbyn unrhyw froceriaeth adnodd ad-daladwy.

Bydd ad-dalu'r arian parod ad-daladwy ynghyd â gor-wariant adnodd yn cael ei hysbysu drwy ystyriaeth barhaus o gyflwyniadau Integredig Tymor Canolig .

2.3 Dyletswydd i baratoi cynllun tair blynedd

Gosododd Fframwaith Cynllunio GIG Cymru ar gyfer y cyfnod o 2016-17 hyd at 2018-19 a roddwyd i Fyrddau Iechyd Lleol, ofyniad arnynt i baratoi Cynlluniau Integredig y Tymor Canolig ac i'w cyflwyno gerbron Llywodraeth Cymru.

Gosodwyd Mesurau Arbennig ar y Bwrdd Iechyd ym mis Mehefin 2015 a chyda chytundeb Llywodraeth Cymru, ni wnaeth gyflwyno cynllun tair blynedd yn ystod 2016-17. Felly ni lwyddodd y Bwrdd Iechyd i gyflawni ei ddyletswydd ariannol statudol yn unol ag adran 175 (2A) Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae Cynllun Gweithredu Blynyddol 2017-18 wedi'i gyflwyno gerbron Llywodraeth Cymru i'w gymeradwyo ac mae'r Cynllun Integredig yn y Tymor Canolig ar gyfer y cyfnod o 2017-18 hyd at 2020-21 yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

	2016-17 hyd at 2018-19
Statws cymeradwyo Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	Heb ei gyflwyno

3. Dadansoddiad o gostau gweithredu gros

3.1 Gwariant ar Wasanaethau Gofal Iechyd Cychwynnol

	Cyfyngedig i arian parod	Cyfyngedig i nwyddau heb fod yn arian	2016-17 Cyfanswm	2015-16
	£'000	£'000	£'000	£'000
Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol	117,632		**117,632**	116,019
Gwasanaethau Fferyllol	31,098	(6,193)	**24,905**	25,819
Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol	32,352		**32,352**	32,350
Gwasanaethau Offthalmig Cyffredinol	1,386	6,204	**7,590**	6,330
Gwariant Gofal Iechyd Cychwynnol arall	10,833		**10,833**	10,714
Cyffuriau ac offer a ragnodwyd	106,960		**106,960**	105,896
Cyfanswm	**300,261**	**11**	**300,272**	297,128

3.2 Gwariant am ofal iechyd gan ddarparwyr eraill

	2016-17	2015-16
	£'000	£'000
Nwyddau a gwasanaethau gan Fyrddau Iechyd GIG Cymru eraill	**4,862**	4,722
Nwyddau a gwasanaethau gan Ymddiriedolaethau GIG Cymru eraill	**9,126**	8,668
Nwyddau a gwasanaethau gan gyrff GIG eraill heb fod yn Gymreig	**61,465**	58,773
Nwyddau a gwasanaethau gan PGIAC / PGAB	**151,366**	146,240
Awdurdodau Lleol	**0**	0
Sefydliadau Gwirfoddol	**7,566**	7,653
Gofal Nyrsio a Ariennir gan y GIG	**7,263**	7,996
Gofal Parhaus	**76,848**	74,827
Darparwyr Preifat	**5,177**	1,416
Prosiectau penodol a gyllidir gan Lywodraeth Cymru	**0**	0
Arall	**0**	0
Cyfanswm	**323,673**	310,295

Nodyn 3.1 Mae gwariant ar Wasanaethau Gofal Iechyd Cychwynnol yn cynnwys costau cyflog o £13,204,000 sy'n cynnwys:

	2016-17	2015-16
	£	£
Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol - MT y Tu Allan i Oriau	6,719,000	6,740,000
Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol - gan gynnwys Practisau a Reolir	5,309,000	775,000
Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol	604,000	576,000
Gwariant Gofal Iechyd Cychwynnol	38,000	60,000
	12,670,000	8,151,000

3.3 Gwariant am Wasanaethau Ysbyty ac Iechyd Cymunedol

	2016-17 £'000	2015-16 £'000
Costau Cyfarwyddwyr	**2,203**	2,235
Costau Staff	**667,340**	633,841
Cyflenwadau a gwasanaethau - clinigol	**120,819**	116,062
Cyflenwadau a gwasanaethau - cyffredinol	**25,870**	19,569
Gwasanaethau Ymgynghorol	**2,342**	2,314
Sefydliad	**10,725**	10,263
Cludiant	**4,853**	4,216
Adeiladau	**35,067**	36,546
Contractwyr Allanol	**0**	0
Dibrisiad	**28,575**	28,083
Amorteiddiad	**521**	517
Amhariadau a gwrthdroadau asedau sefydlog (Eiddo, peiriannau a chyfarpar)	**8,383**	5,377
Amhariadau a gwrthdroadau asedau sefydlog (Asedau anddiriaethol)	**0**	0
Amhariadau a gwrthdroadau asedau cyllidol	**0**	0
Amhariadau a gwrthdroadau o asedau heb fod yn gyfredol a ddelir ar werth	**0**	0
Ffioedd archwilio	**453**	453
Taliadau eraill i archwilwyr	**0**	0
Colledion, taliadau arbennig a dyledion na ellir eu hadfer	**2,575**	3,690
Ymchwil a Datblygiad	**455**	821
Costau gweithredu eraill	**4,943**	4,850
Cyfanswm	**915,124**	868,837

3.4 Colledion, taliadau arbennig a dyledion na ellir eu hadfer: taliadau i gostau gweithredu

Cynnydd/(lleihad) mewn darpariaeth ar gyfer taliadau'r dyfodol:	2016-17 £'000	2015-16 £'000
Esgeulustod Clinigol	**26,052**	1,358
Anaf personol	**292**	489
Holl golledion eraill a thaliadau arbennig	**271**	515
Ffioedd cyfreithiol amddiffyn a chostau gweinyddol eraill	**782**	1,288
Cynnydd/(lleihad) gros mewn darpariaeth ar gyfer taliadau'r dyfodol	**27,397**	**3,650**
Cyfraniad at Gronfa Risg Cymru	**0**	0
Premiwm ar gyfer trefniadau yswiriant eraill	**0**	596
Dyledion na ellir eu hadfer	**175**	123
Tynnu: incwm a dderbyniwyd/taliadwy gan Gronfa Risg Cymru	**(24,997)**	(656)
Cyfanswm	**2,575**	**3,713**

Mae costau anafiadau personol yn cynnwys £ 30,000 (2015-16 £687,000) o ran buddion anafiadau parhaol.
Mae taliadau costau llawdriniaethau yn cynnwys £435,000 (2015-16 £200,000) o ran 127 achos sy'n codi o wneud yn iawn yn glinigol (2015-16 89 achos), wedi eu rhannu rhwng iawndal o £308,000 a chostiau amddiffyn o £127,000 (2015-16 iawndal o £151,000 a chostau amddiffyn o £49,000).

4. Incwm Amrywiol

	2016-17 £'000	2015-16 £'000
Byrddau Iechyd Lleol	**5,556**	6,467
PGIAC/PGAB	**38,262**	37,390
Ymddiriedolaethau GIG	**5,603**	5,037
Cyrff GIG Lloegr eraill	**12,673**	13,847
Ymddiriedolaethau Sylfaen	**1,278**	997
Awdurdodau Lleol	**11,020**	11,674
Llywodraeth Cymru	**3,156**	796
Heb fod yn GIG:		
Incwm ffioedd presgripsiwn	**49**	50
Incwm ffioedd deintyddol	**9,961**	9,382
Incwm cleifion preifat	**1,269**	1,393
Cleifion tramor (anghytbwys)	**495**	300
Cynllun Adfer Costau Anafiadau (ICR)	**1,635**	1,679
Incwm arall o weithgareddau	**4,323**	3,286
Gwasanaethau cludiant cleifion	**0**	0
Addysg, hyfforddiant ac ymchwil	**19,841**	19,875
Elusennol a chyfraniadau eraill at wariant	**1,279**	1,574
Derbyn asedau a gyfrannwyd	**3,750**	1,384
Derbyn asedau a roddwyd gan y Llywodraeth	**1,639**	385
Cynlluniau cynhyrchu incwm gofal heb fod i gleifion	**440**	378
PCGC	**0**	3
Incwm gohiriedig a ryddhawyd i gyllid	**79**	63
Incwm rhent amodol o lesoedd cyllid	**0**	0
Incwm rhent o lesoedd gweithredol	**983**	505
Incwm arall:		
Darpariaeth gwasanaethau golchdy, patholeg a chyflogres	**175**	171
Ffioedd llety ac arlwyo	**3,016**	2,916
Ffioedd marwdy	**328**	405
Taliadau staff am ddefnyddio ceir	**970**	1,080
Uned fusnes	**0**	0
Arall	**3,247**	2,822
Cyfanswm	**131,027**	123,859

Mae incwm Cynllun Adfer Costau Anafiadau (ICR) fel arfer yn destun i ddarpariaeth am amhariad o 22.94 % i adlewyrchu cyfraddau disgwyliedig o gasgliad fel mae'r Uned Adfer Iawndal yn ei gynghori. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cynyddu darpariaeth y gyfradd amhariad ymhellach ar achosion oed penodol i adlewyrchu'r risg pellach o ddiffyg adfer posibl.

Mae ffigwr incwm amrywiol ymddiriedolaethau GIG o £5,603,000 yn cynnwys £4,841,000 gan ymddiriedolaethau GIG yng Ngymru a £762,000 gan ymddiriedolaethau GIG yn Lloegr.

"Incwm arall": mae 'arall' yn cynnwys costau ail-godi i staff o £1,289,000 heb eu dyrannu i gategoriau eraill.

5. Buddion gweithwyr a niferoedd staff

5.1 Costau gweithwyr

	Staff Parhaol	Staff ar secondiad mewnol	Staff asiantaeth	Cyfanswm	2015-16
	£000	£000	£000	£000	£000
Cyflogau ac enillion	524,331	2,655	45,004	**571,990**	547,026
Costau nawdd cymdeithasol	49,037	0	0	**49,037**	36,929
Cyfraniadau'r cyflogwr at Gynllun Pensiwn y GIG	62,610	0	0	**62,610**	61,332
Costau pensiwn eraill	50	0	2	**52**	0
Buddion eraill i weithwyr	0	0	0	**0**	0
Buddion terfyniad	53	0	0	**53**	180
Cyfanswm	636,081	2,655	45,006	**683,742**	645,467
Codwyd ar gyfalaf				**1,345**	1,057
Codwyd ar refeniw				**682,397**	644,410
				683,742	645,467
Symudiad net mewn buddion gweithwyr a gronwyd (gwyliau staff a gronwyd na gymerwyd wedi'i gynnwy				144	(148)

5.2 Nifer cyfartaledd o weithwyr

	Staff Parhaol	Staff ar secondiad mewnol	Staff asiantaeth	Cyfanswm	2015-16
	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer	Nifer
Gweinyddol, clercyddol ac aelodau Bwrdd	2,558	5	35	**2,598**	2,467
Meddygol a deintyddol	1,216	24	180	**1,420**	1,347
Nyrsio, bydwreigiaeth cofrestredig	4,783	1	148	**4,932**	4,936
Staff proffesiynol, gwyddonol a thechnegol	331	16	1	**348**	343
Gwasanaethau clinigol ychwanegol	3,144	0	14	**3,158**	3,064
Proffesiynau lechyd Cysylltiol	784	0	25	**809**	791
Gwyddonwyr Gofal lechyd	227	0	10	**237**	228
Yr Athro J Rycroft-Malone	Aelod Annibynnol a Chynrychiolydd Prifysgol	Gŵr yn weithiwr i'r Bwrdd Iechyd Cadeirydd Grŵp Gweithredu Strategaeth NICE Athro Gwyddorau Iechyd ac Ymchwil Weithredu - Prifysgol Bangor Pennaeth Ysgol Gwyddorau Gofal Iechyd ac arweinydd academaidd effaith - Prifysgol Bangor Yn rhan o nifer o grwpiau strategaeth genedlaethol a rhyngwladol, grwpiau cyllid a melin drafod Yn rhan o Fwrdd golygyddol Gwyddoniaeth Weithredu BioMed Central
Mr C Stradling	Aelod Annibynnol	Dirprwy Gadeirydd Democratiaeth a'r Comisiwn Ffiniau i Gymru Yn cadeirio pwyllgor archwilio a risg Democratiaeth a'r Comisiwn Ffiniau i Gymru Yn aelod o Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Mrs L Meadows	Aelod Annibynnol	Yn gweithio ym Mhrifysgol Bangor tan 30 Medi 2016
Mrs B Russell-Williams	Aelod Annibynnol	Prif Swyddog Gweithredol Cyngor Gwirfoddol Gwynedd a allai gontractio â'r Bwrdd Iechyd Gŵr yn Gadeirydd Cyngor Iechyd Cymunedol Gwynedd
Mr J Cunliffe	Aelod Annibynnol	Cyfarwyddwr Abernet Limited Gwraig yn un o weithwyr y Bwrdd Iechyd
Y Cyng C Carlisle	Aelod Annibynnol	Cynghorydd Sirol - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Hyrwyddwr Gofalwyr - Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy Yn aelod o Banel Cyd-fabwysiadu Conwy a Sir Ddinbych Llywodraethwr Ysgol Bryn Elian
Y Cyng P Edwards	Aelod Cyswllt a Chadeirydd y Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid	Yn aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
Mrs N Stubbins	Aelod Cyswllt a Chynrychiolydd Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol	Cyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Sir Ddinbych

Ni roddodd aelodau eraill y Bwrdd Iechyd ddatganiadau o ddiddordeb mewn partïon cysylltiedig yn ystod y cyfnod.

Roedd trafodion sylweddol rhwng y Bwrdd Iechyd a phartïon cysylltiedig a nodwyd uchod yn ystod 2016-17 fel a ganlyn (oni bai bod adroddiad eisoes o ran y rhain ar dudalen 49A):	Gwariant â pharti cysylltiedig £000	Incwm o barti cysylltiedig £000	Symiau sy'n ddyledus i barti cysylltiedig £000	Symiau sy'n ddyledus o'r parti cysylltiedig £000
Prifysgol Bangor	1,334	1,523	137	934
Meddygfa Bron Derw, Bangor	1,090	0	0	0
Prifysgol Caerdydd	124	658	1	80
Cartrefi Cymru Cyf	91	0	0	0
Coleg Cambria	16	4	4	1
Dolen Cymru	41	0	0	0
Meddygfa Plas Menai, Llanfairfechan	902	0	0	0
Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol	10	0	10	0
Royal Liverpool and Broadgreen University Hospitals NHS Trust	5,790	3	301	1
University Hospital of South Manchester NHS Foundation Trust	696	0	14	0

25. Asedau Trydydd Parti

Ar 31 Mawrth 2017, roedd y Bwrdd Iechyd yn dal £241,836 o arian parod yn y banc ac mewn llaw ar ran trydydd partïon (31 Mawrth 2016 £234,552) yn cynnwys:

	2016-17	2015-16
	£	£
Arian a ddelir ar ran cleifion	197,252	200,927
Adneuon ar gyfer llety preswyl staff	44,584	33,575
Adneuon ad-daladwy eraill	0	50
	241,836	234,552

Mae'r balansau hyn wedi'u heithrio rhag y ffigur Arian Parod a Symiau sy'n Gyfwerth ag Arian Parod yr adroddir arno yn Nodyn 21 y Cyfrifon hyn.

26. Prydlesau cyllid

26.1 Ymrwymiadau prydlesau cyllid (fel prydlesai)

Nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw ymrwymiadau prydles cyllid fel prydlesai.

Symiau sy'n daladwy o dan brydlesau cyllid:

Tir	**31 Mawrth 2017 £000**	31 Mawrth 2016 £000
Taliadau prydlesau gofynnol		
O fewn blwyddyn	**0**	0
Rhwng un a phum mlynedd	**0**	0
Ar ôl pum mlynedd	**0**	0
Llai taliadau cyllid sy'n cael eu dyrannu i gyfnodau yn y dyfodol	**0**	0
Llai taliadau prydlesau	**0**	0
Wedi'u cynnwys yn:		
Benthyciadau cyfredol	**0**	0
Benthyciadau anghyfredol	**0**	0
	0	0
Gwerth presennol taliadau prydlesau gofynnol		
O fewn blwyddyn	**0**	0
Rhwng un a phum mlynedd	**0**	0
Ar ôl pum mlynedd	**0**	0
Gwerth presennol taliadau prydlesau gofynnol	**0**	0
Wedi'u cynnwys yn:		
Benthyciadau cyfredol	**0**	0
Benthyciadau anghyfredol	**0**	0
	0	0

26.1 Ymrwymiadau prydlesau cyllid (fel prydlesai) (Parhad)

Symiau sy'n daladwy o dan prydlesau cyllid:

Adeiladau	**31 Mawrth 2017**	31 Mawrth 2016
Taliadau prydlesau gofynnol	**£000**	£000
O fewn blwyddyn	**0**	0
Rhwng un a phum mlynedd	**0**	0
Ar ôl pum mlynedd	**0**	0
Llai taliadau cyllid sy'n cael eu dyrannu i gyfnodau yn y dyfodol	**0**	0
Taliadau prydlesau gofynnol	**0**	0
Wedi'u cynnwys yn:		
Benthyciadau cyfredol	**0**	0
Benthyciadau anghyredol	**0**	0
	0	0
Gwerth presennol taliadau prydlesau gofynnol		
O fewn blwyddyn	**0**	0
Rhwng un a phum mlynedd	**0**	0
Ar ôl pum mlynedd	**0**	0
Gwerth presennnol taliadau prydlesau gofynnol	**0**	0
Wedi'u cynnwys yn:		
Benthyciadau cyfredol	**0**	0
Benthyciadau anghyfredol	**0**	0
	0	0

Arall	**31 Mawrth 2017**	31 Mawrth 2016
Taliadau prydlesau gofynnol	**£000**	£000
O fewn blwyddyn	**0**	0
Rhwng un a phum mlynedd	**0**	0
Ar ôl pum mlynedd	**0**	0
Llai taliadau cyllid sy'n cael eu dyrannu i gyfnodau yn y dyfodol	**0**	0
Taliadau prydlesau gofynnol	**0**	0
Wedi'u cynnwys yn:		
Benthyciadau cyfredol	**0**	0
Benthyciadau anghyfredol	**0**	0
	0	0
Gwerth presennol taliadau prydlesau gofynnol		
O fewn blwyddyn	**0**	0
Rhwng un a phum mlynedd	**0**	0
Ar ôl pum mlynedd	**0**	0
Gwerth presennol taliadau prydlesau gofynnol	**0**	0
Wedi'u cynnwys yn:		
Benthyciadau cyfredol	**0**	0
Benthyciadau anghyfredol	**0**	0
	0	0

26.2 Ymrwymiadau prydlesau cyllid (fel prydleswr)

Nid oes gan y Bwrdd Iechyd Lleol unrhyw brydlesau cyllid sy'n dderbyniadwy fel prydlesai.

Symiau sy'n dderbyniadwy o dan brydlesau cyllid:

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
Buddsoddiadau Gros mewn prydlesau	**£000**	£000
O fewn blwyddyn	**0**	0
Rhwng un a phum mlynedd	**0**	0
Ar ôl pum mlynedd	**0**	0
Llai taliadau cyllid sy'n cael eu dyrannu i gyfnodau yn y dyfodol	**0**	0
Taliadau prydlesau gofynnol	**0**	0
Wedi'u cynnwys yn:		
Benthyciadau cyfredol	**0**	0
Benthyciadau anghyfredol	**0**	0
	0	0

Gwerth presennol taliadau prydlesau gofynnol		
O fewn blwyddyn	**0**	0
Rhwng un a phum mlynedd	**0**	0
Ar ôl pum mlynedd	**0**	0
Gwerth presennol taliadau prydlesau gofynnol	**0**	0
Wedi'u cynnwys yn:		
Benthyciadau cyfredol	**0**	0
Benthyciadau anghyfredol	**0**	0
	0	0

27. Contractau Menterau Cyllid Preifat

27.1 Cynlluniau PFI oddi ar Ddatganiad o Sefyllfa Ariannol

Nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw gynllun PFI oddi ar Ddatganiad o Sefyllfa Ariannol.

Ymrwymiadau o dan gontractau PDI oddi ar Ddatganiad o Sefyllfa Ariannol	Contractau PFI oddi ar SoFP	Contractau PFI oddi ar SoFP
	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
	£000	£000
Cyfanswm taliadau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	**0**	0
Cyfanswm taliadau sy'n ddyledus rhwng un a phum mlynedd	**0**	0
Cyfanswm taliadau sy'n ddyledus o hynny allan	**0**	0
Cyfanswm taliadau yn y dyfodol mewn perthynas â chontractau PFI	**0**	0
Cyfanswm gwerth amcangyfrifedig o ran gwerth cyfalaf contractau PFI oddi ar Ddatganiad o Sefyllfa Ariannol	**0**	0

27.2 Cynlluniau PFI oddi ar Ddatganiad o Sefyllfa Ariannol

Gwnaeth Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych (sefydliad etifeddol y Bwrdd Iechyd) gontractio â Fresenius Medical Care i adeiladu ac i gyflenwi Uned Ddiabetig Arennol yn Ysbyty Glan Clwyd o dan drefniadau contractio PFI.

Er bod Fresenius yn parhau i fod â chyfrifoldebau diffiniedig o ran cynnal yr Uned, gan gynnwys nwyddau traul, mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am gyflenwi'r holl ofal clinigol a chostau cymorth eraill. Caiff yr Uned ei thrin fel un o asedau'r Bwrdd Iechyd ac mae wedi'i chynnwys yn Nodyn 11. Adeiladau, Peiriannau ac Offer.

Cyfanswm ymrwymiadau o ran contractau PFI ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol sy'n ddyledus:

	Elfen gyfalaf ar PFI SoFP	Llog priodoledig ar PFI SoFP	Taliadau gwasanaeth ar PFI SoFP
	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2017
	£000	£000	£000
Cyfanswm taliadau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	**50**	**40**	**315**
Cyfanswm taliadau sy'n ddyledus rhwng un a phum mlynedd	**218**	**143**	**1,383**
Cyfanswm taliadau sy'n ddyledus o hynny allan	**901**	**222**	**6,207**
Cyfanswm taliadau yn y dyfodol mewn perthynas â chontractau PFI	**1,169**	**405**	**7,905**

	Elfen gyfalaf ar PFI SoFP	Llog priodoledig ar PFI SoFP	Taliadau Gwasanaeth ar PFI SoFP
	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2016	31 Mawrth 2016
	£000	£000	£000
Cyfanswm taliadau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn	48	42	308
Cyfanswm taliadau sy'n ddyledus rhwng un a phum mlynedd	211	151	1,355
Cyfanswm taliadau sy'n ddyledus o hynny allan	957	255	6,680
Cyfanswm taliadau yn y dyfodol mewn perthynas â chontractau PFI	1,216	448	8,343
Cyfanswm gwerth presennol ymrwymiadau ar gyfer contractau PFI ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol	**7,183**		

27.3 Taliadau i wariant

	2016-17	2015-16
	£000	£000
Taliadau gwasanaeth o ran contractau PFI ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol (ac eithrio costau llo	303	296
Cyfanswm treuliau o ran contractau PFI oddi ar y Datganiad o Sefyllfa Ariannol	0	0
Cyfanswm tâl a godwyd yn ystod y flwyddyn i wariant mewn perthynas â chontractau PFI	303	296

Mae'r BILl yn ymrwymedig i'r taliadau blynyddol canlynol

	31 Mawrth 2017	31 Mawrth 2016
Dyddiad dod i ben y cynllun PFI:	£000	£000
Heb fod yn hwyrach na blwyddyn	0	0
Yn hwyrach na blwyddyn, heb fod yn hwyrach na phum mlynedd	0	0
Yn hwyrach na phum mlynedd	303	296
Cyfanswm	303	296

Bydd y taliadau blynyddol amcangyfrifedig ymhen blynyddoedd yn y dyfodol yn amrywio o'r rheiny y mae'r Bwrdd lechyd yn ymrwymedig i'w gwneud yn ystod y flwyddyn nesaf fesul symudiad yn y Mynegai Prisiau Manwerthu.

27.4 Nifer y contractau PFI

	Nifer contractau PFI ar SoFP	Nifer contractau PFI oddi ar SoFP
Nifer y contractau PFI	1	0
Nifer y contractau PFI sydd â chyfanswm ymrwymiad unigol > £500m	1	0

Contract PFI	Ar / Oddi ar y datganiad o sefyllfa ariannol
Nifer y contractau PFI sydd â chyfanswm ymrwymiad unigol > £500m	1

Contract PFI	
Uned Ddiabetig Arennol yn Ysbyty Glan Clwyd	On SOFP

27.5 Nid oes gan y BILl unrhyw Bartneriaethau Preifat Cyhoeddus

28. Cyllidebau Cyfun

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i dair cyllideb gyfun; un ar y cyd â Chyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a dwy â Chyngor Sir Ddinbych.

O dan y trefniadau hyn, a lywodraethir gan Ddeddf y GIG (Cymru) 2006, caiff cronfeydd eu cyfuno ar gyfer y gweithgareddau canlynol:
- Gwasanaeth Offer Cymunedol Gogledd-ddwyrain Cymru
- Gwasanaeth Offer Cymunedol Sir Ddinbych
- Gwasanaeth Gweithwyr Cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol Sir Ddinbych

Mae byrddau rheoli sy'n cynrychioli'r sefydliadau partner yn goruchwylio proses rheoli gweithredol pob un o'r cyllidebau cyfun.

Mae nodyn memorandwm i'r cyfrifon yn rhoi manylion am yr incwm a'r gwariant ar y cyd o ran pob un o'r trefniadau cyllideb gyfun. Mae gwybodaeth yn y nodyn memorandwm hwn yn amodol ar archwilio fel rhan o gyfrifon awdurdodau lleol.

Cronfa Gofal Canolraddol

Cafodd y Gronfa Gofal Canolraddol (ICF) ei sefydlu yn 2014 i ategu mentrau sy'n atal derbyn cleifion i'r ysbyty heb fod angen, derbyn cleifion yn amhriodol i ofal preswyl, ac oedi o ran rhyddhau cleifion o'r ysbyty. O 1 Ebrill 2017, caiff ei hail-frandio fel y Gronfa Gofal Integredig er mwyn adlewyrchu cwmpas ehangach yn well.

Mae Byrddau Partneriaeth Ranbarthol (RPBs) yn arwain ar gynllunio'r gronfa a'i defnyddio ochr yn ochr â gwasanaethau iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tai a'r trydydd sector annibynnol er mwyn sicrhau darpariaeth sy'n gwella canlyniadau gymaint â phosibl o ran defnyddio'r adnodd hwn. Mae'r dull cyflenwi hwn yn rhoi sicrwydd bod yr amcanion o ran defnyddio'r gronfa hon yn cael eu bodloni fel y'u hamlinellir yn arweiniad Llywodraeth Cymru. Mae'r Byrddau Partneriaeth Ranbarthol wedi sefydlu Byrddau Rhaglen yn ogystal er mwyn monitro canlyniadau perfformiad mesuradwy ac adenillion gan ddefnyddio canlyniadau wedi'u seilio ar fethodolegau atebolrwydd (canlyniadau). Mae Cyfarwyddwr Ardal y Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Grwpiau Arwain ICF/ISB hefyd ar lefel Economi Iechyd leol sy'n gysylltiedig â'r strwythur RPB hwn, er mwyn sicrhau bod y penderfyniadau, yr ymyriadau a'r buddsoddiadau'n cael eu cyflwyno ar lefel leol. Mae'r Byrddau Partneriaeth Ranbarthol hyn yn cynnwys cynrychiolaeth o faes Iechyd, Awdurdodau Lleol, Ambiwlans, Tân, Trydydd Sector i enwi ond ychydig.

Gwariant y Bwrdd Iechyd ar gyfer y flwyddyn oedd £11.4m sydd yn unol â chyllid a ddyrannwyd gan Lywodraeth Cymru.

29. Rheoli risg ariannol

Mae safon IFRS 7 dulliau adrodd ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i ddatgelu'r rôl y mae offerynnau ariannol wedi'i chael yn ystod cyfnod creu neu newid y risgiau y mae corff yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau.

Nid yw'r Bwrdd Iechyd yn agored i'r un lefel o risg ariannol y mae endidau busnes yn ei hwynebu. Hefyd, mae gan offerynnau ariannol rôl fwy cyfyngedig o lawer o ran creu neu newid risg a fyddai'n nodweddiadol o gwmnïau rhestredig, y mae'r safonau hyn yn berthnasol iddynt, yn bennaf.

Mae gan y Bwrdd Iechyd bwerau cyfyngedig i fuddsoddi a chaiff asedau ac atebolrwydd ariannol eu creu gan weithgareddau gweithredol o ddydd i ddydd yn hytrach na chael ei alw ei gyfrif i newid y risgiau y mae'r Bwrdd Iechyd yn eu hwynebu wrth ymgymryd â'i weithgareddau.

Risg ariannol
Sefydliad domestig yw'r Bwrdd Iechyd yn bennaf, ac mae'r rhan helaethaf o drafodion, asedau a rhwymedigaethau yn cael eu cyflawni yn y DU ac mewn Sterling. Nid oes gan y Bwrdd Iechyd unrhyw weithredoedd tramor ac felly dim ond y cysylltiad lleiaf ag amrywiadau cyfradd arian cyfredol sydd ganddo.

Risg cyfradd llog
Ni chaniateir i Fyrddau Iechyd fenthyca ac felly dim ond y cysylltiad lleiaf ag amrywiadau cyfradd llog sydd gan y Bwrdd Iechyd.

Risg credyd
Gan fod y rhan fwyaf o gyllid y Bwrdd Iechyd yn deillio o gronfeydd a roddir gan Lywodraeth Cymru, dim ond y cysylltiad lleiaf â risg credyd sydd gan y Bwrdd Iechyd.

Risg hylifedd
Mae gofyn i'r Bwrdd Iechyd weithredu yn unol â therfynau arian parod a bennir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y flwyddyn ariannol ac mae'n manteisio ar gronfeydd gan Lywodraeth Cymru wrth i'r gofyn godi. Felly, nid oes gan y Bwrdd Iechyd gysylltiad ag unrhyw risgiau hylifedd sylweddol.

30. Symudiadau o ran cyfalaf gweithio

	2016-17	2015-16
	£000	£000
(Cynnydd)/gostyngiad mewn rhestrau eiddo	(824)	(675)
(Cynnydd)/gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill - anghyfredol	(20,447)	15,735
(Cynnydd)/gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill - cyfredol	6,209	(12,100)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn masnach a symiau taladwy eraill - anghyfredol	(49)	(49)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn masnach a symiau taladwy eraill - cyfredol	9,132	22,604
Cyfanswm	(5,979)	25,515
Addasu symudiadau cronni o ran asedau sefydlog - credydwyr	(5,769)	4,945
Addasu symudiadau cronni o ran asedau sefydlog - dyledwyr	0	0
Addasiadau eraill	0	0
	(11,748)	30,460

31. Addasiadau eraill i lif arian parod

	2016-17	2015-16
	£000	£000
Dibrisio	28,575	28,083
Amorteiddio	521	517
(Elw)/Colled ar adeg Gwaredu	(370)	(9)
Amhariadau a childroadau	8,383	5,377
Rhyddau credydau gohiriedig PFI	0	0
Asedau rhoddedig a dderbyniwyd wedi'u credydu i refeniw ond nid arian parod	(3,750)	(1,384)
Asedau Grantiau'r Llywodraeth a dderbyniwyd wedi'u credydu i refeniw ond nid ari	(1,639)	(385)
Symudiadau nad ydynt yn arian parod yn ymwneud â darpariaethau	26,738	(1,343)
Cyfanswm	58,458	30,856

32. Digwyddiadau ar ôl y Cyfnod Adrodd

Nid yw'r Bwrdd Iechyd o'r farn bod unrhyw ofynion datgelu ychwanegol yn ymwneud â digwyddiadau yn dilyn diwedd y cyfnod adrodd.

33. Segmentau gweithredu

Mae safon cyfrifyddu IFRS 8 yn diffinio segment gweithredu fel cydran endid:
1. Sy'n ymwneud â gweithgareddau y gallai ennill refeniw ohonynt a mynd i gostau eraill (gan gynnwys yn fewnol);
2. Y caiff ei ganlyniadau gweithredu eu hadolygu'n rheolaidd gan y Prif Benderfynwr Gweithredu er mwyn gwneud penderfyniadau am ddyrannu adnoddau i'r segment ac yn asesu ei berfformiad;
3. Y mae gwybodaeth ar wahân amdano ar gael.

Mae Strwythur Rheoli Gweithredol y Bwrdd Iechyd yn adrodd ar ymagwedd uwch adrannol Ardal a Safle ac mae pob un o'r swyddogaethau unigol yn gyfrifol am eu gwasanaethau a'u perfformiad eu hunain o fewn strwythurau rheoli datganoledig. Ystyrir bod pump o swyddogaethau'r Bwrdd Iechyd yn cynrychioli segmentau gweithredu yn unol â'r safon cyfrifyddu ac adroddir ar eu perfformiad yng nghyfarfodydd misol y Bwrdd.

Mae gwybodaeth am uwch adrannau nad ydynt wedi mynd yn uwch na throthwyon adrodd wedi'u datgelu yn y tabl canlynol er mwyn rhoi manylion ychwanegol am weithgareddau'r Bwrdd Iechyd yn ystod y flwyddyn.

Mae ffigurau'r flwyddyn flaenorol wedi'u hailddatgan er mwyn adlewyrchu newidiadau i gyfrifoldeb ac adrodd o ran cyllidebau yn ystod y flwyddyn ac i gynorthwyo o ran cymariaethau blwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae Incwm Darparwyr yr adroddir arno am y tro cyntaf yn 2016-17 yn ymwneud â ffrydiau incwm a gafodd eu cynnwys yn flaenorol mewn uwch adrannol penodol yn y Bwrdd Iechyd.

Timau Ardal - Costau Gweithredu Ilai Incwm Amrywiol	**2016-17** **£'000**	**2015-16 Ailddatganwyd** **£'000**
Timau Ardal	561,498	541,679
Contractau Comisiynwyr	175,524	167,644
Cyfanswm Timau Ardal	**737,022**	**709,323**
Gofal Eilaidd - Costau Gweithredu Ilai Incwm Amrywiol		
Gofal Eilaidd - Gwasanaethau Ysbyty Dosbarth	299,554	276,992
Gwasanaethau Ysbyty Gogledd Cymru	92,292	90,363
Gwasanaethau Merched	32,954	32,209
Incwm Darparwyr	(8,171)	0
Cyfanswm Gofal Eilaidd	**416,629**	**399,564**
Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	**112,350**	**100,272**
Swyddogaethau Corfforaethol a Gwariant Arall	**110,003**	**110,125**
Dibrisio, Amhariadau a Chostau Cyllid	**37,520**	**34,020**
Incwm Cyfalaf a roddwyd yn Rhodd/Grant	**(5,389)**	(1,769)
(Elw)/Colled ar adeg gwaredu asedau cyfalaf	**(370)**	**(9)**
Is-gyfanswm Costau Gweithredu	**1,407,765**	**1,351,526**
Terfyn Adnoddau Refeniw	**1,377,981**	**1,332,001**
Tanwariant/(gor) wariant gyferbyn â Therfyn Adnoddau Refeniw	**(29,784)**	**(19,525)**

34. Gwybodaeth Arall

Mesurau Arbennig

Penderfynodd Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru i osod Mesurau Arbennig ar y Bwrdd Iechyd ar 8 Mehefin 2015. Fel rhan o'r Mesurau Arbennig, mae'r Gweinidog wedi penodi tîm i roi cymorth o ran gwella yn y meysydd allweddol canlynol:

- Llywodraethu ac Arwain
- Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Gwasanaethau Mamolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd
- Gwasanaethau Meddygon Teulu a Gofal Cychwynnol

Ar 21 Hydref 2015, cadarnhaodd Llywodraeth Cymru y byddai'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod yn destun Mesurau Arbennig a châi cynnydd a cherrig milltir eu hadolygu bob chwe mis. Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi fframwaith i ategu at welliant yn y meysydd hyn sydd wedi peri pryder ers tro ac i helpu i ddatblygu Cynllun Integredig yn y Tymor Canolig.

Ansicrwydd ynghylch Cost Gofal Iechyd Parhaus

Mae atebolrwydd o ran costau gofal iechyd parhaus yn dal i fod yn fater ariannol sylweddol i'r Bwrdd Iechyd. Gwnaeth y terfyn amser 31 Gorffennaf 2014 i gyflwyno unrhyw hawliadau am gostau gofal iechyd parhaus yn dyddio'n ôl i 1 Ebrill 2003 arwain at gynnydd mawr yn nifer yr hawliadau a gofrestrwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Mae BILl Prifysgol Betsi Cadwaladr yn gyfrifol am gostau ar ôl 1 Ebrill 2003 ac mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y symiau canlynol yn ymwneud â'r costau gofal iechyd parhaus ansicr hynny:

Mae nodyn 17 yn amlinellu'r ddarpariaeth £2.115 miliwn a wnaed ar gyfer costau gofal parhaus tebygol yn ymwneud ag 84 o hawliadau a ddaeth i law;

Mae nodyn 18.1 yn amlinellu'r rhwymedigaeth wrth gefn o £3.254 miliwn ar gyfer costau gofal parhaus posibl yn ymwneud â 129 o hawliadau a ddaeth i law;

Fodd bynnag, yn ogystal, mae gan y BILl 171 o hawliadau eraill, a ddaeth i law erbyn y terfyn amser 31 Gorffennaf 2014, y mae'r broses asesu ar eu cyfer yn dal i fod yn anghyflawn. Mae'r broses asesu'n hynod gymhleth, mae'n cynnwys timau amlddisgyblaethol ac am y rhesymau hynny, gall gymryd misoedd lawer. Ar hyn o bryd, nid oes gan y BILl mo'r wybodaeth i farnu llwyddiant tebygol yr hawliadau hyn neu fel arall, ond gallent arwain at gostau ychwanegol sylweddol i'r BILl, nad oes modd eu meintoli ar hyn o bryd.

Cyfanswm yr hawliadau a dderbyniwyd ar ôl 31 Gorffennaf 2014 yw 100 ac ar hyn o bryd, nid oes gan y BILl mo'r wybodaeth i farnu llwyddiant tebygol yr hawliadau hyn neu fel arall. Fodd bynnag, gallent arwain at gostau ychwanegol sylweddol i'r BILl, nad oes modd eu meintoli ar hyn o bryd.

Mae Bwrdd Iechyd Addysgu Powys yn anelu at gwblhau'r holl hawliadau a ddaeth i law erbyn 31 Gorffennaf 2014 erbyn diwedd Mehefin 2018.

Dyfarniad y Goruchaf Lys

Mae Byrddau Iechyd yng Nghymru (a chyrff cyfatebol ar draws y DU) yn aros ar hyn o bryd i'r Goruchaf Lys roi ei ddyfarniad o ran cyfrifoldeb costau nyrsys sy'n rhoi gofal mewn cartrefi gofal. Ar hyn o bryd, mae'r Bwrdd Iechyd yn talu am yr hyn y mae'n ystyried i fod yn gostau "gofal nyrsio" priodol yn unol â deddfwriaeth, ond, mae'r Goruchaf Lys yn canolbwyntio ar honiad yr awdurdod lleol y dylai "gofal nyrsio" gael ei ddiffinio'n ehangach nag ydyw ar hyn o bryd. Nid ydym mewn sefyllfa ar hyn o bryd i bennu canlyniad tebygol y dyfarniad hwn nac unrhyw effaith ariannol bosibl.

Nodyn Memorandwm - Nodyn 28 - Cyllidebau Cyfun

Cyfrifon Memorandwm Gwasanaeth Offer Cymunedol Gogledd-ddwyrain Cymru 2016/17
Caiff Cronfa Gogledd-ddwyrain Cymru ei chynnal gan Gyngor Sir y Fflint a dechreuodd y bartneriaeth ffurfiol ar 8 Gorffennaf 2009. Mae memorandwm cyfrif wedi'i lunio gan Gyngor Sir y Fflint, fel y'i dangosir isod:

	2016/17	2015/16
Cyfraniadau Cyllideb Gyfun	**£ 000**	**£ 000**
Cyngor Sir y Fflint	(288)	(319)
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	(275)	(269)
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	(397)	(393)
Arall	(140)	(204)
Cyfanswm cyfraniadau cyllideb gyfun ar gyfer y flwyddyn	**(1,100)**	**(1,185)**
Gwariant		
Prynu Offer	539	626
Gwariant Gweithredu	495	504
Gwariant nad yw'n ymwneud â Gweithredu	0	0
Cyfanswm Gwariant ar gyfer y flwyddyn	**1,034**	**1,130**
(Gweddill)/Diffyg Net ar y Gyllideb Gyfun ar gyfer y Flwyddyn	**(66)**	**(55)**

Cyfrifon Memorandwm Gwasanaethau Offer Cymunedol Sir Ddinbych 2016/17
Caiff Cronfa Sir Ddinbych ei chynnal gan Gyngor Sir Ddinbych. Dechreuodd y cytundeb partneriaeth cychwynnol o dair blynedd ar 1 Ebrill 2009 a daeth i ben ar 31 Mawrth 2012. Dechreuodd yr ail gytundeb partneriaeth ar 1 Ebrill 2012 ac roedd yn weithredol tan 31 Mawrth 2015. O 2015-16 ymlaen, penderfynwyd dychwelyd at gytundebau blwyddyn. Mae memorandwm cyfrif wedi'i lunio gan Gyngor Sir Ddinbych ac fe'i dangosir isod:

	2016/17	2015/16
Cyfraniadau cyllideb gyfun	**£ 000**	**£ 000**
Cyngor Sir Ddinbych	(220)	(211)
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	(138)	(130)
Arall - HEC / CHC / Gofal Canolraddol	(136)	(199)
Cyfanswm cyfraniadau'r Gyllideb Gyfun ar gyfer y flwyddyn	**(494)**	**(540)**
Gwariant		
Prynu offer	149	173
Gwariant gweithredu	352	338
Cyfanswm Gwariant ar gyfer y flwyddyn	**501**	**511**
(Gweddill)/Diffyg Net ar y Gyllideb Gyfun ar gyfer y Flwyddyn	**7**	**(29)**
(Gweddill)/Diffyg Cronnus net ar y Gyllideb Gyfun	**(38)**	**(45)**

Nodyn Memorandwm - Nodyn 28 - Cyllidebau Cyfun

Gwasanaeth Gweithwyr Cefnogi Iechyd a Gofal Cymdeithasol – Cyfrifon Memorandwm 2016/17
Caiff cronfa Sir Ddinbych ei chynnal gan Gyngor Sir Ddinbych. Dechreuodd y cytundeb partneriaeth cychwynnol a'r un cyfredol o bum mlynedd ar 1 Ebrill 2013 ac mae'n weithredol tan 1 Mawrth 2018. Mae memorandwm cyfrif wedi'i lunio gan Gyngor Sir Ddinbych ac fe'i dangosir isod:

	2016/17	2015/16
Cyngor Sir Ddinbych	**£ 000**	**£ 000**
Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Betsi Cadwaladr	(50)	(50)
Dyraniad Grant ICF	(92)	(50)
Dyraniad Grant ICF - o lithriant	(33)	(64)
Cyfanswm cyfraniadau'r Gyllideb Gyfun ar gyfer y flwyddyn	0	(7)
	(175)	**(171)**
Gwariant		
Treuliau Gweithwyr	163	151
Gwariant Gweithredu Arall	10	19
Cyfanswm Gwariant ar gyfer y flwyddyn	**173**	**170**
(Gweddill) /Diffyg Net ar y Gyllideb Gyfun ar gyfer y Flwyddyn	**(2)**	**(1)**
(Gweddill)/Diffyg net cronnus ar y Gyllideb Gyfun	**(47)**	**(45)**

CYFARWYDDYD CYFRIFON Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL YNG NGHYMRU A RODDWYD GAN WEINIDOGION CYMRU YN UNOL AG ATODLEN 9 ADRAN 178 PARAGRAFF 3(1) DEDDF Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL 2006 (P.42) AC Â CHYMERADWYAETH Y TRYSORDY

BYRDDAU IECHYD LLEOL

1. Mae Gweinidogion Cymru yn cyfarwyddo y caiff cyfrif ei baratoi ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 a blynyddoedd ariannol dilynol mewn perthynas â'r Byrddau Iechyd Lleol (BILl)1, ar y ffurf a nodir ym mharagraffau [2] i [7] isod.

SAIL PARATOI

2. Bydd cyfrif y BILl yn cydymffurfio â'r canlynol:

(a) arweiniad cyfrifyddu Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth (FReM), sydd mewn grym ar gyfer y flwyddyn ariannol y caiff y cyfrifon eu paratoi ar ei chyfer, ac wedi'i gymhwyso gan Lywodraeth Cymru a manylir arno yn Llawlyfr Cyfrifon BILl GIG Cymru;

(b) unrhyw arweiniad penodol arall neu ddatgeliadau sydd eu hangen gan Lywodraeth Cymru.

FFURF A CHYNNWYS

3. Bydd cyfrif y BILl ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 a blynyddoedd dilynol yn cynnwys datganiad o wariant net cynhwysfawr, datganiad o sefyllfa ariannol, datganiad o lifoedd arian a datganiad o newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr cyn belled ag y bo angen y datganiadau hyn gan FReM a'u cymhwyso gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys nodiadau sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau dealltwriaeth briodol am y cyfrifon.

4. Ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2011 a blynyddoedd dilynol, bydd cyfrif BILl yn rhoi trosolwg gwir a theg o'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ariannol a chostau gweithredu, newidiadau i ecwiti trethdalwyr a llifoedd arian yn ystod y flwyddyn.

5. Caiff y cyfrif ei lofnodi a'i ddyddio gan Brif Weithredwr y BILl.

AMRYWIOL

6. Caiff y cyfarwyddyd ei atgynhyrchu fel atodiad i'r cyfrifon cyhoeddedig.

7. Bydd y nodiadau i'r cyfrifon yn cynnwys, ymysg pethau eraill, fanylion am y polisïau cyfrifyddu a fabwysiadwyd.

Llofnodwyd ag awdurdod Gweinidogion Cymru

Llofnodwyd: Chris Hurst Dyddiedig :

1. Gweler rheoliad 3 2009 Rhif 1559 (C.154); GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU; Gorchymyn y Byrddau Iechyd Lleol (Trosglwyddo Staff, Eiddo, Hawliau ac Atebolrwydd) (Cymru) 2009

ATODIAD – Datganiad Llywodraethu Blynyddol

1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn yn ymdrin â chyfnod o her fawr a chryn welliannau ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ('y Bwrdd Iechyd'). Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i fod dan Fesurau Arbennig, wedi i'r Gweinidog dderbyn cyngor swyddogion Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ym Mehefin 2015, ac yna cyhoeddiad y Dirprwy Weinidog yn Hydref 2015 byddai'r Mesurau Arbennig yn parhau am ddwy flynedd arall. Cyhoeddodd Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru adroddiad yn Chwefror 2016, yn nodi bod mwy o waith i'w wneud gan y Bwrdd Iechyd i wneud ei drefniadau llywodraethu a rheoli yn hollol addas i bwrpas.

1.2 Yn 2016/17, torrodd y Bwrdd Iechyd ei ddyletswydd statudol i gynhyrchu Cynllun Tymor Canolig Integredig (IMTP) ac ers Mawrth 2016 mae wedi bod yn gweithio yn ôl Cynllun Diffyg Ariannol Interim, ac wedi torri ei ddyletswydd statudol i gyflawni gweddill ariannol dros y cyfnod 3 blynedd sy'n dod i ben 31 03 17.

1.3 Erbyn diwedd cyfnod adrodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2016/17 hwn, roedd y Bwrdd Iechyd yn dechrau dangos cynnydd wrth fynd i'r afael â'r Fframwaith Gwella Mesurau Arbennig a gyhoeddwyd yn Ionawr 2016 - gan wneud gwelliannau yn y meysydd o bryder gan weithio tuag at well sefydlogrwydd drwy benodiadau i swyddi arweiniol allweddol. Fodd bynnag, mae'n parhau i fod yn amlwg yn fy marn i fod mwy i'w wneud.

1.4 Yn Ebrill 2016, daeth y Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) i rym, gyda goblygiadau mawr ynghlwm i'r Bwrdd Iechyd a'r ffordd mae'n ymgymryd â'i fusnes. Fel rhan o weithrediad gofynion y Bwrdd Iechyd o'r Ddeddf, aliniwyd nodau strategol y Bwrdd i'r 7 nod llesiant, ac mae'r rhain wedi'u mabwysiadu fel amcanion lles ein sefydliad. Ymgymerwyd â phedwar asesiad lles drwy ein gwaith ar y cyd ar y Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus, a bydd y darganfyddiadau o'r asesiadau hyn yn ein helpu i fireinio'r amcanion lles. Mae datblygiad cynlluniau lles ar y gweill a byddant yn rhedeg ar y cyd â datblygiad y CITC. Bydd y rhaglen waith hon a'r symudiad diwylliannol y bydd yn hawlio yn dasg arwyddocaol a fydd yn golygu set ei hunan o heriau. Gellir cael gwybodaeth bellach drwy http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/16_92%20External%20Partnership%20Governance.pdf , ar dudalen 2, eitem 17.44 drwy http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Agenda%20bundle%20Health%20Board%2016.2.17%20Public.pdf ac ar dudalen 1, eitem 17.62 drwy http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Agenda_bundle%5B1%5D%20Board%2016.3.17.pdf

1.5 Cynhwysir manylion pellach ynghylch yr heriau a wynebir gan y Bwrdd Iechyd yn ystod 2016/17 yn hwyrach yn y datganiad hwn.

2. Sgôp Cyfrifoldeb

2.1 Mae'r Bwrdd yn atebol, drwy'r Cadeirydd, i Ysgrifennydd Iechyd, Lles a Chwaraeon y Cabinet am ei Lywodraethu, Rheoli Risg a Rheoli a Rheolaeth Fewnol. Fel Swyddog Cyfrifol a Phrif Weithredwr y Bwrdd, fi sy'n gyfrifol am gynnal strwythurau llywodraethu priodol a gweithdrefnau yn ogystal â system gadarn o reolaeth fewnol sy'n cefnogi cyflawniad polisïau, nodau ac amcanion y sefydliad, wrth ddiogelu arian y cyhoedd ac asedau'r sefydliad yr wyf i'n bersonol gyfrifol amdanynt. Gwneir y rhain yn unol â'r cyfrifoldebau a neilltuwyd gan Swyddog Atebol GIG Cymru. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru fy statws Swyddog Atebol ym Mawrth 2016.

2.2 Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb hwn, rwyf i, ynghyd â'r Bwrdd, yn gyfrifol am roi trefniadau llywodraethu effeithiol yn eu lle ar gyfer BIPBC, gan hwyluso gweithredu gweithrediadau'r Bwrdd a rheoli risg yn effeithiol.

3. Gwybodaeth Gefndirol

3.1 Cafodd y Bwrdd Iechyd incwm refeniw o £1.3 biliwn ar gyfer 2016/17 ac roedd gweithlu o oddeutu 16,800 (14,000 cywerth â llawn amser).

3.2 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am wella iechyd a lles poblogaeth gogledd Cymru. Mae hyn yn cwmpasu rhwystro salwch yn ogystal â thrin salwch a darparu gwasanaethau gofal iechyd ardderchog.

3.3 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cychwynnol, cymuned, iechyd meddwl ac ysbytai llym i boblogaeth o tua 678,000 o bobl ar draws chwe sir Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam).

3.4 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gyfrifol am redeg tri phrif ysbyty (Ysbyty Gwynedd ym Mangor, Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan ac Ysbyty Maelor Wrecsam) ynghyd â rhwydwaith o ysbytai cymuned, canolfannau iechyd, clinigau, unedau iechyd meddwl a chanolfannau timau cymuned.

3.5 Mae'r Bwrdd Iechyd hefyd yn cydlynu gwaith 109 meddygfa Meddyg Teulu a gwasanaethau GIG a ddarperir gan ddeintyddion, optegwyr a fferyllwyr yng ngogledd Cymru.

3.6 Mae rheolaeth glinigol gwasanaethau yn cael eu darparu gan 3 Tîm Ardal, Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu ac Uwch Adran Gofal Eilaidd sengl, sy'n cynnwys 3 tîm safle, y cyfan yn derbyn cefnogaeth yr adrannau corfforedig.
3.7 Mae recriwtio ar gyfer uwch swyddi gweithredol nawr wedi'u cwblhau. Mae'r holl swyddi Aelodau'r Bwrdd nawr wedi'u llenwi. Gellir cael gwybodaeth bellach drwy *http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/40834*

4. Mesurau arbennig

4.1 Cyhoeddodd y Dirprwy Weinidog Iechyd ar y pryd, Fframwaith Gwella Mesurau Arbennig i'r Bwrdd Iechyd ar 29 Ionawr 2016, gan osod y cerrig milltir gwella disgwyliedig hyd at Dachwedd 2017, wedi'u rhannu yn dri cham, yn y meysydd canlynol sy'n parhau i fod yn y broses o gael eu cryfhau ymhellach:

- Arweinyddiaeth
- Llywodraethu
- Cynllunio strategol a gwasanaeth
- Ymgysylltu
- Iechyd Meddwl
- Gwasanaethau Mamolaeth
- Gofal Cychwynnol

4.2 Mae'r Fframwaith hefyd yn nodi'r meini prawf mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd eu cwrdd er mwyn derbyn ystyriaeth ar gyfer dad-esgyniad (dychwelyd i drefniadau arferol) yn y dyfodol. Mewn ymateb i'r Fframwaith Gwella, sefydlodd y Bwrdd Iechyd y Gweithgor Byrdymor Fframwaith Gwella Mesurau Arbennig i oruchwylio'r gwelliannau a drafftio log gweithredu a chynnydd. Mae'r log hwn, sydd hefyd yn cynnwys argymhellion y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus, yn disgrifio'r gweithredu a wnaed hyd yn hyn a gweithrediadau i'r dyfodol i gyflawni'r disgwyliadau a nodwyd yn y fframwaith.

4.3 Mae'r Bwrdd yn derbyn diweddariadau misol am Fesurau Arbennig http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/16_70.1%20Special%20Measures%20improvement%20framework.pdf
a chyfnod 1 (Tachwedd 2015 i Ebrill 2016) http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/16_91%20Special%20Measures%20Improvement%20Framework%20End%20Phase%201%20Report%20v1.0.pdf a chyfnod 2 (Mai 2016 - Tachwedd 2016) <http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Agenda_bundle%20Health%20Board%2017.11.16%20v2.0%20REVISED%20reduced%20file%20size.pdf> wedi'u cwblhau, a'r adroddiadau diwedd cyfnod wedi'u cyflwyno i'r Bwrdd a Llywodraeth Cymru. Cynhaliodd y Gweithgor Byrdymor ddiwrnod 'Gwraidd y Mater' sy'n golygu bod rhaid i Weithredwyr ac Uwch Reolwyr gyflwyno gwybodaeth ychwanegol ar gynnydd yn erbyn disgwyliadau Mesurau Arbennig a mynychu i roi cyflwyniad a chael eu dal yn atebol fel sy'n briodol. Craffodd y Gweithgor Byrdymor y dystiolaeth a gyflwynwyd yn fanwl bwydwyd hyn i adroddiad diwedd Cyfnod 2. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Bwrdd hefyd wedi ymgymryd â Rhaglen Datblygiad Bwrdd cynhwysfawr, fel rhan o'r Mesurau Arbennig (gweler adran 12 yn hwyrach yn y ddogfen hon).

4.4 Rwyf i yn adrodd am gynnydd yn erbyn disgwyliadau'r Fframwaith Gwella ym mhob cyfarfod y Bwrdd misol. Mae'r Bwrdd Iechyd yn ymroddedig i gyflawni'r trawsnewid angenrheidiol.

4.5 Mae rhaglen o waith i gryfhau trefniadau llywodraethu yn barhaus er mwyn fy nghynorthwyol yn fy swyddogaeth fel Swyddog Atebol, ac i gyfrannu at welliannau dan Fesurau Arbennig. Er enghraifft, ymgymerwyd ag adolygiad sylfaenol o Amodau Gorchwyl y Tîm Gweithredol (TG) a'r Grŵp Rheolaeth Gweithredol (GRhG) yn ystod y flwyddyn i gryfhau'r prosesau a strwythurau llywodraethu cyffredinol.
mae gwybodaeth bellach am gryfhau llywodraethu ar gael drwy *http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/16_40.2%20Strengthening%20Governance.pdf*

4.6 Mae gweithrediadau'n sy'n ymwneud a chyfnod 3 (Rhagfyr 2016 - Tachwedd 2017) yn cael eu gwthio ymlaen, hefyd, parhaodd gweithrediadau a gwblhawyd o gyfnodau blaenorol i gael eu monitro er mwyn sicrhau gwelliannau cynaliadwy. Roedd canlyniad trydydd Cyd-adolygiad AGIC/SAC yn ddisgwyliedig ar amser ysgrifennu, fodd bynnag, derbyniais ohebiaeth gan Lywodraeth Cymru ar 12 04 17 yn nodi bod cynnydd wedi'i wneud o ran trefniadau llywodraethu, effeithiolrwydd Bwrdd, ymgysylltiad staff a'r cyhoedd, gwasanaethau mamolaeth a gwasanaethau MT y tu allan i oriau. Nodwyd hefyd bod gwaith pellach i'w wneud ar yr heriau mewn iechyd meddwl, pryder ynghylch trin a gwersi a ddysgwyd, cynllunio gwasanaeth a datblygu perthnasau gwaith cryfach gyda phartneriaid allweddol.

5. Sefyllfa Ariannol

5.1 Cymeradwyodd y Bwrdd gyllideb 2016/17 sy'n cynnwys diffyg o £30m fel tybiaeth cynllunio ar 30.3.16. Yn ystod y flwyddyn, gorwariodd y Bwrdd Iechyd yn erbyn ei Gyfyngiad Adnodd Refeniw o £29.8, gan arwain at orwariant cronnus o £75.9m dros y cyfnod tair blynedd adennill costau statudol a ddaeth i ben 31.3.17.

5.2 O ganlyniad i Fesurau Arbennig Llywodraeth Cymru, derbyniodd y Bwrdd Iechyd gefnogaeth ariannol ychwanegol o £4.8m i gefnogi'r broses o fynd i'r afael â'r rhesymau gwaelodol dros Fesurau Arbennig a goblygiadau ariannol y Fframwaith Wella.

5.3 Mae'r problemau sy'n wynebu'r Bwrdd Iechyd wedi cronni dros dymor hir; a bydd y gwelliannau angenrheidiol yn cymryd amser yn yr un modd. Bydd gweithredu ymagwedd ddisgybledig i gynllunio a chyflawni gwelliannau cyson yn y tymor hir yn bwysig, tra'n parhau i ganolbwyntio ar brofiadau cleifion drwy ddarparu gwasanaethau diogel o ansawdd uchel.

5.4 Cefnogodd parhad ymagwedd y Swyddfa Rheoli'r Rhaglen (SRhRh) (a gyflwynwyd yn hwyr yn 2014/15 i gefnogi cynlluniau newid gwasanaeth a gynlluniwyd i wella cynhyrchaeth a gwneud arbedion pan yn briodol, tra'n sicrhau gofal cleifion o ansawdd dda) y Bwrdd i gyflawni arbedion o £33.5m yn 2016/17. O'r arbedion hyn, roedd £19,178 yn gylchol a £14,364 yn anghylchol.

5.5 Bydd yr ymagwedd SRhRh hon yn cael ei datblygu ymhellach yn ystod 2017/18 i ddarparu ymagwedd ddisgybledig i reoli newid, a gefnogir gan feddalwedd newydd. Bydd y broses recriwtio am Gyfarwyddwr Trawsnewid parhaol yn dod i ben, a bydd y Cyfarwyddwr hwn yn gyfrifol am sicrhau datblygiad effeithiol a gweithrediad rhaglen drawsnewid y Bwrdd Iechyd, gan reoli'r SRhRh a'r adnoddau gwella gwasanaeth.

5.6 Ym Mawrth 2017, cymeradwywyd Cynllun Ariannol Interim gan y Bwrdd ar gyfer 2017/18 a nododd ddiffyg o £26m ar ôl cyflawni arbedion o £35.4m. Bydd angen canolbwyntio ar sefydlogi'r sefyllfa ariannol a chyflawni taflwybr gwella dros gyfnod hirach i fynd i'r afael â'r diffyg strwythurol, fel rhan o ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Blynyddol ac yn y pen draw Cynllun Integredig Tymor Canolig.

6. Cynllun Integredig Tymor Canolig (CITC)

6.1 Mewn toriad yn ei ddyletswydd statudol, nid yw'r Bwrdd Iechyd hyd yn hyn â CITC wedi'i gymeradwyo, ond mae'n gweithio i ddatblygu un ar gyfer ei gymeradwy gan Lywodraeth Cymru erbyn Mawrth 2018. Ar gyfer 2016/17, cytunwyd ar Gynllun Gweithredu Blynyddol (CGB), ac arnodwyd yr ymagwedd hon gan Lywodraeth Cymru. Mae'r CGB yn nodi'r 11 cyflawniad allweddol i'w gwella o'r blaenoriaethau cenedlaethol o aros yn iach, gofal amserol, gofal unigol, gofal diogel, gofal effeithiol, gofal urddasol a staff ac adnoddau. Y nod oedd sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn gallu cyflawni gwasanaethau diogel a chynaliadwy i boblogaeth gogledd Cymru a mynd i'r afael â gwella iechyd a gwasanaethau gofal iechyd.

6.2 O ran asesiad cyffredinol o gynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredu Blynyddol, er iddi fod yn flwyddyn heriol, gwnaed cynnydd cadarnhaol fodd bynnag o ran gofynion y Fframwaith Gwella Mesurau Arbennig, gan ganolbwyntio ar wasanaethau iechyd meddwl, mamolaeth, ymgysylltu â chymunedau a chyfrifoldebau'r staff a'r Bwrdd dros Lywodraethu. Gwnaed gwelliannau amlwg ym mhob un o'r meysydd hyn tra'n rheoli ein hadnoddau yn unol â'r gyllided a osodwyd am y flwyddyn. Rydym wedi ymateb yn gadarnhaol i heriau mewn gofal cychwynnol, gan weithredu modelau newydd megis Prestatyn Iach, tra'n cefnogi Practisau MT sy'n bodoli drwy rolau clinigol newydd a thimau cymunedol estynedig. Rydym ar y ffordd gywir o ran gofal a gynlluniwyd i gyflawni'r targedau amserau aros a gytunwyd gyda Llywodraeth Cymru gyda llwyddiant nodedig wrth gyflawni mwyafswm arhosiad ar gyfer profion diagnostig. Rydym wedi gwneud cynnydd mewn gofal heb ei drefnu ond mae'n parhau i fod yn fael heriol i'r Bwrdd ac mae angen gwelliant pellach yn erbyn perfformiad allweddol a mesurau ansawdd.

6.3 Ochr yn ochr â'r Cynllun Gweithredu Blynyddol ceir llinell amser glir ar gyfer datblygiad strategaeth gyffredinol y Bwrdd Iechyd a fydd yn darparu cyd-destun strategol ar gyfer y CITC. Fel rhan o ddatblygiad y cyfeiriad strategol a'r cynllun cyffredinol hwn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi datblygu tair dogfen Fframwaith Strategol i gwrdd â gofynion Cyfnod 2 y Mesurau Arbennig. Mae'r rhain yn cynnwys Gofal Cychwynnol a Gwasanaethau Cymunedol, Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Mamolaeth, Gwasanaethau Newydd-anedig a Phediatrig, ac fe'u hystyriwyd a'u cymeradwyo gan y Bwrdd Iechyd yn ei gyfarfod yn Nhachwedd 2016. Mae rhaglen helaeth o ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid wedi digwydd i danategu datblygiad y strategaeth a'r CITC.

Monitrir cynnydd y Cynllun a'r Strategaeth gan y Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth a'r Bwrdd yn rheolaidd. Gellir cael manylion pellach drwy *http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/16_90%20Annual%20Operating%20plan%20key%20deliverables.pdf*
ac eitem 16/209 drwy
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Agenda_bundle%20Health%20Board%2017.11.16%20v2.0%20REVISED%20reduced%20file%20size.pdf
ac eitem SPPH16/208
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Agenda%20bundle%20SPPH%2024.11.16%20Public%20V1.0.pdf

7. Bod yn barod ar gyfer Argyfwng
Mae'r Bwrdd Iechyd dan Gategori 1 fel ymatebydd o fewn y Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl (2004), ac o ganlyniad mae'n rhaid bod â threfniadau penodol yn eu lle. Mae'r canlynol yn eu lle gan y Bwrdd Iechyd:

- Cynllun Argyfwng Mawr a chynlluniau safle penodol sy'n tanategu neu gynlluniau penodol digwyddiad sy'n disgrifio ymateb y sefydliad i argyfwng a ddiffinnir fel digwyddiad mawr.
- strwythur llywodraethu sy'n darparu trosolwg a chydlyniad o'n trefniadau parodrwydd argyfwng. Mae'r strwythur hwn yn cysylltu i'r Fforwm Gwytnwch Lleol anstatudol, sy'n darparu cynllunio cydlynedig a pharodrwydd ar draws bob asiantaeth sy'n gysylltiedig â gweithgaredd diogelu sifil
- rhaglen o ymarfer a hyfforddi i gefnogi ein staff sydd â swyddogaethau penodol o fewn ein trefniadau argyfwng mawr sy'n darparu gorchmynion a galluoedd rheoli yn unol â Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, hyfforddiant pwrpasol sy'n ymwneud ag ymateb meddygol cyn ysbyty a chynefino ymwybyddiaeth generig.
- rhaglen waith fawr sy'n canolbwyntio ar ddatblygu system Rheoli Parhad Busnes ar gyfer gwasanaethau critigol, i alluogi adferiad o fewn cyfraddau amser yn dilyn amhariad i fusnes

Mae gwybodaeth bellach ar gael yma:
http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/44943

8. Gweithio mewn Partneriaeth

8.1 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sicrhau yn ystod y flwyddyn nesaf y bydd yn gweithio'n agos gyda sefydliadau partner, megis awdurdodau lleol a'r sector gwirfoddol, i drafod a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd, hyrwyddo ymgysylltiad cymunedol a defnyddio cyfleoedd i weithio ar y cyd. Mae'r sefydliadau partner yn cynnwys:

- Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru;
- Iechyd Cyhoeddus Cymru;
- Cyngor Iechyd Cymuned PBC;
- Awdurdodau Lleol (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam);
- Cyrff GIG cyfagos yng Nghymru a Lloegr;
- Cynghorau Gwirfoddol Cymuned;
- Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus/Byrddau Arweiniol Rhanbarthol;
- Grŵp Cydweithredol Gofal Iechyd y Canolbarth

Mae'r Bwrdd Iechyd ar hyn o bryd yn adolygu risgiau llywodraethu partneriaethau sy'n dod i'r amlwg, gyda'r bwriad o gynnwys y manylion yn y Fframwaith Risg a Sicrwydd Corfforaethol.

9. Swyddogaeth y Bwrdd

9.1 Swyddogaeth y Bwrdd yw:

- Ffurfio strategaeth ar gyfer y sefydliad o fewn polisïau a blaenoriaethau cyffredinol Llywodraeth Cymru, gan ymateb i anghenion iechyd y boblogaeth leol;
- Sicrhau atebolrwydd drwy ddal y sefydliad yn gyfrifol am gyflawni'r strategaeth a thrwy geisio sicrwydd bod y systemau rheoli yn gadarn a dibynadwy;
- Ffurfio diwylliant cadarnhaol ar gyfer y Bwrdd a'r sefydliad;
- Cynnal safonau llywodraethu corfforedig uchel.
- Sicrhau stiwardiaeth ariannol effeithiol.

9.2 Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel corff sy'n gwneud penderfyniadau corfforaethol. Mae'r Cyfarwyddwyr Gweithredol a'r Aelodau Annibynnol yn aelodau llawn a chyfartal sy'n rhannu cyfrifoldeb corfforaethol dros holl benderfyniadau'r Bwrdd. Cefnogir y Bwrdd gan Ysgrifennydd y Bwrdd ac sy'n gweithredu fel prif gynghorydd ar bob agwedd o lywodraethu o fewn y Bwrdd Iechyd.

9.3 Nodir pwrpas, gweledigaeth, nodau strategol, amcanion lles a gwerthoedd y Bwrdd Iechyd isod. Adlewyrchir y rhain o fewn y fframwaith gynllunio ac mae gwaith yn digwydd i'w mewnwelyo ar draws y sefydliad ar bob lefel:-

Ein Diben:

- Gwella iechyd a darparu gofal rhagorol.

Ein Gweledigaeth

- Byddwn yn gwella iechyd y boblogaeth, gyda phwyslais penodol ar y mwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.
- Gwnawn hyn drwy ddatblygu gwasanaeth iechyd integredig sy'n darparu gofal ardderchog a gyflawnir mewn partneriaeth gyda'r cyhoedd a sefydliadau statudol a thrydydd sector eraill.
- Byddwn yn datblygu ein gweithlu fel ei fod â'r sgiliau cywir ac yn gweithredu mewn diwylliant o ddysgu wedi'i drwytho mewn ymchwil.

Ein Nodau Strategol ac Amcanion Llesiant

- Gwella iechyd a llesiant i bawb a lleihau anghydraddoldeb iechyd.
- Gweithio mewn partneriaeth i gynllunio a chyflawni mwy o ofal yn agosach i'r cartref.
- Gwella diogelwch a chanlyniadau gofal i gyd fynd â goreuon y GIG.
- Parchu unigolion a chynnal urddas mewn gofal.
- Gwrando a dysgu o brofiadau unigolion.
- Cefnogi, hyfforddi a datblygu ein staff i ragori.
- Defnyddio adnoddau'n ddoeth, gan drawsnewid gwasanaethau drwy arloesed ac ymchwil.

9.4 Mae ein pwrpas, gweledigaeth a'n nodau strategol yn nodi amcanion tymor hir y Bwrdd. Mae gennym waith pellach i'w wneud i drosi'r rhain yn amcanion penodol ar gyfer gwella iechyd y boblogaeth a'r gwasanaethau iechyd y byddwn yn eu cynnwys yn ein cynlluniau wrth symud ymlaen.

Ein Gwerthoedd:

- Rhoi dinasyddion yn gyntaf
- Cydweithio
- Gwerthfawrogi a pharchu'r naill a'r llall
- Dysgu ac arloesi
- Cyfathrebu'n agored a gonest.

9.5 Bydd ein gwerthoedd yn arwain y ffordd bydd y Bwrdd yn gweithredu ei fusnes a'r ffordd bydd ein staff yn ymgysylltu gyda'r rhai sy'n defnyddio'n gwasanaethau a'r naill a'r llall i gyflawni ein nodau strategol.

10. Cyfansoddiad y Bwrdd

10.1 Mae'r Bwrdd wedi'i gyfansoddi i gydymffurfio â'r Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009, a adlewyrchir yn ei Reolau Sefydlog: http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/standing%20orders%20v14.00%20approved%20by%20audit%20committee%20july%2015%20and%20board%20aug%2015%20%20excl%20schedule%202.1%20and%204.1%20no%20trac.pdf

10.2 Bydd y Bwrdd yn cyfarfod yn fisol ac mae'n cynnwys y Cadeirydd, deg aelod annibynnol (AA), pedwar aelod cysylltiol (daeth y Cyfarwyddwr Iechyd meddwl ac Anableddau Dysgu yn Aelod Cysylltiol ym Mehefin 2016), y Prif Weithredwr ac wyth cyfarwyddwr gweithredol. Mae Ysgrifennydd y Bwrdd a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforedig yn bresennol hefyd.

10.3 Yn ystod cyfnod adrodd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol hwn, mae'r Bwrdd wedi cyflawni sefydlogrwydd gwell yn dilyn nifer o benodiadau allweddol, gan gynnwys y Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol, Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth Gweithredol a'r Cyfarwyddwr Therapïau a Gwyddorau Iechyd Gweithredol parhaol. Dogfennir aelodaeth y Bwrdd yn Atodiad 1, ynghyd â gwybodaeth berthnasol, gan gynnwys swyddogaethau Pencampwr aelodau'r Bwrdd.

10.4 Gwnaed penodiadau cyhoeddus i'r Bwrdd hefyd yn y flwyddyn, gweler y manylion yn Atodiad 1.

11. Effeithiolrwydd a Safonau'r Bwrdd

11.1 Er mwyn gwella ei effeithiolrwydd a chwrdd â dyheadau i fod yn agored ac atebolrwydd, mae'r Bwrdd yn anelu i fod yn dryloyw ynghylch y penderfyniadau mae'n ei wneud a'r ffordd mae'n gweithredu. Mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd y Bwrdd a'r Pwyllgorau yn cael eu cynnal yn gyhoeddus.

11.2 Mae gan holl Aelodau'r Bwrdd gyfrifoldeb i gadw at egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan ac mae'n rhaid i Gyfarwyddwyr Gweithredol gadw at Gôd Ymddygiad y GIG (Rheolau Disgyblu a Safonau Ymddygiad).

11.3 Mae gofyn i Aelodau'r Bwrdd ddatgan unrhyw ddiddordebau ar ddechrau cyfarfodydd y Bwrdd a chwblhau ffurflen yn flynyddol. Mae'n ofynnol hefyd i Aelodau'r Bwrdd ddatgelu rhoddion a lletygarwch a dderbyniwyd neu a gynigiwyd, yn unol â chanllawiau a nodwyd. Cofnodir datganiadau ar y rhestr gorfforedig, sydd ar gael i'r cyhoedd ei gweld drwy Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd. Yn Nhachwedd 2016, cyflwynwyd Polisi Safonau Ymddygiad Busnes a system ddatgan electronig. https://bcu-ghi.cymru.nhs.uk/

11.4 Er budd llywodraethu, craffu a herio da, mae bob Pwyllgor y Bwrdd Iechyd cael eu cadeirio gan aelod annibynnol.

11.5 Adolygwyd a diweddarwyd cylch busnes blynyddol/cynllun gwaith y Bwrdd yn Chwefror 2017.
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Agenda%20bundle%20Health%20Board%2016.2.17%20Public.pdf

11.6 Fel y nodwyd yn flaenorol yn adran 4, rwyf i wedi derbyn gohebiaeth gan Lywodraeth Cymru, a nododd hyn bod cynnydd wedi'i wneud o ran effeithiolrwydd y Bwrdd. Roedd Asesiad Strwythuredig 2016 Swyddfa Archwilio Cymru hefyd yn nodi bod effeithiolrwydd y Bwrdd wedi gwella yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gyda'r Bwrdd yn dechrau ymddwyn fel tîm, gyda hunan-adlewyrchu, dysgu a gweithrediadau gwella yn digwydd:
https://www.wao.gov.uk/publication/betsi-cadwaladr-university-health-board-structured-assessment-2016

12. Datblygiad y Bwrdd

12.1 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i o leiaf diwrnod y mis dros y flwyddyn ddiwethaf i Ddatblygiad y Bwrdd, fel rhan o raglen mesurau arbennig dan arweiniad Mrs Ann Lloyd. Rhoddwyd hanner diwrnod bob yn ail fis hefyd ar gyfer briffiau'r Bwrdd i ddiweddaru aelodau am faterion strategol allweddol, gwasanaeth a hyfforddiant gorfodol. Mae'r testunau a gynhwyswyd fel rhan o Raglen Ddatblygiad y Bwrdd yn cynnwys effeithiolrwydd ac aeddfedrwydd y Bwrdd, cynllunio strategol, cynaladwyedd gwasanaeth, diwylliant sefydliadol, rheoli risg, materion gwasanaeth a materion gweithlu.

12.2 Gan adeiladu ar hyn, comisiynwyd ymgynghorydd allanol i ddarparu rhaglen Datblygiad Bwrdd 12 mis. Dechreuodd hyn ym Mawrth 2017 a bydd yn cynnwys testunau megis newid trawsnewidiol, gwaith partneriaeth a chynllunio strategol a gwasanaeth.

13. Trefniadau'r Bwrdd a Phwyllgorau

13.1 Mae strwythur pwyllgorau'r Bwrdd yn cynnwys saith pwyllgor a dau is-bwyllgor, sef

- Pwyllgor Archwilio
- Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac Amodau Gwasanaeth
- Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl gyda'i Is-bwyllgor Pŵer Rhyddhau Deddf Iechyd Meddwl
- Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (F&P)
- Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau (QSE)
- Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth (SPPH)
- Pwyllgor Cronfeydd Elusennol, gyda'i Is-bwyllgor Grŵp Cynghori Cronfeydd Elusennol.

13.2 Mae'r pwyllgorau ac is-bwyllgorau hyn yn ogystal â thri Grŵp Cynghori'r Bwrdd Iechyd a thri Cyd-bwyllgor, fel y nodir yn y diagram strwythur yn Ffigur 1 isod.

13.3 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi sefydlu Pwyllgor Grŵp Rheoli Busnes (CBMG) i oruchwylio cyfathrebu effeithiol rhwng ei bwyllgorau. Mae hyn yn osgoi dyblygiad a sicrhau bod yr holl fusnes priodol yn cael ei reoli'n effeithiol ac effeithlon drwy fframwaith llywodraethu, gan gwrdd â gofynion statudol ac ystyried arferion gorau sy'n amlygu.

13.4 Mae adrodd am Iechyd a Diogelwch ((I&D) wedi cael ei gryfhau yn y flwyddyn, gyda Phwyllgor I&D Strategol sy'n aeddfedu nawr yn adrodd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau. Gweler eitem QS16.123.1 drwy:
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Agenda%20bundle%20QSE%2013.9.16%20V1.0%20PUBLIC.pdf


13.5 Nododd Asesiad Strwythuredig Swyddfa Archwilio Cymru (SAC) bod effeithiolrwydd pwyllgorau wedi gwella yn ystod 2016 gyda thystiolaeth o well archwilio a herio. Wrth i'r strwythur pwyllgorau newydd a gyflwynwyd ym Mawrth 2016 aeddfedu, mae SAC wedi nodi gwell llifau a sicrwydd i'r Bwrdd o'i bwyllgorau a dywedwyd bod hyn, ynghyd â safonau a adolygwyd, moesau, adroddiadau sicrwydd, gwaith Datblygiad y Bwrdd, aelodau newydd y Bwrdd, a gwell ymddygiad yn dechrau adlewyrchu yn ansawdd y Bwrdd ac archwiliadau pwyllgorau.

13.6 Mae gan y Bwrdd Iechyd dri Grŵp Cynghori i'w gynorthwyo i berfformio ei ddyletswydd statudol i gymryd sylw o gynrychiolaethau o gymunedau mae'n gwasanaethu a rhanddeiliad allweddol eraill. Y tri grŵp yw: Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid (GCRh), Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol (FfGGIP) a'r Fforwm Partneriaeth Leol (FfPL). Mae dau o gadeiryddion y Grŵp Cynghori yn mynychu a chyfrannu at gyfarfodydd y pwyllgor fel a ganlyn:

- Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau - Cadeirydd FfGGIP
- Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth - Cadeirydd GCRh.

13.7 Darlunnir strwythur Pwyllgorau a Grwpiau Cynghori'r Bwrdd Iechyd isod yn Ffigur 1.

Ffigur 1 Strwythur Pwyllgorau a Grwpiau Cynghori'r Bwrdd Iechyd



13.8 Manylir ar aelodaeth Pwyllgorau/Is-bwyllgorau yn Atodiad 1.
Manylir ar bresenoldeb aelodau'r Bwrdd Iechyd yng Nghyfarfodydd y Bwrdd yn Atodiad 2.
Manylir ar gyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau a gynhelir drwy gydol y flwyddyn isod.

13.9 Cyfarfodydd y Bwrdd Iechyd a phwyllgorau a gynhaliwyd yn 2016/17:

Cyfarfod	**Dyddiad**													
Bwrdd Iechyd	21.4.16	9.5.16	23.6.16	21.7.16	18.8.16	22.9.16	20.10.16	17.11.16	15.12.16	19.1.17	16.2.17	16.3.17	6.9.16 Cyfarfod Blynydd ol yn unig	
Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau (QSE)	12.4.16	10.5.16	14.6.16 *	12.7.16	9.8.16	13.9.16	11.10.16	8.11.16	6.12.16	101.17	7.2.17	7.3.17		
Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad (F&P)	26.4.16	24.5.16	5.7.16	26.7.16	23.8.16	27.9.16	25.10.16	22.11.16	20.12.16	24.1.17	21.2.17	21.3.17		
Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth Pwyllgor (SPPH)	26.5.16	28.7.16	10.10.16	24.11.16	26.1.17	30.3.17								
Pwyllgor Cydnabyddiaeth a Thelerau Gwasanaeth	16.5.16	18.7.16	17.10.16	16.1.17	23.3.17									
Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl	27.5.16	22.7.16	4.11.16	3.2.17										
Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	24.6.16	12.9.16	12.12.16	13.3.17										
Pwyllgor Archwilio **	31.5.16	14.7.16	15.9.16	8.12.16	9.3.17									

*Nid oedd cworwm ar gyfer rhan olaf y cyfarfod - ni wnaed unrhyw benderfyniadau heb fod â chworwm
** Cyfarfu'r Pwyllgor Archwilio yn breifat o Ebrill - Medi 2016. Yn unol â Chylchlythyr Iechyd Cymru (WHC/2016/033), cyfarfu'r pwyllgor yn gyhoeddus o 8.12.16

13.10 Mae bob un o Bwyllgorau'r Bwrdd yn cynhyrchu adroddiad blynyddol. Cytunwyd ar ffurf newydd, mwy manwl a llinell amser cyflwyno cynt ar gyfer yr adroddiadau hyn yn 2016/17. Tarddiad y trefniadau diwygiedig ar gyfer y cylch adroddiadau blynyddol pwyllgorau oedd cais gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio i adroddiadau gael eu cyflwyno i'r Bwrdd yn gynt yn y flwyddyn. O ganlyniad, cytunwyd yn y dyfodol, byddai'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn holl adroddiadau blynyddol pwyllgorau ymlaen llaw (cyfarfod Mai) a byddai wedyn yn cyflwyno adroddiad sicrwydd cyffredinol i'r Bwrdd. Gellir cael gwybodaeth bellach am y trefniadau newydd o eitem AC16/92 drwy
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Agenda%20bundle2.pdf
Derbyniwyd adroddiadau blynyddol 2015/16 gan y Bwrdd ym Medi 2016 - gweler eitem 16/174 drwy
<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Agenda%20Bundle%20Health%20Board%2022.9.16%20Public%20V1.0.pdf> . Maen nhw'n manylu ar y busnes, gweithgareddau, prif faterion a risgiau aeth y Pwyllgorau i'r afael â nhw neu a esgynnwyd i'r Bwrdd yn ystod y flwyddyn flaenorol.

13.11 Mae Cadeiryddion y Pwyllgorau yn darparu adroddiadau sicrwydd ysgrifenedig i'r Bwrdd yn dilyn bob cyfarfod, gan amlygu materion arwyddocaol ac unrhyw risgiau allweddol. Mae adroddiadau'r Cadeiryddion hyn yn cael eu cyhoeddi gyda phapurau'r Bwrdd Iechyd.

13.12 Roedd y materion arwyddocaol a ystyriwyd gan y Pwyllgorau ac esiamplau o weithrediadau a ymgymerwyd yn ystod 2016/17 fel a ganlyn. Mae'r materion allweddol hyn yn amlygu uchafbwyntiau yn Adroddiadau Sicrwydd Cadeiryddion Pwyllgorau, ac esiampl o hyn yw eitem 17/60.2, gellir cael mynediad ato drwy
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Agenda_bundle%5B1%5D%20Board%2016.3.17.pdf

13.13 **Pwyllgor Archwilio**

- Adroddiadau Cydymffurfiaeth Ariannol
- Adroddiadau Cynnydd Archwilio Mewnol/Siarter a Chynllun Blynyddol/Adroddiad a Barn
- Diweddariad ac Adroddiadau Perfformiad Swyddfa Archwilio Cymru, gan gynnwys Asesiad Strwythuredig ac Adroddiad Archwilio Blynyddol.
- Diweddariadau yn erbyn argymhellion archwilio mewnol ac allanol (offer olrhain)
- Adroddiadau/cynllun cynnydd archwilio clinigol.
- Adroddiadau dilysu ôl daliadau
- Adroddiadau/cynllun blynyddol/adroddiad blynyddol gwrth dwyll
- Amrywiol adroddiadau cenedlaethol a chyhoeddiadau er gwybodaeth.
- Adolygiad o amodau gorchwyl pwyllgorau a chylch busnes; hunanasesiad ac adroddiad blynyddol.
- Adolygiad fframwaith Risg a Sicrwydd Corfforedig, gan gynnwys adolygu Cofrestru Risg Corfforedig ac adolygiad Strategaeth Rheoli Risg.
- Mabwysiadu Polisi Ymddygiad Safonau Busnes ac Adolygiad Blynyddol o Ddatganiadau o Ddiddordeb.
- Datganiad Llywodraethu Blynyddol/Datganiad Ansawdd Blynyddol/Cyfrifon Blynyddol/Adroddiadau Atebolrwydd.
- Rheolau Sefydlog/Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, datganiadau ariannol ac Adolygiad Adroddiad Blynyddol a diwygiadau.
- Adolygu Strategaeth Rheoli Perfformiad a Fframwaith Weithredol.
- Trefniadau newydd a adolygwyd a chynigiwyd ar gyfer Pwyllgorau'n adrodd yn flynyddol.

Mae'r esiamplau o sut mae'r Pwyllgor wedi gweithredu yn sgil materion arwyddocaol a godwyd yn cynnwys:

- Er mwyn mynd i'r afael â'r mater o well sicrwydd sydd ei angen ar gyfer y Bwrdd, adolygodd y Pwyllgor Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ac mae'n datblygu Map Sicrwydd ar ran y Bwrdd.
- Mewn ymateb i bryderon blaenorol o ran yr angen i weithredu argymhellion yr adroddiad archwilio'n amserol, mae'r Pwyllgor wedi defnyddio adolygiad mwy trylwyr o'r Offer Olrhain Archwilio. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi dal Gweithredwyr yn gyfrifol drwy ofyn iddynt fynychu cyfarfodydd i gyflwyno tystiolaeth o gynnydd ar faterion allweddol, ar gyfer pwrpas sicrwydd.

Cofnodion ar gael drwy:
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/51690

13.14 **Pwyllgor Cronfeydd Elusennol**

- Adroddiad y Rheolwr Buddsoddiadau
- Cyfrifon Blynyddol ac Adroddiad Blynyddol Cronfeydd Elusennol, Adroddiad ISA 260 a barn Swyddfa Archwilio Cymru
- Adroddiadau a strategaeth codi arian a chyllid
- Cyllideb cronfeydd elusennol
- Cofnodion Grŵp Cynghori Cronfeydd Elusennol
- Cyflwyniadau a cheisiadau am gymeradwyaeth gwariant
- Briffiau a phapurau llywodraethu.

Mae esiampl o sut mae'r Pwyllgor wedi gweithredu yn sgil materion arwyddocaol a godwyd yn cynnwys:

- Trafododd y Pwyllgor bryderon a godwyd o ran trefniadau llywodraethu sy'n ymwneud ag ymgyrch codi arian elusennol allanol a dderbyniodd gefnogaeth ariannol gan y Bwrdd Iechyd. O ganlyniad, gofynnwyd i Swyddfa Archwilio Cymru ymgymryd ag adolygiad, a defnyddiwyd y darganfyddiadau i ddysgu gwersi. Canlyniad hyn oedd bod y Pwyllgor wedi cytuno ar Brotocol Gweithio ar y Cyd i gryfhau llywodraethu a gwneud penderfyniadau i'r dyfodol.

Cofnodion ar gael drwy:
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/44875

13.15 **Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl (PDIM)**

- Adrodd a chraffu rheolaidd y Ddeddf Iechyd Meddwl a data perfformiad Mesur Iechyd Meddwl, gan gynnwys adolygiad sylfaenol o'r data a ffurf cyflwyno'r adroddiadau.
- Trosolwg a thrafodaeth fanwl o'r adroddiad a baratowyd o ran Diweddariad y Rheolwr ysbyty a darparu cefnogaeth a ddarparwyd i'r Rheolwyr Ysbyty Cysylltiol i'w cynorthwyo i ymgymryd â'u swydd.
- Adroddiadau Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS) - gan gynnwys Ceisiadau Awdurdodi a risgiau wrth gwrdd â'r terfynau amser deddfwriaethol.
- Adroddiadau Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS), gan gynnwys diweddariadau perfformiad, heriau a datblygiad gwasanaethau.
- Adroddiadau diweddaru a dderbyniwyd ar gynnydd y prosiect Brysbennu Stryd, gan gynnwys Adroddiad Cynnydd Adran 136
- Arolygiaeth ar drefniadau a datblygiadau gwasanaeth ar gyfer cymeradwyo ac ail-gymeradwyo Clinigwyr a Gymeradwywyd a Meddygon Adran 12(2) yng Nghymru, gan gynnwys ychwanegiadau a thyniadau a wnaed i'r gofrestr.
- Adolygiad o Adroddiad Monitro'r Eiriolwr Iechyd Meddwl Annibynnol (EIMA)
- Diweddariadau ar ymweliadau/adroddiad Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

- Diweddaru am faterion hyfforddiant (gan gynnwys trefniadau'r gweithdy hyfforddiant i aelodau'r Pwyllgor a'i Is-bwyllgor)
- Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol a chrynodeb o gynllun gweithredu, gan gynnwys adolygiad o faterion o bwys i hysbysu adroddiad y Cadeirydd
- Amodau Gorchwyl PDIM ac adolygiad o amodau gorchwyl Is-bwyllgor Pŵer Rhyddhau, gan gynnwys adolygiad o amlder ac amseriad cyfarfodydd.
- Adroddiad Blynyddol PDIM 2015/16
- Cylch busnes a chynllun gwaith PDIM 2016/17
- Arolygiaeth o waith yr Is-bwyllgor Pŵer Rhyddhau.

Mae'r esiamplau o sut mae'r Pwyllgor wedi gweithredu yn sgil materion arwyddocaol a godwyd yn cynnwys:

- O ran Adran 136 sy'n ymwneud â'r rhai o dan 18, mae'r Pwyllgor wedi parhau i fynegi pryder ynghylch y nifer cynyddol o dan 18 oed sy'n cael eu dal dan orchymyn Adran 136. Mae'r Pwyllgor yn parhau i fonitro'r sefyllfa a'r gweithrediadau a ymgymerir i fynd i'r afael â'r sefyllfa ac felly wedi cymeradwyo'r camau sy'n cael eu cymryd gan y Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn ei ddeialog parhaus gyda Heddlu Gogledd Cymru.

- O ran Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid (DoLS), mae'r pwyllgor wedi adolygu data DoLS ar gyfer y ddwy flynedd ariannol ddiwethaf, swyddogaeth y Gwasanaeth Eirioli Annibynnol o ran Galluedd Meddyliol (IMCA) a data cefnogi, penodiadau Asesydd Diddordeb Gorau a hyfforddiant, adolygiad risg a chamau nesaf o ran adlinio Gwasanaeth. Adolygwyd y gofrestr risg diogelu o fewn y Grŵp Diogelu, dan gadeiryddiaeth y Nyrs Weithredol a thrafodwyd y risg yn ymwneud â DoLS yn drylwyr. Mae'r lefel risg yn parhau heb newid ar hyn o bryd, hyd nes bydd hyfforddiant a recriwtio llawn Aseswyr Diddordeb gorau wedi'u cwblhau. Trafodwyd hyn yn llawn yn y Grŵp Ansawdd a Diogelwch.

- O ran Adroddiadau Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC), cyhoeddodd AGIC ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2015/16 yn Awst 2016. Ynddo, roedd cyfeiriadau at adolygiadau a wnaed yn benodol sy'n ymwneud â'r Ddeddf Iechyd Meddwl. Er yr aethpwyd i'r afael â monitro'r adroddiad a'r gweithrediadau gan y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad, cydnabu dylai bod elfennau penodol sy'n ymwneud â'r Ddeddf Iechyd Meddwl fod wedi'u cyflwyno i'r MHAC ac felly cytunwyd ar newid mewn trefniadau adrodd i'r dyfodol.

- O ran monitro perfformiad, mae'r Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu yn parhau i wella'r adroddiad perfformiad Deddf Iechyd Meddwl/Deddf Galluedd Meddyliol a'r Mesur Iechyd Meddwl ac mae'r Pwyllgor wedi cymeradwyo'r gwaith a wnaed hyd yn hyn.

Cofnodion ar gael drwy:
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/48736

13.16 **Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad 25.10.16**

- Rheolaeth Ariannol e.e. adroddiadau Cyllid Misol; adroddiadau diweddaru Contractau Allanol Chwarterol; Ffioedd Gofal Iechyd Parhaus 2016/17;
- Rheoli perfformiad ac atebolrwydd e.e. Adroddiadau Ansawdd a Pherfformiad Integredig Misol; Diweddariad Strategaeth Rheoli Perfformiad 2016;
- Gwariant Cyfalaf a Chyfalaf Gweithiol e.e. adroddiadau Rhaglen Cyfalaf Misol; Rhaglen Cyfalaf Dewisol 2016/17;
- Llywodraethu Gwybodeg a Gwybodaeth e.e. Cynllun Gweithredu Gwybodeg; diweddariad gweithredu System Weinyddol Cleifion Cymru (WPAS)
- Gweithlu e.e. adroddiad cryno o frechiadau ffliw tymhorol staff 2015/16; Adroddiad diweddaru system wybodaeth y Gweithlu;
- Llywodraethu e.e. adroddiad blynyddol Pwyllgor; adroddiadau sicrwydd Pwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau; adolygiad o risgiau corfforedig a aseiniwyd i'r Pwyllgor.

Mae'r esiamplau o sut mae'r Pwyllgor wedi gweithredu yn sgil materion arwyddocaol a godwyd yn cynnwys:

- Trafododd y Pwyllgor bryderon o ran y sefyllfa ariannol, a godwyd gan y Tîm Gweithredol, o ganlyniad gwnaed mwy o ymdrech i wneud arbedion ac roeddwn angen dogfennau dechrau prosiectau ar gyfer yr holl gynlluniau arbed. Canlyniad hyn oedd y cyflawnwyd y diffyg o £30m a gynlluniwyd, gyda £29.8 o droswariant.
- Trafododd y Pwyllgor berfformiad amserau atgyfeirio ac aros am driniaeth (RTT), yn enwedig orthopedig. O ganlyniad i hyn, drafftiwyd cynllun Orthopedig.

Cofnodion ar gael drwy:
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/77166

13.17 **Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau**

- Adroddiadau rheolaidd gan y Cyfarwyddwr Sicrwydd Ansawdd (gan gynnwys Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac adroddiadau allanol eraill, Ymddiried Mewn Gofal, gwirfoddoli, blaenoriaethau gwella ansawdd, materion sy'n codi ar y dangosfyrddau diogelwch, Gweithredwyr Sicrwydd Ansawdd)
- Adroddiadau monitro Safonau Gofal ac Iechyd
- Cefnogi Strategaeth Profiad y Defnyddiwr Gwasanaeth 2016-19
- Adroddiadau Gwrando a Dysgu, gan gynnwys storïau cleifion penodol.
- Adroddiad cynnydd ar safonau ar gyfer cyfathrebu hygyrch
- Adroddiad blynyddol Gweithio i Wella
- Llythyrau ac adroddiadau blynyddol Ombwdsmon Sector Cyhoeddus Cymru
- Adroddiadau crwner
- Adroddiadau Cronfa Risg Cymru i bryderon a rheoli hawliadau
- Adroddiadau rhwystro a rheoli heintiau, gan gynnwys adroddiad adolygiad pellach gan Yr Athro B Duerden
- Adroddiadau ansawdd a pherfformiad integredig misol, yn darparu data perfformiad allweddol ac adroddiadau eithriadau ar draws yr holl barthau perthnasol
- Cyflwyniadau "gwraidd yr achos" penodol
- Cymeradwyo cylch busnes ac adolygiad amodau gorchwyl
- Adolygiad statws Prifysgol y Bwrdd Iechyd
- Adroddiad blynyddol iechyd a diogelwch a diweddariad canol blwyddyn
- Ystyried adroddiadau archwilio mewnol perthnasol (e.e. Strategaeth Gwella Ansawdd, MT y tu allan i oriau)
- Cymeradwyo polisïau neu weithdrefnau newydd neu a ddiweddarwyd e.e. Polisi Bod yn Agored,

- Adroddiadau Diogelu (gan gynnwys adroddiad penodol am ddiogelu oedolion)
- Adroddiadau sicrwydd Iechyd Meddwl a datblygiad gwasanaeth, gan gynnwys adolygiad marwoldeb Tawel Fan (mewn pwyllgor)
- Adroddiadau chwarterol am ofal iechyd parhaus
- Datganiad Ansawdd Blynyddol
- Adroddiadau sicrwydd i fonitro gwasanaethau merched
- Adolygiad o risgiau corfforedig sy'n gysylltiedig â'r Pwyllgor
- Adroddiadau blynyddol e.e. Tîm Diogelu Iechyd

Mae'r esiamplau o sut mae'r Pwyllgor wedi gweithredu yn sgil materion arwyddocaol a godwyd yn cynnwys:

- Penderfynwyd gan y Pwyllgor bod cyflymder lleihau cyffredinolrwydd heintiau C.Diff a MRSA/MSSA yn annigonol ac ail-esgynnwyd y mater i'w adrodd yn fisol unwaith eto i yrru gwelliant. Gwnaed gwaith ychwanegol ar stiwardiaeth gwrthficrobaidd, dysgu o ddadansoddiad gwraidd y broblem, a'r ymgyrch "Asepsis - Gweithredu Nawr" i wella arferion clinigol yn gyflym.
- Codwyd pryderon ynghylch ansefydlogrwydd y farchnad cartrefi nyrsio yng ngogledd Cymru a'r lleihad o welyau gofal nyrsio a effeithiodd yn negyddol ar drosglwyddiadau gohiriedig perfformiad gofal. Pasiwyd y mater ymlaen i'r Tîm Gweithredol a nodwyd Noddwr Gweithredol, a roddodd waith i uwch arweinwyr gydag ystod o weithrediadau sy'n ymwneud â chysylltu â darparwyr, ac mi wnes i gynnig cyfarfod gydag unigolion allweddol o'r sector cartrefi nyrsio er mwyn ceisio atebion i'r pwysedd.
- Roedd y Pwyllgor yn bryderus ynghylch y risgiau a amlygwyd gan adroddiad diogelu, gan arwain at adolygu'r gofrestr risg corfforaethol a sefydlu trefniadau rheoli newydd interim ar gyfer y Tîm Diogelu

Cofnodion ar gael drwy:
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/77166

13.18 **Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth**

- Datblygu strategaethau systemau cyfan ar gyfer iechyd a gofal iechyd yng ngogledd Cymru
- Strategaeth gwirfoddoli
- Strategaethau drafft e.e. Strategaeth Ymgysylltiad Staff
- Cynllun Strategol y Gymraeg
- Byw'n Iach: Aros yn Iach (gan gynnwys adroddiad ar ddarganfyddiadau arolwg, datblygiad strategaeth;
- Themâu Gweithlu o'r Cynllun Gweithredol Blynyddol
- Datblygiad Wylfa B
- Egwyddorion Cynllunio 2017-18
- Darparu gofal iechyd i CEM Berwyn
- Fframweithiau Strategol (cychwynnol/cymuned, mamolaeth/pediatrig/newydd-anedig ac iechyd meddwl)
- Cynllun Tymhorol 2016-17
- Polisi Parhad Busnes
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 (Cymru).
- Asesiad Poblogaeth Gogledd Cymru
- Adroddiadau Blynyddol e.e. Mesur Gofalwyr
- Adroddiadau Monitro e.e. y Gymraeg (gan gynnwys y Safonau newydd)
- Gweithio mewn Partneriaeth e.e. Gogledd Cymru Iach
- Adolygiad o risgiau corfforedig a ddyrannwyd

Mae'r esiamplau o sut mae'r Pwyllgor wedi gweithredu yn sgil materion arwyddocaol a godwyd yn cynnwys:

- Trafodwyd y mecanweithiau adrodd o Fyrddau Gwasanaeth Cyhoeddus lleol (BGC), gan gynnwys amseroldeb adrodd, ac o ganlyniad adolygwyd trefniadau llywodraethu partneriaeth BGC ac adolygwyd byrddau iechyd eraill yng Nghymru ar gyfer pwrpas cymharu a dysgu gwersi.
- Trafodwyd pryderon ynghylch recriwtio swyddogion carchar ar gyfer staffio diogel carchar a ddynodwyd ar gyfer adsefydlu, sef CEM Berwyn, hefyd yr effaith posibl ar wasanaethau iechyd. O ganlyniad, cafod gweithredwyr unigol a'r Bwrdd gyfarfod gyda Llywodraethwr y Carchar i dderbyn sicrwydd am y materion a godwyd.
- Trafododd y pwyllgor yr effeithiau posibl ar wasanaethau iechyd yn sgil datblygiad Wylfa B. O ganlyniad, gwnaethpwyd gwaith i gynnwys MT i archwilio atebion model gofal cychwynnol, hefyd gofynnais am gyfarfod gyda chynrychiolwyr Horizon i geisio sicrwydd.

Cofnodion ar gael drwy:
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/77166

13.19 **Pwyllgor Tâl ac Amodau Gwasanaeth**

- Ystyried ceisiadau ar gyfer y Cynllun Rhyddhau Gwirfoddol Cynnar
- Gwerthuso swyddi uwch reolwyr uchel a Chyfarwyddwyr sydd y tu allan i ystod JESP - yn y flwyddyn roedd hyn wedi cynnwys y Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd a'r Cyfarwyddwr Trawsnewid; a'r trefniadau parhaol ar gyfer y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth;
- Cymeradwyaeth ar gyfer Adroddiad Blynyddol Pwyllgor 2015-16
- Cymeradwyaeth ar gyfer Adroddiad Cydnabyddiaeth 2015-16
- Sefyllfa cyflogaeth y cyn Brif Weithredwr
- Cynllunio gwaith ar gyfer staff meddygol
- Blaengareddau Rhestrau Aros
- Lwfansau costau adleoli ar gyfer recriwtio o dramor
- Cyfraddau cydnabyddiaeth awrol i locwm mewnol
- Cytundebau GIG a gadawyr, gan gynnwys data am staff a ddisodlwyd
- Hyblygrwydd tâl o ran cyfrifoldebau ychwanegol arwyddocaol ar gyfer Gweithredwyr a Chyfarwyddwyr.

Mae'r esiamplau o sut mae'r Pwyllgor wedi gweithredu yn sgil materion arwyddocaol a godwyd yn cynnwys:

- Holodd aelodau'r pwyllgor i ba raddau mae'r Pwyllgor wedi cyflawni ei oblygiadau i roi sylwadau yn benodol am amcanion ar gyfer Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Uwch Reolwyr Uchel eraill. Teimlwyd nad oedd hyn wedi'i gyflawni'n llawn dros y flwyddyn ddiwethaf ac felly hunanaseswyd hyn fel cyfradd 'ambr' ac er mwyn gwella'r sefyllfa hon, cytunwyd cyflwyno Adroddiad Sicrwydd Amcanion ar gyfer y Pwyllgor.
- Yn gynnar yn 2016, ystyriodd y Pwyllgor y ffaith bod dwy swydd weithredol allweddol - y Cyfarwyddwr Meddygol a'r Cyfarwyddwr Nyrsio a Bydwreigiaeth yn wag. Adferwyd materion megis egwyddor, tegwch, cydraddoldeb a dyrannu dyletswyddau er mwyn sicrhau deilwyr swyddi interim boddhaol, gall ddarparu sicrwydd i'r Bwrdd cyn penodi'n barhaol.

Cofnodion ar gael drwy:
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/77170

13.20 Grwpiau Cynghori:

Gweler manylion yr eitemau busnes a ystyrir gan Grwpiau Cynghori'r Bwrdd isod. Mae Cadeirydd bob grŵp yn darparu Adroddiad Sicrwydd i'r Bwrdd ar ôl bob cyfarfod i amlygu materion arwyddocaol neu gyngor, gellir gweld enghraifft yma 16/115.3:
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Agenda%20bundle%20_public_revised.pdf

13.20.1 **Grŵp Cyfeiriol Rhanddeiliaid**

- Strategaeth Gofal Cychwynnol; Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol; Adroddiad Deloittes 2013/4
- Strategaeth Ymgysylltu BIPBC; Strategaeth Iechyd Meddwl BIPBC; Ansawdd a Pherfformiad Integredig BIPBC
- Sefyllfa Ariannol BIPBC; CEM Berwyn; Rheoli Meddyginiaethau; Cynllun Gwella Mesurau Arbennig PBC
- Strategaeth Systemau Cyfan BIPBC; Iechyd Cyhoeddus Cymru - Gogledd Cymru Iach; Safonau'r Gymraeg BIPBC
- Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru; Cyfathrebu ac Ymgysylltu BIPBC; Bevan Advocates
- Byw'n Iach, Aros yn Iach BIPBC - Diweddariad Datblygiad Strategaeth
- Sefyllfa Ariannol Canol Blwyddyn BIPBC; Gofal Heb ei Drefnu/Cynllun Gaeaf; Trosglwyddiadau Gofal Gohiriedig
- Datblygiad Gwasanaethau Cychwynnol a Chymunedol BIPBC; Cynllunio Corfforedig BIPBC, gan gynnwys Cynllun Gweithredol 2017/18 a Byw'n Iach, Aros yn Iach; Profiadau Plentyndod Gwrthwynebus (ACE) yng Nghymru
- Cynllunio Corfforedig gan gynnwys Ymgysylltu; Strategaeth Iechyd Meddwl BIPBC; CEM Berwyn; Asesiad Poblogaeth Iechyd Cyhoeddus Cymru

Cofnodion ar gael drwy:
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/51648

13.20.2 **Fforwm Partneriaeth Leol**

- Gweithdai
    - Mesurau arbennig
    - Strwythur rheoli
    - Cynllunio Corfforedig, gan gynnwys Cynllun Gweithredu Blynyddol, Byw'n Iach, Aros yn Iach
    - Gwerthuso Swyddi
    - Cyllid
    - Datganiad Ansawdd Blynyddol Drafft 2015/16 a 2016/17
    - Strategaeth Gofal Cychwynnol
    - Strategaeth Iechyd Meddwl
    - Strategaeth Ymgysylltu Gweithlu
    - Strategaeth Atyniad Recriwtio
    - Polisi Cleifion Preifat
    - Fframwaith Polisi Safonau Arwain Busnes
    - Diweddariad Prosiect Gofal Iechyd Carchar Gogledd Cymru

Cofnodion ar gael drwy:
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/52988

13.20.3 **Fforwm Gweithwyr Gofal Iechyd Proffesiynol**

- Swyddogaeth y FfGGIP a'i aelodau
- Sut all y FfGGIP alluogi cyfraniad at ystyriaethau'r Bwrdd Iechyd mewn cyfnod cynharach
- Esgyn pryderon FfGGIP
- Diweddariadau ar y Cynllun Gweithredu Blynyddol (CGB) a Strategaeth Systemau Cyfan
- Strategaeth Gofal Cychwynnol
- Strategaeth Recriwtio a Chadw Gogledd Cymru
- Gogledd Cymru Iach
- Cynllunio Corfforaethol
- Atal a Rheoli Heintiau
- Rhwystro Codymau Cleifion Mewnol ac yn y Gymuned
- Datblygu Dangosfyrddau Ansawdd
- Ymchwil a Datblygiad

Cofnodion ar gael drwy:
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/51649

13.21 **Cydbwyllgorau**

Mae'r Bwrdd hefyd yn derbyn ac ystyried crynodebau, copïau o gofnodion neu adroddiadau'n rheolaidd gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru (PGIAC), Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys (PGAB) a Phwyllgor Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP). Gellir cael mynediad at rhain drwy:
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/75045

14. Pwrpas y System o Reolaeth Fewnol

14.1 Mae'r system o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i reoli risg at lefel rhesymol yn hytrach na dileu pob risg; felly dim ond darparu sicrwydd rhesymol mae'n gallu ei wneud, nid sicrwydd o effeithiolrwydd diamod.

14.2 Mae'r system o reolaeth fewnol yn seiliedig ar broses barhaus a gynlluniwyd i nodi a blaenoriaethu'r risgiau i gyflawni nodau strategol y Bwrdd Iechyd ac amcanion corfforedig. Mae hyn yn cynnwys gwerthuso tebygolrwydd y risgiau sy'n cael eu gwireddu a'r effaith pe byddent yn cael eu gwireddu a'r trefniadau sy'n eu lle i'w rheoli'n effeithiol, effeithlon ac economaidd. Mae'r system o reolaeth fewnol wedi bod yn ei lle yn y sefydliad am y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth 2017 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad a'r cyfrifon blynyddol.

15. Y gallu i Ymdrin â Risg

15.1 Mae gan y Bwrdd Iechyd broffil risg heriol oherwydd yr amrywiaeth o wasanaethau a ddarperir, yn amrywio o wasanaethau cychwynnol a chymunedol hyd at wardiau ysbyty llym yn ogystal â gwasanaethau iechyd meddwl ac uned ddiogel ganolig. Yn ogystal â hyn, mae gan y Bwrdd Iechyd ehangder daearyddol eang, amrywiaeth ddiwylliannol a darpariaeth arwyddocaol o wasanaethau o Loegr. Hefyd, mae'n gallu ymdrin â brig mewn galw oherwydd bod gogledd Cymru yn gyrchfan gwyliau o ddewis i lawer iawn.

15.2 Mae gan y Bwrdd Iechyd strwythur yn ei le i nodi, asesu a rheoli ei risgiau. Rwyf wedi dirprwyo cyfrifoldeb ar gyfer sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cael cyngor a chefnogaeth gymwys i ddatblygu systemau a threfniadau effeithiol i helpu i hwyluso ymagwedd y Bwrdd o reoli risg a strategaeth i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforedig. Mae gan Ysgrifennydd y Bwrdd awdurdod penodol a ddirprwywyd dros Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd a'r Gofrestr Risg

Corfforedig, sydd wedi cael eu cyfuno eleni ar gyfer pwrpasau adrodd ac yn absenoldeb Cynllun Integredig Tymor Canolig, gweler disgrifiad manylach isod.

16. Risg Corfforedig a Fframwaith Sicrwydd

16.1 Yn ystod haf 2016, ymgymerwyd â gwaith i archwilio'r amrywiol lefelau o adrodd o fewn cronfa ddata'r Gofrestr Risg (Datix), gyda'r Tîm Gweithredol yn ailymweld â'r strwythur sy'n ymwneud â'r gwahanol lefelau caiff y risgiau ar draws y sefydliad eu rheoli. Mae hwn yn disodli'r tair haen flaenorol sef Corfforedig, Strategol a Gweithredol Mae'r sefydliad bellach yn gweithio at ymagwedd 5 haen, ac mae'r manylion yn gynwysedig o fewn y Strategaeth, canllaw a gweithdrefnau Rheoli Risg a ddiweddarwyd yn ystod y flwyddyn, a chytunwyd ar y Strategaeth ddiwygiedig gan y Pwyllgor Archwilio ar ran y Bwrdd ym Medi 2016.

16.2 Mae'n rhaid i bob Cyfarwyddwr Gweithredol sicrhau rheolaeth risg o fewn eu maes cyfrifoldeb penodol ac mae hyn yn eglur iawn o fewn y Strategaeth Rheoli Risg a ddiwygiwyd. Yn ogystal â hyn, anogir yr holl staff ac fe'u grymusir i ddefnyddio proses reoli risg fel mecanwaith i amlygu meysydd maen nhw'n credu dylid eu gwella. Os bydd staff yn teimlo byddai codi materion yn cyfaddawdu arnynt neu ddim yn effeithiol, fe'u hanogir i ddilyn canllawiau chwythu'r chwiban a chodi pryderon.

16.3 Yng nghyfarfod Medi 2016 y Pwyllgor Archwilio, cynigiodd yr aelodau symudiad at ymagwedd Fframwaith Risg a Sicrwydd Corfforedig (FfRSC) integredig, sy'n cyfuno dogfen y cyn Fframwaith Sicrwydd Bwrdd (FfSB) a'r Gofrestr Risg Gorfforedig (CRC). Teimlwyd byddai hyn yn gwaredu ar ddyblygu ymdrechion ac yn sicrhau byddai dogfen sengl yn gallu manylu ar sicrwydd a bylchau a gweithrediadau i fynd i'r afael â'r bylchau hyn. Cymeradwywyd yr ymagwedd hon gan y Bwrdd ym Medi 2016.

16.4 Derbyniodd y Bwrdd iteriad cyntaf y FfRSC newydd yn Ionawr 2017. Mae'r wybodaeth sydd o fewn y CRAF wedi cael ei dynnu'n uniongyrchol o Datix (i sicrhau bod Datix yn cael ei ddefnyddio fel ffynonellau terfynol ar draws y sefydliad) gan ddefnyddio'r risgiau diweddaraf fel y'u dogfennwyd ar gyfer y cyn CRR. Bwriadwyd y CRAF i fod yn ddogfen gryno sy'n darparu diweddariad naratif byr, gyda'r manylion yn cael eu darparu yn yr adroddiadau sicrwydd perthnasol i'r amrywiol bwyllgorau.

16.5 Mae pob risg ar y CRAF yn dangos y cysylltiadau i'r Prif Risg ac wedi'i hysbysu gan waith y Bwrdd mewn sesiwn datblygiad a ymgymerwyd yn Hydref 2016. Mae sicrwydd o fewn y CRAF wedi cael eu llenwi o wybodaeth sydd yn y cyn BAF os yn briodol ac yna'i adolygu a'i ddiweddaru gan yr arweinydd perthnasol.

16.6 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi mabwysiadu datganiad archwaeth risg sy'n disgrifio'r risgiau mae'n barod i'w derbyn eu goddef er mwyn ceisio'i nodau strategol. Mae'r Bwrdd yn cydnabod nad yw hwn yn gysyniad sefydlog a gall newid dros amser - gweler adran 4 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn Atodiad 4 y ddogfen ganlynol:
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/16_40.2%20Strengthening%20Governance.pdf

16.7 Wrth ddiffinio'r archwaeth risg, mabwysiadodd y Bwrdd fatrics aeddfedrwydd ar gyfer sgorio risg, sy'n cynnwys elfennau sy'n ymwneud ag ansawdd, enw da, cyllid a rheolaeth. Mae'r Bwrdd yn parhau i gadw'r CRAF dan adolygiad. Ar gyfer pob risg sy'n cael ei chreu, mae nifer o gamau'n cael eu dynodi i reoli a lliniaru'r risg.

Mae risgiau wedi cael eu neilltuo i Gyfarwyddwr Gweithredol penodol a Phwyllgor lefel Bwrdd i sicrhau eu bod yn cael eu harchwilio'n rheolaidd. Mae mesurau yn eu lle i fynd i'r afael â'r holl risgiau hyn, sy'n cael eu hadrodd i'r Bwrdd a'i Bwyllgorau, a'u monitro ganddynt. Yn ogystal â

hyn, mae lefel pellach o graffu wedi cael ei gyflwyno eleni a bellach mae'r cofrestrau Cyfarwyddiaeth yn cael eu hadolygu gan y Grŵp Rheoli Gweithredol ar sail gylchol.

16.8 Mae'r Bwrdd Iechyd yn cynnwys ei randdeiliaid cyhoeddus i reoli risgiau sy'n effeithio arnynt. Er enghraifft, mae ymgysylltu cyhoeddus parhaus fel rhan integrol o'r broses ddatblygu'r strategaeth Byw'n Iach, Aros yn Iach, gan ganolbwyntio ar leihau risgiau i'r rhai mwyaf bregus yn y gymdeithas hefyd mynd i'r afael â'r risgiau sy'n codi o e.e. rhestrau aros hir. Mae eitem 16/209 drwy'r ddolen isod hefyd yn arddangos yr ymgysylltiad eang o ran datblygiad y gwasanaethau strategol e.e. strategaeth iechyd meddwl (a nodwyd fel risg mesurau arbenigol arwyddocaol): http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Agenda_bundle%20Health%20Board%2017.11.16%20v2.0%20REVISED%20reduced%20file%20size.pdf

Yn ogystal â hyn, roedd yr asesiad poblogaeth a ymgymerwyd yn 2016 yn cynnwys mewnbwn gan y cyhoedd ar y ffordd orau i gwrdd ag anghenion gofal cymdeithasol ac iechyd mewn cynlluniau i'r dyfodol.

17. Prif Risgiau

17.1 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi penderfynu ar naw brif risg i gyflawni ei nodau strategol:

1: Methiant i gynnal ansawdd gwasanaethau cleifion
2: Methiant i gynnal cynaladwyedd ariannol
3: Methiant i reoli perfformiad gweithredol
4: Methiant i gynnal gweithlu ymgysylltiedig ac effeithiol
5: Methiant i ddatblygu cynlluniau strategol cydlynol
6: Methiant i gyflawni buddion y partneriaethau strategol
7: Methiant i ymgysylltu â chleifion ac ailgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach
8: Methiant i leihau anghydraddoldeb mewn canlyniadau iechyd
9: Methiant i fewnosod arweinyddiaeth effeithiol a threfniadau llywodraethu.

17.2 Yn ogystal â hyn, mae un risg newydd wedi'i nodi a'i esgyn yn ystod 2016/17 (ychwanegwyd at y Gofrestr ym Mai 2016) yn ymwneud â Diogelu. Roedd hwn yn risg blaenorol ar y Gofrestru Risg Corfforedig, a ychwanegwyd yn Nhachwedd 2013, ond dad-esgynwyd yn Nhachwedd 2015 o ganlyniad i hyder cynyddol bod y risg Diogelu fel y nodwyd yn wreiddiol ar y CRC yn cael ei reoli a'i liniaru a bod y gweithrediadau a wnaed yn arddangos rhywfaint o welliant.

17.3 Gwnaed y penderfyniad i adfer y risg Diogelu ar y FfRSC pan ddaeth yn amlwg nad oedd y gweithrediadau a gynlluniwyd yn lliniaru'r risgiau blaenorol fel y rhagwelwyd. Yn ogystal â hyn, gofynnodd y Bwrdd yn ystod y flwyddyn i'r risg o ran y CITC, gael ei rannu'n ddwy elfen gan adlewyrchu datblygiad strategaeth a datblygiad y CITC. Mae manylion y rheoliadau cyfredol a'r gweithrediadau pellach sy'n cael eu cymryd ar gyfer pob risg a nodwyd wedi'u manylu o fewn FfRSC y Bwrdd Iechyd ac ar gael yn gyhoeddus drwy http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/document/301428

17.4 Fel yr esboniwyd yn flaenorol, mae pob risg a nodwyd o fewn y FfRSC yn cael ei chategoreiddio dan un o'r naw rhestr prif risg (PR); er enghraifft mae PR1'methu cynnal ansawdd gwasanaethau cleifion' yn cynnwys risgiau clinigol pennaf y sefydliad sef Rhwystro a Rheoli Heintiau, Gofal Iechyd Parhaus, Gwasanaethau Mamolaeth a Gwasanaethau Iechyd Meddwl. Nodwyd risgiau gwasanaethau clinigol allweddol fel a ganlyn dan y Mesurau Arbennig:

18. Risgiau Allweddol Mesurau Arbennig: Gwasanaethau Mamolaeth yn Ysbyty Glan Clwyd

18.1 Yn dilyn gweithdrefnau adolygiad barnwrol ynghylch newid dros dro arfaethedig i'r gwasanaethau mamolaeth a'r ymgynghoriad cyhoeddus llawn o ganlyniad yn ystod haf 2015, penderfynwyd bod y risgiau a nodwyd yn wreiddiol wedi'u lliniaru'n ddigonol drwy recriwtio staff meddygol a bydwreigiaeth ychwanegol, a danategwyd gan fonitro risgiau ansawdd a diogelwch yn gadarn, o sifft i sifft.
Mae cynnydd arwyddocaol wedi parhau i gael ei wneud yn erbyn y disgwyliadau a nodwyd yn y Fframwaith Gwella Mesurau Arbennig. Mae'r gwasanaeth wedi'i sefydlogi ymhellach drwy recriwtio llwyddiannus ar gyfer swydd Bydwraig Ymgynghorol ac Uwch Ymgynghorydd Meddygol, gan ei wneud yn fwy cadarn a chynaliadwy.

18.2 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio gyda darparwr allanol i yrru a chyflawni gwelliannau cynaliadwy mewn ymddygiad meddygon ymgynghorol yn Ysbyty Glan Clwyd, i fwyafu gwaith amlddisgyblaethol a lleihau risgiau clinigol i famau a babanod. Cyflawnwyd eglurdeb ar gyfer strategaeth y dyfodol a chynllun gwasanaeth ar gyfer ailgynllunio gwasanaethau mamolaeth, newydd-anedig a phediatreg drwy gynhyrchu Fframwaith Strategaeth. Elfen allweddol hyn yw swyddogaeth y Ganolfan Ofal Dwys Newydd-anedig Isranbarthol (SURNICC). Cymeradwywyd yr achos busnes llawn ar gyfer y datblygiad hwn gan Lywodraeth Cymru ac mae'r prif waith datblygu nawr wedi dechrau yn unol â llinell amser y prosiect.

19. Risgiau Allweddol Mesurau Arbennig: Gwasanaethau Iechyd Meddwl

19.1 Un o feysydd ffocws allweddol y Bwrdd drwy gydol y flwyddyn oedd gwasanaethau Iechyd Meddwl a'r risgiau cysylltiedig o ran arweinyddiaeth, llywodraethu ac ansawdd a diogelwch gwasanaethau. I liniaru'r risgiau hyn, mae gweithredu hyd yn hyn yn cynnwys ffurfio Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu gan benodi cyfarwyddwr parhaol i ddechrau ar 5.5.16. Mae'r swydd hon yn adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr ac mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi cymeradwyo iddi fod yn swydd Aelod Bwrdd Cysylltiol, gan arddangos ymroddiad clir y Bwrdd Iechyd at Wasanaethau Iechyd Meddwl a chynyddu gweledigedd ac atebolrwydd ar lefel Bwrdd. Gwnaed uwch benodiadau eraill i'r tîm arweinyddol hefyd.

19.2 Mae'r Bwrdd yn cydnabod maint arwyddocaol yr her i wella gwasanaethau iechyd meddwl yn gynaliadwy ar draws gogledd Cymru. Mae cynnydd parhaol yn cael ei wneud o fewn yr Uwch Adran Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Rhoddir pwyslais arbennig ar fynd i'r afael â risgiau allweddol drwy ddatblygiad strwythurau arweiniol a llywodraethu effeithiol, gyda chefnogaeth systemau a phrosesau i danategu darpariaeth weithredol, datblygiad gwasanaeth a chyflawni gofal diogel o ansawdd uchel. Mae Cydymffurfiad gyda'r Ddeddf Iechyd Meddwl a'r Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) wedi gwella. Gwnaed gwelliannau hefyd i drefniadau llywodraethu mewnol o fewn yr Uwch Adrannau. Mae strategaeth newydd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl yn cael ei datblygu, gyda mewnbwn allanol arbenigol. Mae strategaeth ymgysylltu â chleifion ffurfiol ar gyfer Iechyd Meddwl Pobl Hŷn hefyd wedi'u datblygu. Sefydlwyd is-grŵp profiad iechyd meddwl, i ddefnyddio profiad y defnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr o wasanaethau i ffurfio a hysbysu datblygiad a gwelliannau i'r gwasanaeth i'r dyfodol. Comisiynwyd prosiect cysylltiad newydd gan y Bwrdd Iechyd a'r Bwrdd Cynllunio Ardal ar 1 Ebrill 2016, gyda'r nod o wella cydraddoldeb darpariaeth gwasanaeth ar draws gwasanaethau iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau yng ngogledd Cymru.

19.3 Mae'r holl argymhellion a nodwyd gan AGIC yn dilyn archwiliadau safleoedd Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu wedi cael eu symud ymlaen neu wedi'u cwblhau'n llawn. Penodwyd Cyfarwyddwr Archwiliadau Allanol, sy'n adrodd i'r Prif Weithredwr, i gydlynu mewnbwn y Bwrdd Iechyd i'r adolygiad llywodraethu ehangach o wasanaethau iechyd meddwl pobl hŷn, dan arweiniad Donna Ockenden a'r Gwasanaeth Cynghori Iechyd a Gofal

Cymdeithasol (HASCAS) o bryderon a chwynion a godwyd gan aelodau teuluoedd cleifion a dderbyniodd driniaeth ar ward Tawel Fan. Mae'r gwaith hwn yn barhaus ac mae'n parhau i fod yn ymrwymiad o bwys

20. Risgiau Allweddol Mesurau Arbennig: MT y Tu Allan i Oriau/Gwasanaethau Gofal Cychwynnol

20.1 Cynhaliwyd cynnydd da o ran yr holl ddisgwyliadau mesurau arbennig sy'n ymwneud â Gofal Cychwynnol. Mae gwaith ar y gweill i liniaru'r risgiau allweddol, drwy ddatblygiad strategaeth gofal cychwynnol a chymunedol integredig, rheolaeth weithredol o recriwtio MT, modelau gofal cychwynnol arloesol, gweithredu'r Fframwaith Cynaladwyedd Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMS), gweithredu'r Asesiad Risg Practis 5 parth ac asesiadau Risg Clwstwr Ardal. Bydd y Timau Ardal yn adolygu'r risgiau'n rheolaidd a blaenoriaethu gweithrediadau i liniaru lefelau risg. Os amlygwyd practisau fel rhai sy'n wynebu risgiau arwyddocaol, bydd y timau gofal cychwynnol yn dechrau trafodaethau gyda'r practis i geisio deall y problemau maen nhw'n eu hwynebu yn well a cheisio'u cynorthwyo dros y tymor byr a chanolig os yn bosibl. Bydd y gwaith hwn yn darparu sail gadarn y gellir adeiladu cynlluniau clwstwr arno ar gyfer gwasanaethau GMS cynaliadwy ar gyfer y dyfodol, wrth i'r prosesau cynllunio clwstwr aeddfedu a chryfhau i ystyried yr holl wybodaeth asesu risg sydd ar gael i'w ddefnyddio fel sail ar gyfer cynlluniau gweithredu.

20.2 Mae tystiolaeth gynyddol o waith clwstwr effeithiol, a phob clwstwr wedi cytuno ar flaenoriaethau sydd bellach yn cael eu gweithredu. Defnyddir cyllid i wella mynediad a chefnogi unrhyw bractis sy'n cael trafferthion, fel bod eu cleifion yn cael eu gweld yn agosach/yn eu cartrefi a'u bod yn treulio llai o amser ar restrau aros.
Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio tuag at gydymffurfiad llawn gyda Safonau Ansawdd a Monitro Cymru newydd ar gyfer darparu gwasanaethau MT y tu allan i oriau, a adroddir yn fisol i Lywodraeth Cymru. Derbyniodd y Gweithgor Dros Dro Fframwaith Gwella Mesurau Arbennig sicrwydd manwl ar y cynnydd sy'n cael ei wneud i wella mynediad ac amserau ymateb, trefniadau llywodraethu mewnol a'r cyfraddau llenwi ar gyfer rotas. Yn ogystal â hyn, mae gwaith wedi digwydd i ymgysylltu ag asiantaethau partner, gan ddefnyddio'r holl sgiliau ac adnoddau i gefnogi cleifion yn agos i'r cartref dros gyfnodau y tu allan i orau.

21. Y Fframwaith Reoli

21.1 Fel Swyddog Atebol, rwy'n bersonol gyfrifol am drefnu, rheoli a staffio cyffredinol yn y Bwrdd Iechyd. Rhaid i mi sicrhau fy hun a'r Bwrdd bod trefniadau Gweithredol a Rheoli Clinigol y Bwrdd a'r fframwaith reolaeth trosbontiol yn addas i bwrpas.

21.2 Cynlluniwyd y fframwaith reolaeth i reoli risg ar lefel resymol yn hytrach na diddymu holl risgiau o fethiant i gyflawni ein nodau strategol a'n hamcanion corfforedig (gweler hefyd adran 14). Mae llywodraethu a rheolaeth fewnol y sefydliad yn broses barhaus a gynlluniwyd i

- nodi a blaenoriaethu risgiau i gyflawni ein pwrpas, gweledigaeth, golau strategol a gwerthoedd;
- Gwerthuso tebygolrwydd y risgiau hyn yn gwireddu a'r effaith pe byddent yn cael ei gwireddu
- Rheoli'r risgiau hyn yn effeithiol, effeithlon ac yn economaidd.

Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar ddatganiad archwaeth risg a gyfeiriwyd ato yn gynt yn y ddogfen hon yn adran 16.

22. Rheolau Sefydlog

22.1 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cytuno ar Reolau Sefydlog ar gyfer rheoli gweithrediadau a busnes. Gellir gweld y Rheolau Sefydlog drwy ddilyn y ddolen isod:
http://howis.wales.nhs.uk/sitesplus/861/page/41916

22.2 Cynlluniwyd y Rheolau Sefydlog i drosi'r gofynion statudol a nodir yn Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2009 i arferion gweithredu o ddydd i ddydd. Ynghyd â mabwysiadu rhaglen faterion a neilltuwyd i'r Bwrdd, rhaglen o ddirprwyaethau i swyddogion ac eraill a Chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog, maen nhw'n darparu'r fframwaith rheoli ymddygiad busnes y Bwrdd Iechyd ac yn diffinio ei 'ffyrdd o weithio'. Mae'r dogfennau hyn, ynghyd â Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, y gofrestr risg corfforaethol ac ystod o bolisïau a safonau busnes a gytunir gan y Bwrdd, yn gwneud y fframwaith rheoli y mae'r Bwrdd yn gweithredu ynddo.

22.3 Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cynnal adolygiad blynyddol o'r Rheolau Sefydlog. Cymeradwyodd y Pwyllgor newidiadau a adroddwyd i'r Bwrdd Iechyd ar gyfer eu cadarnhau.

22.4 Darperir Adroddiad Cydymffurfiad ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r adroddiad yn amlygu cydymffurfiaeth â'r Cyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog o ran

- Gweithdrefnau Caffael
  (Adrodd ar ildio hawl i dendro a thorri gofynion caffael).
- Gweithdrefnau Cyflogres
  (Adrodd ar ordaliadau cyflogau).
- Gweithdrefnau Derbyniadwy a Thaladwy
  (Adrodd ar hen falansau dros £10,000 a thros 6 mis oed).
- Gofynion Colledion a Thaliadau Arbennig
  (Adrodd ar golledion, taliadau arbennig a dileu balansau sy'n ddyledus i'r Bwrdd Iechyd).

22.5 Yn ystod 2016/17 roedd materion allweddol a nodwyd yn yr adroddiad cydymffurfio, yn ogystal â'r uchod, yn cynnwys sicrwydd ar y Fframwaith Sicrwydd Ariannol, Credydau Lleihau Carbon, materion Adran Gwaith a Phensiynau, materion trethu a diweddariadau ar ddyledion heb eu talu.

23. Archwilio Allanol

23.1 Cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru yr adroddiadau a dogfennau canlynol yn ymwneud â'r Bwrdd Iechyd (un ai'n uniongyrchol neu fel rhan o adolygiad Cymru gyfan) yn ystod 2016/17. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymateb yn ffurfiol i bob un ohonynt ac mae camau'n codi o argymhellion yn cael eu holrhain yn defnyddio cynlluniau gweithredu a chronfa ddata'r Audit Tracker Tool, ac mae cynnydd yn cael ei fonitro'n ffurfiol gan y Pwyllgor Archwilio:

- Asesiad strwythuredig 2016 - Cyhoeddwyd Rhagfyr 2016
- Adroddiad Archwilio Blynyddol 2016 - Cyhoeddwyd Chwefror 2017
- Rheolaeth Cyfarpar Meddygol - cyhoeddwyd Hydref 2016
- Contract Meddygon Ymgynghorol GIG - Dilyn i fyny o argymhellion archwilio blaenorol - cyhoeddwyd Tachwedd 2016
- Cyfraniad Ariannol i Gylchdaith Cymru - BIPBC - cyhoeddwyd Rhagfyr 2016
- Arlwyo Ysbyty a Maeth Cleifion - adolygiad o gynnydd (Cymru Gyfan) - cyhoeddwyd Medi 2016

- Cwrdd â'r galw am Wasanaethau Orthopedig: Cwestiynau allweddol ar gyfer Aelodau Bwrdd y GIG (Cymru gyfan) - cyhoeddwyd Awst 2016
- Holl Fyrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau GIG Cymru - Asesiad Strwythuredig 2015: Cymharu Perfformiad Adrodd i Fyrddau (Cymru gyfan) - Mehefin 2016
- Rheoli Meddyginiaethau mewn Gofal Cychwynnol ac Eilaidd (Cymru gyfan) - cyhoeddwyd Rhagfyr 2016

Mae'r cyhoeddiadau hyn ar gael ar y wefan hon:
https://www.wao.gov.uk/cy/adroddiadau-a-chyhoeddiadau

24. Côd Llywodraethu Corfforaethol

24.1 Ar gyfer y GIG yng Nghymru, diffinnir llywodraethu fel "system o atebolrwydd i ddinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau, rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach, y mae sefydliadau gofal iechyd yn gweithio ynddynt, yn gwneud penderfyniadau ac yn arwain eu pobl i gyflawni eu hamcanion." Yn syml, mae hyn yn golygu'r ffordd y mae cyrff y GIG yn sicrhau ein bod yn gwneud y pethau iawn, yn y ffordd iawn, i'r bobl iawn, mewn ffordd sy'n cynnal y gwerthoedd a osodir ar gyfer sector cyhoeddus Cymru.

24.2 Mae'r Bwrdd Iechyd yn dilyn ac yn cydymffurfio â'r egwyddorion a'r agweddau perthnasol sy'n cael eu disgrifio yn 'Llywodraethu Corfforaethol mewn Adrannau Llywodraeth Ganolog: Côd Arfer Da 2011' sy'n gyson â'r 'Arweiniad Llywodraethu Da' ar gyfer Byrddau'r GIG yng Nghymru a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Ionawr 2014. Yn benodol, mae'r Bwrdd yn cydymffurfio â'r egwyddorion a nodir o ran rôl y Bwrdd, cyfansoddiad y Bwrdd, ei effeithiolrwydd a rheoli risg.

24.3 Gellir cael mynediad at y Côd Arfer Da drwy'r ddolen ganlynol:
https://www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/220645/corporate_governance_good_practice_july2011.pdf

25. Trefniadau Ansawdd a Llywodraethu

25.1 Ym mis Medi 2016, cyhoeddodd y Bwrdd Iechyd ei Ddatganiad Ansawdd Blynyddol 2015/16 a oedd yn crynhoi sut mae'r sefydliad wedi bod yn gweithio dros y flwyddyn ddiwethaf i wella ansawdd yr holl wasanaethau y mae'n eu cynllunio a'u darparu. Gellir gweld yr adroddiad yma:
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/861/tudalen/40900

25.2 Yr Arweinydd Gweithredol dros Ansawdd a Diogelwch yn y sefydliad yw'r Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth, sy'n ategu at swydd y Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd.

Disodlodd y Grŵp Ansawdd a Diogelwch (QSG) y Grŵp Gweithredwyr Sicrwydd Ansawdd (QAE) yn Chwefror 2017. Sefydlwyd y QSG i oruchwylio gweithredu'r Strategaeth Gwella Ansawdd a'r cynlluniau cyflawni cysylltiedig. Mae'n effeithio'n gadarnhaol ar lywodraethu a'r rheoliadau drwy fonitro risgiau clinigol, esgyn a dadesgyn fel bo angen yn rheolaidd. Mae'r grŵp yn ceisio sicrwydd gan ei is-grwpiau sefydledig, gan sicrhau triongli sicrwydd a thystiolaeth o ddysgu o brofiad cleifion.

25.4 Yn ystod 2016/17 roedd gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforedig y cyfrifoldeb dros reoliadau Gweithio i Wella. Cyflwynwyd yr Adroddiad Blynyddol diweddaraf ar Gweithio i Wella i'r Bwrdd ym Medi 2016 a gellir cael mynediad ato drwy'r ddolen ganlynol (16/175):
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Agenda%20Bundle%20Health%20Board%2022.9.16%20Public%20V1.0.pdf

Dros y flwyddyn nesaf bydd cyfradd amser adrodd Gweithio i Wella yn cael ei newid i fod yr un amser â'r cyfraddau amser newydd ar gyfer adroddiadau blynyddol a chyfrifon (cynharach). Hefyd, derbyniodd y Bwrdd adroddiadau diweddaru rheolaidd am Weithio i Wella drwy'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig, sy'n adlewyrchu ar berfformiad y Bwrdd Iechyd yn erbyn targedau allweddol y Llywodraeth a lleol ac mae'n parhau i gael ei ddatblygu a'i fireinio (16/177):
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Agenda%20Bundle%20Health%20Board%2022.9.16%20Public%20V1.0.pdf
a thrwy bapurau eraill penodol ar Weithio i Wella i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau sy'n cynnwys testunau megis polisi, themâu, tueddiadau a dysg:
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/QS16_81%20Concerns%20Procedure.pdf
Mae egwyddorion ar gyfer gwella yn cael eu cynnwys yn y datgeliadau Gweithio i Wella a wnaed yn yr AQS, sy'n hygyrch drwy'r ddolen a ddarparwyd uchod.

25.5 Mae gwaith wedi symud ymlaen yn y flwyddyn i wella arweinyddiaeth glinigol a pherchnogaeth y broses PTR, sydd wedi cynnwys gwaith i sefydlu Gwasanaeth Eiriolaeth a Chysylltu Cleifion. Yn ogystal â hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn gweithio'n systematig i wella gwersi a ddysgwyd gyda datblygiad Fframwaith Ddysgu. Mae'r gweithrediad Pryderon hefyd yn mynd i drosglwyddo i fod dan arweiniad y Cyfarwyddwr Nyrsio Gweithredol, er mwyn cryfhau'r triongli themâu a gallu'r Bwrdd Iechyd i ddysgu o bryderon, cwynion a digwyddiadau.

26. Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

26.1 Mae gwella gweledegdd ac ymgysylltu wedi bod yn brif flaenoriaeth a chafwyd rhaglen brysur iawn o ymgysylltu â'r cyhoedd yn ystod 2016. Hefyd, cynhaliwyd mwy na 25 sesiwn ymgysylltu â staff '3D' er mwyn atgyfnerthu'r cysylltiadau rhwng y Bwrdd a staff sy'n gweithio ledled Gogledd Cymru. Mae'r ymagwedd 3D at ymgysylltu â staff yn ceisio pontio'r bwlch rhwng dyheadau'r gweithwyr a disgwyliadau'r cyflogwr. Y bwriad yw datblygu sefydliad lle mae ymgysylltu yn nodwedd barhaus, er mwyn ail adeiladu perthnasoedd ac adennill ymddiriedaeth:
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/15_284%20Engagement%20Review%20and%20Plan%20-%20BCUHB%20Nov%2015%20_final_.pdf
Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bod yn ceisio barn rhanddeiliaid ar ei strategaeth ymgysylltu. O ganlyniad i'r gwaith hwn, mae Strategaeth Ymgysylltu Cyhoeddus wedi'i gymeradwyo ac mae hyn yn rhoi fframwaith ar gyfer symud ymlaen. Gellir gweld y Strategaeth yn:
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/16_70.2%20Special%20Measures_Engagement%20Strategy.pdf

26.2 Hefyd, mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ymgysylltu ag ystod eang o randdeiliaid, ac ymgynghori â nhw a'u cynnwys mewn amrywiol ffyrdd, yn benodol:

- Mae Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid y Bwrdd Iechyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r trydydd sector a'r sector annibynnol ac o grwpiau cymunedol. Mae cyfarfodydd rheolaidd yn galluogi'r Grŵp hwn i fod yn ymwybodol o ddatblygiadau a chynghori'r Bwrdd am safbwyntiau'r gymuned ehangach;
- Cynhelir cyfarfodydd Bwrdd ar y Cyd â'r Cyngor Iechyd Cymuned (CIC) - cynhaliwyd tri chyfarfod fel hyn yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, yn ogystal â'r ddau gyfarfod rhwng Cadeiryddion y Bwrdd Iechyd a'r CIC;
- Cynhelir cyfarfodydd â 6 Arweinydd a Phrif Weithredwyr yr Awdurdodau Lleol bob chwarter;
- Mae'r Bwrdd yn ymgysylltu'n barhaus â staff ac undebau llafur ar draws pob grŵp proffesiynol. Mae hyn yn cynnwys cyfathrebu'n rheolaidd â staff, ymgynghoriadau a chyfarfodydd y Fforwm Partneriaethau Lleol, Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd, Pwyllgor Meddygol Lleol, Pwyllgor Trafod Lleol yn ogystal â phwyllgorau contractwyr gofal cychwynnol eraill;

- Cynhelir cyfarfodydd y Bwrdd Iechyd yn gyhoeddus bob mis; mae croeso i aelodau'r cyhoedd ac arsylwyr eraill fynychu;
- Mae system yn ei lle ar gyfer ymgysylltu ag Aelodau Cynulliad a Seneddol ac ymateb i ymholiadau neu bryderon y maen nhw'n eu codi ar ran eu hetholwyr.

26.3 Cymeradwyodd y Bwrdd Strategaeth Ymgysylltu â Staff yn Awst 2016 ynghyd â chynllun gweithredu. Datblygwyd hwn gyda chyfarwyddyd y Gweithgor Ymgysylltu â Staff, corff tridarn sy'n cynnwys Aelodau'r Bwrdd, cynrychiolwyr undebau llafur ac uwch reolwyr. Cyflwynwyd adroddiad diweddaru ar gynnydd i'r Bwrdd yn ei gyfarfod Ionawr 2017. Bydd rhaglen waith ymgysylltu â staff yn cael ei datblygu ymhellach mewn ymateb i ganlyniadau Arolwg Staff GIG Cymru 2016.

Bydd uchafbwyntiau allweddol rhaglen waith Ymgysylltu â Staff yn cynnwys

- Ymgyrch Balch o' yn y prif ysbytai
- Lansio Fframwaith Ymddygiadau Arweiniol - Falch o Arwain
- Lansiad Gwobr Seren Betsi Star Award
- Nodi Arweinwyr Gwrando
- Penodi Llysgenhadon Ymgysylltu â Staff
- Lansio Darganfod, Trafod, Cyflawni, methodoleg gwrando ac ymgysylltu'r Bwrdd Iechyd
- Mae rhaglen Datblygiad Arweinwyr rheolwyr wardiau Cenhedlaeth 2015 nawr ar ei chweched garfan.
- Lansio proses Gwerthuso Perfformiad ac Adolygu Datblygiad diwygiedig gan ganolbwyntio ar werthoedd ac ymddygiad y Bwrdd Iechyd

27. Safonau Iechyd a Gofal Cymru: Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd

27.1 Roedd y Safonau Iechyd a Gofal a lansiwyd ym mis Ebrill 2015 yn cadarnhau bod llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd effeithiol yn hanfodol ar gyfer darpariaeth gynaliadwy gofal diogel, effeithiol, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac felly'n rhan annatod o'r holl Safonau Iechyd a Gofal.

27.2 Ar 22.3.16, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru nodyn diweddaru technegol o ran safon arweinyddiaeth, llywodraethu ac atebolrwydd. Y cyngor blaenorol oedd mai 2014/15 fyddai blwyddyn olaf y modiwl a bod Byrddau Iechyd i wneud trefniadau lleol i asesu'r safon hon yn y cyfamser. Oherwydd bod y Bwrdd Iechyd wedi'i roi mewn Mesurau Arbennig ym mis Mehefin 2015, mae tystiolaeth o gynnydd yn erbyn y safon hon wedi cael ei ganolbwyntio a'i fonitro fel rhan annatod o'r Fframwaith Gwella Mesurau Arbennig.

27.3 Fel rhan o'r broses hon, mae'r Bwrdd, gyda chyngor gan Ann Lloyd fel Cynghorydd Annibynnol fel y nodwyd yn flaenorol, wedi ymgysylltu mewn Rhaglen Ddatblygu Bwrdd barhaus gan ganolbwyntio ar wella Llywodraethu, Arweinyddiaeth ac Atebolrwydd. Mae hyn wedi cynnwys holiaduron hunan asesu, cyfweliadau unigol gan Aelodau'r Bwrdd a gweithdai i drafod y canlyniadau ac asesu perfformiad unigol ac ar y cyd. Mae'r Rhaglen Ddatblygu Bwrdd, sy'n adlewyrchu'r disgwyliadau yn y Fframwaith Gwella Mesurau Arbennig wedi'i theilwra i gyflawni'r datblygiadau angenrheidiol.

27.4 Fel y nodir yn gynt yn y datganiad hwn, mae'r Bwrdd yn cael diweddariadau rheolaidd ar y cynnydd a wneir yn erbyn y Fframwaith Gwella Mesurau Arbennig ac mae'r rhain ar gael ar y wefan. Mae cynnydd hefyd yn cael ei fonitro yn genedlaethol drwy gyfarfodydd tridarn rhwng Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru.

27.5 Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd Iechyd yn dal i ddatblygu cynlluniau a phrosesau ond gall ddangos cynnydd er bod rhai meysydd allweddol sy'n dal angen eu gwella, megis cwblhau'r holl uwch benodiadau o dan lefel y Bwrdd a gorffen y strwythurau sy'n cadarnhau sut mae adrannau corfforaethol yn gweithio â thimau gweithredol. Oherwydd hyn, byddai asesiad dangosol yn erbyn y Matrics Sgorio Modwl Llywodraethu ac Atebolrwydd yn cael ei bennu ar 'Lefel 3'.

28. Y Safonau Iechyd a Gofal (HCS) Fframwaith Diwygiedig

28.1 Yn dilyn lansio'r Fframwaith HCS diwygiedig, ynghyd â lansio'r deuddeg Dangosydd Ansawdd allweddol gan y Comisiynydd Pobl Hŷn mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i ymgorffori'r argymhellion i'w drefniadau monitro cyfredol o'i archwiliadau ward i'r Bwrdd misol.

28.2 Mae Themâu Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal yn cael eu mapio yn yr Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig a chaiff cynnydd ei fonitro (gan gynnwys canlyniadau'r archwiliadau ward i fwrdd) drwy'r adroddiad hwn ar sail fisol gan y Bwrdd. :
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Item%2016_58%20IQPR.pdf

28.3 Datblygwyd Dangosfwrdd HARM Ward i Fwrdd (gan ddefnyddio gwybodaeth o'r Hwb Data Ansawdd) yn 2016/17. Caiff y dangosfwrdd hwn ei lansio ar draws yr holl wardiau yng ngwanwyn 2017. Bydd datblygiad Dangosfyrddau Ansawdd ar gyfer y Bwrdd Iechyd yn cefnogi gweithrediad y Strategaeth Gwella Ansawdd a helpu datblygu diwylliant lle ystyrir anelu at ddim niwed yn normal. Mae'r Dangosfyrddau'n cael eu datblygu mewn cydweithrediad agos â staff a fydd yn eu defnyddio'n ddyddiol (rheolwyr wardiau, metronau ayb). Mae digwyddiadau/sesiynau ymgynghori yn barhaus o ran cynnwys a fformat ar bob cyfnod y datblygiad, gan sicrhau ymagwedd gwaelod i fyny i ddatblygiad a fydd yn arwain at ymroddiad llawn a newid cynaliadwy.

28.4 Mae datblygiad Dangosfwrdd HCS wedi dechrau gyda'r nod o ddarparu sicrwydd amser real ar draws BIPBC yn erbyn bob un o safonau HCS gan ddefnyddio gwybodaeth o'r Hwb Data Ansawdd.

28.5 Mae argymhellion HCS a'r Comisiynydd Pobl Hŷn nawr wedi'u mapio i bob un o argymhellion AGIC a'u hadrodd i'r Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad yn chwarterol a'r Grŵp Ansawdd a Diogelwch yn fisol. Mae gwaith yn mynd ymlaen hefyd gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned i fapio'r cwestiynau a ofynnwyd yn ystod archwiliadau i'r safonau HCS ac argymhellion OPC. Gweler QS17/80 drwy:
http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Agenda%20bundle%20QSE%209.5.17%20Public%20V2.01.pdf

29. Strategaeth Gwella Ansawdd

29.1 Mae Strategaeth Gwella Ansawdd BIPBC (2014 i 2017) yn canolbwyntio ar dri phrif faes yn cynnwys profiadau cleifion, diogelwch ein gwasanaethau i wella canlyniadau iechyd ac ansawdd y canlyniadau a ddarparwyd drwy ragoriaeth glinigol. Mae adolygiad, adfywiad ac ail-ganolbwyntio nawr yn digwydd ar draws y sefydliad i ymgysylltu â staff mewn trafodaethau ynghylch ail gyfnod ein Strategaeth Gwella Ansawdd a fydd dros y cyfnod 2017-2020.

29.2 Mae Tîm Profiad y Defnyddiwr Gwasanaeth wedi gweithredu Fframwaith Cymru Gyfan a ddiwygiwyd ar gyfer Sicrhau Profiad y Defnyddiwr Gwasanaeth yn ystod 2016/17. Er mwyn sicrhau ymagwedd gytbwys, mae'r Bwrdd Iechyd wedi mireinio'r dulliau a ddefnyddiwyd i gipio adborth cleifion, gan gynnwys adborth amser real, gweithredu arolwg cleifion mewnol ac Allanol Cymru gyfan, cardiau sylwadau generig a storïau cleifion. Trafodir a lledaenir adroddiadau rheolaidd ar themâu, tueddiadau a gwersi a ddysgwyd o adborth (gan gynnwys cwynion) drwy'r Grŵp Gwrando a Dysgu o Brofiad. Gan symud ymlaen, mae system adborth amser real yn cael ei brynu er mwyn gallu casglu data amser real ar draws y Bwrdd Iechyd. Bydd y Gwasanaeth

Cynghori a Chefnogi Cleifion (PALS) yn cael ei weithredu yn haf 2017 a fydd yn mwyafu casglu adborth ymhellach a bydd yn ymagwedd sy'n canolbwyntio yn fwy ar y cwsmer. Mae gwaith yn mynd ymlaen i gynnwys adborth profiad y claf i'r dangosfwrdd.

29.3 Ymgymerwyd â gwaith arwyddocaol yn ystod 2016/17 i ddatblygu triongli gwybodaeth yn bellach o deithiau crwydro arweinyddiaeth a diogelwch a sawl gwahanol ffynhonnell. Mae'r dystiolaeth o'r holl ffynonellau hyn yn darparu cyfleoedd i gael tystiolaeth arfaethedig o'n cydymffurfiad â safonau iechyd a gofal, safonau'r Comisiynydd Pobl Hŷn ac amcanion sy'n flaenoriaeth. I gefnogi'r triongli hwn, mae'r Tîm Ansawdd wedi bod yn gweithio gyda Gwybodeg i ddatblygu dangosfwrdd a fydd yn galluogi'r Bwrdd, Uwch Adrannau a wardiau i edrych ar eu data i gefnogi meysydd gwelliant. Mae hyn yn cael ei orffen i fynd yn fyw yn yr haf 2017.

29.4 Bydd angen gwaith pellach ar draws gofal eilaidd a thimau Ardal drwy drefniadau Llywodraethu i greu tystiolaeth o driongli lleol a gweithredu gwelliannau i arddangos y gwersi a ddysgwyd.

30. Elfennau Fframwaith Rheoli eraill

30.1 **Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol**

Mae mesurau rheoli yn eu lle i sicrhau y cydymffurfir â holl oblygiadau'r sefydliad dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol drwy:

- Y gwerthoedd, sef tegwch, parch, cydraddoldeb, urddas ac ymreolaeth, (sy'n creu'r acronym 'FREDA' yn Saesneg) a nodir yn y dyletswyddau cydraddoldeb ac egwyddorion hawliau dynol ac sy'n sylfaen i'n cyfeiriad strategol; roedden nhw hefyd yn amlwg iawn wrth ddatblygu set o werthoedd sefydliadol;
- Cymeradwyo'r Polisi Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol a'r Weithdrefn ar gyfer Asesu Effaith ar Gydraddoldeb;
- Adolygu a diwygio Cynllun Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i'r Bwrdd Iechyd 2016-2020; yn cynnwys Amcanion Cydraddoldeb a ddatblygwyd yn dilyn ymgysylltu helaeth â'r cyhoedd ac ar y cyd â phartneriaid sector cyhoeddus ledled Gogledd Cymru;
- Cyfarfodydd ffurfiol o'r Fforwm Strategol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol sy'n monitro cydymffurfiad yn erbyn y canlyniadau cydraddoldeb ac amcanion y cynllun gweithredu, sy'n cael eu tanategu gan y dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus. Mae materion o bwys a gwendidau o ran cydymffurfiaeth yn cael eu mynegi i Gadeiryddion Is-Bwyllgorau'r Bwrdd, y Tîm Gweithredol, Cyfarwyddwyr Ardal, Cyfarwyddwyr Gofal Eilaidd a Gwasanaethau Iechyd Meddwl i'w gweithredu.
- Mae'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cydraddoldeb allanol hefyd yn cael gwybod am gynnydd bedair gwaith y flwyddyn. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys cynrychiolaeth o aelodau'r cyhoedd sydd â diddordeb mewn materion cydraddoldeb;
  Mae'r Cyngor Iechyd Cymuned hefyd yn cael gwybod am gynnydd yn flynyddol;
- Roedd Hyfforddiant Asesu Effaith ar Gydraddoldeb yn cynnwys cefnogaeth ac arweiniad a dargedwyd, er enghraifft, ar gyfer prosiectau adolygu gwasanaeth;
- Cryfhau trefniadau craffu a llywodraethu EqIA drwy sefydlu grŵp i roi cyngor a chraffu ar Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb yn ymwneud â Strategaethau a Chynlluniau Gwasanaeth allweddol BIPBC. Mae aelodaeth y grŵp hwn yn cynnwys rhanddeiliaid allanol yn ogystal â chynrychiolwyr o adrannau allweddol BIPBC (Cynllunio, Ymgysylltu, Cyfathrebu, Iechyd Cyhoeddus, Cydraddoldeb) ac aelodau enwebedig ein Grŵp Gweithredol Cydraddoldeb a Hawliau Dynol.

- Rhoi'r pecyn e-ddysgu Tegwch, Hawliau a Chyfrifoldebau ar waith. Mae hyn yn orfodol i'r holl staff i godi ymwybyddiaeth am gydraddoldeb a hawliau dynol a'r dyletswyddau cydraddoldeb, ac i annog staff i ddeall yn well sut mae'r materion hyn yn gallu cael effaith ar eu swyddogaethau yn y sefydliad;
- Cyflwyno Adroddiad Blynyddol Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Hawliau Dynol i'r Bwrdd.

30.2 **Cynllun Pensiwn**

Fel cyflogwr â staff sydd â hawl i fod yn aelodau o Gynllun Pensiwn y GIG, mae mesurau rheoli yn eu lle i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â'r holl oblygiadau i gyflogwyr sydd yn y Cynllun a'r rheoliadau. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yr holl ddidyniadau o gyflogau, cyfraniadau'r cyflogwr a thaliadau i'r Cynllun yn unol â rheolau'r Cynllun, a bod cofnod aelodau'r Cynllun Pensiwn yn cael eu diweddaru'n gywir yn unol â'r amserlenni sydd yn y Rheoliadau.

30.3 **Dilysu ÔI Daliadau**

30.3.1 Nod y broses Ddilysu ÔI Daliadau (PPV) yw sicrhau priodoldeb taliadau arian cyhoeddus gan y Bwrdd Iechyd; mae hyn yn golygu bod rhaid i'r tîm Dilysu ÔI Daliadau wneud gwiriadau cywirdeb yn barhaus. Mae hyn yn rhoi'r sicrwydd angenrheidiol i'r Bwrdd Iechyd bod arian cyhoeddus wedi cael ei wario'n briodol ac yn rhoi sicrwydd i gontractwyr o ran eu trefniadau.

30.3.2 Cytunwyd ar raglen dreigl 3 blynedd wedi'i haddasu o ymweliadau Dilysu Post Daliadau ar gyfer Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol a Gwasanaethau Optegol Cyffredinol, yn unol â phrotocolau GIG Cymru y cytunwyd arnynt.

30.3.3 Mae Partneriaeth Cyd Wasanaethau GIG Cymru yn defnyddio technegau dadansoddi risg ac yn cysylltu â chydweithwyr perthnasol yn y Bwrdd Iechyd, ac yn dibynnu ar y cyfraddau camgymeriadau sy'n cael eu darganfod, yn cynnal ail ymweliadau neu gamau priodol eraill â'r Bwrdd Iechyd.

30.3.4 Derbynnir diweddariadau rheolaidd yn erbyn y cynllun gwaith y cytunwyd arno ac Adroddiad Blynyddol gan y Pwyllgor Archwilio yn rhoi manylion am y dadansoddiad o adenillion gan Gontractwyr, sy'n ddienw.

30.4 Cynlluniau Cyflawni Lleihau Carbon

30.4.1 Mae'r sefydliad wedi cynnal asesiadau risg ac mae Cynlluniau Darparu Lleihau Carbon yn eu lle yn unol â gofynion bod yn barod am argyfwng a chynlluniau sifil wrth gefn yn seiliedig ar ragamcaniadau tywydd UKCIP 2009, i sicrhau y cydymffurfir â goblygiadau'r sefydliad dan y Ddeddf Newid yn yr Hinsawdd a'r gofynion Adrodd ar Addasiadau.
Rydym yn gwneud trefniadau partneriaeth a rhannu gwybodaeth â chyrff cyhoeddus eraill fel rhan o ddatblygiad parhaus Strategaeth Lleihau Carbon y Bwrdd Iechyd.

30.4.2 Mae gan y Bwrdd Iechyd nifer o agweddau amgylcheddol a allai effeithio'n ariannol ac amgylcheddol yn sylweddol os na fyddant yn cael eu rheoli'n ofalus. Fel rhan o'i ymrwymiad corfforaethol tuag at leihau'r effeithiau hyn, mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithredu a chynnal System Reoli Amgylcheddol ffurfiol (EMS), a gynlluniwyd i gyflawni'r egwyddorion allweddol hyn:-

- Datblygiad cynaliadwy
- Cydymffurfiad â gofynion cyfreithiol a llywodraethol perthnasol.
- Atal llygredd.
- Lliniariad yn erbyn effaith newid hinsawdd.
- Diwylliant o welliannau parhaus.

30.4.3 Mae rheolaeth amgylcheddol effeithiol yn cael ei chyflawni drwy'r prosesau canlynol:-

- Hyrwyddo'r polisi amgylcheddol i'r holl randdeiliaid perthnasol.
- Nodi bob agwedd amgylcheddol arwyddocaol a gofynion cyfreithiol cysylltiedig, gan gynnwys y rhai sy'n digwydd o ganlyniad i newidiadau gwasanaeth a deddfau newydd.
- Sefydlu a monitro amcanion a thargedau, wedi'u hanelu at leihau effeithiau amgylcheddol ac ariannol, yn unol â'r rhai a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru
- Darpariaeth hyfforddiant briodol i bob personél perthnasol.
- Archwiliadau mewnol ac allanol rheolaidd.
- Adolygiad rheolaidd o effeithiolrwydd y SRA, gan y Grŵp Llywio Amgylcheddol.
- Gweithio gyda phartneriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol i gyflawni ymagwedd sector cyhoeddus cyson at reoli amgylcheddol ac i sicrhau bod gweithdrefnau arferion gorau yn cael eu nodi a'u gweithredu.

30.4.4 Mae'r Bwrdd Iechyd wedi bodloni bob cam o darged tair blynedd Llywodraeth Cymru i gyflawni ardystiad i System Reoli Amgylcheddol (SRA) BS EN ISO14001:2004. Y targed olaf oedd cyflwyno'r SRA i'r holl ganolfannau iechyd cymunedol erbyn Rhagfyr 2014. Cyflawnwyd hyn yn dilyn archwiliad llwyddiannus gan archwilwyr allanol a achredwyd gan UKAS yn Nhachwedd 2014. Mae BIPBC nawr yn ei ail flwyddyn o archwiliadau asesu parhaus. Mae BS EN ISO14001:2004 bellach wedi cael ei ddisodli gan BS EN ISO14001:2015, bydd archwiliadau allanol ar bob safle sy'n cael ei gynnwys yng nghwmpas yr SRA yn sicrhau pontio llyfn mewn 3 blynedd.

30.4.5 Datblygwyd strategaeth weithredu i reoli ein Hymrwymiad Lleihau Carbon (CRC) ac fe'i gweithredwyd, a bellach mae'n aros am adolygiad mewnol i brofi pa mor gadarn yw'r drefn.

30.4.6 Datblygwyd Cynllun Gweithredu Carbon y Bwrdd Iechyd yn fformat safonol Llywodraeth Cymru. Bydd gweithredu'n cael ei fonitro a'i adrodd yn flynyddol. Mae mwyafrif yr eitemau ar y cynllun yn dibynnu ar ddyrannu adnoddau o Ddatblygiad Cyfalaf Mawr a'r Dyraniadau Cyfalaf Disgresiwn Blynyddol a fydd yn amrywio bob blwyddyn. Bydd cynnydd y cynllun gweithredu felly'n dibynnu ar argaeledd adnoddau corfforaethol.

30.5 Gwasanaeth Gwrth Dwyll Lleol

30.5.1 Mae'r Pwyllgor Archwilio yn derbyn Adroddiadau Cynnydd Gwrth Dwyll Lleol rheolaidd yn chwarterol ac Adroddiad Blynyddol ar waith Lleol Gwrth Dwyll a wnaed yn ystod y flwyddyn ariannol. Mae hyn yn rhoi crynodeb o'r gwaith a wnaed gan y Tîm Gwasanaethau Gwrth Dwyll Lleol yn ystod y flwyddyn ac yn rhoi manylion y prif ganlyniadau, yn cynnwys nifer y sancsiynau Troseddol a Disgyblu, yn ogystal â'r adenillion ariannol a ddiogelwyd.

30.5.2 Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cynnal cyfarfod preifat dwyochrog chwarterol â Phennaeth y Gwasanaethau Gwrth Dwyll Lleol, i sicrhau bod dealltwriaeth glir o'r materion a risgiau cyfredol, fel yr argymhellir yn Llawlyfr Pwyllgor Archwilio GIG Cymru. Awgrymwyd y newid mewn amlder i gyfarfodydd chwarterol yn lle cyfarfod blynyddol gan y Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid. Mae hyn yn cynrychioli gwelliant mewn sicrwydd i'r Bwrdd Iechyd ac yn arwain at berfformiad mwy effeithiol o'r Pwyllgor Archwilio wrth ymdrin â materion Gwrth Dwyll.

30.5.3 Yn ystod 2016/17 mae'r Tîm Gwrth Dwyll Lleol wedi ymgymryd ag ystod o weithgareddau, gan arwain at y canlyniadau a'r buddion a wireddwyd fel y nodir isod:

- Cynhaliwyd 56 Digwyddiad Ymwybyddiaeth o Dwyll ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Cynhaliwyd 16 Gweithgaredd Canfod Twyll ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Cynhaliwyd 191 Gweithgaredd Atal Twyll ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Dyfarnwyd £6,040.21 o gostau iawndal troseddol gan y Llys.
- Dyfarnwyd £5,315.00 o gostau ymchwilio gan y Llys.

- Diogelwyd £42,090.87 mewn ad-daliadau sifil neu wirfoddol gan y tîm Gwrth Dwyll Lleol.
- Mae Gwasanaeth Mewnfudo'r Swyddfa Gartref wedi rhoi gwybod i'r Tîm Gwrth Dwyll Lleol bod Llywodraeth Cymru wedi rhoi gwybod i'r Swyddfa Gartref yr hoffent weld y system sydd ar waith yn y Bwrdd Iechyd ar gyfer cleifion sy'n ymwelwyr o dramor, yn cael ei defnyddio mewn Byrddau Iechyd eraill ar draws Cymru. Mae'r gwaith gyda Gwasanaeth Mewnfudo'r Swyddfa Gartref yn parhau ar sail barhaus i sicrhau bod adnoddau GIG Cymru yn cael eu defnyddio gan gleifion y GIG sydd â hawl, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

30.6 Cyfarwyddiadau Gweinidogol

30.6.1 O fis Hydref 2014, defnyddir Cylchlythyrau Iechyd Cymru yn lle Llythyrau Gweinidogol a gellir cael mynediad atynt drwy'r ddolen ganlynol:
http://gov.wales/topics/health/nhswales/circulars/?skip=1&lang=cy

30.6.2 Cyhoeddwyd cyfres o Gylchlythyrau WHC gan Lywodraeth Cymru yn ystod 2016-17 ac maent yn cael eu logio'n ganolog yn y Bwrdd Iechyd a phenodir Cyfarwyddwr Gweithredol i oruchwylio rhoi unrhyw gamau angenrheidiol wrth weithredu e.e. gweithredwyd ar WHC2016/033 ac arweiniodd hyn at y Pwyllgor Archwilio yn newid ei arfer o gyfarfod yn breifat i gyfarfod yn gyhoeddus. Darperir copi o'r WHC i bob aelod annibynnol wrth dderbyn, hefyd byddant yn cael eu hysbysu drwy Flaen Weledigaeth wythnosol gan y Tîm Cyfathrebu. Mae hyn yn galluogi Cadeiryddion Pwyllgorau i sicrhau bod y Bwrdd neu un o'i Bwyllgorau yn cael gweld ei gynnwys fel bo'n briodol.

30.6.3 Hefyd, mae Cyfarwyddiadau Gweinidogol yn dal i gael eu derbyn a'u gweithredu gan y Bwrdd Iechyd. Mae system logio ac olrhain yn ei lle, ac fe'i mwyafwyd yn ystod 2016 i gynnwys manylion pellach ar fabwysiadu gofynion fel y nodwyd yn y Cyfeiriadau. Ni chafodd y Bwrdd Iechyd ei atal gan unrhyw faterion arwyddocaol wrth weithredu'r gweithrediadau gofynnol dros y flwyddyn ddiwethaf. Gellir gweld y cyfarwyddiadau drwy ddilyn y ddolen isod:
http://gov.wales/legislation/subordinate/nonsi/nhswales/2015/directions-7/?skip=1&lang=cy

31.7 Data

31.7.1 Diogelwch Data

31.7.1 Y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol sy'n gyfrifol am lywodraethu gwybodaeth yn y Bwrdd Iechyd, ac mae'n gweithredu fel Uwch-berchennog Risg Gwybodaeth (SIRO), gyda'r Cyfarwyddwr Cynorthwyol Llywodraethu Gwybodaeth a Sicrwydd yn gweithredu fel Swyddog Diogelu Data. Y Dirprwy Gyfarwyddwr Meddygol yw Gwarcheidwad Caldicott.

31.7.1.2 Adolygwyd statws llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn rheolaidd gan y Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad gyda nodyn penodol ar gyfer cydymffurfiad hyfforddi gorfodol. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymgymryd â hunanasesiad Caldicott gan ddefnyddio offer cydnabyddedig, gan gynnal cyfradd Dosbarth 4 seren a chydymffurfiad o 88% yn erbyn yr offer, sef yr un sgôr a gyflawnwyd yn 2015/16.

31.7.1.3 Adroddodd y Bwrdd Iechyd 4 doriad diogelwch data a sbardunodd atgyfeiriad i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, ni chafodd y Bwrdd unrhyw gosbau ariannol yn ystod y flwyddyn. Roedd y rhain yn ymwneud â dau ddigwyddiad a oedd yn cynnwys cludo gwybodaeth gyfrinachol yn anniogel, un yn ymwneud â darparu cyngor anghywir o ran trefniadau rhannu gwybodaeth ac un yn ymwneud â thoriad mewn diogelwch data cenedlaethol yn cynnwys darparwr monitro ymbelydredd.

31.7.7.4 Fel rhan o'r broses i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu yn dilyn ymchwiliad i ddigwyddiadau, mae'r Tîm Llywodraethu Gwybodaeth wedi cymryd sawl cam, gan gynnwys:

- rhennir bwletinau llywodraethu gwybodaeth chwarterol ar draws y sefydliad ac maen nhw ar gael ar safle fewnrwyd y staff
- cyhoeddir rhybuddion i'r holl staff i'w hatgoffa o'u cyfrifoldebau dan ofynion cludo gwybodaeth cleifion a phersonol diogel
- cryfhawyd prosesau tîm lleol i sicrhau bod papurau yn cael eu casglu ar ddiwedd cyfarfodydd.
- ymgymerwyd ag adolygiad o gronfeydd data a chryfhawyd cyfyngiadau mynediad o ganlyniad

31.7.2 Ansawdd Data

31.7.2.1 Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud pob ymdrech i sicrhau ansawdd a chadernid ei ddata, ac mae gwiriadau rheolaidd yn eu lle i sicrhau y gellir dibynnu ar gywirdeb yr wybodaeth. Fodd bynnag, golyga lluosogrwydd systemau a mewnbynnwyr data ar draws y sefydliad bod posibilrwydd o amrywiaeth mewn ansawdd yn bodoli bob amser, felly mae lle i wella bob amser.

31.7.2.2 Yn ystod 2016/17 amnewidiwyd y System Weinyddu Cleifion (PAS) yn Ysbyty Glan Clwyd. Bu hyn yn symudiad cadarnhaol tuag at safoni ffynonellau gwybodaeth a chasglu data ar draws y Bwrdd Iechyd. Fodd bynnag, roedd hyn yn cynrychioli ymarferiad mawr, oedd angen rheolaeth dechnegol o fudo data ac ailhyfforddi staff i ddefnyddio'r prosesau busnes newydd, ac felly, canlyniad hyn fu rhywfaint o broblemau ansawdd data dechreuol ers dechrau ei gweithredu yn Nhachwedd 2016. Er enghraifft, roedd angen dadansoddiad manwl ar gyfer data rhestrau aros cyn bod modd ailsefydlu adrodd ac adroddwyd data arall ynghyd â rhybudd i fod yn ofalus. Trafodwyd y materion hyn gan bwyllgorau'r Bwrdd ac mae Archwilio Mewnol wedi bod yn gysylltiedig i adolygu gweithrediad ac i gefnogi'r broses o wersi a ddysgwyd cyn rhoi rhaglen amnewid debyg ar waith a gynllunnir ar gyfer Ysbyty Maelor Wrecsam yn 2017.

31.7.2.3 Mae'r Adroddiad Ansawdd a Pherfformiad Integredig misol a gyflwynwyd i'r Bwrdd yn cynnwys data ar berfformiad yn erbyn cynllun am flwyddyn, yn ogystal ag arddangos y perfformiad a adroddwyd yn y cyfnod presennol a blaenorol. Mae hyn yn cynorthwyo'r bwrdd i archwilio meysydd lle mae amrywiaeth yn uwch na'r disgwyl, hefyd mae'n galluogi cyfranogwyr at yr adroddiad i amlygu unrhyw faterion ansawdd data yn eu hadroddiadau eithriad. Yn gyffredinol, mae'r Bwrdd yn fodlon bod ansawdd data yn ddigon cywir i allu nodi patrymau neu dueddiadau mewn perfformiad. Mae gwelliannau o ran ansawdd data yn parhau i fod yn broses barhaus.

32. Adolygu Effeithiolrwydd

32.1 Fel y Swyddog Atebol, rwy'n gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol. Mae fy adolygiad o'r system reolaeth fewnol wedi cymryd i ystyriaeth gwaith yr Archwilwyr Mewnol a'r Cyfarwyddwyr Gweithredol yn y sefydliad, sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal a chadw'r fframwaith reolaeth fewnol, a'r sylwadau a wnaed gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill.

32.2 Mae fy adolygiad hefyd wedi cael ei harwain gan

- Adborth gan Lywodraeth Cymru
- Archwiliadau allanol gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Adolygiadau annibynnol
- Cynlluniau archwilio ac adroddiadau gan archwilwyr allanol a mewnol
- Adborth gan y Cyngor Iechyd Cymuned

- Adborth gan Gomisiynwyr statudol
- Adborth gan staff, cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth ac aelodau o'r cyhoedd
- Oherwydd fy mod yn weddol newydd i'r sefydliad, adolygir systemau sy'n weithredol yma yn Bwrdd Iechyd drwy eu cymharu â sefydliadau iechyd eraill rwyf wedi gweithio ynddynt ar lefel uwch.

32.3 Mae fy adolygiad o effeithiolrwydd y system reolaeth fewnol wedi cael ei arwain gan drefniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd. Rydym yn gweithio i wella effeithiolrwydd systemau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd yn barhaus mewn nifer o ffyrdd, er enghraifft:

- Sesiynau Datblygiad y Bwrdd ar Risg a Sicrwydd

- Y Pwyllgor Archwilio: Mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn cymryd rhan yng Ngrŵp Cadeiryddion Pwyllgorau Archwilio Cymru Gyfan i ddynodi materion a rhannu arfer da. Mae Aelodau'r Pwyllgor Archwilio wedi cael hyfforddiant penodol yn flaenorol a hwyluswyd gan Swyddfa Archwilio Cymru i wella gwybodaeth ac effeithiolrwydd. Fel y nodwyd yn flaenorol, cytunwyd hefyd ar drefniadau diwygiedig ar gyfer cylch adrodd blynyddol y Pwyllgor, i alluogi'r Pwyllgor Archwilio i gael y cyfle i adolygu holl adroddiadau'r Pwyllgor ac yn ei dro i gynnwys sicrwydd i'r Bwrdd drwy ei Adroddiad Blynyddol.

- Archwilio Mewnol: Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cymeradwyo Siarter Archwilio Mewnol gyda Phartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru, Strategaeth a chynllun archwilio yn seiliedig ar risg ar gyfer 2015 i 2018. Mae'r cynllun yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ac Ysgrifennydd y Bwrdd ac adroddir am unrhyw newidiadau arfaethedig i'r Pwyllgor Archwilio. Cyflwynir a chraffir ar adroddiad cynnydd ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio. (Gweler Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol yn adran 33).

32.4 Yn dilyn ymlaen o drafodaethau yn y Bwrdd, gofynnwyd i'r Cyfarwyddwyr fapio'r strwythurau llywodraethu mewnol sy'n gweithredu o fewn eu meysydd penodol nhw (h.y. y cyrff a sefydlwyd gan y gyfarwyddiaeth yn hytrach na grwpiau/cyrff lle mae aelodau o'r gyfarwyddiaeth yn eu mynychu). Adolygwyd a diwygiwyd y rhain i sicrhau lefel o gysondeb ar draws y sefydliad ac maent yn cynnwys cyfrifoldebau Arweinwyr Gweithredol ar gyfer adrodd sicrwydd o Grwpiau Rheoli Strategol y Bwrdd Iechyd cyfan.

32.5 Disgwylir i bob cyfarwyddiaeth fod â chyfarfodydd Uwch Dîm Arweinyddol yn eu lle. Dylai'r cyfarfodydd hyn weithio o fewn amodau gorchwyl eang, lle mae'n eglur bod materion fel hyn yn cael eu rhestru isod a'u hystyried a'u triongli:

- Ansawdd, diogelwch a phrofiad - gan gynnwys pryderon a digwyddiadau, gofal iechyd parhaus, dysgu o brofiad, adborth o deithiau crwydr arweinyddol
- Cyllid a pherfformiad - gan gynnwys adolygiadau perfformiad ac atebolrwydd, ystadau a chyfalaf
- Gweithlu a datblygiad sefydliadol - gan gynnwys briffiau tîm, perthnasau gyda chynrychiolwyr staff, cynllunio gweithlu hyfforddiant a datblygiad, gwerthuso ac ail-ddilysu
- Rheoli risg

32.6 Yn ogystal â hyn, mae'r Prif Swyddog Gweithredu wedi sefydlu a chadeirio Grŵp Rheoli Gweithredol i oruchwylio darpariaeth weithredol.

32.7 Nid yw'r wybodaeth uchod yn rhestr gyflawn, yn hytrach mae'n cynrychioli fframwaith i yrru cysondeb a llywodraethu da. Rydym yn cydnabod bydd y ffordd rydym yn gwneud y dyletswyddau hyn yn amrywio yn ddibynnol ar sgôp a maint bob cyfarwyddiaeth. Adolygwyd y trefniadau hyn fel mater o drefn gan Archwilio Mewnol yn 2016/17.

32.8 Ymgymerwyd ag adolygiad o'r amodau gorchwyl ar gyfer y Gweithredwyr Sicrwydd Ansawdd ac ymwahanwyd y Grŵp hwn yn ffurfiol a'i ddisodli gan y Grŵp Ansawdd a Diogelwch newydd, gan adrodd yn uniongyrchol i'r Tîm Gweithredol.

33. Archwiliad Mewnol

33.1 Mae archwilio mewnol yn darparu llif o sicrwydd am y system reoli fewnol i mi fel Swyddog Atebol ac i'r Bwrdd drwy'r Pwyllgor Archwilio. Comisiynwyd rhaglen o waith archwilio ac fe'i darparwyd yn unol â safonau archwilio mewnol y sector cyhoeddus gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru. Cytunwyd ar sgôp y gwaith hwn gyda'r Pwyllgor Archwilio ac mae'n canolbwyntio ar feysydd risg sylweddol a blaenoriaethau gwella lleol.

33.2 Mae barn gyffredinol y Pennaeth Archwilio Mewnol ar lywodraethu a rheoli risg yn rhan o'r rhaglen archwilio hon sy'n seiliedig ar risg, ac mae'n cyfrannu at y darlun o sicrwydd sydd ar gael i'r Bwrdd Iechyd wrth adolygu effeithiolrwydd a chefnogi ein hymgyrch ar gyfer gwelliant parhaus.

33.3 Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi casglu:

Mae sgôp fy marn wedi cael ei gyfyngu i'r meysydd a archwiliwyd yn y cynllun archwilio'n seiliedig ar risg y cytunwyd arno gydag uwch reolwyr ac a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio. Dylai asesiad y Pennaeth Archwilio Mewnol gael ei ddehongli yn y cyd-destun hwn wrth adolygu effeithiolrwydd y system reoli fewnol a chael ei weld fel sbardun mewnol ar gyfer gwelliant parhaus. Mae barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith llywodraethu'r sefydliad, rheoli risg a rheolaeth yn cael ei nodi isod.

 - + Melyn	Gall y Bwrdd gymryd **sicrwydd rhesymol** bod trefniadau i ddiogelu llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fewnol, wedi cael eu cynllunio a'u defnyddio'n effeithiol. Mae rhai materion angen sylw rheolwyr i naill ai reoli cynllun neu gydymffurfiad gweithredol a bydd rhain yn cael **effaith isel i ganolig ar amlygiad** risg gweddillol hyd nes y datrysir.

33.4 Yr hyn sy'n Sail i'r Farn

33.4.1 Wrth ddod i'r casgliad hwn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cloriannu'n broffesiynol a defnyddio'r canllaw Archwilio a Sicrwydd "*Meini prawf Cefnogi* ar *gyfer y Farn Gyffredinol*" a gynhyrchwyd gan y Cyfarwyddwr Archwilio a Sicrwydd a rhannwyd gyda rhanddeiliaid allweddol.

33.4.2 Mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi dod i'r casgliad gellir adrodd *sicrwydd arwyddocaol* ar gyfer y parthau Llywodraethu a Rheoli Ariannol a Chynllunio Strategol, rheoli Perfformiad ac Adrodd; gellir adrodd *sicrwydd rhesymol* ar gyfer y parthau Llywodraethu Corfforaethol, Rheoli Risg a Chydymffurfio â Rheoleiddio, Ansawdd a Diogelwch, Gwasanaeth Gweithredol a Rheoli Swyddogaethol a Rheoli Gweithlu; ond dim ond *sicrwydd cyfyngedig* gellir ei adrodd ar draws y parthau Llywodraethu Gwybodaeth a Diogelwch a Rheoli Cyfalaf ac Ystadau.

33.4.3 Mae'r sail tystiolaeth y mae'r farn gyffredinol yn cael ei seilio arni yn cael ei ffurfio fel a ganlyn:

- Asesiad o'r ystod o farn unigol yn codi o aseiniadau archwilio ar sail risg, sydd mewn cynlluniau archwilio mewnol a hysbyswyd i'r Pwyllgor Archwilio trwy gydol y flwyddyn. Mae'r asesiad hwn wedi ystyried perthnasedd y meysydd hyn a chanlyniadau unrhyw archwiliadau dilynol wrth wneud gwelliannau rheolaethol ac
- Adolygiadau sicrwydd eraill sy'n effeithio ar farn y Pennaeth Archwilio Mewnol, gan gynnwys gwaith archwilio a berfformiwyd mewn sefydliadau eraill.

33.4.4 Fel y nodwyd uchod, mae'r canlyniadau manwl hyn wedi cael eu hagregu i greu pictiwr o sicrwydd ar draws yr wyth parth sicrwydd allweddol, sef yr hyn a ddefnyddir fel ffrâm gan y cynllun Archwilio Mewnol yn seiliedig ar risg. Os nad oes digon o dystiolaeth i ddod i gasgliad cadarn, ni roddir cyfradd i'r parth sicrwydd.
33.4.5 Yn ogystal â hyn, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried amlygiad risg gweddillol ar draws yr aseiniadau lle adroddwyd sicrwydd cyfyngedig (ni dderbyniwyd unrhyw 'dim sicrwydd' yn ystod y cyfnod adrodd). Yn ogystal â hyn, ni wnaeth nifer o aseiniadiadau archwilio a gynlluniwyd ar gyfer eleni fynd ymlaen i archwiliadau llawn yn dilyn gwaith cynllunio dechreuol, roedd y rhain un ai: wedi cael eu tynnu o'r cynllun; wedi'u tynnu o'r cynllun a'u disodli gan archwiliad arall' neu eu gohirio hyd at flwyddyn archwilio arall. Os gwnaed newidiadau i'r cynllun archwilio, yna cyflwynwyd y rhesymau i'r Pwyllgor Archwilio i'w hystyried a'u cymeradwyo. Er bod y farn wedi'i chyfyngu i'r meysydd a fu'n destun i adolygiad archwilio, mae'r Pennaeth Archwilio Mewnol wedi ystyried effaith y newidiadau a wnaed i'r cynllun wrth ffurfio'r farn gyffredinol.
35.8 Cafodd yr archwiliadau mewnol canlynol sicrwydd cyfyngedig:

- Trefniadau llywodraethu Ardal y Dwyrain
- Gofynion cynnal a chadw cyfarpar a dyfeisiadau meddygol yn cydymffurfio â'r gwneuthurwyr
- Cylch bywyd rheoli asedau o brynu i waredu
- Desg wasanaeth gwybodeg
- Diogeledd cofnodion iechyd (mewn partneriaeth â Gwybodeg ac Iechyd a Diogelwch)
- Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol - practisau meddygon teulu a reolir gan y Bwrdd Iechyd (drafft)
- Gwerthuso Perfformiad ac Adolygu Datblygiad Staff (PADR) (drafft)
- Rheoli Ystadau a Chyfleusterau - ôl-groniad cynnal a chadw (drafft)
- System Weinyddu Cleifion Cymru (WPAS) (drafft).

33.4.7 Mae gan yr holl archwiliadau mewnol gynllun gweithredu rheoli y cytunwyd arno, gydag amserlenni wedi'u dynodi ar gyfer cwblhau'r camau. Mae cynnydd yn cael ei lywio drwy gynnal pecyn offer olrhain electronig ac fe'i adroddir i'r Pwyllgor Archwilio, sy'n ei fonitro. O ran yr archwiliadau sicrwydd cyfyngedig, ymgymerwyd â gweithredu rheolwyr i gryfhau'r trefniadau llywodraethu.

34. Asesiad Strwythuredig 2016

34.1 ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru, ymgymerodd staff Swyddfa Archwilio Cymru Asesiad Strwythuredig, fel y cyfeiriwyd ato yn gynharach yn y datganiad hwn. Cyflwynwyd hwn i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Rhagfyr 2016. Rhannwyd y prif negeseuon gyda'r Bwrdd yn Ionawr 2017 ac o ganlyniad fe'u trafodwyd fel rhan o'r Adroddiad Blynyddol Archwilio, a gyflwynwyd yn Chwefror 2017. Gellir gweld manylion crynodeb canlyniadau'r Adroddiad Blynyddol Archwilio Allanol isod (gweler yr adroddiad llawn drwy wefan Swyddfa Archwilio Cymru):-

- Cyhoeddodd Archwilydd Cyffredinol Cymru farn ddiamwys ar ddatganiadau ariannol 2015/16 y Bwrdd Iechyd, ond wrth wneud hyn, daeth â sawl mater i sylw'r swyddogion a'r Pwyllgor Archwilio a gosod adroddiad cadarnhaol ochr yn ochr â'i farn archwilio.
- Wrth archwilio trefniadau cynllunio ariannol y Bwrdd Iechyd, gwelodd yr Archwilydd Cyffredinol bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i fonitro ac adrodd ar berfformiad yn erbyn ei gyllidebau a'i gynlluniau arbed yn effeithiol, ond roedd yn annhebygol iawn i gyflawni cydbwysedd ariannol erbyn diwedd 2016/17.
- Roedd y Bwrdd Iechyd yn gosod seiliau cadarn i sicrhau ei ddyfodol ond roedd cyflymder newid yn cynyddu, ond roedd yn waith pellach arwyddocaol yn ymwneud â meysydd pwysig.
- Nododd gwaith archwilio perfformiad gyfleoedd i sicrhau gwell deunydd o adnoddau mewn meysydd allweddol.

34.2 Darganfyddodd gwaith asesiad strwythuredig cyffredinol SAC bod y Bwrdd Iechyd wedi gosod rhai seiliau i sicrhau ei ddyfodol a bod cyflymder newid yn cynyddu, er ei fod yn parhau i fod mewn sefyllfa ariannol heriol ac yn parhau i fod â gwaith pellach arwyddocaol i'w wneud ar draws ystod o feysydd pwysig. Derbyniodd y Bwrdd Iechyd yr argymhellion ffurfiol o'r gwaith Asesiad Strwythuredig yn 2016 yn Ionawr 2017 ac fe'u crynhoir fel a ganlyn:-

- Argymhelliad (R1) - Adrodd Ariannol - Adolygu amseru'r cyfarfodydd Bwrdd, gyda'r bwriad o wella'r llinell amser ar gyfer adrodd ariannol i'r Bwrdd.
- R2 - Sicrwydd y Bwrdd - Dylai'r Bwrdd Iechyd adeiladu ar ei waith mapio sicrwydd a gweithio tuag at fap sicrwydd y bwrdd i ategu'r gofrestr risg gorfforedig, ac yn y pen draw y CITC.
- R3 - Effeithiolrwydd y Bwrdd - Dylai'r Bwrdd Iechyd adolygu ei raglen datblygiad Bwrdd ac ystyried sut gellir ei defnyddio i wella cydbwysedd ac ansawdd cefnogaeth a her a ddarparwyd gan aelodau annibynnol i yrru gwelliannau ymlaen.
- R4a - Dysgu gwersi - Dylai'r Bwrdd Iechyd edrych ar gamau pellach i wella arweinyddiaeth glinigol a pherchnogaeth prosesau Gweithio i Wella, i gefnogi'r gwelliannau angenrheidiol mewn amserau ymateb a dysgu o gwynion, digwyddiadau a hawliadau.
- R4b - Dysgu gwersi - Dylai'r Bwrdd Iechyd gryfhau ei brosesau ar gyfer adrodd systematig, rhaedru a gweithredu gwersi a ddysgwyd.
- R5 - Diwylliant - Mae angen gweithio i gefnogi diwylliant cadarnhaol ac agored o'r ward i'r Bwrdd a'i ehangu y tu draw i'r timau mwyaf heriol i helpu'r sefydliad ehangach i ddeall a defnyddio gwerthoedd ac ymddygiad cadarnhaol.
- R6 - Strategaeth a Chynllunio - Mae'n rhaid i'r Bwrdd Iechyd gynnal ffocws ar ddatblygu ei strategaeth a'i gynlluniau i i sicrhau ei fod yn cwrdd â'i gyfraddau amser heriol ei hunan.

34.3 Erbyn canol Mai 2017, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cwblhau a gweithredu gofynion R1 ac R3, ac wedi cwblhau'r gweithredu yn unol ag argymhellion a therfynnau amser o ran R2, ond mae'n cydnabod bydd y gwaith hwn yn parhau. Mae gwaith yn parhau'n gyflym i fynd i'r afael â'r argymhellion sy'n weddill, sef R4a, R4b, R5 a R6. Mae manylion llawn yr argymhellion hyn, ynghyd â'r ymateb rheoli cychwynnol yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad Asesiad Strwythuredig ar gael yn:

http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/861/Agenda%20bundle%20Board%20public%2019.1.17%20V1.0.pdf

35. Casgliad

Fel Swyddog Atebol, yn seiliedig ar y broses adolygu a amlinellir uchod, rwyf wedi adolygu'r dystiolaeth a'r sicrwydd perthnasol o ran rheolaeth fewnol (gweler adran 32). Gan ystyried y dystiolaeth a fanylir yn y Datganiad hwn, ynghyd ag adborth gan Lywodraeth Cymru ac Ann Lloyd fel rhan o'r mesurau arbennig, gan Swyddfa Archwilio Cymru drwy eu hasesiad strwythuredig a chyd-adolygiad gydag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac o asesiadau sicrwydd sydd wedi gwella gan Archwiliadau Mewnol (adrannau 11, 12 a 33), rwyf wedi dod i'r casgliad, o ran effeithiolrwydd, mae'r mecanweithiau allweddol o fewn system y Bwrdd Iechyd o reolaeth fewnol yn foddhaol.

Mae'r deuddeg mis diwethaf wedi bod yn anodd a heriol i'r sefydliad, ac er bod tystiolaeth o gynnydd, mae sawl maes, fel yr amlinellwyd yn y Datganiad hwn, sy'n rhannol gyfrifol bod y Bwrdd Iechyd yn parhau i fod dan Fesurau Arbennig, felly mae'n rhaid parhau i roi sylw gweithredol iddynt.

Y prif feysydd sydd angen eu gwella a chanolbwyntio arnynt yn y flwyddyn i ddod fydd y rhai sydd yn y Fframwaith Gwella Mesurau Arbennig a ddisgrifiwyd yn gynharach yn adran 4, ac rwy'n hyderus o barodrwydd ac ymrwymiad yr holl staff yn y sefydliad i gyflawni llwyddiant sy'n golygu gwell perfformiad a chanlyniadau i gleifion.

Mae angen newid sylweddol yn ein parodrwydd i edrych ar y tymor hir, cydweithio â phartneriaid a chynnwys dinasyddion i ddatblygu gwasanaethau. Yng nghyd-destun gofynion ar y Bwrdd Iechyd sy'n ymwneud â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru), bydd llywodraethu partneriaeth effeithiol a newid mewn diwylliant yn dod yn fwy heriol. Bydd y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar arferion gorau o lywodraethu da yn y sector cyhoeddus a gweithio gydag eraill i ddatblygu a phrofi ymagweddau archwilio newydd i asesu cynnydd a darparu tystiolaeth o ganlyniadau a fwriadwyd.

Datblygwyd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn unol â threfniadau llywodraethu'r Bwrdd Iechyd ac fe'i cymeradwywyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 30.5.17. Fel y Swyddog Atebol, rwy'n cymryd sicrwydd ar gywirdeb y Datganiad Llywodraethu Blynyddol gan y trefniadau a sefydlwyd gan y Bwrdd Iechyd.

Arwyddwyd:



Gary Doherty
Prif Weithredwr a Swyddog Atebol

Dyddiad: 1 Mehefin 2017

Atodiad 1 - Aelodaeth y Bwrdd a Phwyllgorau 2016/17

Mae nifer o newidiadau wedi bod yn aelodaeth y Bwrdd yn ystod 2016/17, yn cynnwys trefniadau dros dro a threfniadau uwch-weithredu ac fe'u hadlewyrchir yn y tabl isod.

Enw	**Swydd**	**Maes arbenigedd / rôl cynrychioli**	**Aelodaeth ar bwyllgorau'r Bwrdd**	**Rolau hyrwyddwr**
Dr Peter Higson	Cadeirydd		• Cadeirydd y Bwrdd • Cadeirydd, Pwyllgor Tâl ac Amodau Gwasanaeth	• Cyn-filwyr
Mrs Margaret Hanson	Is-gadeirydd	Gofal Cychwynnol ac Iechyd Meddwl	• Is Gadeirydd y Bwrdd • Cadeirydd, Pwyllgor Iechyd Meddwl • Cadeirydd hyd Mai 2016, Aelod, gan ddechrau Mehefin 2016, Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth hyd Mai 2016. • Is Gadeirydd, Pwyllgor Tâl ac Amodau Gwasanaeth • Yn mynychu, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid hyd Mai 2016 • Cadeirydd Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiad gan ddechrau Mehefin 2016	• Glanhau, Hylendid, Rheoli Heintiau • Pobl hŷn • Diogelu
Mr John Cunliffe	Aelod Annibynnol	Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu	• Aelod o'r Bwrdd • Aelod o'r Pwyllgor Archwilio • Is Gadeirydd, Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad	
Ms Jenie Dean	Aelod Annibynnol	Undebau Llafur	• Aelod o'r Bwrdd • Is Gadeirydd, Pwyllgor Archwilio gan ddechrau Mehefin 2016 • Aelod, Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl gan ddechrau Mehefin 2016 • Is Gadeirydd, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau • Is Gadeirydd, Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad hyd at Mai 2016 • Aelod, Pwyllgor Tâl ac Amodau Gwasanaeth • Ex-Officio - Fforwm Partneriaeth Leol	• Trais ac Ymosodedd • Cydraddoldeb
Mrs Marian W Jones	Aelod Annibynnol	Cymunedol	• Aelod o'r Bwrdd • Is Gadeirydd, Pwyllgor Archwilio hyd at Mai 2016 • Cadeirydd Dros Dro, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau hyd at Mai 2016 • Aelod hyd at Mai 2016 Cadeirydd gan ddechrau Mehefin 2016 Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad • Cadeirydd, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	• Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd

Enw	Swydd	Maes arbenigedd / rôl cynrychioli	Aelodaeth ar bwyllgorau'r Bwrdd	Rolau hyrwyddwr
Cynghoryd d Bobby Feeley	Aelod Annibynnol	Awdurdod Lleol	• Aelod o'r Bwrdd • Aelod, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau hyd Mai 2016 • Aelod, Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth gan ddechrau Mehefin 2016 • Aelod, Pwyllgor Archwilio • Aelod, Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl gan ddechrau Mehefin 2016	
Mr Ceri Stradling	Aelod Annibynnol	Cymunedol	• Aelod o'r Bwrdd • Cadeirydd, Pwyllgor Archwilio • Aelod, Pwyllgor Tâl ac Amodau Gwasanaeth • Aelod hyd Mai 2016, Is-gadeirydd gan ddechrau Mehefin 2016, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	
Mrs Bethan Russell-Williams	Aelod Annibynnol	Y Trydydd Sector	• Aelod o'r Bwrdd • Is Gadeirydd, Pwyllgor Deddf Iechyd Meddwl • Aelod hyd Mai 2015, Is-gadeirydd gan ddechrau Mehefin 2016, Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth • Aelod, Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad gan ddechrau Mehefin 2016	• Y Gymraeg
Mrs Lyn Meadows	Aelod Annibynnol	Cymunedol	• Aelod o'r Bwrdd • Aelod, Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad hyd Mai 2016 • Aelod hyd Mai 2015, Cadeirydd gan ddechrau Mehefin 2016, Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth • Aelod, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau gan ddechrau Mehefin 2016 • Yn mynychu, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid gan ddechrau 2016	• Pryderon
Mrs Cheryl Carlisle	Aelod Annibynnol	Cymunedol	• Aelod o'r Bwrdd • Aelod, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol • Aelod, Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad • Aelod, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau	• Gofalwyr • Plant a Phobl Ifanc
Yr Athro Jo Rycroft-	Aelod Annibynnol	Prifysgol	• Aelod o'r Bwrdd	

Enw	Swydd	Maes arbenigedd / rôl cynrychioli	Aelodaeth ar bwyllgorau'r Bwrdd	Rolau hyrwyddwr
Malone				
Mrs Nicola Stubbins	Aelod Cyswllt	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Sir y Fflint	• Aelod Cyswllt y Bwrdd	
Mr Gary Doherty	Prif Weithredwr		• Aelod o'r Bwrdd • Yn mynychu, Pwyllgor Tâl ac Amodau Gwasanaeth • Yn mynychu, Pwyllgor Archwilio • Cyd-gadeirydd, Fforwm Partneriaeth Lleol • Aelod, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol	
Mr Russ Favager	Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid		• Aelod o'r Bwrdd • Yn mynychu, Pwyllgor Archwilio • Cyfarwyddwr Arweiniol/Aelod, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol • Cyfarwyddwr Arweiniol/yn mynychu, Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad	
Mr Andrew Jones	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus hyd Gorffennaf 2016		• Aelod o'r Bwrdd • Yn mynychu, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau • Yn mynychu Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth • Yn mynychu, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid • Yn mynychu, Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd hyd Gorffennaf 2016	
Miss Teresa Owen	Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus gan ddechau Ionawr 2017		• Aelod o'r Bwrdd • Yn mynychu, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau • Yn mynychu Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth • Yn mynychu, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid	
Mr Martin Jones	Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygu Sefydliadol (DS)		• Aelod o'r Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol/Aelod, Pwyllgor Tâl ac Amodau Gwasanaeth • Yn mynychu, Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad • Yn mynychu Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth • Cyfarwyddwr Arweiniol/Aelod Fforwm Partneriaeth Leol	
Mr Geoff Lang	Cyfarwyddwr Gweithredol		• Aelod o'r Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol/yn	

Enw	Swydd	Maes arbenigedd / rôl cynrychioli	Aelodaeth ar bwyllgorau'r Bwrdd	Rolau hyrwyddwr
	Strategaeth		mynychu Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth • Aelod, Pwyllgor Cronfeydd Elusennol • Yn mynychu, Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad	
Dr Evan Moore	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol/Dirprwy Brif Weithredwr gan ddechrau Medi 2016		• Aelod o'r Bwrdd • Yn mynychu, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau	
Dr Mark Walker	Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol Interim hyd Awst 2016		• Aelod o'r Bwrdd • Yn mynychu, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau • Cyfarwyddwr Arweiniol/yn mynychu Fforwm Staff Proffesiynol Gofal Iechyd hyd Medi 2016	
Ms Morag Olsen	Prif Swyddog Gweithredu		• Aelod o'r Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol, yn mynychu Pwyllgor Iechyd Meddwl hyd Mai 2016 • Yn mynychu, Pwyllgor Cyllid a Pherfformiad • Yn mynychu, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau • Aelod, Fforwm Partneriaeth Leol	
Mrs Vicky Morris	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth, Therapïau a Gwyddorau Iechyd Interim hyd Gorffennaf 2016		• Aelod o'r Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol/yn mynychu, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau • Yn mynychu Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth • Aelod, Fforwm Partneriaeth Leol • Yn mynychu, Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd	
Mrs Gill Harris	Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth gan ddechrau Awst 2016		• Aelod o'r Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol/yn mynychu, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau • Yn mynychu Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth • Aelod, Fforwm Partneriaeth Leol Yn mynychu, Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd	

Enw	Swydd	Maes arbenigedd / rôl cynrychioli	Aelodaeth ar bwyllgorau'r Bwrdd	Rolau hyrwyddwr
Mr Adrian Thomas	Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd Interim gan ddechrau Medi 2016 Parhaol gan ddechrau Chwefror 2017		• Aelod o'r Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol/Yn mynychu Fforwm Staff Proffesiynol Gofal Iechyd gan ddechrau Ionawr 2017 • Yn mynychu, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau	
Mr Andy Roach	Aelod Bwrdd Cysylltiol/Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu gan ddechrau Mehefin 2016		• Yn mynychu'r Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol/Yn mynychu Pwyllgor Iechyd Meddwl gan ddechrau Mehefin 2016 • Aelod, Fforwm Partneriaeth Leol gan ddechrau Mehefin 2016	
Mr Chris Wright	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol		• Yn mynychu'r Bwrdd • Yn mynychu, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau • Cyfarwyddwr Arweiniol, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid	
Mrs Grace Lewis-Parry	Ysgrifennydd y Bwrdd		• Yn mynychu'r Bwrdd • Cyfarwyddwr Arweiniol/Yn mynychu, Pwyllgor Archwilio	
Aelodau Cyswllt y Grŵp Cynghori				
Cyng Phil Edwards	Aelod Cyswllt	Cadeirydd, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid	• Aelod Cyswllt y Bwrdd • Yn mynychu Pwyllgor Strategaeth, Partneriaethau ac Iechyd y Boblogaeth	
Yr Athro Michael Rees	Aelod Cyswllt	Cadeirydd y Fforwm Gweithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd	• Aelod Cyswllt y Bwrdd • Yn mynychu, Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Phrofiadau	

Atodiad 2 - Presenoldeb aelodau Bwrdd Iechyd BIPBC yng nghyfarfodydd y Bwrdd a gynhaliwyd yn gyhoeddus 2016/17

Y = Presennol A = Ymddiheuriadau P = Rhan o'r cyfarfod

		21.4.16	19.5.16	23.6.16	21.7.16	18.8.16	22.9.16	20.10.16	17.11.16	15.12.16	19.1.17	16.2.17	16.3.17		Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 6.9.16
Dr Peter Higson Cadeirydd	Aelod	Y	Y	Y	Y	Y	A	Y	Y	Y	Y	Y	Y		Y
Mrs Margaret Hanson Is Gadeirydd	Aelod	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y		A
Ms Jenie Dean Aelod Annibynnol	Aelod	Y	Y	Y	Y	A	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y		Y
Cyng Bobby Feeley Aelod Annibynnol	Aelod	Y	Y	A	Y	Y	Y	Y	Y	Y	P	Y	Y		Y
Mrs Marian W Jones Aelod Annibynnol	Aelod	Y	A	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y		Y
Yr Athro Jo Rycroft-Malone Aelod Annibynnol	Aelod	Y	A	Y	A	A	A	A	A	A	Y	A	Y		A
Mr Ceri Stradling Aelod Annibynnol	Aelod	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y		Y
Mrs Bethan Russell-Williams Aelod Annibynnol	Aelod	A	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y		Y
Mrs Lyn Meadows Aelod Annibynnol	Aelod	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	A	Y	Y	Y	Y		Y
Mr John Cunliffe Aelod Annibynnol	Aelod	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y		Y
Mrs Cheryl Carlisle Aelod Annibynnol	Aelod	Y	Y	Y	A	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	A		Y
Mr G Doherty Prif Weithredwr	Aelod	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y		Y
Dr Evan Moore Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol / Dirprwy Brif Weithredwr	Aelod o Medi 2016						Y	Y	Y	Y	Y	A	Y		Y
Dr M Walker Cyfarwyddwr Gweithredol Meddygol Interim	Aelod hyd Awst 2016	Y	Y	A	Y	A									
Mr Russell Favager Cyfarwyddwr Gweithredol Cyllid	Aelod	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	A	Y	Y	Y	Y		A

		21.4.16	19.5.16	23.6.16	21.7.16	18.8.16	22.9.16	20.10.16	17.11.16	15.12.16	19.1.17	16.2.17	16.3.17		Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 6.9.16
Mr Andrew Jones Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd Cyhoeddus	Aelod hyd Gorffennaf 2016	A	A	Y	Y										
Miss Teresa Owen	Aelod o Ionawr 2016										Y	Y	A		Y
Mrs Vicky Morris Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio, Bydwreigiaeth, Therapiau a Gwyddorau Iechyd Dros Dro	Aelod hyd Gorffennaf 2016	Y	Y	A	Y										
Mrs Gill Harris Cyfarwyddwr Gweithredol Nyrsio a Bydwreigiaeth	Aelod o Awst 2016					Y	Y	Y	A	Y	A	Y	Y		A
Mr Adrian Thomas Cyfarwyddwr Gweithredol Therapïau a Gwyddorau Iechyd Dros dro o Medi 2016 Parhaol Chwefror 2017	Aelod o Medi 2016						P	Y	P	Y	Y	Y	Y		Y
Mr Martin Jones Cyfarwyddwr Gweithredol Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol	Aelod	Y	Y	A	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	A	Y		Y
Mr Geoff Lang Cyfarwyddwr Gweithredol Strategaeth	Aelod	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y		Y
Ms Morag Olsen, Prif Swyddog Gweithredol	Aelod	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y		Y
Mr Andy Roach Cyfarwyddwr Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu	Yn mynychu gan ddechrau Mehefin 2016			Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	P	Y		A
Mr Chris Wright Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol	Yn mynychu:	Y	Y	A	Y	Y	Y	Y	Y	Y	Y	A	A		A
Mrs Grace Lewis-Parry Ysgrifennydd y Bwrdd	Yn mynychu:	Y	Y	Y	Y	Y	A	P	Y	Y	Y	Y	Y		Y

		21.4.16	19.5.16	23.6.16	21.7.16	18.8.16	22.9.16	20.10.16	17.11.16	15.12.16	19.1.17	16.2.17	16.3.17		Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol 6.9.16
Ms Nicola Stubbins yn cynrychioli *Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol*	Aelod Cyswllt	A	P	Y	Y	A	Y	A	A	Y	Y	P	Y		Y
Yr Athro Michael Rees Cadeirydd Fforwm Staff Proffesiynol Gofal Iechyd	Aelod Cyswllt	A	Y	Y	A	Y	Y	A	Y	Y	A	A	Y		P
Cyng Phil Edwards Cadeirydd, Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid	Aelod Cyswllt	Y	Y	Y	Y	A	A	Y	Y	Y	Y	Y	Y		Y

Troednodyn: Mae gwybodaeth yn ymwneud ag Adroddiad y Cyfarwyddwyr yn cael ei chynnwys drwy gydol y ddogfen hon. O ran Swyddi Cyfarwyddwyr Cwmnïau a diddordebau sylweddol eraill, gwybodaeth ar faterion amgylcheddol, cymdeithasol a chymuned a data salwch - mae'r wybodaeth hon yn cael ei chynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Bwrdd Iechyd 2016/17.